



**Law Commission**

Reforming the law

**Comisiwn y Gyfraith**

Diwygio'r gyfraith

# Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Adroddiad





**Law  
Commission**  
Reforming the law

(Comisiwn y Gyfraith, Rhif 406)

# **Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Adroddiad**

Cyflwynwyd i'r Senedd

23 Mawrth 2022



© Hawlfraint y Goron 2021

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: [mpsi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:mpsi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](https://www.gov.uk/government/publications).

# Comisiwn y Gyfraith

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Nicholas Green, Cadeirydd

Yr Athro Sarah Green

Yr Athro Nick Hopkins

Yr Athro Penney Lewis

Nicholas Paines CF

Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith yw Phil Golding.

Cyfeiriad Comisiwn y Gyfraith yw 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Cytunwyd ar delerau'r adroddiad hwn ar 24 Ionawr 2022.

Mae testun yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn <http://www.lawcom.gov.uk/cymraeg>.



# Cynnwys

|                                                                                                    | <b>Tudalen</b> |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
| <b>GEIRFA</b>                                                                                      | <b>1</b>       |
| <b>PENNOD 1: CYFLWYNIAD</b>                                                                        | <b>5</b>       |
| Cylch gorchwyl                                                                                     | 6              |
| Cynigion dros dro ac ymgynghoriad                                                                  | 7              |
| Amlinelliad o'r adroddiad hwn a'n hargymhellion ni                                                 | 9              |
| Geirfa                                                                                             | 13             |
| Yr asesiad effaith                                                                                 | 13             |
| Cydnabyddiaeth                                                                                     | 13             |
| Tîm prosiect                                                                                       | 14             |
| Cwmpas ein argymhellion: tomennydd sy'n gysylltiedig â phyllau glo gweithredol                     | 14             |
| <b>PENNOD 2: AWDURDOD GORUCHWYLIO</b>                                                              | <b>18</b>      |
| Yr achos dros un corff goruchwyllo ar gyfer tomennydd anweithredol                                 | 18             |
| Corff sy'n bodoli'n barod neu gorff wedi ei greu o'r newydd?                                       | 22             |
| Dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau diogelwch tomennydd glo anweithredol                  | 31             |
| <b>PENNOD 3: COFRESTR TOMENNYDD</b>                                                                | <b>37</b>      |
| A ddylid llunio a chynnal cofrestr tomennydd?                                                      | 39             |
| Rhagnodi cynnwys y gofrestr tomennydd                                                              | 41             |
| Cofnodi tomen ar y gofrestr                                                                        | 44             |
| A ddylai'r wybodaeth ar y gofrestr domennydd fod ar gael i'r cyhoedd?                              | 55             |
| <b>PENNOD 4: ARCHWILIO TOMENNYDD, ASESIAU RISG, CYNLLUNIAU RHEOLI TOMENNYDD A DOSBARTHIAU RISG</b> | <b>63</b>      |
| Dyletswydd i archwilio                                                                             | 64             |
| Asesiadau risg, cynlluniau rheoli tomennydd a dosbarthiadau risg                                   | 69             |
| Dulliau o ddsbarthu risg                                                                           | 75             |
| Canlyniadol dosbarthu: cytundebau a gorchmynion                                                    | 83             |
| <b>PENNOD 5: SICRHAU CYNNAL A CHADW TOMENNYDD RISG IS</b>                                          | <b>85</b>      |

|                                                                       |            |
|-----------------------------------------------------------------------|------------|
| Cytundebau cynnal a chadw tomennydd                                   | 87         |
| Monitro cydymffuriad â chytundebau cynnal a chadw tomennydd           | 92         |
| Gorchmynion cynnal a chadw tomennydd                                  | 94         |
| Cyfrifoldeb dros gytundebau a gorchmynion cynnal tomennydd            | 102        |
| <b>PENNOD 6: BLAENORIAETHU GWAITH AR DOMENNYDD RISG UWCH</b>          | <b>108</b> |
| Dynodi tomennydd fel ffordd o flaenoriaethu tomennydd                 | 109        |
| Meini prawf ar gyfer dynodi                                           | 111        |
| Hawl i apelio yn erbyn dynodiad                                       | 120        |
| Cyfrifoldeb am waith ar domennydd dynodedig                           | 123        |
| <b>PENNOD 7: DIFFINIADAU</b>                                          | <b>130</b> |
| Diffiniad o domen                                                     | 130        |
| Diffiniad o berchennog tomen                                          | 137        |
| <b>PENNOD 8: PWERAU GORFODI, TROSEDDAU AC APELIADAU</b>               | <b>146</b> |
| Pwerau gorfodi a throsteddau                                          | 146        |
| Ffyrdd i apelio                                                       | 155        |
| <b>PENNOD 9: TELERAU ARIANNOL CYTUNDEBAU A GORCHMYNION</b>            | <b>158</b> |
| Pwerau codi tâl                                                       | 158        |
| Hawliadau am iawndal neu gyfraniadau                                  | 163        |
| <b>PENNOD 10: SGILIAU ARBENIGOL</b>                                   | <b>175</b> |
| <b>PENNOD 11: DIOGELWCH TOMENNYDD A DEDDFWRIAETH AMGYLCHEDDOL</b>     | <b>182</b> |
| Pŵer cyfarwyddo                                                       | 183        |
| Pŵer argyfwng ehangach o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol         | 187        |
| Dulliau eraill                                                        | 191        |
| <b>PENNOD 12: PROSIECTAU ADFER A THOMENNYDD NAD YDYNT YN RHAI GLO</b> | <b>198</b> |
| Cynigion ar gyfer tomennydd nad ydynt yn rhai glo                     | 206        |
| <b>PENNOD 13: ARGYMHELLION</b>                                        | <b>211</b> |
| <b>ATODIAD 1: RHESTR O DDIGWYDDIADAU YMGYNGHORI</b>                   | <b>221</b> |

**ATODIAD 2: RHESTR O'R YMATEBWYR I'R YMGYNGHORIAD 222**

**ATODIAD 3: SIART LLIF 233**



# Geirfa

**Tomen segur:** O dan Reoliadau Mwyngloddiau 2014, mae tomen segur yn gysylltiedig â mwynglawdd segur. Daw'n domen segur o'r dyddiad yr hysbyswyd y gadawyd i'r mwynglawdd fynd yn segur, ac ar ôl hynny mae Rheoliadau 2014 yn peidio â bod yn gymwys. Gweler hefyd **Tomen anweithredol**.

**Tomen weithredol:** O dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, mae tomen gweithredol yn domen sy'n gysylltiedig â chwarel neu gloddfa weithredol.

**Ceuffordd:** Llwybr llorweddol neu ar osgo sy'n arwain at fwynglawdd.

**Pwll arafu:** Pwll sydd yn gweithredu fel trap silt sydd yn caniatáu i unrhyw waddod yn y dŵr wyneb i setlo (proses a elwir yn arafu). Mae'n rhaid i'r gwaddod a gronnir gael ei waredu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y pwll yn parhau i fod yn effeithiol.

**Corfforaeth Glo Prydain:** Olynydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol, a sefydlwyd gan y Ddeddf Diwydiant Glo 1987, a elwir yn gyffredin yn Glo Prydain. Fe'i olynwyd gan yr Awdurdod Glo.

**Cwmp ceudod:** Cwmp gwagleoedd tanddaearol lleol o ganlyniad i ddigwyddiadau megis methiannau mewn pibellau, cwlferi wedi dymchwel neu ymlosgiad tanddaearol. Fel arfer ni effeithir ar sefydlogrwydd cyffredinol tomennydd, ac eithrio yn achos argloddiau lagŵn, ond gall cwmp sydyn achosi perygl i fywyd os bydd unrhyw un ar yr wyneb.

**Awdurdod Glo:** Mae'r Awdurdod Glo yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sydd yn un o adrannau Llywodraeth y DU. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Diwydiant Glo 1994 ac mae'n rheoli effeithiau glofeydd y gorffennol, yn cynnwys difrod ymsuddiant a llygredd dŵr mwyngloddiau.

**Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo:** Fe'i ffurfiwyd gan Lywodraeth Cymru yn syth ar ôl llithriad Tylorstown ar 16 Chwefror 2020 er mwyn darparu rhaglen frys o waith er mwyn sicrhau bod tomennydd glo ledled Cymru yn cael eu rheoli'n ddiogel ac effeithiol. Mae'r Tasglu yn cael ei arwain gan yr Adran dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n un o adrannau Llywodraeth Cymru. Partneriaid y Tasglu sydd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Glo, ei gorff noddi Yr Adran Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a'r Swyddfa Gymreig. Mae'r grŵp technegol sydd yn gweithio gyda'r Tasglu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol.

**Gwastraff glo:** Y deunydd diangen a gynhyrchir ar ôl i lo gwerthadwy gael ei wahanu oddi wrth y deunydd a echdynnir o bwll glo mewn proses o olchi a pharatoi. Siâl yw'r deunydd

yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys deunydd arall a deflir. Mae'r gwastraff yn cael ei alw'n sbwriel yn y diwydiant mwyngloddio ehangach, ac yn fwy cyffredin yn 'wasttraff' yn y diwydiant glo.

**Glofa:** Pwll glo a'r adeiladau a'r offer sy'n gysylltiedig ag ef.

**Tomen anweithredol:** Tomen na ollyngir arni mwyach, ac nad yw'n gysylltiedig â phwll glo gweithredol.

**Ffactor diogelwch:** Mae ffactor diogelwch tomen yn hafal i gymhareb grymoedd ymwrthedd a grymoedd aflonyddu: po uchaf yw'r ffactor, y mwyaf diogel yw'r domen. Os yw'r ffactor yn is na un, mewn geiriau eraill yn llai nag undod, mae'r grymoedd aflonyddu yn gryfach na'r grymoedd ymwrthedd.

**Cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr:** Yng Nghymru, mae cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr yn gronfa ddŵr sydd yn dal neu sydd â'r potensial i ddal 10 000 metr ciwbig o ddŵr uwch ben lefel y tir.

**Cynnal a chadw:** Mae cynnal a chadw tomennydd yn rheolaidd yn cynnwys clirio, ail-dorri a gwella ffosydd a chwiferi draenio, a gwirio a chlirio sgriniau a ddyluniwyd i ddal detritws ar ôl glaw trwm.

**AS:** Aelod o'r Senedd. Yr hyn sy'n cyfateb yn Saesneg yw MS.

**Cloddio glo brig:** Techneg o fwyngloddio sydd yn golygu cymryd mwynau, yn arbennig glo, o wyneb y tir yn hytrach nag o lwybrau a dyllir oddi tano.

**Gorlwyth:** Deunydd sydd yn bennaf yn cynnwys creigiau a phridd a waredir er mwyn cael mynediad i wythien lo neu waddod o ddeunydd arall er mwyn ei baratoi ar gyfer mwyngloddio.

**Derbynyddion:** Nodwedd y gallai llithriad tomen lo effeithio arni (fel tŷ, ysgol neu ffordd).

**Adennill:** Y broses o wneud defnydd buddiol penodol o dir segur sydd wedi ei ysbeilio neu ei halogi.

**Adfer:** Y broses ar gyfer lleihau risgiau iechyd a diogelwch a'r amgylchedd i lefel dderbyniol. Nod y gwaith o adfer tomennydd yw sicrhau diogelwch y tomennydd glo.

**Bond adfer:** Bond a ddarperir gan gwmni mwyngloddio cyn dechrau ar y gwaith cloddio at ddiben adfer ar ôl i'r gwaith cloddio ddod i ben.

**Y Senedd:** Y corff a etholir yn ddemocrataidd sy'n deddfu dros Gymru (o fewn meysydd penodol). Mae'n cael ei alw'n Senedd Cymru a Welsh Parliament yn Saesneg. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio ati wrth ei henw Cymraeg cyffredin, y Senedd.

**Slyri:** Cymysgedd o solidau sydd yn ddwysach na dŵr a ddelir mewn hylif.

**Sbwriel:** Gweler **gwastraff glo**.

**SoDdGA:** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dynodiad cadwraeth.

**Mwyngloddio ar yr wyneb:** Gweler **Gwaith cloddio glo brig**.

**Lagŵn sorod:** Morlyn lle mae sorod yn cael eu gosod.

**Sorod:** Cymysgedd o fân ronynnau o ddeunyddiau a dŵr a adawir ar ôl y broses o olchi glo.

**Tasglu:** Gweler **Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo**.

**Tomen:** Twmpath o ddeunydd gwastraff cronedig wedi'i dynnu yn ystod gwaith cloddio. Yn achos tomen lo, dyma'r deunydd cronedig sydd ar ôl ar ôl gwahanu glo gwerthadwy oddi wrth y deunydd diangen a echdynnwyd ar yr un pryd.

## **Gwefannau**

Ymwelwyd pob gwefan cyfeiriwyd ati yn y ddogfen hon diwethaf ar 23 Mawrth 2022.



# Pennod 1: Cyflwyniad

- 1.1 Daeth y ddeddfwriaeth gyntaf i ddarparu ar gyfer diogelwch a sefydlogrwydd gwastraff mwynau yn y DU, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 i rym mewn ymateb i drychineb Aberfan yn Ne Cymru ym mis Hydref 1966, pan gladdodd llithriad tomen lo res o dai ac ysgol, gan ladd 28 o oedolion a 116 o blant. Pasiwyd y Ddeddf yn nyddiau diwydiant glo gweithredol ac fe'i cynlluniwyd yn bennaf i reoleiddio tipio gwastraff o byllau glo gweithredol, yn ogystal â mwyngloddiau a chwareli sy'n gysylltiedig â chloddio mwynau eraill. Er bod Rhan 2 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer tomennydd sy'n cael eu gadael ar ôl gan chwareli a mwyngloddiau segur (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf ac yn yr adroddiad hwn fel "tomennydd anweithredol", roedd y dylunwyr yn ystyried y fath domennydd yn nodweddiadol fel rhai sy'n deillio o weithrediadau mwyngloddio cynharach ac raddfa lai a'u bod yn llai o broblem.
- 1.2 Mae rhan o Ddeddf 1969 yn dal mewn grym, ond nid yw bellach yn darparu fframwaith rheoli effeithiol ar gyfer tomennydd glo anweithredol yn yr unfed ganrif ar hugain. Yng Nghymru heddiw, mae bron pob tomen lo yn anweithredol.
- 1.3 Cafodd trychineb Aberfan ei achosi gan law trwm. Pumdeg tri o flynyddoedd yn ddiweddarach, ym mis Chwefror 2020, achosodd lefelau digynsail o law yn Ne Cymru lithriad glo arall ychydig filltiroedd o Aberfan yn unig, pan lithrodd tua 60,000 tonn o wastraff tomen lo i lawr ochr bryn Llanwonno yn Tylorstown yn y Rhondda.<sup>1</sup> Yn ffodus, oherwydd bod y domen ar yr ochr arall i afon Rhondda Fach o'r pentref, ni ddifrodwyd unrhyw dai ac ni laddwyd unrhyw un. Er hynny, roedd y llithriad wedi cau yr afon, a chladdu prif bibell ddŵr a thorri carthffos. Cost y gwaith clirio uniongyrchol wedi costio £2.5 miliwn ac amcangyfrifir nawr bod cyfanswm y gost o ddelio'n barhaol â'r gwastraff glo sydd wedi'i ddadleoli yn £13 miliwn.
- 1.4 Mae gan Gymru bron i 2,500 o domennydd glo.<sup>2</sup> Nid yw'r mwyafrif helaeth ohonynt yn berygl. Gellir cadw llawer ohonynt yn ddiogel drwy gynnal a chadw system ddraenio'r domen, gan fod draenio priodol yn atal y gwastraff rhag dirlenwi a mynd yn ansefydlog.<sup>3</sup> Mae rhai yn debygol o fod angen mwy o waith sylweddol. Yn syth ar ôl y llithriad yn Tylorstown, sefydlodd Llywodraeth Cymru raglen gwaith diogelwch tomennydd glo i'w chyflawni gan y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo. Bwriad hyn yw rhoi sylw i hen domennydd pyllau glo Cymru a sicrhau bod tomennydd ledled Cymru yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae gwaith diogelwch brys wedi cynnwys casglu data ar yr holl domennydd, gan gynnwys lleoliad, categori risg a math o berchnogaeth, ac archwiliadau ar droed o'r holl domennydd risg uwch. Roedd yr

---

<sup>1</sup> Disgrifir y digwyddiadau a ddilynodd Stormydd Ciara a Dennis yn fanylach yn y ddogfen Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 1.1 i 1.9.

<sup>2</sup> Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 26 Hydref 2021 yn cynnwys 2,456 o domennydd: gweler <https://gov.wales/coal-tipt-safety/section-72291>

<sup>3</sup> Trafodir yr hyn sydd yn achosi ansefydlogrwydd tomennydd yn y ddogfen Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 2.16 i 2.22. Gall system ddraenio'r domen fod yn naturiol neu wedi'i pheiriannu.

archwiliadau'n nodi'r gwaith cynnal a chadw ac adfer sydd ei angen, gan argymhell amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.<sup>4</sup>

- 1.5 Fel rhan o'i ymateb i argyfwng Tylorstown, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth diogelwch tomennydd glo a gwneud argymhellion ar gyfer ei diwygio. Dechreuodd ein prosiect yn ffurfiol ar 2 Tachwedd 2020.

## CYLCH GORCHWYL

- 1.6 Dyma'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno:

- (1) Adolygu'r gyfraith sydd yn rheoli tomennydd glo yng Nghymru ac ystyried opsiynau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol modern, yn unol â deddfwriaeth bresennol Cymru, yn cynnwys Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ar gyfer rheoleiddio eu diogelwch; a
- (2) Argymhell system glir, safonedig a ddiogelwyd i'r dyfodol ar gyfer adnabod, cofnodi, archwilio a chynnal tomennydd glo drwy gydol eu hoes, gan nodi set o ddyletswyddau trosfwaol a mabwysiadu dull unffurf o asesu risg.

- 1.7 Cytunwyd yn benodol y byddai'r prosiect yn:

- (1) Ystyried perchnogaeth a rheolaeth bresennol ar domennydd glo yng Nghymru, gan ddefnyddio gwaith y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo fel bo'r angen;
- (2) Gwerthuso deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo, o safbwynt iechyd a diogelwch pobl ac effaith ar yr amgylchedd, nodi bylchau, anghysonderau a dulliau anfuddiol neu sydd bellach yn anghyfredol;
- (3) Nodi opsiynau ar gyfer modelau rheoleiddio gwahanol i'w mabwysiadu yng Nghymru;
- (4) Nodi'r nodweddion sydd eu hangen i sicrhau bod unrhyw system arfaethedig yn gallu darparu gorfodaeth effeithiol, ac yn benodol, ymateb cyflym a chydlynol pan fydd angen gwneud gwaith brys;
- (5) Ystyried sut mae gwledydd eraill yn y DU, a gwledydd eraill â hanes sylweddol o fwyngloddio glo, yn arbennig yn yr UE, yn ymdrin â diogelwch tomennydd glo, pan fo'r rhain yn darparu cymhariaeth ddefnyddiol, ac i'r graddau y mae gwybodaeth o'r fath ar gael; ac
- (6) Ystyried effaith cyfraith yr UE a'r effaith ar y fframwaith rheoleiddio presennol o ganlyniad i adael yr UE.

- 1.8 Cytunwyd y byddai'r prosiect yn cael ei gynnal o fewn amserlen frys o 13 i 15 mis. Gan y byddai'r prosiect yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwaith diogelwch tomennydd glo

---

<sup>4</sup> Disgrifir y gwaith hwn yn fanylach yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, pennod 8.

sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'r Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo i liniaru'r risg uniongyrchol a achosir gan domennydd glo yng Nghymru, cafodd tri chyfyngiad penodol ar y prosiect eu cydnabod hefyd.

- (1) Byddai'r prosiect yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth systematig, tymor hir i fynd i'r afael â'r risg o ran diogelwch a achosir gan domennydd glo.
- (2) Byddai'r prosiect yn canolbwyntio ar y gyfraith sydd yn rheoli tomennydd glo yn unig.
- (3) Ni fyddai'r prosiect yn adolygu ystyriaethau ehangach cysylltiedig â chyfraith amgylcheddol ac eithrio pan fo hynny yn uniongyrchol berthnasol i reoleiddio'r risg diogelwch a achosir gan domennydd glo.

1.9 Nid yw ein cylch gorchwyl – ac ni allai – ymestyn i'r mater ynghylch sut y dylid ariannu cost y gwaith sy'n ofynnol ar domennydd glo. Yr ydym yn ymwybodol, mewn rhai achosion, y gall y gost fod yn sylweddol, ac mae'r gost o ddelio â llithriad Tylorstown yn enghraifft o hynny. Yr ydym hefyd yn ymwybodol o drafodaethau rhwng Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ynghylch sut y dylid darparu unrhyw arian cyhoeddus angenrheidiol. Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y cwestiwn ynghylch i ba raddau y dylai'r costau sy'n gysylltiedig a thomennydd glo gael eu hysgwyddo gan arian cyhoeddus neu – fel y mae'r sefyllfa gyffredinol o dan y ddeddfwriaeth bresennol – gan berchnogion tomennydd, sydd eu hunain yn gymysgedd o gyrrff cyhoeddus a pherchnogion preifat.

1.10 Byddai'n anghywir inni wneud unrhyw argymhelliad neu fynegi unrhyw farn am y materion hyn. Yn hytrach, rydym wedi dylunio cynllun sydd yn cynnwys yr hyblygrwydd i ddyrannu costau yn unol â pholisi y mae Llywodraeth Cymru yn ei lunio.

## **CYNIGION DROS DRO AC YMGYNGHORIAD**

1.11 Roedd ein papur ymgynghori, a gyhoeddwyd ar 9 Mehefin 2021, yn adolygu cyfraith diogelwch tomennydd glo a'r problemau a wynebwyd wrth reoli hen domennydd ar hyn o bryd. Dangosodd ein hymchwil cychwynnol nifer o ddiffygion yn y fframwaith cyfreithiol presennol. Roedd Deddf 1969 yn rhoi'r cyfrifoldeb dros hen domennydd i awdurdodau lleol ond dim ond pwerau ymyrryd cyfyngedig a roddid iddynt, wedi'u cyfyngu i sefyllfaoedd lle'r oedd risg bresennol i'r cyhoedd oherwydd bod tomen wedi mynd yn ansefydlog. Roedd ei fecanweithiau ar gyfer mynnu bod perchnogion yn gwneud gwaith adfer yn drwsgl ac yn cymryd llawer o amser. Yr oedd y dewis arall a ddarparai, sef i'r awdurdod lleol wneud y gwaith a chodi tâl ar y perchennog, hefyd yn anhylaw. Mae pwerau darniog ledled awdurdodau lleol wedi arwain at safonau diogelwch a dosbarthiad risg anghyson.

1.12 Canfuom fylchau hefyd yn y ddarpariaeth a wnaed gan Ddeddf 1969. Nid oedd yn creu dyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch tomennydd glo, nac yn darparu pŵer i fynnu na gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol er mwyn atal tomen rhag dod yn berygl. Nid oedd yn cynnwys peryglon ar wahân i ansefydlogrwydd. Nid oedd unrhyw

bwynt cyfrifoldeb canolog ac felly nid oedd unrhyw fecanwaith cyffredinol i flaenoriaethu tomennydd ar sail risg.<sup>5</sup>

- 1.13 Roedd anawsterau eraill nad oeddent yn deillio o ddarpariaethau Deddf 1969, ond a effeithiodd ar ei gweithrediad. Roedd colli arbenigedd o ganlyniad i roi'r gorau i gloddio glo i bob pwrpas yng Nghymru, ynghyd â chyfyngiadau ar adnoddau, yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i arfer eu pwerau. Roedd y gwaith adfer tomennydd clodwiw a pharhaus a wnaed yn y degawdau yn dilyn trychineb Aberfan yn 1966, yn enwedig y Rhaglen Adfer Tir, wedi dod i ben erbyn 2012.<sup>6</sup>
- 1.14 Edrychwyd ar y rhesymau pam fod y diffygion hyn wedi dod yn fwy arwyddocaol dan yr amgylchiadau presennol. Fel yr eglurwyd uchod, mae bron pob un o'r pyllau glo a oedd yn weithredol ar yr adeg pan basiwyd Deddf 1969 wedi cau, ac mae eu tomennydd wedi symud i'r categori gweddilliol a lywodraethir gan Ran 2 y Ddeddf. Mae tua 65% o'r rhain mewn perchnogaeth breifat, sy'n eiddo i dirfeddianwyr sydd, yn gyffredinol, heb unrhyw gysylltiad â'r diwydiant mwyngloddio, heb unrhyw fudd personol nac economaidd mewn cynnal tomennydd, nac yn meddu ar unrhyw sgil na gwybodaeth am eu gofal. Ar ben hynny, mae glawiad wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ansefydlogrwydd, yn enwedig os na roddir sylw i faterion draenio sy'n effeithio ar domen.
- 1.15 Daethom i'r casgliad dros dro nad oedd y drefn a grëwyd gan Ddeddf 1969 yn ddigonol mwyach a bod angen cyfundrefn reoleiddio newydd yn ei lle. Gallai trefn newydd hefyd fynd i'r afael â phroblemau eraill nad ydynt yn deillio o'r Ddeddf ei hun, drwy ddarparu arbedion maint a mynd i'r afael â'r prinder sgiliau arbenigol.
- 1.16 Roeddem wedi nodi dwy egwyddor a ddylai, yn ein barn ni, fod yn sail i'r gwaith o'i adeiladu: cysondeb dull ac atal niwed drwy ddull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Rydym yn credu bod yr egwyddorion yma yn alinio'n dda â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r gofyniad yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i weithredu'n unol â'r egwyddor hon. Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ystyried yr hirdymor, i gymryd camau sydd yn helpu i atal problemau rhag digwydd, ac i ddefnyddio dull integredig.
- 1.17 Roeddem hefyd yn cynnig y dylai'r fframwaith newydd allu ehangu i gynnwys risgiau sy'n mynd y tu hwnt i ansefydlogrwydd. Byddai angen iddo fod yn ddigon cydnerth i ddelio â goblygiadau newid hinsawdd, ac yn ddigon hyblyg i weithio law yn llaw â deddfwriaeth arall sydd yn darparu gwarchodaeth amgylcheddol. Gan fod Deddf 1969 yn cynnwys pob tomen, nid tomennydd glo yn unig, yr oeddem yn rhagweld y gallai gael ei ymestyn i domennydd nad ydynt yn rhai glo, ac y dylai fod â strwythur a fyddai'n caniatáu hyn.
- 1.18 Roeddem wedi cyflwyno nifer o gynigion dros dro ar gyfer y drefn reoleiddio newydd. Roedd cwestiynau ein hymgynghoriad yn gofyn am farn ar y cynigion hyn. Roeddem

---

<sup>5</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, pennod 7.

<sup>6</sup> Uchod, paragraffau 3.25 i 3.27 a 7.3 i 7.8.



hefyd wedi gofyn nifer o gwestiynau agored lle nad oeddem yn ddigon siŵr beth oedd y dull a oedd yn cael ei ffafrio gennym i wneud cynnig dros dro.

- 1.19 Ar ôl cyhoeddi'r papur ymgynghori, fe wnaethom gynnal cyfres o ddiwyddiadau ymgynghori. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn atodiad 1 yr adroddiad hwn. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Medi 2021. Mae'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n hymgyngoriad wedi'u rhestru yn atodiad 2, ynghyd ag arwydd o'r sector y maent yn ei gynrychioli a siart sy'n dangos cyfran yr ymatebion a gafwyd gan bob sector. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ac eithrio'r rhai y gofynnwyd am gyfrinachedd iddynt, a'n dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith. Mae'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn cyflwyno tabl o'r ymatebion i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Mae hefyd yn egluro ein methodoleg wrth gynnal y dadansoddiad. Mewn rhai achosion, roeddem wedi ail-gategoreiddio'r ymatebion "ie", "na" neu "arall" i sicrhau bod safbwyntiau a oedd yn debyg o ran cynnwys yn cael eu grwpio gyda'i gilydd. Rydym wedi marcio'r tablau dadansoddi i ddangos lle mae hyn wedi cael ei wneud.

## **AMLINELLIAD O'R ADRODDIAD HWN A'N HARGYMHELLION NI**

- 1.20 Ein tasg gyntaf yw penderfynu ar gwmpas ein hargymhellion: mae ein cylch gorchwyl yn ymestyn i bob tomen lo yng Nghymru, gan godi'r cwestiwn a ddylai diwygio'r gyfraith ymestyn hefyd i'r nifer fach iawn o domennydd sy'n gysylltiedig â gweithrediadau mwyngloddio gweithredol. Rydym yn trafod hyn yn rhan olaf y bennod hon, lle rydym yn dod i'r casgliad bod y drefn bresennol ar gyfer tomennydd gweithredol yn foddhaol ac na ddylid tarfu arno.
- 1.21 Ar gyfer tomennydd anweithredol, rydym yn argymhell trefn ddiogelwch newydd sy'n adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gan y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo. Rydyn ni'n argymhell yn gyntaf y dylai cylch gwaith Cymru gyfan y Tasglu gael ei drosglwyddo i awdurdod goruchwyllo tomennydd glo newydd, a rydym yn gadael i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ei union ffurf gyfreithiol; rydyn ni'n cyfeirio ato drwy gydol yr adroddiad hwn fel "yr awdurdod goruchwyllo".
- 1.22 Tasg gyntaf yr awdurdod ddylai llunio cofrestr statudol o domennydd glo, a fydd, yn ymarferol, yn seiliedig ar y rhestr o domennydd a luniwyd gan y Tasglu. Ei ail dasg fydd trefnu i archwilio pob tomen, oni bai ei fod o'r farn bod arolygiad digon diweddar a thrylwyr eisoes wedi'i gynnal. Ar sail yr arolygiad hwnnw, rhaid iddo gynnal asesiad risg, paratoi cynllun rheoli tomen a neilltuo dosbarthiad risg i bob tomen. Dylai'r dosbarthiad risg fod yn seiliedig ar feini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru gyda mewnbwn gan arbenigwyr technegol, a dylai gynnwys system ar gyfer dynodi'r tomennydd hynny sy'n gofyn am waith adfer blaenoriaethol; yn gyffredinol, dylai'r awdurdod goruchwyllo ei hun wneud y gwaith hwn. Gan fod y rhan fwyaf o'r tomennydd yn rhai risg isel, ni fydd angen i'r rhan fwyaf o'r archwiliadau fod yn ddwys.
- 1.23 O ran awdurdodi neu fynnu bod gwaith yn cael ei wneud ar domennydd, bu'n rhaid dyfeisio mecanweithiau sy'n ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o domennydd. Yn cynnwys y mwyafrif helaeth sydd ond angen monitro, neu gynnal a chadw sylfaenol sydd o fewn gallu'r tiffeddiannwr, a'r lleiafrif bach sy'n gofyn am waith mwy soffistigedig, o bosibl fel mater o frys. Mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau ein safbwynt dros dro y dylai'r mecanweithiau hyn fod ar ffurf pŵer i lunio cytundebau gyda pherchnogion a/neu feddiannwyr tir sy'n cynnwys tomen, wedi'i ategu gan bŵer i

roi gorchymyn os na cheir cytundeb neu os na chydymffurfir â chytundeb, neu mewn sefyllfa o argyfwng.

- 1.24 Gall cytundebau neu orchmynion o'r fath naill ai ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu feddiannwr y tir gyflawni'r gwaith neu awdurdodi awdurdod i'w gyflawni. Byddant hefyd yn cynnwys darpariaethau ariannol ynghylch taliadau i'r awdurdod neu gan yr awdurdod, ac i neu gan unrhyw berson sy'n barti i gytundeb neu a enwir mewn gorchymyn. Bwriad hyn yw dileu'r angen am y systemau cymhleth sydd yn Neddf 1969 ar gyfer iawndal a chyfraniadau i leihau costau rheoli rhwng pobl sydd â buddiant yn y domen. Mae hefyd wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ynghylch ariannu gwaith diogelwch tomennydd. Rydym yn argymhell hawl i apelio yn erbyn telerau gorchymyn tomen, yn cynnwys y telerau ariannol.
- 1.25 Mater arall a ystyriwn yn drefniadol yn hytrach na chyfreithiol, ac yn y pen draw i'w benderfynu gan Lywodraeth Cymru, yw sut y gallai'r tasgau sy'n gysylltiedig â diogelwch tomennydd glo gael eu dosbarthu rhwng yr awdurdod goruchwyllo newydd a'r awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb llwyr ar hyn o bryd. Rydym yn credu ei bod yn bwysig, er mwyn cael dull gweithredu cwbl wybodus a chyson, bod rhai o'r tasgau'n cael eu cyflawni gan yr awdurdod goruchwyllo ei hun. Mae adolygu archwiliadau cychwynnol ar domennydd a phennu eu dosbarthiad risg yn perthyn i'r categori hwn, yn ogystal â llunio cytundebau tomennydd ffurfiol a rhoi gorchmynion tomennydd ac, ar y cyfan, gwneud gwaith ar domennydd blaenoriaethol dynodedig.
- 1.26 Bydd y gwaith maes cysylltiedig – fel archwilio tomennydd, monitro cydymffurfiaid â chytundebau a gorchmynion, a'r gwaith o negodi a/neu ddrafftio cytundebau a gorchmynion – mewn egwyddor yn costio'r un faint i bwy bynnag sy'n ei gyflawni. Ond gallwn weld rhywfaint o arbedion effeithlonrwydd o ran dirprwyo rhai o'r tasgau hyn i staff awdurdodau lleol sydd wedi eu lleoli yn ardal y tomennydd. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd inni gan awdurdodau lleol y bydd angen i gyllid digonol gyd-fynd ag unrhyw ddirprwyo tasgau o'r fath.
- 1.27 Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn ymhelaethu ar y crynodeb byr hwn gydag arolwg o benodau'r adroddiad hwn sy'n edrych ar yr ymatebion i gwestiynau ein hymgyngoriad ac yn nodi ein hargymhellion.
- 1.28 Ym mhennod 2, rydym yn gwerthuso'r ymatebion i'n cynnig am un awdurdod goruchwyllo fydd yn gallu monitro'r holl domennydd anweithredol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddio i safon gyson ledled Cymru. Rydym yn argymhell y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo ac y dylai fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo anweithredol. Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff cyhoeddus canolog newydd.
- 1.29 Mae pennod 3 yn edrych ar ein cynnig am gofrestr tomennydd ganolog sy'n darparu gwybodaeth am bob tomen. Rydym yn argymhell y dylai cofrestr o'r fath gael ei llunio a'i chynnal gan yr awdurdod goruchwyllo, gyda'i chynnwys yn cael ei ragnodi gan offeryn statudol. Rydym hefyd yn argymhell dyletswydd ar rhan yr awdurdod goruchwyllo i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni, gyda hawl i apelio yn erbyn cofrestru. Er mwyn sicrhau bod pob tomen yn cael eu cofnodi ar y gofrestr, rydym yn argymhell y dylai tiffeddianwyr fod o dan ddyletswydd i hysbysu'r

awdurdod goruchwylio am unrhyw domen sydd ar eu tir nad yw eisoes ar y gofrestr. Rydym yn argymhell y dylid cael mynediad cyhoeddus i'r gofrestr tomennydd.

- 1.30 Mae penodau 4, 5 a 6 yn edrych yn fanylach ar swyddogaethau'r awdurdod goruchwylio newydd. Mae pennod 4 yn ystyried ein cynnig ar gyfer dyletswydd i archwilio pob tomen anweithredol at ddibenion asesu risg a pharatoi cynllun rheoli tomen. Rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.
- 1.31 Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwylio fod o dan ddyletswydd i drefnu bod asesiad risg a chynllun rheoli tomen yn cael eu llunio ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr ac i ddyrannu dosbarthiad risg i'r domen ar sail y wybodaeth a gyflwynir iddo. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r dosbarthiad risg ystyried y risg o ansefydlogrwydd a chanlyniadau methiant o'r fath, a'r risg o lygredd, hyloggi a llifogydd. Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol.
- 1.32 Rydyn ni'n esbonio y bydd angen i'r awdurdod goruchwylio wneud penderfyniadau ynghylch sut y mae'r gwaith a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei gyflawni, ar ôl cwblhau'r arolygiad, yr asesiad risg a'r cynllun rheoli tomennydd. Rydym yn rhagweld y bydd gan yr awdurdod goruchwylio becyn o gytundebau a gorchmynion i drefnu gwaith diogelwch a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd. Rydym yn credu ei bod yn ddymunol i waith diogelwch ar domennydd fod yn fater o gytundeb mewn egwyddor; dylai bodolaeth y pŵer rhoi gorchmynion fod yn sbardun i negodi synhwyrol.
- 1.33 Mae pennod 5 yn ystyried sut y byddai cynnal a chadw tomennydd risg is yn cael ei sicrhau. Mae'n edrych ar ein cynnig ar gyfer system o gytundebau cynnal a chadw gyda pherchnogion tomennydd er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw rhagweithiol a thasgau adfer llai cymhleth yn cael eu cyflawni ar domennydd risg is. Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwylio gael y pŵer i lunio cytundeb tomennydd gyda pherchennog y tir a/neu feddiannwr y tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud.
- 1.34 Er mwyn monitro cydymffurfiad â chytundeb o'r fath, rydym yn argymhell y dylid cael dyletswydd i archwilio safleoedd tomennydd o bryd i'w gilydd, gyda'r pŵer i ddirprwyo'r archwiliad, gan gynnwys i drydydd partïon cymwys. Os nad yw'n bosibl neu'n briodol bwrw ymlaen drwy gytundeb gyda'r perchennog neu'r deiliad, rydym yn argymhell y dylid rhoi gorchmyn tomen; rydym yn nodi'r amgylchiadau lle rydym yn argymhell y dylid arfer y pŵer rhoi gorchmynion. Rydym yn argymhell mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod â chyfrifoldeb i lunio trefniadau a rhoi gorchmynion ar gyfer tomennydd risg is, a dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i oruchwylio'r cytundebau, gan gynnwys cynnal arolygiadau.
- 1.35 Ym mhennod 6, rydym yn edrych ar yr angen am broses, sy'n rhan o'r asesiad risg a'r dosbarthiad, i flaenoriaethu gwaith ar domennydd mewn ffordd systematig. Mae hyn yn adeiladu ar ein cynnig i ddynodi tomennydd sy'n gofyn am waith mwy cymhleth ac uniongyrchol er mwyn sicrhau mwy o gyfranogiad gan yr awdurdod goruchwylio. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer

dynodi tomen gan yr awdurdod goruchwyllo, ac y dylai'r meini prawf ar gyfer dynodi gael eu pennu drwy ymgynghori ag arbenigwyr. Rydym yn argymhell bod y meini prawf hyn yn cael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. Pan fo tomen yn cael ei dynodi, rydym yn argymhell y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen, er y gallai wneud hynny drwy ddefnyddio contractwyr. Er y dylai hyn fod yn rhagdybiaeth pan fo tomen wedi'i dynodi, rydym hefyd yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer, pan fo'n briodol, i ddod i gytundeb gyda pherchennog neu feddiannydd tomen â chymwysterau addas er mwyn iddynt gyflawni neu gomisiynu'r gwaith.

- 1.36 Mae pennod 7 yn ystyried y diffiniad o domen a'r diffiniad o berchennog tomen. Rydym yn archwilio elfennau diffiniad boddhaol o domen lo anweithredol, er nad ydym yn gwneud argymhelliad ffurfiol ynghylch sut y dylid drafftio hyn. Rydym yn dod i'r casgliad nad yw'n ddefnyddiol cael un diffiniad unigryw o "berchennog y domen". Bydd angen i amrywiol bobl sydd â chysylltiad â thir sy'n cynnwys tomen gael hawliau, dyletswyddau neu rwymedigaethau o dan ein cynllun a argymhellir. Bydd pwy ydynt yn dibynnu ar batrwm y buddiannau yn y tir a phwrpas yr hawl neu'r ddyletswydd benodol dan sylw. I'r graddau y mae atebolrwydd o dan ein cynllun a argymhellir i'w ysgwyddo gan berchennog, mewn termau economaidd, tir sy'n cynnwys tomen, rydym yn argymhell y dylai'r perchennog hwnnw gael ei ystyried fel perchennog yr ystâd rydd-ddaliadol neu berchennog ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor. Yr eithriad i hwn yw lle mae'r ystâd rydd-ddaliad neu lesddaliad yn ddarostyngedig i lesddaliad a roddwyd i rhywun arall o 21 mlynedd neu ragor.
- 1.37 Ym mhennod 8 rydym yn edrych ar y pwerau gorfodi sydd eu hangen i sicrhau bod y drefn newydd yn gweithio'n effeithiol. Rydym hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer llwybrau apêl lle mae'r drefn newydd yn creu hawl i apelio. Rydym yn argymhell pŵer mynediad i dir, mewn termau sy'n sicrhau cydbwysedd priodol rhwng budd y cyhoedd a hawliau'r perchennog neu'r deiliad. Mewn perthynas â gorfodi gorchmynion tomennydd, rydym yn argymhell y dylai methu â chydymffurfio â gorchymyn tomen fod yn drosedd diannod, ac yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried defnyddio sanesiynau sifil.
- 1.38 Mae pennod 9 yn ystyried yr angen am bŵer i godi tâl ar gyfer gwaith diogelu tomennydd glo, ac a oes angen geisiadau i lys am orchmynion digolledu a chyfrannu. Dylanwadir ar ein barn am hyn yn gyntaf gan ein casgliad y dylai gwaith diogelwch tomennydd fynd rhagddo drwy gytundebau rhwng yr awdurdod goruchwyllo a pherchnogion a meddianwyr, wedi'i ategu gan bŵer i roi gorchymyn; yn ail, mae'r gweithdrefnau presennol yn drwsogl ac anaml y cânt eu defnyddio, os o gwbl.
- 1.39 Rydym yn awgrymu, yn hytrach na'r system presennol o ceisiadau, y dylai telerau cytundebau a gorchmynion ymestyn i roi darpariaeth ariannol rhwng y pwrs cyhoeddus ac unrhyw barti sydd â buddiant mewn safle tomen neu ei gynnwys. Dylid cael pŵer i godi tâl am waith neu i dalu am waith ac i ddyrannu unrhyw daliadau neu gostau yn briodol. Rydym yn argymhell y dylai egwyddorion sy'n rheoli dyrannu cyfrifoldeb ariannol dros waith diogelwch tomennydd rhwng personau neu endidau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

- 1.40 Mae pennod 10 yn ystyried ein cynnig dros dro i banel arbenigol o beirianwyr archwilio tomennydd a goruchwyllo gweithrediadau arnynt. Rydym yn dod i'r casgliad y byddai system lai ffurfiol na phanel yn briodol, gan gwmpasu ystod o sgiliau proffesiynol yn ogystal â pheirianneg. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â sefydliadau academiaidd a chyrrff proffesiynol ym maes gwaith diogelwch tomennydd gyda golwg ar sicrhau bod cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch yn cael ei llunio.
- 1.41 Ym mhennod 11 rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatrys gwrthdaro rhwng cyfrifoldebau diogelwch tomennydd a deddfwriaeth amgylcheddol. Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo a phartïon perthnasol eraill ynghylch camau i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng tomennydd glo. Gyda darpariaeth o bosibl i sicrhau bod sail gyfreithlon ar gyfer camau gweithredu a allai fel arall dorri rheoliadau cynllunio neu amgylcheddol. Rydym hefyd yn argymhell diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ddiffinio argyfwng yng nghyd-destun deunyddiau tomennydd. Rydym yn edrych ar strategaethau ehangach i wella ymatebion i roi gwybod am argyfyngau yn ogystal ag atebion tymor hwy ar gyfer deunyddiau tomennydd sy'n cael eu dadleoli gan waith adfer. Nid ydym yn gwneud argymhellion ar y rhain, ond yn cyfleu awgrymiadau ymatebwyr er mwyn helpu i ddatblygu polisïau.
- 1.42 Mae pennod 12 yn ystyried amrywiaeth eang o awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyfuno ein trefn arfaethedig ar gyfer diogelwch tomennydd â gwaith adfer tomennydd yn y tymor hwy er mwyn gwneud defnydd buddiol o domennydd dethol. Unwaith eto, nid ydym yn gwneud argymhellion, gan fod y pwnc y tu allan i'n cylch gorchwyl, ond rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i ystyried barn ymatebwyr ynghylch y modelau mwyaf priodol ar gyfer cynlluniau adfer, gwerth tomennydd o ran treftadaeth a bioamrywiaeth, a syniadau ar gyfer defnydd buddiol o domennydd wedi'u hadfer. Yn olaf, rydym yn edrych ar y potensial i ymestyn y fframwaith rheoleiddio newydd i domennydd nad ydynt yn rhai glo.
- 1.43 Mae diagram yn dangos sut rydym yn rhagweld y bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn gweithio yn atodiad 3 yr adroddiad hwn.

## **GEIRFA**

- 1.44 Ceir geirfa o dermau technegol ar ddechrau'r adroddiad hwn.

## **ASESIAD EFFAITH**

- 1.45 Mae asesiad effaith ac asesiad o'r Iaith Gymraeg yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn. Mae'r asesiad effaith yn ystyried costau a manteision posibl trefn reoleiddio newydd ar gyfer tomennydd glo anweithredol. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cymorth wrth baratoi'r asesiad.

## **CYDNABYDDIAETHAU**

- 1.46 Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgynghori, am gymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori neu gyfarfod â ni i drafod y papur ymgynghori, ac am gyflwyno ymatebion ysgrifenedig ffurfiol. Rydym yn ddiolchgar am y gofal y maent wedi'i roi wrth ystyried y materion a drafodir yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn

diolch i swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi cynnal gweithdai i'n helpu i ddeall y system bresennol ar gyfer diogelwch tomennydd ac i brofi ein syniadau ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd.

## TÎM PROSIECT

- 1.47 Mae'r aelodau canlynol o'r tîm Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith yng Nghymru wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn: Henni Ouahes (rheolwr tîm), Sarah Smith (rheolwr tîm dros dro), Lisa Smith (cyfreithwraig y tîm) a Poppy Jones (cynorthwydd ymchwil).

## CWMPAS EIN ARGYMHELLION: AWGRYMIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â PHYLLAU GLO GWEITHREDOL

- 1.48 Cyn dechrau ystyried pob elfen o'r fframwaith arfaethedig, mae angen penderfynu ar fater pwysig o ran cwmpas: a ddylai ein hargymhellion gynnwys awgrymiadau sy'n gysylltiedig â thomennydd mwyngloddiau gweithredol yn ogystal â thomennydd anweithredol.
- 1.49 Roedd rhanddeiliaid wedi dweud wrthym yn ystod cam cyn-ymgyngori ein prosiect fod y drefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol, o dan Reoliadau Chwareli 1999<sup>7</sup> a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014<sup>8</sup>, yn gynhwysfawr ac yn ddigonol. Yn ein papur ymgynghori, nodwyd bod meysydd pryder yn ymwneud ag amodau sy'n llywodraethu cau mwyngloddiau ac adfer tomennydd, ond roedd y rhain yn ymwneud â gweithredu'r rheolaethau sydd ar gael yn hytrach na'r fframwaith cyfreithiol presennol. Ychydig iawn o domennydd o'r fath sydd ar ôl yng Nghymru hefyd.<sup>9</sup>
- 1.50 Mae'r drefn ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol wedi'i chynllunio ar gyfer tomennydd sy'n dal o dan reolaeth gweithredwr mwyngloddiau. Mae'r gweithrediadau mwyngloddio a thipio yn ddarostyngedig i Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae sefyllfa tomennydd anweithredol yn amlwg yn wahanol i reoleiddio tipio. Y farn dros dro a fynegwyd yn ein papur ymgynghori oedd yw bod tomennydd anweithredol yn dal i fod angen cyfundrefn ar wahân sydd wedi ei theilwra i amgylchiadau tomennydd nad ydynt ar y cyfan ar dir sydd yn eiddo i neu na reolir gan gorff sydd ag arbenigedd mwyngloddio nac amgylcheddol. Gwnaethom gynnig dros dro na ddylid newid y drefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd gweithredol.
- 1.51 Roeddem hefyd wedi nodi bod Deddf 1969 yn diffinio tomen anweithredol fel tomen ar wahân i un y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn berthnasol iddi. Rydym wedi cynnig dros dro y dylid, ar hyn o bryd, mynegi nad yw'r ddeddfwriaeth newydd yn berthnasol i domennydd y mae'r Rheoliadau yn berthnasol iddynt.

---

<sup>7</sup> SI 1999 Rhif2024.

<sup>8</sup> SI 2014 Rhif3248.

<sup>9</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 3.3, 3.7, 3.61 i 3.66 a 10.5.

1.52 Mae'r adrannau isod yn ystyried safbwyntiau ar bob un o'r cynigion hyn.

**Cwestiwn Ymgynghori 1: Rydym yn cynnig ar hyn o bryd na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol. A ydych yn cytuno?**

1.53 O'r 43 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 38 (88%) yn cytuno ac roedd pedwar (9%) yn anghytuno. Rhoddodd un o'r ymatebwyr ateb "arall".

**Rhesymau dros gytuno na ddylid newid y drefn reoleiddio**

1.54 Roedd llawer o'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'n cynnig, gan gynnwys Bob Leeming, Howard Siddle, ICE Wales Cymru, Yr Athro David Petley, Kim Moreton a Lee Jones, wedi gwneud hynny ar y sail bod y drefn bresennol ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol yn ddigonol ac nad oedd angen ei newid. Dywedodd Jane Iwanicki fod y drefn hon yn ymestyn y tu hwnt i Reoliadau 1999 a 2014:

Mae system gadarn a modern ar waith ar hyn o bryd ar gyfer rheoleiddio tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol, sy'n cael ei chefnogi a'i gorfodi ymhellach gan y System Gynllunio Gwlad a Thref a deddfwriaeth atal a rheoli llygredd/amgylcheddol. Bydd system yr un mor gadarn wedi bod yn berthnasol i gloddfeydd/tomennydd sydd wedi cau dros y blynyddoedd diwethaf.

1.55 Cytunodd yr Athro Bob Lee mae methiannau rheoleiddio, er esiampl y ddarpariaeth ariannol ar gyfer ôl-ofal tomennydd, wedi bod yn weithredol. Mewn egwyddor, yn ei farn ef, os cânt eu gweinyddu'n briodol, y dylai gofynion cyfraith cynllunio, trwyddedau amgylcheddol a darpariaethau cyfraith mwyngloddio fod yn ddigonol i wneud darpariaeth hirdymor ar gyfer gwastraff mwyngloddio.

1.56 Nododd Keith Bush CF y byddai'n dasg gymhleth i sicrhau cysondeb rhwng trefn newydd ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol a'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch mwyngloddiau gweithredol yn gyffredinol.

1.57 Er bod ICE Cymru Wales yn cytuno â'n cynnig, roedd yn credu y dylai tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol gael eu rhestru ar y gofrestr tomennydd o hyd a'u categoreiddio fel rhai "gweithredol" gyda dolenni at ddata allweddol. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws o lawer eu cynnwys ar y gofrestr ar ôl hynny fel tomennydd anweithredol.

**Rhesymau dros anghytuno**

1.58 Nid oedd y Rhwydwaith Gweithredu Glo yn cytuno bod pryderon ynghylch cau ac adfer pyllau glo gweithredol yn ymwneud ag ymarfer yn unig yn hytrach nag â'r fframwaith reoleiddio. Cyfeiriasant at werthu hawliau a rhwymedigaethau tir Celtic Energy ym Margam, Pwll Dwyreiniol, a dau bwl arall i gwmni coeg, a chanfuwyd bod

hynny yn gyfreithlon dan y fframwaith rheoleiddio presennol, er gwaethaf y gydnabyddiaeth y gellid ei ystyried yn anonest:<sup>10</sup>

Felly nid yw'n bosibl eithrio'r posibilrwydd y bydd pyllau glo gweithredol yn gwneud yr un fath, yn dibynnu ar yr amodau penodol o ran sut a phryd y telir y bond adfer. Felly, dylai rhannau o unrhyw drefn reoleiddio yn y dyfodol fod yn berthnasol i byllau glo sy'n weithredol ar hyn o bryd lle gallai hyn atal camau gweithredu ... sy'n peryglu'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddiogelu ac adfer y pyllau glo sydd ar waith ar hyn o bryd a'r tomennydd glo cysylltiedig.

- 1.59 Roedd Steve Harford yn anghytuno ar y sail y gallai'r profiad o reoli a monitro hen domennydd gwastraff ddarparu gwersi pwysig ar gyfer rheoli tomen weithredol".
- 1.60 Roedd Owen Jordan o'r farn bod angen newid y drefn ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â chloddfeydd gweithredol i fynnu bod pob tomen yn cael eu capio a'u leinio ar sail amgylcheddol. Credai mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddeunydd tomennydd gael ei roi yn ôl "i mewn i'r twll y daeth ohono".

### **Cwestiwn Ymgynghori 3: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn gymwys i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddynt. A ydych yn cytuno?**

- 1.61 O'r 41 a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 32 (78%) yn cytuno ac roedd saith (17%) yn anghytuno a rhoddodd dau ateb "arall".

#### **Rhesymau dros gytuno na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn berthnasol**

- 1.62 Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at eu hatebion i'r cwestiwn uchod i ailadrodd bod y darpariaethau ar gyfer mwyngloddiau a chwareli gweithredol yn ddigonol. Roeddent yn cytuno bod y problemau a achosir gan domennydd anweithredol yn dra gwahanol i'r rhai a oedd yn ymwneud â mwyngloddio gweithredol. Roedd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau o'r farn ei bod yn "allweddol bod y ddwy system yn aros ar wahân ac yn wahanol". Nododd Howard Siddle fod y gwahaniaethau hyn yn cael eu cydnabod gan eu triniaeth wahanol o dan Rannau 1 a 2 Deddf 1969.
- 1.63 Dywedodd Keith Bush CF hefyd ei bod yn debygol y byddai deddfu ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan y byddai'n ymwneud â "glo, gan gynnwys - mwyngloddio glo brig a dwfn", a "phwnc Rhan 1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974" o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<sup>11</sup>

#### **Rhesymau dros anghytuno**

- 1.64 Roedd rhai ymatebwyr, fel Steve Harford a Vikki Howells AS, o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau diogelwch oedd i'r drefn reoleiddio newydd fod yn berthnasol i bob tomen. Gwelodd Philip Thomas gyfle i gadw unfurfaeth o ran triniaeth os oedd tirlfeddiannwr preifat yn berchen ar weithrediadau mwyngloddio gweithredol a segur. Roedd Owen

---

<sup>10</sup> Trafodir hyn yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 3.66.

<sup>11</sup> Gweler Deddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 7A, paragraffau 98 a 155. Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.



Jordan yn gweld bod unrhyw raniad yn y rheoleiddio fel cyfle i berchnogion a rheoleiddwyr osgoi cyfrifoldeb.

### Arsylwadau eraill

- 1.65 Nid oedd Rhondda Cynon Taf yn cytuno nac yn anghytuno â'n cynnig, ond gofynnodd a fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn golygu diddymu Deddf 1969, gan nodi bod y ddeddfwriaeth yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Roeddent hefyd am gael gwybod a fyddai'r drefn reoleiddio newydd yn cael ei chyflwyno drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu drwy is-ddeddfwriaeth fyddai yn diwygio Deddf 1969. Roedd eu haelodau'n awyddus i sicrhau bod y ddeddfwriaeth newydd cynnwys yr etifeddiaeth lofaol yng Nghymru, ac y dylai Llywodraeth y DU gydnabod effaith anghymesur yr etifeddiaeth hon ar Rondda Cynon Taf a Chymru.

### Trafodaeth

- 1.66 Rhoddodd ymatebwyr resymau cryf dros gefnogi ein cynigion dros dro. Rydym yn cytuno bod cydweithrediad rhwng y rheini sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch tomennydd glo anweithredol a'r rheini sydd ag arbenigedd mewn rheoli tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol yn werthfawr ac y dylid ei annog. Ond nid ydym yn credu bod hwn yn rheswm digon cryf dros uno'r ddwy gyfundrefn. Rydym yn dal i gredu bod yr amodau sy'n rheoli cau mwyngloddiau ac adfer tomennydd ymwneud â gweithredu'r rheolaethau sydd ar gael yn hytrach na digonolrwydd y fframwaith cyfreithiol presennol.
- 1.67 Gallai'r awgrym y dylai'r gofrestr tomennydd, a drafodir ym mhennod 3, restru'r tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol a'u categorio fel rhai "gweithredol" fod yn ffordd gadarnhaol o hyrwyddo cydlynid rhwng y ddwy gyfundrefn. Rydym yn gadael y posibilrwydd hwn i Lywodraeth Cymru ei ystyried.
- 1.68 Nid yw'n agored i'r Senedd ddiddymu Deddf 1969, sy'n gymwys i Loegr yn ogystal â Chymru. Ond bydd cymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu deddfwriaeth newydd sy'n gymwys i domennydd glo yng Nghymru yn ymestyn i ddiwygio Deddf 1969 fel nad yw'n gymwys i domennydd sy'n dod o dan ddeddfwriaeth newydd y Senedd.

#### Argymhelliad 1.

- 1.69 Rydym yn argymhell na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.

#### Argymhelliad 2.

- 1.70 Rydym yn argymhell na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn gymwys i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddynt.

## Pennod 2: Awdurdod Goruchwyllo

- 2.1 Bydd y bennod hon yn ystyried ein cynnig dros dro y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fydd yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw domennydd anweithredol. Bydd yn cyflwyno ac yn trafod ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch yr angen am awdurdod, y cwestiwn ynghylch a ddylai fod yn gorff presennol neu newydd, ar ba ffurf ddylai'r corff newydd fod, a sut y dylid fframio ei ddyletswydd i sicrhau diogelwch.

### YR ACHOS DROS UN CORFF GORUCHWYLLO AR GYFER TOMENNYDD ANWEITHREDOL

- 2.2 Yn ein papur ymgynghori, disgrifiwyd y dyraniad cyfrifoldeb am domennydd anweithredol i awdurdodau lleol o dan Ran 2 Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969. Fe wnaethom egluro sut, ar yr adeg y cafodd y Ddeddf 1969 ei phasio, yn oes diwydiant mwyngloddio gweithredol, yr oedd hen domennydd yn cael eu hystyried yn broblem weddilliol a bod y cyfrifoldeb dros sicrhau eu diogelwch (yn gyfyngedig i faterion sy'n ymwneud â sefydlogrwydd) yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol. Roeddem hefyd wedi egluro bod bron pob tomen lo yng Nghymru yn anweithredol erbyn hyn. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol y baich ar awdurdodau lleol ar adeg pan fo mwy o law oherwydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r risg y bydd tomennydd yn mynd yn ansefydlog.<sup>12</sup>
- 2.3 Roedd y papur hefyd yn trafod problemau gyda gweithredu'r drefn ddiogelwch bresennol ar gyfer hen domennydd y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt gan randdeiliaid profiadol, gan gynnwys awdurdodau lleol gyda nifer fawr o domennydd yn eu hardaloedd. Yr oedd y problemau hyn yn cynnwys colli sgiliau a phrofiad arbenigol o fewn awdurdodau lleol dros y degawdau diwethaf; yr oedd hyn yn ganlyniad i lawer o ffactorau, ond yn bennaf y dirywiad yn y diwydiant glo. Clywsom hefyd fod adnoddau awdurdodau lleol dan bwysau difrifol.<sup>13</sup> Ar ben hynny, mae'r dadansoddiad o niferoedd y tomennydd a'r mathau o berchnogaeth ledled Cymru a nodir yn y papur ymgynghori yn dangos dosbarthiad anwastad y cyfrifoldeb dros domennydd anweithredol ar awdurdodau lleol. Mae hyn yn rhoi baich anghymesur ar rai awdurdodau lleol.<sup>14</sup>
- 2.4 Roedd rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod yr anawsterau cyfun hyn wedi cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i weithredu'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol wrth sicrhau diogelwch tomennydd. Roedd bron pob rhanddeiliad y buom yn siarad â nhw yn y trafodaethau cyn yr ymgynghoriad yn credu bod dosbarthu cyfrifoldeb ar draws awdurdodau lleol hefyd yn llesteirio cysondeb ac yn ei gwneud yn anoddach cynnal arbenigedd.

---

<sup>12</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, pennod 3 a 4.

<sup>13</sup> Uchod, pennod 7.

<sup>14</sup> Uchod, paragraffau 3.41 i 3.60.

- 2.5 Yn y cyd-destun hwn, roedd agwedd gyson tuag at ddiogelwch tomennydd glo a'r angen am fesurau diogelwch rhagweithiol yn awgrymu bod angen un corff goruchwyllo. Byddai un corff yn gallu darparu dull unffurf o asesu risg ac arolygiadau, a blaenoriaethu dyrannu adnoddau yn ôl risg. Roeddem dros dro wedi cynnig sefydlu awdurdod goruchwyllo a fyddai'n gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o reoli tomennydd anweithredol mewn ffordd sy'n sicrhau eu diogelwch. Gofynnem am farn.

**Cwestiwn Ymgynghori 5: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol. A ydych yn cytuno? Os nad ydych, nodwch y dewis arall yr ydych yn ei ffafrio.**

- 2.6 Atebodd pum deg tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 48 yn cytuno â'n cynnig dros dro, sef 91% o'r cyfanswm, roedd tri (6%) yn anghytuno a dau yn ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno

- 2.7 Roedd y rhesymau a roddwyd dros gytuno yn cynnwys diffyg adnoddau awdurdodau lleol i ysgwyddo baich y gwaith sy'n ofynnol, a'r manteision a gynigir gan un awdurdod o ran mwy o gysondeb, arbenigedd ac annibyniaeth. Gwnaeth ymatebwyr hefyd cyfeirio at yr angen i ddileu unrhyw amwysedd ynghylch pwy sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch tomennydd.

- 2.8 Crynhowyd arwyddocâd adnoddau cyfyngedig awdurdodau lleol gan Keith Bush CF:

Mae'r papur ymgynghori'n cynnwys tystiolaeth gref oddi wrth awdurdodau lleol am yr anhawsterau a wynebir gan awdurdodau unigol wrth geisio gweithredu'r Ddeddf bresennol. Mae'r anawsterau hynny'n cynnwys yr amhosiblwydd o feithrin arbenigedd yn nhechneg rheoleiddio tomennydd, wrth i'r gyfrifoldeb gael ei gwasgaru dros gymaint o gyrff unigol, y baich gweinyddol anghymesur maent yn gorfod ysgwyddo os bydd achos yn codi sy'n gofyn am gamau cyfreithiol cadarn a'r prinder adnoddau sy'n golygu nad oes ganddynt y gallu i ariannu a goruchwyllo gwaith sylweddol er mwyn diogelu tomennydd lle nad yw'r perchennog yn gallu neu yn fodlon gwneud y gwaith.<sup>15</sup>

- 2.9 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), ynghyd â Chastell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful, yn pwysleisio perthnasedd adnoddau i gefnogi'r cynnig; roedd eu cytundeb yn amodol ar ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer y corff newydd:

Mae awdurdodau lleol eisoes dan bwysau a byddai'n ddefnyddiol cael un corff canolog sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi gweithgarwch diogelwch tomennydd glo. Byddai'n arwain at ddull gweithredu cyson ar draws Cymru ac yn sicrhau bod capasiti ar gael pan fo angen, o gofio'r colli arbenigedd mewn awdurdodau lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn wyneb pwysau ariannol. Gyda newid yn yr hinsawdd a glaw trymach yn ddisgwylidig, mae'r galw'n debygol o fod yn drech nag adnoddau'r awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o achosion.

- 2.10 Credai Wrecsam mai un corff oedd yr ateb oherwydd "bydd un awdurdod yn darparu cysondeb, arbenigedd a gwydnwch, ond hefyd oherwydd bod llawer o awdurdodau

---

<sup>15</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

lleol, gan gynnwys Wrecsam, heb swyddogion (yn awr nac yn y gorffennol) sydd â'r arbenigedd geodechnegol angenrheidiol".

2.11 Pwysleisiwyd yr angen am fwy o gysondeb gan Jacobs UK Ltd ( Halcrow gynt):

Mae un corff goruchwyllo yn hanfodol er mwyn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio a sicrhau safon gyson o ran ansawdd ledled Cymru.

Bydd yn goresgyn y rhaniad presennol o ran cyfrifoldeb ar draws nifer o sefydliadau a bydd yn fodd i ganfod a dyrannu lefel briodol o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y corff goruchwyllo, sydd yn brin yn y trefniadau presennol.

2.12 Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r risg y gallai rhannu cyfrifoldeb dros domennydd rhwng gwahanol gyrff arwain at ddiffyg eglurder. Yn ei brofiad ef, dywedodd Chris Seddon "lle mae amwysedd ynghylch cyfrifoldeb am ddiogelwch, mae'r holl bartïon yn manteisio ar hyn er mwyn osgoi cymryd perchnogaeth". Credai y byddai un awdurdod goruchwyllo yn lliniaru'r risg hon. Rhybuddiodd CLA Cymru rhag rhannu cyfrifoldeb rhwng mwy nag un awdurdod, gan y gall "pethau lithro rhwng y ddau", gan gefnogi awdurdod "un ateb i bawb" am y rheswm hwn.

2.13 Roedd nifer o ymatebion yn canolbwyntio ar allu un awdurdod i gronni arbenigedd. Nododd Dŵr Cymru "y fantais ychwanegol bod sgiliau a phrofiad arbenigol yn cael eu crynhoi a'u datblygu yn hytrach na'u gwasgaru'n denau ar draws sawl sefydliad".

2.14 Codwyd pwysigrwydd annibyniaeth awdurdod newydd. Pwysleisiodd Heledd Fychan AS, Sioned Williams AS a Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf y dylai'r awdurdod newydd fod yn gwbl annibynnol ac yn atebol i'r Senedd. Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys ICE Cymru, yn canolbwyntio ar yr angen am annibyniaeth oddi ar berchnogion tomennydd, gan gynnwys perchnogion preifat a chyhoeddus. Eglurodd Wrecsam fanteision annibyniaeth fel hyn:

Mae un awdurdod goruchwyllo yn fwy tebygol o lunio gweithdrefnau llunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gorfodi gyda blaenoriaethau cysylltiedig heb ormod o berswâd gwleidyddol. Byddai hefyd yn osgoi'r mater o ran pa Gyngor sy'n rheoleiddio safle tomennydd sy'n croesi dau ffin awdurdod lleol.

2.15 Soniodd Network Rail y byddai cael un corff cyfrifol ac atebol yn fuddiol o safbwynt yswiriant a hawliadau. Yn eu barn nhw, dylai fod yn ofynnol i berchnogion gael yswiriant penodol neu fod yn rhan o gynllun yswiriant gorfodol, o bosibl gyda rhyw fath o drefniant ariannu ar y cyd y gellid ei ddefnyddio pe bai rhywbeth yn digwydd. Byddai proses hawlio gytunedig yn arbed costau ac yn dod ag eglurder.

## Amheuan

2.16 Mynegodd rhai ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, rai amheuan. Nododd llawer na fyddai'r awdurdod newydd, heb adnoddau digonol, yn gallu cyflawni ei swyddogaethau.

2.17 Pwysleisiodd Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf yr angen am gyllid digonol:

2.18 Dylai fod sicrwydd i'r awdurdod newydd yr ariennir yn llawn unrhyw waith adfer y mae angen ei wneud, er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd. Does dim pwynt sefydlu

awdurdod newydd sy'n methu â chyflawni ei ddyletswyddau yn llawn. Manteisiodd Wreccsam ar eu profiad o'r ddeddfwriaeth tir halogedig a gyflwynwyd yn 2001 gan Ran 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i rybuddio bod angen cynnal lefelau cyllid. Ar y dechrau, roedd gan dimau tir halogedig o fewn awdurdodau lleol adnoddau da, ond nid chafodd y lefel hon o gyllid ei chynnal. Dros y deng mlynedd diwethaf, dywedasant wrthym fod llai o gyllid wedi golygu bod llawer o awdurdodau'n colli staff, yn cael trafferth gyda llwyth gwaith ac yn colli'r gallu i wneud unrhyw waith rhagweithiol yn y maes.

- 2.19 Cytunodd Caerffili â'r awdurdod arfaethedig ar yr amod bod ei rolau a'i gyfrifoldebau'n cael eu mynegi'n hyblyg:

Mae angen parhau i fod yn hyblyg er mwyn caniatáu i awdurdodau [lleol] ysgwyddo'r hyn y gallent (yn amodol ar gyllid) neu drosglwyddo'r swyddogaeth hon os nad oes ganddynt lawer o domennydd, neu os nad oes ganddynt unrhyw arbenigedd yn fewnol i reoli'r swyddogaeth.

- 2.20 Rhybuddiodd Stephen Smith y gallai awdurdod goruchwylio newydd, heb adnoddau digonol, wynebu'r un problemau a oedd wedi llesteirio gwaith diogelu tomennydd o dan Ddeddf 1969:

Yn ddealladwy, un o'r prif broblemau i [awdurdodau lleol] fu colli'r arbenigedd (technegol) hanfodol, a diffyg ffocws o ganlyniad gan yr awdurdod ar eu dyletswyddau. Nid oherwydd diffygion y Ddeddf yn unig y mae hyn; mae'n fwy na thebyg oherwydd diffyg ffrwd gyllido benodol.

- 2.21 Rhybuddiodd nifer o'r ymatebwyr hefyd nad oedd sefydlu corff goruchwylio ynddo ei hun yn ateb cyflawn i ddiogelwch tomennydd. Byddai diffiniad clir o swyddogaethau'r awdurdod yn hanfodol. Rydym yn cytuno, a bydd y penodau sy'n dilyn yn ystyried y swyddogaethau hyn yn fanylach.

### Rhesymau dros anghytuno

- 2.22 Roedd Joel James AS yn anghytuno oherwydd, yn ei farn ef, roedd corff eisoes yn bodoli a allai ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch tomennydd glo, ar ffurf yr Awdurdod Glo. Credai Sue Jordan, yn hytrach na mynd i'r gost o sefydlu awdurdod newydd, y dylai'r rheini sydd â chyfrifoldebau ar hyn o bryd gael gwared â'r holl domennydd ac adfer y safleoedd i'w proffil gwreiddiol. Nid oedd y Cynghorydd Julie Edwards yn gwrthwynebu awdurdod ynddo ei hun, ond roedd yn meddwl ei fod yn opsiwn rhy ddrud oni bai fod mwy o gyfrifoldebau'n cael eu rhoi ar berchnogion tomennydd.

### Trafodaeth

- 2.23 Mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth unfrydol bron i un awdurdod goruchwylio, yn ogystal â chytundeb cyffredinol gyda'r rhesymau a roddwyd gennym dros ein cynnig dros dro. Mynegwyd amheuan ynghylch cyllid, ond mater i Lywodraeth Cymru yw'r ffordd y bydd y drefn reoleiddio newydd yn cael ei hariannu, ac mae hynny y tu hwnt i'n cylch gorchwyl. Nodwn, fodd bynnag, fod ein hasesiad o'r effaith yn dangos bod creu un corff goruchwylio yn cynnig arbedion effeithlonrwydd posibl, a bod manteision economaidd hirdymor o gael agwedd ragweithiol at ddiogelwch tomennydd.

- 2.24 Nid ydym yn credu bod y dull amgen a awgrymir ar gyfer awdurdod goruchwyllo, sydd â'r nod o gael gwared ar domennydd yn hytrach na gweithio i sicrhau eu diogelwch, yn opsiwn ymarferol. Fe wnaethom egluro yn ein papur ymgynghori mai barn yr Awdurdod Glo yw nad yw cael gwared ar domen lo yn llwyr yn y rhan fwyaf o achosion yn opsiwn realistig.<sup>16</sup> Nid chynigwyd i ni unrhyw resymau dros gymryd safbwynt gwahanol.
- 2.25 Yn unol â hynny, rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.

### Argymhelliad 3.

- 2.26 Rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.

- 2.27 Bydd gweddill y bennod hon yn gwerthuso ymatebion i gwestiynau ynghylch ffurf a dyletswyddau'r awdurdod goruchwyllo newydd.

## CORFF SY'N BODOLI'N BAROD NEU GORFF WEDI EI GREU O'R NEWYDD?

### Cwestiwn Ymgynghori 6: Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar p'un a ddylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff sydd eisoes yn bodoli neu yn gorff a grëir o'r newydd.

- 2.28 Atebodd pedwar deg saith o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 20 (43%) yn ffafrio corff newydd, a 18 (38%) yn ffafrio corff sy'n bodoli'n barod. O'r rheini a oedd yn ffafrio corff sy'n bodoli eisoes, dewisodd 14 (78%) yr Awdurdod Glo, 1 (6%) Cyfoeth Naturiol Cymru ac 1 (6%) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd y ddau ymatebydd arall yn awgrymu bod yr Awdurdod Glo a Chyfoeth Naturiol Cymru yr un mor ffafriol, neu'n cynnig cyfuniad o'r ddau. Gwnaeth naw ymatebydd (19%) sylwadau ond nid oeddent yn mynegi ffafriaeth naill ai tuag at gorff newydd neu gorff sy'n bodoli eisoes.
- 2.29 Gyda'r ymatebion wedi'u rhannu mor gyfartal, mae'n bwysig edrych ar y rhesymau a fynegir dros y dewisiadau hyn.

### Corff sy'n bodoli eisoes

- 2.30 Roedd y rhesymau dros ffafrio corff sy'n bodoli eisoes yn canolbwyntio ar y gallu i ddarparu gwybodaeth arbenigol, yn enwedig o ran archwilio a chynnal tomennydd, a systemau sy'n bodoli eisoes. Soniodd rhai ymatebwyr am arbedion cost posibl. Credai'r Athro Bob Lee y byddai creu corff newydd yn "dirymu yr egwyddor o integreiddio". Roedd llawer o'r rheini a fynegodd y safbwyntiau hyn, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a llawer o awdurdodau lleol, hefyd wedi mynegi eu bod yn

<sup>16</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 8.25.

ffafrio'r Awdurdod Glo i weithredu fel yr awdurdod goruchwylio. Atebodd Merthyr Tudful, er enghraifft:

Y sefydliad mwyaf synhwyrol ac amlwg fyddai'r Awdurdod Glo i fod yn awdurdod goruchwyliol. Mae ganddynt eisoes wybodaeth arbenigol a systemau presennol ar waith y gellid eu datblygu ymhellach i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol.

- 2.31 Roedd Dr Peter Brabham o blaid yr Awdurdod Glo, ond credai y byddai angen i'w swyddogaethau mewn perthynas â thomennydd glo yng Nghymru fod mewn "adran gwbl ar wahân wedi'i chreu o'r newydd".
- 2.32 Nododd rhai sefydliadau a oedd o blaid yr Awdurdod Glo y gallai fod anawsterau gyda statws yr Awdurdod Glo fel corff ar gyfer y DU gyfan. Nododd sawl un, pe bai'r Awdurdod Glo yn ymgymryd â'r rôl, y byddai arnynt angen swyddfa yng Nghymru ac y byddai angen iddynt fod yn atebol i Lywodraeth Cymru. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) (a Phen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chastell-nedd Port Talbot yn cydnabod efallai na fyddai statws statudol yr Awdurdod Glo yn caniatáu iddo ymgymryd â'r rôl. Awgrymodd CLILC, petai hyn yn digwydd, y gallai Llywodraeth Cymru sefydlu Awdurdod Glo yng Nghymru, gyda chysylltiadau â'r Awdurdod Glo presennol, pe bai ganddi ddigon o bwerau datganoledig i ganiatáu iddo wneud hynny.<sup>17</sup>
- 2.33 Nododd Network Rail, petai cynlluniau yn y dyfodol i ehangu'r drefn y tu hwnt i Gymru, "byddai'n gwneud cyflwyno'r drefn i'r DU ehangach yn symlach yn y dyfodol" pe bai'r Awdurdod Glo yn cael y dasg o gyflawni'r rôl.
- 2.34 Awgrymodd rhai rôl a rennir rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo, er mwyn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd yr Awdurdod Glo a safle Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn seilwaith Cymru. Dywedodd yr Athro Bob Lee:

Mae'n bosibl y bydd lle i gyd-gyfrifoldeb, gyda'r Awdurdod Glo yn ymgymryd â chyfrifoldebau dros lunio cofrestrau, gan gynnwys cynlluniau rheoli ac asesu risg, a Chyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ar drywydd materion gorfodi (gan gynnwys cwblhau a goruchwylio cytundebau cynnal a chadw).

- 2.35 Roedd yr Athro Lee yn derbyn bod anfantais bosibl i'r dull hwn o ran y gallai gosod dyletswydd gorfodi mewn perthynas â thomennydd glo greu tensiynau â dyletswyddau gorfodi eraill Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoli gwastraff a dŵr, bioamrywiaeth a choedwigaeth. Ond nododd y byddai angen cysoni'r tensiynau hyn p'un a fyddai CNC neu gorff ar wahân yn gyfrifol am orfodaeth.
- 2.36 Nododd rhai ymatebwyr y gwrthdaro posibl rhwng buddiannau allai godi yn achos yr Awdurdod Glo a Chyfoeth Naturiol Cymru fel rheolwyr a pherchnogion tomennydd sbwriel. Dywedodd yr Athro Lee:

Mae gwrthdaro o'r fath yn llai na delfrydol ond nid yw'n gwbl anhysbys ym maes rheoleiddio (er enghraifft dyletswyddau iechyd yr amgylchedd a dyletswyddau

---

<sup>17</sup> Nododd yr ymateb fod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rolau tebyg yn y gorffennol, er enghraifft trwyddedu morol cyn i hyn gael ei drosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru.

niwsans statudol mewn perthynas â thai sector cyhoeddus neu bwerau galw i mewn o ran cynllunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol lle mae buddiant clir gan lywodraeth ganolog mewn safle).

2.37 Awgrymodd un ymatebydd, Keith Bush CF, mai CNC oedd y corff mwyaf priodol, a chynigiodd eraill ei fod yn ddewis amgen addas i'r Awdurdod Glo. Y prif reswm a roddwyd i gefnogi'r farn hon oedd rôl bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr awdurdod gorfodi ar gyfer cronfeydd dŵr o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.<sup>18</sup> Roedd Merthyr Tudful yn gefnogol i Gyfoeth Naturiol Cymru fel corff amgen, ond nododd y byddai'r rôl yn fwy heriol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan nad oedd ganddynt systemau presennol na staff profiadol.

2.38 Roedd Arolwg Daearegol Prydain yn credu bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn briodol ar gyfer y rôl:

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yng Nghymru rôl reoleiddio, gyda hanes o ymwneud â mwyngloddiau, deall risg a gweithio ar y cyd â phartneriaid – yn amlwg yn yr achos hwn, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol, yn ogystal ag Arolwg Daearegol Prydain mewn rôl ategol.

2.39 I'r gwrthwyneb, roedd ICE Cymru yn credu na fyddai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn addas, gan y byddai cwmpas cyfrifoldebau'r awdurdod goruchwyllo yn ymestyn y tu hwnt i'w gylch gwaith, er enghraifft mewn materion amgylcheddol.

### Corff newydd

2.40 Roedd grŵp ychydig yn fwy o ymatebwyr o blaid corff newydd yn hytrach na chorff presennol. Roedd llawer o'r ymatebion yn pwysleisio'r manteision o fod yn ddiuedd ac yn dryloyw y gallai corff newydd eu cynnig. Credai'r Athro David Petley "na fyddai gan gyrrff presennol fanteision sefydliad dalen lân sydd heb hanes cymhleth o reoleiddio a rheoli tomennydd". Roedd Howard Siddle yn cefnogi corff newydd sy'n annibynnol ar yr holl berchnogion tomennydd, gan eithrio'r Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Yn ei farn ef, ni fyddai gan yr un awdurdod presennol yr wybodaeth, y profiad na'r adnoddau i ymgymryd â'r rôl. Roedd ICE Cymru yn ffafrio'r opsiwn hwn fel ffordd o sicrhau bod yr awdurdod goruchwyllo yn rhydd o unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Soniodd Stephen Smith hefyd am bwysigrwydd osgoi awdurdod sy'n gweithredu fel "potsiwr a chiper".

2.41 Roedd Jacobs yn ffafrio corff newydd, ond pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o wybodaeth a phrofiad yr Awdurdod Glo.

2.42 Roedd Sir Fynwy o blaid yr Awdurdod Glo, ond pe na bai'n gallu ymgymryd â'r rôl, byddai corff newydd yn well, gan fod "cyrff presennol fel awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn annhebygol iawn o fod ag adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol i weithredu fel awdurdod goruchwyllo, naill ai'n unigol neu ar y cyd". Roedd Wrecsam yn yr un sefyllfa, gan nodi bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru arbenigedd mewn llygredd dŵr a draenio o bosibl, ond nid o ran sefydlogrwydd y llethrau na chloddio.

---

<sup>18</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.7.



- 2.43 Thema arall yn yr ymatebion oedd yr angen i sicrhau nad oedd sylw'r awdurdod yn cael ei wanhau gan nifer o gyfrifoldebau. Dywedodd Steve Harford: "Byddai ychwanegu'r cyfrifoldebau hyn ar ysgwyddau corff presennol yn lleihau ei effeithiolrwydd a gallai arwain at leihau'r ffocws ar domennydd".
- 2.44 Cydnabuwyd mewn ymatebion y byddai integreiddio awdurdod newydd gydag awdurdodau sy'n gweithio mewn meysydd cysylltiedig, megis diogelu'r amgylchedd, yn bwysig. Mae hyn yn unol â'r gofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ystyried sut y gallai amcanion corff cyhoeddus effeithio ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Pwysleisiodd rhai oedd yn ffafrio corff newydd na ddylai hyn ddiystyru defnyddio arbenigedd y rhai a oedd yn ymwneud yn flaenorol â sefydliadau eraill. Tynnodd Kim Moreton sylw at bwysigrwydd meithrin perthnasoedd traws-ddisgyblaethol, er enghraifft gydag awdurdodau lleol, rhanddeiliaid amgylcheddol a Network Rail. Awgrymodd Stephen Smith y gallai'r Awdurdod Glo ddarparu canllawiau ar safonau i'w defnyddio, ac mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru arbenigedd mewn diogelwch cyhoeddus ac amgylcheddol.

### Meini prawf eraill

- 2.45 Roedd grŵp llai o ymatebwyr o'r farn nad oedd ots a oedd corff newydd neu bresennol yn ymgymryd â'r rôl, cyn belled â bod y corff yn gallu bodloni rhai meini prawf eraill, Megis strwythur priodol, sgiliau a phrofiad angenrheidiol, annibyniaeth, cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac adnoddau digonol. Fel y dywedodd CLA Cymru, "mae angen i'r awdurdod gael yr holl arfau i wneud ei waith o dan yr un to".
- 2.46 Rydym yn trafod yr ymatebion uchod ynghyd ag ymatebion i'r cwestiwn ymgynghori nesaf. Gofynnodd hyn, pe dylid sefydlu corff newydd, ar ba ffurf y dylai fod.

### Ar ba ffurf y dylai corff newydd fod?

**Cwestiwn Ymgynghori 7: Os sefydlir corff newydd, ar ba ffurf ddylai'r corff newydd fod? A ddylai, er enghraifft, fod yn gorff cyhoeddus canolog, yn gyd-bwyllgor corfforaethol o awdurdodau lleol o dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, neu yn rhywbeth arall?**<sup>19</sup>

- 2.47 O'r 45 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 26 (57%) yn ffafrio corff cyhoeddus canolog, ac roedd 2 (4%) yn ffafrio cydbwyllgor corfforaethol. Roedd gweddill yr ymatebion yn awgrymu ffurfiau neu feini prawf eraill nad oeddent yn cyfateb yn union i'r ddau gategori hyn, ond mewn rhai achosion yn cynnwys elfennau o'r naill neu'r llall.

### Rhesymau dros ffafrio corff canolog

- 2.48 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod corff cyhoeddus canolog yn cynnig prosesau syml a chysondeb ar draws Cymru gyfan. Credai CLA Cymru y byddai hyn yn hybu effeithlonrwydd drwy osgoi sawl haen o fiwrocratiaeth. Ystyriwyd hefyd bod corff canolog yn gallu cydweithio'n well â chyrrff cyhoeddus eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru a galw ar yr arbenigedd a gynigir gan y cyrff hyn. Roedd Wrecsam, er enghraifft, yn

---

<sup>19</sup> Cafodd teitl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei roi mewn camgymeriad fel Deddf Llywodraeth Leol a Chynllunio (Cymru) yng nghwestiwn 7 yr ymgynghoriad yn ein papur ymgynghori.

credu y byddai un corff cyhoeddus yn cefnogi partneriaeth fwy effeithiol gyda rheoleiddwyr cenedlaethol eraill ac yn lleihau anghysondebau o ran gorfodi.

- 2.49 Cynigiodd rhai ymatebwyr opsiynau ar gyfer corff canolog. Credai Stephen Smith y gallai uned yn Llywodraeth Cymru weithio'n dda. Byddai'r manteision yn cynnwys atebolrwydd uniongyrchol i Weinidogion:

Gallai hyn fod yn debyg i gyn unedau adfer tir Swyddfa Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, a oedd â rôl dechnegol a rheolaethol hollbwysig o ran adfer tir yng Nghymru, gan gynnwys gofynion cyllidebol.

- 2.50 Fel dewis arall, awgrymodd ddull gweithredu "hyd braich" a fyddai'n cael ei ddarparu drwy gorff fyddai'n cael ei reoli gan Fwrdd "sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff rheoleiddio presennol wedi'u cefnogi gan arbenigedd rheoli / technegol allanol (er enghraifft gan fusnesau neu brifysgolion)". Dyma'r model a ffafriwyd hefyd gan Steve Harford, a oedd yn credu y byddai perthynas hyd braich â Llywodraeth Cymru yn rhoi hyblygrwydd gweithredol i'r sefydliad. Gallai Bwrdd Cyfarwyddwyr annibynnol a benodid gan Lywodraeth Cymru roi cyngor ac arweiniad i dîm rheoli'r sefydliad.
- 2.51 Roedd Steve Harford hefyd yn ystyried yr opsiwn o sefydlu comisiynydd, ond nododd na fyddai gan y sefydliad, fel corfforaeth undyn, gefnogaeth bwrdd cyfarwyddwyr.
- 2.52 Roedd y rhesymau dros ffafrio corff cyhoeddus canolog yn cynnwys rhesymau pam nad ystyriwyd bod cydbwyllgor corfforaethol yn addas. Credai ICE Cymru y byddai unrhyw ddull gweithredu rhanbarthol yn llai effeithiol:

Byddai cyd-bwyllgorau corfforaethol yn rhanbarthol ac, o'r herwydd, os ystyrir eu cyfrifoldebau daearyddol, byddai angen mwy nag un awdurdod goruchwyllo, ac ni argymhellir hyn. Gan fod cyd-bwyllgorau corfforaethol yn fecanwaith statudol newydd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol gan lywodraeth leol, byddai hyn hefyd yn codi mater gwrthdaro rhwng buddiannau gyda pherchennog tomennydd awdurdod lleol. Dylid datblygu a chynnal llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng yr awdurdod goruchwyllo, y llywodraeth, cyd-bwyllgorau corfforaethol, awdurdodau lleol a phartïon eraill â buddiant.

- 2.53 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn bryderus ynghylch dull gweithredu rhanbarthol, gan ofni datblygu amrywiadau rhanbarthol a pharhau â'r baich anghymesur ar awdurdodau lleol gyda nifer fawr o domennydd yn eu hardaloedd. Roedd yn gweld cynrychiolaeth o lywodraeth leol ar fwrdd y corff goruchwyllo newydd fel ffordd o sicrhau perthynas dda rhwng yr awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol.
- 2.54 Credai Keith Bush CF mai dim ond corff cyhoeddus canolog allai ddatrys yr anawsterau a wynebwr gan awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaeth bresennol o ran diogelwch tomennydd. Er y byddai trosglwyddo'r baich i bwyllgorau corfforaethol rhanbarthol yn "lliniaru'r anhawster, ni fyddai'n ei ddatrys".

### **Rhesymau dros ffafrio cydbwyllgor corfforedig**

- 2.55 Huw Williams ddarparodd y datganiad cryfaf i gefnogi cydbwyllgor corfforaethol, gan weld y crynhoad o domennydd glo anweithredol mewn nifer fach o awdurdodau fel rheswm dros fabwysiadu'r strwythur. Rhagwelodd:

- (1) y dylai'r awdurdodau sydd â nifer sylweddol o domennydd ffurfio cydbwyllgor corfforaethol;
- (2) dylai awdurdodau lleol eraill Cymru ymrwymo i gytundebau asiantaeth gyda'r Cyd-bwyllgor i'w galluogi i ddefnyddio arbenigedd staff y Pwyllgor (y rhagwelf y bydd yn dod yn Ganolfan Ragoriaeth) wrth lunio cofrestrau ar gyfer eu hardaloedd a delio â materion diogelwch tomennydd sy'n codi yn eu hardaloedd; a
- (3) efallai y bydd angen pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun statudol i ategu'r trefniant hwn i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn ymuno â'r trefniadau hyn.

### Cynigion eraill

2.56 Mae awgrymiadau eraill yn cynnwys mabwysiadu dull gweithredu tri rhanbarth ar gyfer de, canolbarth a gogledd Cymru (Owen Jordan). Roedd rhai o'r syniadau hyn yn gydnaws â'r cysyniad o gorff cyhoeddus canolog. Awgrymodd Richard Arnold gorff canolog yn gweithredu gyda phresenoldeb yn y rhanbarthau, er enghraifft drwy ddefnyddio swyddfeydd, gweithdai a chyfarpar lleol. Credai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y dylai'r awdurdod fod yn gorff ar gyfer y DU gyfan, ac y dylid osgoi cynnwys llywodraeth leol gan y byddai hyn yn achosi risg o wleidyddoli'r drefn. Awgrymodd Dr Peter Brabham gorff gydag aelodaeth eang a chynhwysol: "Awdurdod Corfforaethol, awdurdodau lleol, Arolwg Daearegol Prydain, peirianwyr siartredig, daearegwyr siartredig ac arbenigwyr eraill ym maes rheoli tomennydd ac o bosibl haneswyr mwyngloddiau".

### Trafodaeth

- 2.57 Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng corff newydd neu gorff sy'n bodoli'n barod, gyda mwyafrif bach o blaid corff cwbl newydd. Rhoddyd rhesymau da dros y ddwy farn, ond, ar y cyfan, credwn fod y dadleuon o blaid corff newydd yn gryfach.
- 2.58 Os defnyddir corff sy'n bodoli eisoes, yr Awdurdod Glo fyddai'r ymgeisydd cryfaf. Ond nid ydym yn credu y byddai dyletswyddau arfaethedig yr awdurdod goruchwylio yn cyd-fynd yn dda â strwythur statudol yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod Glo yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i chreu gan Ddeddf Diwydiant Glo 1994. Nid yw ei swyddogaethau ar hyn o bryd yn cynnwys diogelwch tomennydd.<sup>20</sup> Mae dan reolaeth un o adrannau Llywodraeth y DU, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac mae ganddo bŵer cyfarwyddo eang ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yn ogystal â phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu ei ddyletswyddau ariannol. Bydd rhaid iddo gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol.<sup>21</sup> Pe bai'r Awdurdod Glo yn ymgymryd â rôl yr awdurdod goruchwylio, byddai angen i swyddogaethau newydd gael eu hatodi i'r deddfwriaeth er mwyn darparu swyddogaeth newydd o ran diogelwch tomennydd glo yng Nghymru. Bydd rhaid i'r deddfwriaeth darparu ar gyfer atebolrwydd i

<sup>20</sup> Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u nodi yn Neddf Diwydiant Glo 1994, adran 1. Maent yn cynnwys dal, rheoli a gwaredu buddiant neu hawliau mewn glo heb ei gloddio, trwyddedu gweithrediadau cloddio glo, a swyddogaethau mewn perthynas ag ymsuddiant cysylltiedig â chloddio glo a materion eraill sy'n gysylltiedig â gweithrediadau glo brig neu weithrediadau cloddio glo eraill.

<sup>21</sup> Gweler, er enghraifft, Deddf Diwydiant Glo 1994, adrannau 6, 60 ac atodlen 1, Rhan II.

Weinidogion Cymru na fyddai'n cydweddu'n dda o fewn y fframwaith statudol presennol.

2.59 Yn ogystal, ceir materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd. Mae'r Awdurdod Glo yn "awdurdod a gedwir" o dan atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae paragraff 8 yr atodlen yn darparu bod angen cydsyniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU ar gyfer darpariaeth gan y Senedd i:

- (1) roi neu osod swyddogaeth ar awdurdod a gedwir;
- (2) addasu cyfansoddiad awdurdod a gedwir; neu
- (3) rhoi, addasu neu dileu swyddogaeth sy'n benodol arferadwy mewn perthynas ag awdurdod a gedwir.<sup>22</sup>

2.60 Mae is-baragraff 8(5) yn pennu mai'r "gweinidog priodol" i roi cydsyniad yw'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n debygol mai Ysgrifennydd Gwladol Cymru fyddai hynny yn ymarferol.<sup>23</sup> Gallai Llywodraeth Cymru benderfynu gofyn am gydsyniad Llywodraeth y DU i addasu swyddogaethau'r Awdurdod Glo. Ni allwn weld y fantais o geisio trefniant o'r fath o ran sefydlu awdurdod sy'n sefyll drosto ei hun yng Nghymru, ac eithrio o ran cael gafael ar sgiliau arbenigol, ac o bosibl, arbed costau. Petai angen mynediad i sgiliau, dull symlach fyddai i'r awdurdod newydd contractio gyda'r Awdurdod Glo i ddarparu gwasanaethau iddo. Rydym hefyd yn amheus ynghylch y tebygolrwydd o arbed costau, gan y byddai angen i'r Awdurdod Glo ffurfio is-adran ar wahân i ymgymryd â'r gwaith.

2.61 Corff arfaethedig arall yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Yn yr un modd, mae hwn yn awdurdod a gedwir, ac felly byddai'r un problemau'n codi o dan atodlen 7B. Rydym hefyd yn cytuno nad yw ystod swyddogaethau presennol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ddigon eang i gwmpasu rôl diogelwch tomennydd gan fod y rhain yn ymwneud yn bennaf â diogelwch yn y gweithle.

2.62 Rydym wedi ystyried pryderon ynghylch gwrthdaro posibl rhwng buddiannau pe bai awdurdod cyhoeddus sy'n berchen ar domen yn cael rôl yr awdurdod goruchwylio (mae'r Awdurdod Glo a Chyfoeth Naturiol Cymru ill dau yn berchnogion/rheolwyr tomennydd).<sup>24</sup> Nid ydym yn gweld rôl ddeuol fel problem ynddi ei hun. O dan y drefn bresennol, mae awdurdodau lleol wedi rheoli eu tomennydd eu hunain yn ogystal â thomennydd mewn perchnogaeth arall. Pe bai'r rôl oruchwylio newydd, fel y mae rhai ymatebwyr wedi'i awgrymu, yn cael ei rhoi i is-adran newydd o Gyfoeth Naturiol

---

<sup>22</sup> Mae eithriadau i'r rheol gyffredinol hon. Caiff y Senedd, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, roi, gosod, addasu a dileu swyddogaethau datganoledig rhai awdurdodau a gedwir sy'n arfer swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau a gedwir: gweler Deddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 7B, paragraffau 9 a 10.

<sup>23</sup> Nodyn Canllawiau ar Ddatganoli Swyddfa Cymru: Is-ddeddfwriaeth Seneddola Chynulliad sy'n Effeithio ar Gymru, para 27, diweddarwyd ddiwethaf Medi 2020, <https://www.gov.uk/guidance/guidance-on-devolution/devolved-deponsibilities>.

<sup>24</sup> Dyma'r tomennydd y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt ar yr Ystâd Coetiroedd. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 3.1 a 3.31.

Cymru, byddai'r awdurdod yn yr un sefyllfa i bob pwrpas o ran ei domennydd ei hun ag y mae awdurdodau lleol yn awr.

- 2.63 Fodd bynnag, mae swyddogaethau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru ychydig yn wahanol i'r rôl y byddai angen i awdurdod goruchwyllo ei chwarae o ran sicrhau diogelwch tomennydd glo. Ei brif swyddogaethau presennol yw rheoli adnoddau naturiol a diogelu'r amgylchedd – er bod rhywfaint o orgyffwrdd â swyddogaethau rheoleiddio, er enghraifft mewn perthynas â chronfeydd dŵr. Byddai'n bosibl i rôl yr awdurdod goruchwyllo gael ei chyflawni gan is-adran newydd o Gyfoeth Naturiol Cymru; rydym yn gadael i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw hyn yn opsiwn ymarferol. Os mai dyma'r dull a fabwysiedir, bydd yn hanfodol rhoi hunaniaeth glir i'r is-adran fel yr Awdurdod Diogelwch Tomennydd yn hytrach nag, er enghraifft, fel "cangen ddiogelwch tomennydd" Cyfoeth Naturiol Cymru. Un model posibl fyddai i is-adran newydd Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu fel yr awdurdod gorfodi, ond rhoi contract allanol ar gyfer diogelwch tomennydd i'r Awdurdod Glo.
- 2.64 Credwn ei bod yn hanfodol, pa gorff bynnag sy'n ymgymryd â'r rôl, ei fod yn gweithredu fel endid statudol ar wahân. Yn ein barn ni, byddai'n fwy syml cyflawni hyn drwy greu corff cwbl newydd sy'n sefyll ar ei draed ei hun. Am y rhesymau hyn, rydym o blaid creu corff newydd.

#### **Argymhelliad 4.**

2.65 Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff newydd.

- 2.66 Os bydd corff newydd yn cael ei sefydlu fel yr awdurdod goruchwyllo, mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth y mwyaf i gorff cyhoeddus canolog, er bod lleiafrif cryf o blaid dull gweithredu rhanbarthol a oedd yn cynnwys un neu ragor o gyd-bwyllgorau corfforaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn gyffredinol, rydym wedi cael ein darbwylllo mai corff cyhoeddus canolog sy'n cynnig y dull mwyaf syml a chyson.
- 2.67 Mae dwy ffordd y gellid sefydlu cydbwyllgor corfforaethol o dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. O dan adran 70, caiff dau neu ragor o awdurdodau wneud cais i Weinidogion Cymru i wneud Rheoliadau sy'n creu cydbwyllgor corfforaethol i gyflawni un ai swyddogaeth bresennol sydd ganddynt neu "swyddogaeth llesiant economaidd" newydd a grëir gan y Ddeddf. Caiff Gweinidogion Cymru greu cydbwyllgor corfforaethol o dan adran 74 y Ddeddf heb dderbyn cais o'r fath, ond dim ond mewn perthynas ag ystod fwy cyfyng o swyddogaethau awdurdodau lleol: paratoi cynllun datblygu strategol neu'r swyddogaeth llesiant economaidd.
- 2.68 Mae diogelwch tomennydd glo yn un o swyddogaethau presennol awdurdodau lleol, o dan Ran 2 Deddf 1969, felly yn ddamcaniaethol gallai Gweinidogion Cymru, os gofynnir iddynt, greu cydbwyllgor corfforaethol i gyflawni'r swyddogaeth. Ond diben y gyfundrefn statudol newydd fyddai disodli Rhan 2 â deddfwriaeth newydd fyddai'n creu dyletswyddau gwell mewn perthynas â diogelwch tomennydd. Byddai'r camau deddfwriaethol sydd eu hangen i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol ym maes

diogelwch tomennydd glo yn feichus. Yn gyntaf, byddai angen deddfwriaeth i ddiwygio swyddogaeth diogelwch tomennydd glo awdurdodau lleol. Yn ail, yn absenoldeb cais gan awdurdodau lleol i'r swyddogaeth gael ei chyflawni drwy un neu ragor o gyd-bwyllgorau corfforaethol, byddai angen diwygio adran 74 Deddf 2021 i gwmpasu swyddogaeth diogelwch tomennydd glo newydd. Yn olaf, byddai angen Rheoliadau o dan y Ddeddf er mwyn creu pwyllgor neu bwyllgorau newydd. Byddai'n haws creu corff yn uniongyrchol mewn deddfwriaeth sylfaenol.

- 2.69 Mae gennym amheuon eraill ynghylch defnyddio cyd-bwyllgorau corfforedig yn y cyddestun hwn. Cyflwynodd ymatebwyr resymau cryf o blaid canoli. Yr ydym yn pryderu y gallai dull rhanbarthol ddatblygu mewn modd anghybwys ledled Cymru oherwydd y dosbarthiad anwastad iawn o domennydd glo. Pe bai swyddogaethau'r awdurdodau hynny sydd â'r niferoedd uchaf o domennydd yn unig yn cael eu trosglwyddo i gyd-bwyllgor corfforaethol, gallai tensiynau ac anghydraddoldebau ddatblygu, a gallai ystyriaethau polisi llywodraeth leol lesteirio datblygu strategaeth gyson o ran diogelwch tomennydd. Hyd yn oed petai swyddogaethau tomennydd glo'r holl awdurdodau lleol yn cael eu trosglwyddo i gyd-bwyllgor corfforaethol, ni allwn weld dim mantais dros greu asiantaeth statudol ganolog. Gallai corff canolog gael trefniadau llywodraethu pwrpasol, yn hytrach na bod yn bwyllgor sy'n cynnwys uwch aelodau gweithredol yr holl awdurdodau lleol.<sup>25</sup>
- 2.70 Corff cyhoeddus canolog hefyd fyddai'r dull mwyaf priodol pe bai cylch gwaith yr awdurdod goruchwyllo newydd yn cael ei ymestyn i fathau eraill o wastraff mwyngloddio a chwarela.<sup>26</sup> Er bod tomennydd glo anweithredol yn fwyaf cyffredin mewn ardaloedd yn Ne Cymru, mae mathau eraill o wastraff wedi eu gwasgaru mewn gwahanol grynodiadau ledled Cymru.
- 2.71 Soniodd ymatebwyr am nifer o opsiynau ynghylch ar pa ffurf y dylai corff canolog fod, gan gynnwys creu uned yn Llywodraeth Cymru, neu gorff hyd braich gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae rhywfaint o arweiniad ar sefydlu cyrff cyhoeddus newydd yng Nghymru ar gael yn y ddogfen "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".<sup>27</sup> Mae hon yn disgrifio dewis o fodolau, gan roi cyngor ynghylch pryd y byddai model penodol yn briodol, yn ogystal ag egluro bod y modelau'n hyblyg ac y gellir eu haddasu.<sup>28</sup>
- 2.72 Mae modelau posibl yn cynnig gwahanol raddau o annibyniaeth. Fel arfer, mae asiantaeth yn rhan o adran y llywodraeth sydd wedi cael ei gwahanu er mwyn canolbwyntio ar swyddogaethau gweinyddol penodol. Mae'n cael ei arwain fel arfer gan Brif Swyddog Gweithredol. Mae Gweinidogion yn cadw rheolaeth dros gyfeiriad yr asiantaeth ac yn gallu gwneud penderfyniadau allweddol.<sup>29</sup> I'r gwrthwyneb, mae corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, y cyfeirir ato fel arfer y tu allan i Gymru fel corff cyhoeddus anadrannol, yn gweithredu gyda rhywfaint o annibyniaeth ac nid yw o dan

---

<sup>25</sup> Deddf Llywodraeth ac Etholiadau Lleol (Cymru) 2021, adran 77.

<sup>26</sup> Trafodir y posibilwydd o ymestyn y drefn reoleiddio i domennydd nad ydynt yn rhai glo ym mhennod 12.

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru, *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* (2016), WG24091, 2016  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf>

<sup>28</sup> Uchod, paragraff 7.2 ac Atodiad 7.

<sup>29</sup> Uchod, Atodiad 7.

reolaeth Gweinidogion o ddydd i ddydd. Er hynny, Gweinidogion Cymru sy'n atebol yn y pen draw i Senedd Cymru am eu heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Gall cyrff o'r fath fod ar sawl ffurf gyfreithiol, ac fe'u sefydlir gan ddeddfwriaeth fel arfer.<sup>30</sup> Mae CNC yn enghraifft o gorff a noddir. Rydym yn gadael i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y ffurf briodol ar gyfer y corff canolog newydd.<sup>31</sup>

- 2.73 Rydym yn argymhell, yn unol â hynny, os bydd awdurdod goruchwyllo ar ffurf corff newydd, y dylai hwn fod yn gorff cyhoeddus canolog.

#### **Argymhelliad 5.**

- 2.74 Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff cyhoeddus canolog.

### **DYLETSWYDD YR AWDURDOD GORUCHWYLLO I SICRHAU DIOGELWCH TOMENNYDD GLO SEGUR**

- 2.75 Roedd ein cwestiwn ymgynghori nesaf yn symud oddi wrth ffurf yr awdurdod goruchwyllo ac yn ystyried sut y dylid diffinio ei gylch gwaith. Gofynnwyd a ddylai dyletswydd yr awdurdod i sicrhau diogelwch tomennydd gael ei fframio mewn termau cyffredinol, neu fel dyletswydd sydd wedi'i chyfyngu i risgiau penodol.

#### **Cwestiwn Ymgynghori 8: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau diogelwch tomennydd fod yn un gyffredinol, yn hytrach nag un a gyfyngir i risgiau penodol. A ydych yn cytuno?**

- 2.76 O'r 48 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 39 (81%) yn cytuno â'n cynnig y dylai'r ddyletswydd i sicrhau diogelwch gael ei mynegi mewn termau cyffredinol. Roedd pedwar ymatebydd (8%) yn anghytuno, ac nid oedd y pump arall yn cytuno nac yn anghytuno ac mewn rhai achosion yn gwneud awgrymiadau amgen.

#### **Cefnogaeth ar gyfer dyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch**

- 2.77 Rhoddodd ymatebwyr amrywiaeth o resymau dros gefnogi dyletswydd gyffredinol, yn amrywio o fod yn fwy egwyddorol i fod yn fwy pragmatig. Dywedodd CLA Cymru mai rôl yr awdurdod goruchwyllo fyddai "gwarchod y cyhoedd yng Nghymru a gallu gwneud beth bynnag sy'n ofynnol i sicrhau nad oes risgiau'n gysylltiedig â'r hen domennydd glo". Roedd Jane Iwanicki o'r farn bod "synnwyr mewn mabwysiadu dull peirianyddol a rheoli cyfannol ar gyfer risgiau/safleoedd peryglus a nodwyd yn hytrach na delio ag un agwedd yn unig a gadael i reoleiddwyr eraill ystyried os, pryd a sut y maent yn ymyrryd".
- 2.78 Credai Huw Williams mai'r unig beth y dylai fod ei angen er mwyn i ddyletswydd fodoli yw bodolaeth y gwastraff:

---

<sup>30</sup> Uchod, paragraff 7.6.5

<sup>31</sup> Buom yn trafod asiantaethau gweithredol, cyrff cyhoeddus anadrannol a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ein hadroddiad diweddar ar Dribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2021) Comisiwn y Gyfraith Rhif 403.

Pan fydd gwastraff mwyngloddio neu chwarela'n bodoli ac yn cael ei ddyddodi ar yr wyneb, dylid ystyried ei fod yn peri risg bosibl barhaol sy'n gofyn am ei reoli. Dylai'r diffiniad adlewyrchu hyn drwy fframio'r ddyletswydd sy'n ymwneud â gosod y deunydd ar yr wyneb, yn hytrach na manyleb o risgiau (sy'n hysbys ar hyn o bryd).

- 2.79 Pwysleisiodd ymatebwyr eraill yr angen am ddull hyblyg ac ystwyth i gyfiawnhau dyletswydd gyffredinol, gan fod risgiau'n gallu esblygu gydag amser. Byddai angen hyblygrwydd ar yr awdurdod i'w alluogi i fynd i'r afael â'r holl effeithiau posibl a achosir gan domennydd problemus. Fel y dywedodd Chris Seddon:

Bydd fframio dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo mewn ffordd gyffredinol yn galluogi'r sefydliad i addasu i beryglon nad oes modd eu rhagweld ac sy'n datblygu wrth domennydd gwaddol heneiddio, a bydd ein dealltwriaeth o'u goblygiadau'n newid dros amser.

- 2.80 Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai cyfyngu ar ddyletswydd i risgiau penodol greu bylchau anfwriadol ac arwain at anghydfodau. Dadleuodd yr Athro David Petley y gallai hyn arwain at "sefyllfa lle gellir herio gweithredoedd neu gyfarwyddiadau ar y sail nad ydynt yn cyd-fynd yn berffaith â risgiau penodol". Cytunodd Dŵr Cymru:

Os oes risgiau i gyflenwadau dŵr yfed a bod y mesurau lliniaru'n sensitif i amser, ni fyddai'n ddymunol gwastraffu amser wrth benderfynu a fyddai dyletswyddau penodol yr awdurdodau'n berthnasol neu a fyddai'n rhaid mynd ar drywydd partïon eraill.

- 2.81 Roedd Keith Bush CF yn cefnogi'r ddyletswydd arfaethedig, gan ei gyferbynnu â'r ddyletswydd bresennol o dan Ddeddf 1969 i amddiffyn aelodau'r cyhoedd rhag perygl oherwydd ansefydlogrwydd. Cyfeiriodd at y dystiolaeth, a gyflwynwyd yn ein papur ymgynghori, y gall y trothwy hwn ar gyfer ymyrryd "bod yn rhwystr i gynghorau weithredu am ei fod yn eu hagog i fyny i'r posibilrwydd o gael eu herio yn y llysoedd".

- 2.82 Credai Jacobs fod unigrywiaeth pob tomen, sy'n arwain at amrywiaeth o risgiau nad ydynt efallai yn gwbl amlwg, yn cyfiawnhau gosod dyletswydd gyffredinol:

Mae pob tomen yn unigryw ac er mwyn asesu tomen mae'n hanfodol deall y domen yn gyfannol ar sail cofnodion hanesyddol, lleoliad geomorffolegol/lleoliad daearegol/amodau tir (gan gynnwys priodweddau pridd a chreigiau)/amodau dŵr daear ac yn seiliedig ar ei chyflwr a'i hymddygiad presennol. Mae rhai dylanwadau ar sefydlogrwydd tomennydd yn llai amlwg, er enghraifft y straen a achoswyd gan gloddio yn y gorffennol. Drwy gyfyngu i risgiau penodol, mae perygl o fethu rhywbeth a allai fod yn bwysig iawn.

- 2.83 Rhoddodd Wrecsam rai enghreifftiau ymarferol o'u profiad o'r ffordd y gall y risgiau y mae tomennydd glo'n eu hachosi, yn ogystal ag ansefydlogrwydd, ryingweithio:

Enghreifftiau o risgiau eraill yw llygredd o halogiad tir, dŵr halogedig, allyriadau llwch a allai gynnwys gronynnau mân.... Gall mwg ac allyriadau hylosgi greu llygredd, a allai fod yn beryglus i drigolion cyfagos ac efallai na ellir gweithredu arnynt fel niwsans statudol oni bai fod safle'r domen yn safle diwydiannol, masnachol neu fusnes (nid yw'r rhan fwyaf yn safleoedd o'r fath). Mae'r ymatebydd yn ymwybodol o o leiaf un domen gwastraff glo sydd wedi hylosgi (ffynhonnell y



taniad yn anhysbys) sy'n achosi niwsans statudol i eiddo ar y domen ac o'i chwmpas – cyflwynwyd hysbysiad atal a gwnaed gwaith sylweddol.

Gall beiciau oddi ar y ffordd greu niwsans sŵn y mae'r drefn niwsans statudol yn delio ag ef, ond gall y rhain danseilio sefydlogrwydd, creu erydiad, llygredd dŵr.

- 2.84 Cytunodd Stephen Smith â chreu dyletswydd gyffredinol, ond credai y dylid llunio fframwaith i gynig arweiniad ar dasgau penodol i'r awdurdod.

### **Cefnogaeth i ddyletswydd fwy cyfyngedig sydd wedi'i chyfyngu i risgiau penodedig**

- 2.85 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai'r hyn y dylai gwaith yr awdurdod ganolbwyntio arno yw ansefydlogrwydd. Tynnodd Bob Leeming sylw at y ffaith mai ansefydlogrwydd tomennydd a sbardunodd y prosiect hwn. Dadleuodd Ove Arup a'i Bartneriaid fod peryglon eraill fel llygredd neu lifogydd yn dod o dan deddfwriaeth arall.
- 2.86 Credai Howard Siddle nad oedd digon o dystiolaeth wedi'i chyflwyno yn ein papur i gyfiawnhau cynnwys risgiau ar wahân i ansefydlogrwydd. Credai y dylid ond cynnwys materion diogelwch eraill lle mae'r risg yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth ddibynadwy, lle gellir casglu dystiolaeth o'r fath yn gost effeithiol, a lle nad yw'r perygl yn dod o dan y rheoliadau presennol. Nododd yn benodol y gallai fod gorgyffwrdd â swyddogaethau'r Awdurdod Glo mewn perthynas â monitro ac adfer llygredd o lofeydd. Rhoddodd yr enghraifft o broblem gollyngiadau "ocraidd" halogedig o ddŵr yn dod o fynedfeydd mwyngloddiau. Gall y rhain fod mewn ardaloedd tomennydd glo anweithredol. Nododd hefyd fod tanau tomennydd bellach yn llawer llai aml nag yn y gorffennol, a bod tanau diweddar wedi bod yn danau llystyfiant arwyneb yn hytrach na hylsogi digymell o dan yr wyneb.

### **Ymestyn y ddyletswydd y tu hwnt i ddiogelwch**

- 2.87 Roedd yr Athro Bob Lee yn ffafrio dyletswydd fwy cyffredinol yn unol â deddfwriaeth Cymru, gan y byddai hyn yn cyd-fynd yn dda â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ei farn ef, byddai hyn yn:
- cynnig rhywbeth ychydig yn fwy na sicrwydd o sefydlogrwydd y domen a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn hen gymunedau glofaol Cymru sy'n dal wedi eu creithio gan gau pyllau glo ar ôl cymaint o flynyddoedd.
- 2.88 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd am weld dyletswydd gyffredinol yn mynd y tu hwnt i ddiogelwch, gan ddadlau bod rhai tomennydd, er nad ydynt yn fygythiad i ddiogelwch, yn peri risg i'r amgylchedd. Yn eu barn nhw, dylai'r bygythiad amgylcheddol hwn fod yn rhan o gylch gwaith y ddyletswydd. Rhoddwyd ansawdd aer, hylsogi ac iechyd planhigion fel enghreifftiau. Roeddent hefyd o'r farn y dylai ystyriaethau ehangach o ran adennill neu ailgylchu tomennydd gwastraff fod dan reolaeth yr awdurdod, er gwaetha'r ffaith y gallai'r materion hyn godi mewn perthynas â thomennydd nad oeddent yn beryglus.<sup>32</sup>

---

<sup>32</sup> Trafodir adennill a defnyddiau ar gyfer deunyddiau tipio ymhellach ym mhennod 12.

## Gosod y brif ddyletswydd ar berchennog y domen

2.89 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chastell-nedd Port Talbot yn dadlau, yn y lle cyntaf, y dylai'r ddyletswydd i sicrhau diogelwch fod ar berchennog y domen. Yn eu barn nhw, ni ddylai'r awdurdod goruchwyllo ymyrryd dim ond pan fo angen oherwydd diffyg gweithredu ar ran y perchennog. Unwaith y bydd dyletswydd i weithredu'n disgyn ar yr awdurdod, byddai angen diffinio'r ddyletswydd hon, ond eu barn hwy oedd na ellid gwneud hyn heb bennu'r mathau o risg y disgwyli'd i'r awdurdod eu rheoli.

## Trafodaeth

- 2.90 Y tu hwnt i benderfyniad ynghylch a ddylid llunio cyfrifoldeb yr awdurdod goruchwyllo mewn termau cyffredinol neu benodol, mae'n anodd trafod dyletswyddau'r awdurdod goruchwyllo heb edrych yn fanwl ar y swyddogaethau y bydd angen eu cyflawni o dan ein fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig. Mae'r penodau canlynol yn edrych ar y swyddogaethau canlynol: llunio cofrestr tomennydd; dyletswydd i archwilio, llunio cynllun rheoli tomennydd a dosbarthu tomennydd; rhoi gorchmynion neu gytundebau cynnal a chadw tomennydd; a phŵer i ddynodi tomen fel un sydd angen ymyrraeth fwy trwyadl. Mae'r drafodaeth hon wedi'i chyfyngu i gwmpas y cyfrifoldeb cyffredinol.
- 2.91 Roedd yna gefnogaeth bron yn unfrydol i'n cynnig y dylai cyfrifoldeb yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau diogelwch tomennydd fod yn un gyffredinol, yn hytrach nag un a gyfyngir i risgiau penodol. Rydym yn cytuno bod hyn yn caniatáu dull mwy hyblyg sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Gall risgiau ddatblygu dros amser, a gallai rhestr benodol adael bylchau. Rydym hefyd o'r farn y dylid rhoi sylw i risgiau ar wahân i ansefydlogrwydd. Trafodir hyn isod ym mharagraffau 4.67 i 4.98 wrth ystyried ymatebion i gwestiynau 16 a 17 yr ymgynghoriad. Mae'n debygol mai ansefydlogrwydd yw'r risg fwyaf amlwg bob amser, ond mae tystiolaeth rhanddeiliaid yn y maes diogelwch mwyngloddio'n awgrymu y gallai risgiau eraill fodoli ac y gallent ryngweithio ag ansefydlogrwydd.
- 2.92 Rydym wedi ystyried y ddadl y dylai'r cyfrifoldeb am sicrhau diogelwch fod yn gyfrifoldeb ar y perchennog yn hytrach nag ar yr awdurdod goruchwyllo. Wrth gwrs, mae'n wir y gall presenoldeb tomennydd glo peryglus olygu bod gan y perchennog atebolrwydd sifil neu droseddol oherwydd darpariaeth statudol ac o dan y gyfraith gyffredin.<sup>33</sup> Yn ogystal, bydd ein cytundeb a'n pwerau rhoi gorchmynion a argymhellir yn galluogi'r awdurdod goruchwyllo i gadarnhau rhwymedigaethau cyfreithiol perchnogion drwy fynnu camau penodol ar eu rhan. Ond credwn fod yn rhaid i gyfrifoldeb statudol cyffredinol dros sicrhau diogelwch tomennydd fod yn gyfrifoldeb i'n hawdurdod statudol a argymhellir er mwyn cymell a hysbysu'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau. Byddai gadael cyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch gyda'r tiffeddianwr mewn perygl o barhau'r problemau a brofir gan awdurdodau lleol wrth arfer pwerau o dan Ddeddf 1969, lle mae awdurdodau wedi cael eu rhwystro rhag cymryd camau o dan y Ddeddf yn wyneb gwrthwynebiad tiffeddianwyr sy'n honni nad oes angen gwaith neu fod gwaith yn ormodol.<sup>34</sup> Mae cyfrifoldeb gyhoeddus i sicrhau diogelwch yn rhoi

---

<sup>33</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, pennod 6.

<sup>34</sup> Uchod, paragraffau 7.9 i 7.25.

rhesymeg glir i'r awdurdod dros ymyrryd, a gellir ategu hynny â fframwaith ar gyfer ei orfodi.

- 2.93 Mae'r mater hwn yn wahanol i'r cwestiwn a ddylai fod yn ofynnol i berchnogion ymgymryd â gweithrediadau ar y domen er mwyn diogelwch. Rydym yn trafod hyn isod mewn perthynas ag archwilio tomennydd, cytundebau a gorchmynion cynnal a chadw, a dynodi tomennydd risg uwch.<sup>35</sup>
- 2.94 Credwn hefyd y dylid cyfyngu cyfrifoldebau'r awdurdod i sicrhau diogelwch, yn hytrach na sicrhau manteision amgylcheddol a chyhoeddus ehangach. Mae hyn er mwyn eglurder, ac unwaith eto er mwyn sicrhau bod ei swyddogaeth diogelwch yn cael ei chyflawni'n effeithiol. Rydym yn trafod y posibilrwydd y gallai'r awdurdod goruchwyllo gyflawni rôl ychwanegol mewn perthynas ag adfer tomennydd ym mhennod olaf yr adroddiad hwn. Mae'n bosibl y gellid gwneud hyn heb ddarpariaeth deddfwriaethol ychwanegol, neu drwy ddarparu pwerau ychwanegol (yn hytrach na dyletswyddau) i ystyried manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach y tu hwnt i ddiogelwch.
- 2.95 Gellid drafftio'r ddyletswydd mewn nifer o ffyrdd; rydym yn gadael hyn i Gwnsler Deddfwriaethol. Yn ei hanfod, rydym yn rhagweld dyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i gyflawni ei swyddogaethau gyda golwg ar gyflawni pwrpas diogelwch tomennydd glo. Gellid llunio paralel â darpariaethau Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012,<sup>36</sup> Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013<sup>37</sup> a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n darparu ar gyfer dibenion, swyddogaethau a dyletswyddau CNC.
- 2.96 Rydym hefyd yn rhagweld, er bod hwn yn fater o ddrafftio deddfwriaethol unwaith eto, y dylai'r awdurdod goruchwyllo adrodd i Weinidogion Cymru ar adegau priodol. Gall hwn bod, er enghraifft, bob dwy flynedd, fel sy'n wir am Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.<sup>38</sup>
- 2.97 Am y rhesymau hynny, rydym yn cynnig y dylai dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau diogelwch tomennydd fod yn un gyffredinol, yn hytrach nag un a gyfyngir i risgiau penodol.

---

<sup>35</sup> Gweler penodau 4, 5 a 6 isod.

<sup>36</sup> SI 2012 Rhif 1903 (W 230).

<sup>37</sup> SI 2013 Rhif 755 (W 90).

<sup>38</sup> Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 3. Mae Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhagnodedig, etc.) (Cymru) SI 2016 Rhif 80 (W37), a7 yn rhoi gwybodaeth fwy penodol am yr hyn y mae'n rhaid rhoi gwybod amdano.

### **Argymhelliad 6.**

- 2.98 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwylio fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo, heb gyfyngu ar risgiau penodol.

## Pennod 3: Cofrestr tomennydd

- 3.1 Roedd ein papur ymgynghori yn ystyried y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ers llithriad Tylorstown ym mis Chwefror 2020 tuag at lunio cronfa ddata ganolog o domennydd glo. Mae hyn wedi cynnwys casglu data'n helaeth, a chynnig i gadw'r data ar FapDataCymru.<sup>39</sup> Fe wnaethom egluro barn rhanddeiliaid fel yr Awdurdod Glo ynghylch pwysigrwydd un gronfa ddata ar gyfer datblygu'r gwaith o reoli tomennydd yn y tymor hir. Roeddem hefyd wedi edrych ar fframweithiau rheoleiddio eraill sy'n dibynnu ar gofrestri asedau fel modelau ar gyfer ein fframwaith newydd arfaethedig. Roedd y modelau hyn yn cynnwys y trefniadau rheoli cronfeydd dŵr a pherygl llifogydd.<sup>40</sup>
- 3.2 Gwnaethom gynnig dros dro y dylai fod yn un o ddyletswyddau'r awdurdod goruchwyllo i lunio a chynnal cofrestr tomennydd, gan ddefnyddio'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud, ac awgrymu y dylai cofnod y gofrestr ar gyfer pob tomen gynnwys gwybodaeth safonol benodedig i ddarparu templed cychwynnol ar gyfer ei reoli. Gwnaethom gynnig dros dro y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan offeryn statudol.<sup>41</sup>
- 3.3 Fe wnaethom egluro, gan y byddai cofnod o'r holl domennydd glo hysbys yn cael ei lunio, nad oeddem yn credu bod angen i dirfeddianwyr hysbysu'r awdurdod o'r holl domennydd hynny o'r newydd. Ond roeddem yn cydnabod y posibilrwydd y gallai tomennydd anhysbys blaenorol ddod i'r amlwg, ac y byddai yna domennydd gweithredol, er mai ychydig iawn ohonynt sy'n bodoli, a fyddai'n dod yn segur. Er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn gynhwysfawr, awgrymasom y dylai dirfeddianwyr fod o dan ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod o fodolaeth unrhyw domen y byddant yn dod yn ymwybodol ohonynt nad oedd eisoes ar y gofrestr. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai'r ddyletswydd gwmpasu dyddodion bach iawn o wastraff mwyngloddio na fyddai'n peri pryder ymarferol, roeddem yn credu na fyddai'n ymarferol gosod trothwy o ran maint tomennydd.<sup>42</sup>
- 3.4 Rhagwelwyd y byddai'r awdurdod goruchwyllo yn hysbysu perchennog tomen bod tomen wedi'i chofnodi ar y gofrestr tomennydd ar adeg llunio'r gofrestr neu wrth ychwanegu tomen yn ddiweddarach. Awgrymasom y dylai'r dirfeddianwr fod o dan ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo o fodolaeth tomen oni bai fod gan y perchennog reswm i gredu ei bod wedi'i chofrestru. Yr oeddem yn cydnabod y gallai fod yn anodd i berchnogion wybod a oes ganddynt domen ar eu tir, neu y gallai fod yn

---

<sup>39</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 5.45, 8.4, 8.14 a 8.36. Mae MapDataCymru yn llwyfan diogel sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Gweler <https://datamap.gov.wales/>.

<sup>40</sup> Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 adran 2 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 adrannau 21(2) a (4). Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.12 a 9.65.

<sup>41</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.28.

<sup>42</sup> Uchod, paragraff 10.31.

anodd dod o hyd i berchennog y tir. Am y rheswm hwn, rydym yn credu dros dro ei bod yn bwysig rhoi pŵer i'r awdurdod goruchwyllo yn ogystal â dyletswydd i ychwanegu tomen at y gofrestr ohono ei hun.<sup>43</sup>

- 3.5 Gofynnwyd cwestiwn agored a oedd yn ceisio barn ynghylch a ddylid gosod dyletswydd i hysbysu ar dirfeddianwyr, gan na allem ragweld fawr o debygolrwydd y byddai tomennydd a allai fod yn beryglus yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'r ddyletswydd. Roeddem hefyd yn becsu y gallai dyletswydd i hysbysu arwain at anghydfodau ynghylch a oedd y perchennog yn ymwybodol bod eu tir yn cynnwys tomen ai peidio. Roeddem yn cydnabod, er mwyn bod yn ystyrion, y byddai'n rhaid i'r ddyletswydd gael ei hategu gan sancsiwn am dorri amodau, fel dirwy.<sup>44</sup> Rydym o'r farn dros dro y dylid rhoi hawl i apelio pan fo dadlau ynghylch perchnogaeth neu ddynodi'r tir yn domen.<sup>45</sup>
- 3.6 Roeddem yn cydnabod y byddai angen diweddarau'r wybodaeth ar y gofrestr. Gwelsom y ddyletswydd i ddiweddarau'r gofrestr gyda gwybodaeth newydd y mae'r awdurdod goruchwyllo yn gwybod amdani fel rhan o ddyletswydd yr awdurdod i gynnal y gofrestr. Mewn rhai achosion byddai'r awdurdod yn dibynnu ar drydydd partion yn darparu gwybodaeth iddo, er enghraifft pan fydd perchnogaeth tir sy'n cynnwys tomen wedi newid neu pan fo perchnogion tomennydd yn gwneud eu gwaith cynnal a chadw eu hunain.<sup>46</sup>
- 3.7 Yn olaf, edrychasom i weld a ddylai'r wybodaeth ar y gofrestr fod yn gyhoeddus. Roeddem yn cydnabod mai un o egwyddorion cyffredinol deddfwriaeth Cymru oedd yr angen i weithredu ar y cyd, gan gynnwys sicrhau cyfranogiad a chyfraniad y cyhoedd. Ond roedd risg y gallai'r wybodaeth yn y gofrestr gael effaith niweidiol ar brisiau eiddo a chost yswiriant. Er bod hyn yn ffactor pwysig i'w ystyried, pwrpas ein cynigion dros dro oedd lleihau'r risg drwy ragnodi gofynion archwilio, cynnal a chadw ac adfer manwl.
- 3.8 Roeddem o'r farn y dylai'r ffaith bod risgiau'n cael sylw liniaru unrhyw effaith ataliol petai eiddo'n cael ei nodi'n gyhoeddus fel un sy'n cynnwys tomen lo. Roeddem hefyd o'r farn ei bod yn well i'r rheini sy'n ystyried delio ag eiddo allu dod o hyd i'r sefyllfa o gofrestr gyhoeddus. Ar y cyfan, roeddem yn credu y dylai'r wybodaeth ar y gofrestr tomennydd fod yn gyhoeddus, yn amodol ar eithrio unrhyw wybodaeth sydd angen ei chadw'n gyfrinachol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data. Gofynnwyd am farn ar y mater.<sup>47</sup>
- 3.9 Mae'r adrannau canlynol yn ystyried safbwyntiau ar bob un o'r agweddau hyn ar y ffordd y gallai cofrestr tomennydd weithio.

---

<sup>43</sup> Uchod, paragraffau 10.32 a 10.33.

<sup>44</sup> Uchod, paragraff 10.34.

<sup>45</sup> Uchod, paragraff 10.35.

<sup>46</sup> Uchod, paragraff 10.38.

<sup>47</sup> Uchod, paragraff 10.39.

## A DDYLID LLUNIO A CHYNNAL COFRESTR TOMENNYDD?

### Cwestiwn Ymgynghori 9: Rydym yn cynnig dros dro y dylid llunio a chynnal cofrestr tomennydd canolog. A ydych yn cytuno?

- 3.10 Roedd cefnogaeth sylweddol iawn i'n cynnig dros dro y dylid llunio a chynnal cofrestr tomennydd. O'r 56 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 52 (93%) yn cytuno. Dim ond un (2%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".
- 3.11 Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r cynnig yn cynnwys yr angen am ddarlun cywir a chyson o domennydd glo ledled Cymru, ac yr anhawster o greu unrhyw broses oruchwylio heb ddata unffurf a dibynadwy. Gwelodd ymatebwyr y cread o un gofrestr gydlynol fel man cychwyn ar gyfer unrhyw strwythur rheoli sy'n seiliedig ar risg. Yng ngeiriau ICE Cymru Wales:
- Mae cofrestr gynhwysfawr o tomennydd canolog yn hanfodol i reoli risg tomennydd glo anweithredol yn gyson, yn gyfannol, yn gynhwysfawr ac yn effeithiol.
- 3.12 Roedd manteision eraill llunio cofrestr yn cynnwys "ffordd haws o ddiweddarau a chysoni cofnodion" (Lee Jones) a hwyluso mynediad drwy ddarparu un pwynt cyfeirio ar gyfer y rheini sydd angen gwybodaeth am leoliad, risg a rheolaeth. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau dŵr yr oedd angen gwybodaeth arnynt oedd yn berthnasol i gyflenwadau dŵr yfed (Dŵr Cymru). Nododd Network Rail y byddai cofrestr o domennydd yn caniatáu iddynt "asesu risgiau i bob rheilffordd yng Nghymru, yn seiliedig ar agosrwydd at y rhwydwaith rheilffyrdd, pa mor serth yw'r llethr ac ati". Roedd ALGAO yn credu y byddai'n adnodd gwerthfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau archeolegol.

### Cydweithio rhwng asiantaethau

- 3.13 Tra'n cytuno â sefydlu cofrestr, mynegwyd yr angen am gydweithio rhwng asiantaethau gan rai ymatebwyr i wella cynnwys y gofrestr ac osgoi dyblygu. Cyfeiriodd ALGAO at y cofnodion a gedwir mewn Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys data ar sawl tomen. Roeddent yn awgrymu sefydlu protocol ar gyfer darparu gwybodaeth berthnasol o'r gofrestr yn rheolaidd i Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a Cadw. Bydd hwn yn galluogi nhw i gadw eu cronfeydd data eu hunain yn gyfredol, a chynnwys dolenni ym mhob cofrestr er mwyn gallu croesgyfeirio cronfeydd data. Roedd Trafnidiaeth Cymru eisiau gofyniad i rannu'r wybodaeth yn y gofrestr â rhanddeiliaid fel awdurdodau trafndiaeth.
- 3.14 Soniodd Steve Jones o Adran Cynllunio at Argyfyngau Cyngor Sir Benfro am gynnis Llywodraeth Cymru i gadw data'r gofrestr ar FapDataCymru.<sup>48</sup> Roedd hefyd yn awgrymu gosod data ar Resilience Direct, y porth diogel gan y llywodraeth y mae gan y gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a'r fyddin fynediad wedi'i reoli iddo. Yn ei farn ef, byddai hyn yn helpu i sicrhau gwell cyd-ddealltwriaeth o

---

<sup>48</sup> Gweler paragraff 3.1 uchod a Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.45.

sefyllfa pe bai digwyddiad yn codi. Esboniodd bod y system hon wedi cael ei defnyddio i frifio COBRA adeg digwyddiad Cronfa Ddŵr Toddbrook.<sup>49</sup>

- 3.15 Nododd Kim Moreton y byddai technolegau geo-ofodol newydd yn ei gwneud yn hawdd rhannu'r wybodaeth ar y gofrestr drwy, er enghraifft, y Gofrestrfa Dir, cofrestri awdurdodau lleol a chofrestri technegol Arolwg Ordnans.

### Cynnal y gofrestr

- 3.16 Bydd cadw'r gofrestr yn gyfredol yn bwysig. Atebodd Jane Iwanicki:

Byddai angen rhwymedigaethau clir ar gyfer adolygu a diweddarau'r gofrestr, neu bydd yn dod yn giplun ymhen amser yn hytrach nag yn arf rheoli defnyddiol.

- 3.17 Pwysleisiodd CNC yr angen i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu ymddiried yn y gofrestr. Byddai cytuno ar fformat, cynnwys a math y data gyda rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn cadw'r hyn sy'n ofynnol, ac nid mwy na hynny, fel bod gan rhanddeiliaid hyder yn y gofrestr, a bod sefyllfa'n cael ei hosgoi "lle mae gennym nifer o gofrestri a phob un yn cynnwys data gwahanol". Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y canllawiau Gwasanaethau Digidol diweddaraf ac awgrymodd y dylid mabwysiadu'r egwyddorion a nodir ynddo. Bydd hwn yn sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn ganolog i ddyluniad y gofrestr a'i bod yn gallu darparu'r cynnwys cywir yn effeithlon drwy gyfryngau hawdd cael gafael arnynt.<sup>50</sup> Pwysleisiodd Paul Funck hefyd yr angen i gynnal data ar ffurf sy'n hygyrch a pherthnasol i bawb dan sylw. Roedd yn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan ymlaen llaw er mwyn cytuno pa ddata sydd ei angen. Gallai hyn arbed amser a chost yn ddiweddarach yn y broses ddatblygu drwy osgoi'r angen i gyfuno data newydd ac atal dyblygu data.
- 3.18 Gwnaeth yr unig ymatebydd a oedd yn gwrthwynebu'r gofrestr (Owen Jordan) hynny ar sail y gost a'r amser angenrheidiol i'w llunio.

### Trafodaeth

- 3.19 Roedd cefnogaeth unfrydol bron i'n cynnig. Rydym yn cytuno'n fras â'r rhesymau a gyflwynwyd dros y gefnogaeth hon. Mae angen i'r drefn ddiogelwch tomennydd gael ei seilio ar un ffynhonnell o ddata unffurf, cydlynol a dibynadwy. Rydym hefyd yn cytuno y dylai'r math o gofnod ar y gofrestr fod yn hygyrch ac yn berthnasol ac y dylai'r ddyletswydd i gynnal y gofrestr fod yn ddigon penodol i gynnwys adolygu a diweddarau ei chynnwys. Credwn y gellid cynnwys manylion o'r fath mewn offeryn statudol sy'n darparu ar gyfer cynnwys y gofrestr. Trafodir hyn ymhellach mewn perthynas â'r cwestiwn ymgynghori nesaf ym mharagraffau 3.25 i 3.41 isod.
- 3.20 Mae'r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr ynghylch yr angen am gydweithio rhwng deiliaid cofnodion yn ddefnyddiol iawn. Rydym wedi clywed gan rhanddeiliaid am brofiadau o chwilio am gofnodion tomennydd hanesyddol. Mae llawer ar goll neu'n

---

<sup>49</sup> COBRA yw Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Llywodraeth y DU sy'n cael ei gynnull i ddelio â materion sy'n ymwneud ag argyfyngau cenedlaethol neu darfu difrifol.

<sup>50</sup> Gweler y 12 Safon Gwasanaethau Digidol: <https://digitalpublicservices.gov.wales/toolkit/digital-service-standards/>.



anghyflawn. Un ffordd o ddatrys hyn fyddai sefydlu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth neu ddogfennau perthnasol rhwng awdurdodau priodol.<sup>51</sup>

- 3.21 Nid yw sicrhau bod cofnodion yn cael eu rhannu yn datrys problem cofnodion a gollwyd yn flaenorol, ond byddai'n ei gwneud yn bosibl yn y dyfodol i awdurdodau gael gweld cofnodion a ddelir gan yr awdurdod goruchwylio lle bo hynny'n berthnasol i'w gwaith. Trafodir hyn ymhellach yn adran olaf y bennod hon, sy'n edrych ar i ba raddau y dylai cofrestr tomennydd fod ar gael i'r cyhoedd.
- 3.22 Yn unol â hynny rydym yn cynnig y dylid llunio a chynnal cofrestr tomennydd canolog.

### **Argymhelliad 7.**

- 3.23 Rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwylio lunio a chynnal cofrestr tomennydd canolog.

- 3.24 Mae'r cwestiwn a oes angen rhagnodi cynnwys y gofrestr yn ffurfiol yn destun yr adran nesaf, sy'n ystyried ein cynnig dros dro y dylai cynnwys y gofrestr gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

## **RHAGNODI CYNNWYS Y GOFRESTR TOMENNYDD**

**Cwestiwn Ymgynghori 10: Ar hyn o bryd rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. A ydych yn cytuno?**

- 3.25 O'r 45 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 38 (84%) yn cytuno. Pump (11%) oedd yn anghytuno, a dau a ddewisodd ateb "arall".

### **Natur y cynnwys rhagnodedig**

- 3.26 Roedd llawer o'r rheini a oedd yn cytuno â'n cynnig, yn enwedig awdurdodau lleol, yn credu bod rhagnodi cynnwys y gofrestr yn ffordd o sicrhau dull gweithredu clir a chyson. Roedd Ove Arup a Phartneriaid yn credu ei bod yn bwysig bod gofyniad cyfreithiol i ddarparu cynnwys penodol.
- 3.27 Roedd eraill, er eu bod yn cytuno, yn pwysleisio'r angen am hyblygrwydd yn y cynnwys gofynnol. Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae "angen i'r gofrestr fod yn ddigon hyblyg fel y gellir ei haddasu ar gyfer gofynion yn y dyfodol os oes angen. Mae angen iddi fod yn hyblyg er mwyn delio â gofynion newydd posibl yn y dyfodol". Rhybuddiodd Keith Bush CF "gall dealltwriaeth o ystod y manylion y dylid eu cynnwys newid dros amser".<sup>52</sup> Credai Richard Arnold y dylid cadw'r cynnwys yn "syml ac yn hyblyg". Credai Dr Tom St John y dylai'r cynnwys rhagnodedig gael ei ystyried fel y

---

<sup>51</sup> Gellid defnyddio Technoleg Dosbarthu Cyfrifylfr i helpu i rannu dogfennau. Mae cyfrifylfr wedi'i ddisbarthu yn darparu cronfa ddata sy'n cael ei rhannu a'i chysoni'n gydsyniol ar draws sawl safle. Mae gwybodaeth yn cael ei storio mewn ffordd ddiogel a chywir gan ddefnyddio cryptograffi.

<sup>52</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

cynnwys sylfaenol sydd ei angen. Yn ogystal â'r gofynion a bennwyd, efallai y bydd rhai safleoedd yn gofyn am gynnwys sy'n benodol i'r safle.

### **Pwy ddylai benderfynu ar y cynnwys a beth ddylid ei gynnwys?**

3.28 Nododd nifer o ymatebwyr bod yr angen i ymgynghori'n drylwyr â rhanddeiliaid perthnasol ynghylch natur y manylion sydd i'w cynnwys yn y gofrestr yn gam rhagarweiniol hanfodol. Yn anochel, arweiniodd y drafodaeth hon at rai yn pennu'r hyn y dylid ei gynnwys.

3.29 Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i ystyried cyngor arbenigol. Credai ICE Cymru:

y dylai Gweinidogion Cymru, wrth ragnodi cynnwys cofrestr tomennydd, roi ystyriaeth lawn i argymhellion gan gynghorwyr arbenigol sydd â gwybodaeth am ddigwyddiadau tomennydd glo yn y gorffennol, yn y presennol ac yn y dyfodol (er enghraifft, ansefydlogrwydd tomennydd), deddfwriaeth a thueddiadau hinsoddol neu dueddiadau eraill.

Byddai hyn yn sicrhau bod y gofrestr yn "gydnerth ac yn addas ar gyfer y dyfodol". Soniodd yr Athro Bob Lee am yr angen i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

3.30 Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgorffori data hanesyddol ar domennydd gan Stephen Smith, Howard Siddle a Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt). Nododd Stephen Smith yr angen i'r holl gofnodion fod yn seiliedig ar yr holl ddata sydd ar gael, gan gynnwys cofnodion hanesyddol o ymchwilio neu waith adfer. Eglurodd Howard Siddle fod y Bwrdd Glo Cenedlaethol wedi llunio rhestr o dros 800 o domennydd yn eu perchnogaeth yn dilyn trychineb Aberfan, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi cadw cofnodion tomennydd. Eglurodd y byddai cofnodion hanesyddol yn cynnwys llawer o domennydd sy'n eiddo i'r Awdurdod Glo neu arferai fod yn eiddo i'r Awdurdod Glo a rhai awdurdodau lleol neu sy'n cael eu rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cofnodion yn cynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau a baratowyd i fodloni gofynion deddfwriaethol i gofnodi digwyddiadau peryglus ar domen ac a baratowyd ar gyfer prosiectau adfer tir. Yn ei farn ef:

Mae'r adroddiadau hyn yn hollbwysig i'w rheoli yn y dyfodol gan eu bod yn darparu gwybodaeth am eu hanes, eu hymddygiad yn y gorffennol, eu sefydlogrwydd, eu draeniad a'r safonau dylunio, os oes rhai, a fabwysiadwyd yn eu hadeiladwaith. Dylai'r gofrestr ar gyfer pob tomen gynnwys cyfeiriadau at bob adroddiad blaenorol a'u ceidwaid i sicrhau bod perchnogion presennol a darpar berchnogion yn gallu cael mynediad atynt.

3.31 Roedd Jacobs yn rhagweld "cronfa ddata ryngweithiol o holl gofnodion tomennydd, gan gynnwys arolygiadau, adroddiadau technegol a chynlluniau rheoli tomennydd yn y dyfodol a hefyd cofnodion hanesyddol". Cyfeiriodd ALGAO at y wybodaeth a gedwir gan Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a Cadw am hen domennydd, ac argymhellodd y dylai'r rhai sy'n llunio'r gofrestr ymgynghori â'r rheolwyr cofnodion am y wybodaeth hon a'r cyfle i rannu data.

## Ai offeryn statudol yw'r dull gorau?

- 3.32 Roedd Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn cytuno â defnyddio offeryn statudol, ac yn cynnig y dylai hyn fod yn destun craffu gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Cytunodd Keith Bush CF hefyd â'r defnydd o is-ddeddfwriaeth gan y byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd gan y gallai'r ddealltwriaeth o'r manylion angenrheidiol newid dros amser. Roedd Huw Williams o'r farn y gellid sefydlu'r cynllun statudol yn ei gyfanrwydd drwy offeryn statudol, ac y gallai hyn gynnwys manylu ar gynnwys y gofrestr.
- 3.33 Yn groes i hynny, credai CLA Cymru fod angen deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau trafodaeth lawn a chraffu ar gynigion. Roedd Jane Iwanicki yn anghytuno â'r angen i ragnodi o gwbl. Credai ei bod yn well cyfyngu'r broses i ymgynghori â chynghorwyr technegol a defnyddio argymhellion awdurdodau lleol a'r Awdurdod Glo. Credai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y dylai pob un o wledydd y DU fod yn rhan o'r gwaith o bennu'r safon ar gyfer y gofrestr.

## Trafodaeth

- 3.34 Rydym yn cytuno bod angen eglurder ynghylch cynnwys gofynnol y gofrestr. Rydym hefyd yn cytuno bod angen i'r system ar gyfer rhagnodi cynnwys fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu newidiadau, oherwydd gall yr hyn sy'n ofynnol esblygu dros amser. Mater i Lywodraeth Cymru yw'r cynnwys ei hun, ac wrth benderfynu arno, bydd angen iddynt ystyried cyngor arbenigol, ond credwn, am resymau a drafodir yn adran olaf y bennod hon, y dylent, wrth wneud hynny, gael eu harwain gan p'un a yw er budd y cyhoedd i wybodaeth benodol fod yn hygyrch ai peidio.
- 3.35 Rydym yn gweld risg y bydd y gofrestr yn mynd yn anhylaw os bydd gormod o wybodaeth yn cael ei chynnwys ynddi. O'n safbwynt ni, nid ydym yn rhagweld y bydd y gofrestr yn cynnwys archif o bopeth sy'n hysbys am bob tomen lo, nac angen iddi gynnwys pob darn o wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer rheoli diogelwch y domen. Mewn rhai achosion gallai swmp y wybodaeth o'r fath fod yn sylweddol, gan wneud y gwaith o lunio a diweddarau'r gofrestr yn feichus ac arwain at yr awdurdod goruchwylio'n cynnal ei weithrediadau'n gyhoeddus i bob pwrpas. Serch hynny, rydym yn credu ei bod yn ddymunol cyhoeddi swm sylfaenol o wybodaeth am lefelau risg a rheoli diogelwch er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod peryglon tomennydd yn cael sylw.
- 3.36 Rydym yn dod i'r casgliad na ddylid cynnwys manylion perchnogaeth ar y gofrestr, am resymau a drafodir yn nes ymlaen yn y bennod hon. Rydym yn awgrymu y dylai'r wybodaeth ar y gofrestr gynnwys lleoliad tomennydd (ar ffurf map os oes modd), a gwybodaeth sylfaenol am gategoreiddio risg a mesurau rheoli tomennydd, gan gynnwys a oes unrhyw orchmynion a chytundebau tomen wedi cael eu rhoi.<sup>53</sup> Credwn mai rhagnodi cynnwys drwy offeryn statudol, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol, yw'r ffordd orau o sicrhau eglurder a hyblygrwydd. Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn caniatáu i'r Senedd graffu. Dylai'r rhestr gynrychioli'r wybodaeth sylfaenol y mae'n rhaid ei chadw ar y gofrestr, gan ei gwneud yn agored i'r awdurdod

---

<sup>53</sup> Trafodir rheoli tomennydd a dosbarthu risg ym mhennod 4. Trafodir cytundebau a gorchmynion tomennydd ym mhennod 5. Mae'r wybodaeth sydd i'w darparu ar y gofrestr yn cael ei thrafod ymhellach yn yr adran ar ddiwedd y bennod hon ar hygyrchedd y gofrestr i'r cyhoedd.

goruchwylio gynnwys gwybodaeth bellach y mae'n credu ei bod yn ddymunol ei chynnwys.

- 3.37 Dylai'r offeryn statudol hefyd gynnwys gofynion ar gyfer diweddarau cynnwys. Gallai hyn fod, er enghraifft, pan fydd tomennydd cael eu harchwilio. Gellir gadael manylion y broses sydd i'w dilyn yn unol â'r canllawiau, ond gallai offeryn statudol nodi rhwymedigaethau'r awdurdod goruchwylio i ddiweddarau'r gofrestr os oes sbardunau penodol fel archwiliad. Mewn rhai achosion, gall rhwymedigaeth fod ar y perchennog i ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod goruchwylio, er enghraifft pan mai'r perchennog sy'n gwneud gwaith penodedig.
- 3.38 Rydym yn cytuno, lle bynnag y bo modd, y dylid rhoi sylw i gofnodion hanesyddol. Deallwn gan Lywodraeth Cymru eu bod eisoes yn gweithio i leoli a choladu data hanesyddol i baratoi ar gyfer datblygu'r gofrestr. Rydym yn edrych ar y ddyletswydd i lunio asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd yn y bennod nesaf, ac yn ystyried dyletswyddau i ystyried adroddiadau hanesyddol bryd hynny. Byddai angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a oes angen cyfeirio'n benodol yn y gofrestr at yr adroddiadau hyn ar y cyd ag arbenigwyr technegol.
- 3.39 Fel yr ydym eisoes wedi nodi, rydym yn derbyn y bydd angen i'r awdurdod goruchwylio ac eraill gadw gwybodaeth sy'n berthnasol i'r domen sy'n debygol o fynd y tu hwnt i gynnwys y gofrestr. Credwn y dylai'r awdurdod goruchwylio benderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen arno heb ei orfodi i gynnwys yr holl wybodaeth o'r fath ar y gofrestr.
- 3.40 Rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

### **Argymhelliad 8.**

- 3.41 Rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

- 3.42 Mae'r adran nesaf yn ystyried ymatebion i'n cwestiynau am y broses ar gyfer cofnodi tomennydd ar y gofrestr, a darparu hawl i apelio yn erbyn cynnwys tomen ar y gofrestr.

### **COFNODI TOMEN AR Y GOFRESTR**

**Cwestiwn Ymgynghori 11: Rydyn ni'n ystyried dros dro y dylai fod gan (1) yr awdurdod goruchwylio ddyletswydd a phŵer i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni neu y daw'n ymwybodol ohoni; a (2) dylai fod gan berchennog tir hawl i apelio yn erbyn cynnwys y tiffeddiannwr fel perchennog tir y mae tomen wedi'i lleoli arno; dylai sail yr apêl fod mai (a) nid perchennog y tir yw perchennog y tir dan sylw a/neu (b) nad oes tomen ar y tir. A ydych yn cytuno?**

- 3.43 O'r 47 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 39 (83%) yn cytuno neu'n cytuno i raddau helaeth â dwy ran ein cynnig. Pump (10%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".

### **Barn ar greu dyletswydd a phŵer i gynnwys tomen ar y gofrestr**

- 3.44 Roedd y rhesymau dros gefnogi gofyniad i'r awdurdod goruchwylio gofrestru tomen y mae'n ymwybodol ohoni yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y gofrestr yn gyflawn ac yn gynhwysfawr (Bob Leeming). Nododd Jacobs bwysigrwydd y gofrestr fel dogfen "fyw" a ddylai gynnwys gwybodaeth newydd cyn gynted ag y daw'n amlwg.
- 3.45 Cytunodd yr Athro Bob Lee y dylai'r awdurdod allu gweithredu'n annibynnol ar berchnogion. Ond ni welai unrhyw angen i osod dyletswydd a phŵer i gofrestru ar yr awdurdod. Credai y byddai'n ddigon, ar yr adeg y daw'r awdurdod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n awgrymu presenoldeb tomen, i osod dyletswydd i gofrestru ar yr awdurdod. Byddai hyn, yn ei dro, yn arwain at ragor o ddyletswyddau.<sup>54</sup>
- 3.46 Roedd y rhesymau dros anghytuno yn cynnwys gwrthwynebiad ehangach i roi'r cyfrifoldeb am ddiogelwch tomennydd ar yr awdurdod goruchwylio yn hytrach nag ar y perchennog.

### **Trafodaeth**

- 3.47 Roedd mwyafrif helaeth o blaid ein cynnig fel ffordd o sicrhau bod y gofrestr yn gynhwysfawr. Rydym yn cytuno nad oes angen mynegi'r ddyletswydd hefyd fel pŵer, gan y bydd creu dyletswydd yn oblygedig yn darparu pŵer i'w chyflawni. Ar ôl pwyso a mesur, credwn hefyd ei bod yn ddigonol bod dyletswydd barhaus ar yr awdurdod i gofrestru unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni ar unrhyw adeg.
- 3.48 Yn unol â hynny, rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwylio fod o dan ddyletswydd i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni (ar unrhyw adeg).

#### **Argymhelliad 9.**

- 3.49 Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwylio fod o dan ddyletswydd i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni.

### **Barn ar hawl i apelio yn erbyn cynnwys tomen ar y gofrestr**

- 3.50 Cymeradwyodd CLA Cymru ddarparu hawl i apelio ar y sail bod camgymeriadau bob amser yn bosibl. Dylai unrhyw benderfyniad a allai effeithio ar dir a rhwymedigaethau posibl perchennog, yn ei farn ef, ddenu hawl i apelio.
- 3.51 Gwelodd yr Athro Bob Lee angen clir am hawliau apelio, ond credai y gallai fod seiliau eraill dros apelio, yn dibynnu ar gynnwys penodol y gofrestr. Rhoddodd enghraifft o

---

<sup>54</sup> Rydym yn ystyried y dyletswyddau a fyddai'n dilyn cofrestru ym mhennod 4.

bresenoldeb derbynnwydd, fel cynefin gwarchoddedig, ar y gofrestr. Pe bai'r wybodaeth honno'n cael ei hystyried yn anghywir, efallai y byddai'r perchennog am ei herio.

3.52 Roedd gan eraill sylwadau ar y seiliau apelio penodol a gynigiwyd.

#### Sail a: perchnogaeth ar domen

3.53 Roedd Keith Bush CF yn cytuno'n fras â'r cynnig, ond yn gwrthwynebu cynnwys apêl yn erbyn cofnodi perchnogaeth ar y gofrestr. Roedd hyn oherwydd nad oedd yn credu y dylid tybio y byddai'r gofrestr yn rhoi manylion perchnogaeth ar domen, sef gwybodaeth sydd ar gael ar y gofrestr a gedwir dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 (ac eithrio lle nad yw'r teitl wedi'i gofrestru eto). Yn ei farn ef, byddai cofrestru perchnogaeth ar y gofrestr tomennydd yn creu system gyfochrog ar gyfer cofnodi perchnogaeth a byddai'n rhaid diwygio'r gofrestr bob tro y bydd y berchnogaeth yn newid. Yn hytrach, cynigiodd y dylid cael hawl i apelio yn erbyn cynnwys y gofrestr, heb wneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch beth fydd y cynnwys hwnnw.

#### Sail b: arenwi tomen

3.54 Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu'r angen i gynnwys sail dros apelio mewn perthynas â p'un a oes tomen yn bodoli ar y tir ai peidio. Credai Blaenau Gwent y dylai'r mater fod "yn gymharol annadleuol". Credai Chris Seddon y byddai'r sail apêl hon yn anodd i'w profi, yn enwedig yn achos tomennydd gorlwyth neu lle mae gwastraff glofa wedi'i brynu fel deunydd gwaith daear gan berchennog blaenorol. Roedd Trafnidiaeth Cymru o'r farn y gallai fod cwestiynau anodd ynghylch y dystiolaeth sy'n angenrheidiol i brofi nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir "yn enwedig o ran math a phwysau'r dystiolaeth a fyddai'n cael ei hystyried yn ddigonol". Yr oeddent yn credu mai'r parti sy'n apelio ddylai ysgwyddo'r baich tystiolaeth.

3.55 Pwysleisiwyd yr angen am ddiffiniad clir o domen mewn nifer o ymatebion. Credai Howard Siddle y gallai perchnogion gamddefnyddio'r sail dros apelio pe na bai'r diffiniad o domen wedi'i lunio'n fanwl gywir; pwysleisiodd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Network Rail, hefyd y byddai'r diffiniad o domen yn hollbwysig.<sup>55</sup>

3.56 Nododd ICE Cymru y byddai angen eithriadau:

Dylai'r gofrestr fod yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol o'r holl domennydd glo, ni waeth beth fo'r dosbarthiad ac eithrio lle mae tomen o'r fath wedi'i gwaredu'n ffisegol, er enghraifft mae deunydd tomen wedi'i ymgorffori mewn prosiect ar wahân a'i beiriannu yn ei le yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol.

3.57 Soniodd yr Athro Lee am yr angen i egluro a fyddai dyddodion *de minimis* o wastraff glo yn cael eu cynnwys yn y diffiniad.

---

<sup>55</sup> Mae'r diffiniad o domen sydd i'w fabwysiadu yn y drefn reoleiddio newydd yn cael ei archwilio ym mhennod 7.

## Arsylwadau eraill

- 3.58 Mynegodd ymatebwyr eraill amheuon ynghylch yr hawl i apelio. Roedd Lee Jordan yn credu ei bod yn bwysig cyfyngu ar amser, ac awgrymodd gyfnod o 21 diwrnod o'r adeg y bydd yr awdurdod goruchwyllo yn hysbysu'r tîrfeddiannwr. Cytunodd Stephen Smith â hawl i apelio i gywiro unrhyw wallau ar y gofrestr, ond credai y dylai'r broses o gasglu data a glanhau a gychwynnwyd eisoes fod yn ddigon cadarn i osgoi hyn. Credai Steve Harford y dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch mynediad i'r gofrestr fod yn nwylo'r awdurdod, gan nad yw "herio pwy sy'n berchen ar y tir yn dileu'r ffaith y gallai tomen fodoli".
- 3.59 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Blaenau Gwent yn credu ei bod yn annhebygol mai'r cofnod ei hun ar y gofrestr fyddai yn ddadleuol, ond y manylion ar y gofrestr. Y rheswm am hyn yw y byddai'r rhain yn cyfrannu at benderfynu a ddylid dynodi'r domen yn un risg uwch.<sup>56</sup>
- 3.60 Nododd Huw Williams fod y ddau sail apêl arfaethedig yn codi materion gwahanol. Credai mai mater o gyfraith oedd y ffordd orau o bennu pwy oedd y tîrfeddiannwr. Roedd y cwestiwn a oedd tomen wedi'i lleoli ar y tir yn fwy addas i'r Arolygiaeth Gynllunio.

## Trafodaeth

- 3.61 Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion ar gyfer hawl i apelio yn erbyn cynnwys tomen ar y gofrestr. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig darparu ar gyfer hawl i apelio, o ystyried bod arenwi tir fel tir sy'n cynnwys tomen yn debygol o fod yn anfanteisiol yn hytrach nag yn fanteisiol i'r perchennog, ac yn enwedig o ystyried ein hargymhelliad y dylid cael sancsiwn am fethu â hysbysu am bresenoldeb tomen heb ei chofrestru.<sup>57</sup>
- 3.62 Fel y crybwyllwyd eisoes, nid ydym bellach o'r farn y dylai'r gofrestr gynnwys manylion perchnogaeth y domen. Yn y bôn, mae hyn am y rhesymau a gyflwynwyd gan Keith Bush CF: mae'r wybodaeth ar gael yn gyffredinol o'r gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n cael ei chadw gan Gofrestrfa Tir EM; byddai ei dyblygu ar y gofrestr tomennydd yn golygu gwaith ychwanegol diangen i'r awdurdod goruchwyllo a thîrfeddiannwyr. Mae hyn yn dileu'r angen am apêl yn erbyn cynnwys person yn anghywir fel perchennog. Os derbynnir y farn honno, yr unig sail dros apelio a fydd yn ofynnol mewn perthynas â mynediad i dir ar y gofrestr fydd o ran nodi ei fod yn cynnwys tomen. Rydym yn cytuno y dylai'r mater fod yn annadleuol yn y rhan fwyaf o achosion; mater technegol fydd a yw tomen yn bodoli ai peidio, ond dylai unrhyw beth sy'n rhan o ddiffiniad o domen fod ar y gofrestr. Trafodir y diffiniad o domen ymhellach ym mhennod 7.<sup>58</sup>

---

<sup>56</sup> Trafodir pŵer i ddynodi rhai tomennydd yn rhai risg uwch yn y fframwaith rheoleiddio newydd ym mhennod 6. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ddylid cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i ddynodi.

<sup>57</sup> Gweler adran nesaf y bennod hon am drafodaeth ar ddyletswydd i hysbysu. Mae mwy o drafodaeth ar lwybrau apêl ym mharagraffau 8.51 i 8.60 isod.

<sup>58</sup> Rydym yn nodi yn pennod 7 bod y diffiniad yn debygol o gynnwys trothwy maint isaf, gyda'r canlyniad nad yw'n debygol y bydd crynodiadau ansylwedol o wastraff glo yn cael eu cynnwys. Rydym yn disgwyl i apeliodau fod yn brin. Gallwn ragweld sefyllfaoedd lle gallai'r mater fod yn gymhleth, naill ai o ran maint neu

- 3.63 Ni welwn fod angen rhagor o seiliau dros apelio. Gallai unrhyw hawl ehangach i apelio yn erbyn cynnwys y gofrestr arwain at anghydfodau ynghylch manylion technegol.<sup>59</sup> Rydym yn cytuno y dylai hawliau apelio fod yn gyfyngedig o ran amser ac na ddylid caniatáu iddynt ohirio gwaith brys.
- 3.64 Roedd cwestiwn ein hymgyngoriad yn cynnig y dylai “perchennog tir” gael yr hawl i apelio. Ar ôl ystyried ymhellach y diffiniad o “berchennog” at ddibenion y ddeddfwriaeth newydd, rydym yn awr yn argymhell y dylai'r hawl i apelio fod yn fwy eang i berson a dramgwyddir drwy gofnodi tomen ar y gofrestr. Byddai hyn yn cynnwys perchennog neu feddiannwr y cyfan neu ran o'r tir a nodir yn y cofnod ar y gofrestr y mae anghydfod yn ei gylch, p'un a ydynt yn dod o fewn y categori, a drafodir isod, o bersonau sydd â dyletswydd i hysbysu am domen anghofrestredig. Gallai apeliadau amhendiant gael eu hatal pe bai gan y corff apeliadol bŵer i ddyfarnu costau yn erbyn y parti sy'n colli. Trafodir pwy ddylai wrando ar yr apeliadau isod ym mhennod 8.

### Argymhelliad 10.

- 3.65 Rydym yn argymhell y dylai perchennog neu feddiannydd y cyfan neu ran o dir a nodir mewn cofnod ar y gofrestr tomennydd gael hawl i apelio ar y sail nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir.
- 3.66 Rydym yn argymhell na ddylid caniatáu i arfer yr hawl i apelio er mwyn gohirio gwaith brys.

- 3.67 Roedd ein cwestiwn ymgynghori nesaf yn ystyried ehangder unrhyw ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwylio bod tomen yn bodoli.

**Cwestiwn Ymgynghori 12: Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai perchennog tir fod o dan ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwylio am unrhyw domen y mae'r tirlfeddiannwr yn ymwybodol ohoni neu'n dod yn ymwybodol ohoni ar dir sy'n eiddo i'r tirlfeddiannwr, oni bai fod gan y tirlfeddiannwr reswm i gredu ei bod eisoes wedi'i gofrestru.**

- 3.68 O'r 50 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 39 (78%) yn cytuno neu'n cytuno'n fras â'r awgrym y dylai tirlfeddiannwr fod â dyletswydd i roi gwybod i'r awdurdod goruchwyliol am domen yn yr amgylchiadau a nodir yn y cwestiwn ymgynghori. Roedd y rhai a gytunodd yn fras yn mynegi rhai cafeatau neu roedd ganddynt sylwadau ychwanegol. Roedd pum ymatebydd (10%) yn anghytuno. Gwnaeth chwech ateb “arall”.

---

ddosbarthiad y rwbel, neu oherwydd bod y glo'n gymysg â mwynau eraill. Gallai'r mater fod yn ddigon o bwys economaidd fel y dylai fod gan bartion sydd â buddiant y gallu i'w brofi mewn apêl.

<sup>59</sup> Trafodir apeliadau yn erbyn penderfyniadau technegol ymhellach mewn perthynas â hawl i apelio yn erbyn dynodi tomen ym mhennod 6.



## Natur y ddyletswydd ar y tîrfeddiannwr

3.69 Lluniodd Keith Bush CF ei gytundeb fel a ganlyn:

Mae hyn yn syniad rhesymol, gan y gall gweithgareddau ar dir ddatgelu presenoldeb tomen nad oedd yn hysbys o'r blaen. Natur y ddyletswydd ddylai fod i hysbysu'r awdurdod os bydd gan y perchennog sail resymol i gredu bod tomen cofrestradwy ar dir y mae ganddo fuddiant ynddo, oni bai fod y domen eisoes wedi'i gofrestru'n gywir.<sup>60</sup>

3.70 Rhybuddiodd Chris Seddon y dylid bod yn ofalus wrth ddiffinio pryd y mae tîrfeddiannwr yn “dod yn ymwybodol”. Darparodd enghraifft o dirfeddiannwr sy'n cynnal ymchwiliad tir ar raddfa fach ar gyfer sylfeini ar gyfer adeiladau preswyl ac sydd yn derbyn adroddiad bod deunydd y deuir ar ei draws yn cael ei ystyried yn wastraff glo, ond mae astudiaeth ddesg yn dangos nad oes unrhyw domen wedi'i nodi ar y tir. Holodd natur y ddyletswydd yn yr achos hwn. Gallai bod ar y perchennog i hysbysu am y posibilrwydd y gallai fod tomen ar y tir, neu i gynnal ymchwiliad ychwanegol cyn hysbysu'r awdurdod. Fel arall gallai bod dim ddyletswydd o gwbl gan nad yw bodolaeth y domen wedi'i gadarnhau.

3.71 Roedd Dr John Perry yn amau a fyddai'r tîrfeddiannwr yn ddigon cymwys neu brofiadol i adnabod tomen. Credai y byddai'n well i gorff annibynnol baratoi'r gofrestr ac ymgynghori â'r perchennog.

3.72 Roedd Jane Iwanicki yn anghytuno â'r ddyletswydd fel rhywbeth a allai fod yn feichus:

Mae tomennydd yn nodweddion hanesyddol ac efallai nad ydynt o fewn cof corfforaethol y perchnogion presennol neu hyd yn oed ar gofnod cyhoeddus. Ni ddylid cosbi perchnogion am beidio â meddu ar wybodaeth am nodweddion o'r fath – sut ydych chi'n mesur “ymwybyddiaeth” ynghylch a yw nodwedd yn hen domen lo neu'n cynnwys deunyddiau eraill?

3.73 I'r gwrthwyneb, credai'r Rhwydwaith Gweithredu Glo y dylai'r ddyletswydd fod yn ddyletswydd weithredol ar y tîrfeddiannwr, i gynnwys archwilio'r tir am arwyddion o domen lo.

3.74 Credai Howard Siddle y dylid ymestyn y ddyletswydd i gynnwys ddyletswydd i ddatgelu i'r awdurdod goruchwyllo fodolaeth ac argaeledd adroddiadau blaenorol ar domennydd yn eu perchnogaeth, pa un a ydynt wedi'u comisiynu ganddynt ai peidio, i sicrhau nad yw gwybodaeth hanfodol yn cael ei cholli dros amser. Dylai'r ddyletswydd i ddatgelu ymestyn i adroddiadau am ddigwyddiadau peryglus ar y domen.

## Cred resymol bod y domen eisoes wedi'i chofrestru

3.75 Credai Caerffili y dylid dileu'r eithriad hwn yn gyfan gwbl ar y sail ei fod yn rhy amwys. Roeddent yn credu y dylai fod ddyletswydd i wirio'r gofrestr. Cynigiodd yr Athro David Petley hefyd ddyletswydd ragweithiol ar y tîrfeddiannwr i weld a yw'r domen eisoes wedi'i chofrestru. Byddai ailffurfio'r prawf a drafodir uchod, fel yr awgrymodd Keith Bush CF, yn darparu'r elfen hon.

---

<sup>60</sup> Ymatebodd Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

- 3.76 Nododd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chastell-nedd Port Talbot y gallai fod yn anodd profi bod gan dirfeddiannwr “reswm i gredu” bod y domen ar ei dir wedi’i chofrestru, yn enwedig os yw’n gyfagos i domen sydd eisoes wedi’i chofrestru. Roedd Castell-nedd Port Talbot o’r farn y byddai’n fwy effeithiol i’r awdurdod goruchwyllo gyntuno ar ddata’r llinell sylfaen a hysbysu’r tirlfeddiannwr.

### Hysbysiad trydydd parti

- 3.77 Credai’r Rhwydwaith Gweithredu Glo y dylid cael proses hawdd ei defnyddio i aelodau o’r cyhoedd roi gwybod am domen lo posibl a allai fod ar dir rhywun arall. Mater i’r awdurdod wedyn fyddai asesu’r adroddiad. Awgrymodd ICE Cymru y dylai’r ddyletswydd i hysbysu ymestyn i drydydd parti’n sy’n dod yn ymwybodol o domen heb ei chofnodi:

Er enghraifft, gall ymgynghorydd sy’n cwblhau astudiaeth ddesg ar gyfer cynllun newydd, drwy adolygu ffynonellau astudiaeth ddesg, ddod yn ymwybodol o domen nad yw’r awdurdod goruchwyllo na’r tirlfeddiannwr, na pherchennog y domen, yn ymwybodol ohoni.

- 3.78 Awgrymodd Network Rail y dylid cyflwyno mecanwaith yn hytrach na dyletswydd i drydydd parti’n hysbysu’r awdurdod o bresenoldeb tomen, gan adael yr awdurdod goruchwyllo i ymchwilio ac ychwanegu’r safle at y gofrestr os yw hynny’n briodol.

### Yr angen am isafswm maint

- 3.79 Dywedodd Dr Peter Brabham fod miloedd o domennydd bach yn gysylltiedig â ceuffyrdd mwyngloddiau unigol ledled cymoedd De Cymru. Credai y dylid llunio’r ddyletswydd i eithrio tomennydd o dan faint penodol. Credai Philip Thomas hefyd y dylai’r ddyletswydd fod yn berthnasol i domen o faint sylweddol yn unig, ac y dylai’r ddyletswydd bennu maint trothwy.

### Dyletswyddau adeg trosglwyddo

- 3.80 Nododd rhai ymatebwyr yr angen i wneud darpariaeth ar gyfer newidiadau mewn perchnogaeth. Credai Rhondda Cynon Taf y dylai tirlfeddiannwyr fod o dan ddyletswydd nid yn unig i roi gwybod am bresenoldeb y domen, ond hefyd i roi gwybod am unrhyw newidiadau i berchnogaeth y tir. Awgrymodd Dr John Perry y dylai fod dyletswydd ar y trawsgludwr i wirio’r gofrestr ar gyfer cofnodion. Credai Paul Connolly, yn yr un modd ag y mae’n ddyletswydd ar werthwyr tai i wneud prynwyr yn ymwybodol o ddiffygion wrth werthu tai, y dylai fod yn ofynnol i dirfeddiannwyr roi gwybod i’r prynwr a ydynt yn credu bod tomen ar y tir i’w gofrestru. Roedd Kim Moreton hefyd o’r farn bod datgelu ar y pryd yn hanfodol.

### Anawsterau gorfodi

- 3.81 Er bod cefnogaeth gref i osod dyletswydd, mynegwyd pryderon ynghylch pa mor anodd y gallai fod i orfodi’r ddyletswydd. Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Sir Fynwy fod angen mesurau i wneud tirlfeddiannwyr yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Roeddent hefyd yn cwestiynu cymhellion perchnogion tir i gydymffurfio, gan y gallai cofrestru greu beichiau heb unrhyw fanteision cyfatebol. Dywedodd Blaenau Gwent ei bod “yn mynd i fod yn anodd gorfodi neu ddisgwyl i berchnogion tir gyflwyno gwybodaeth a fydd yn costio arian iddynt neu’n difetha eu tir/eiddo”.

- 3.82 Credai Joel James AS, oherwydd bod diogelwch y cyhoedd o domennydd glo yn hollbwysig, na ddylid codi tâl ar dirfeddianwyr i gofrestru, gan y gallai hyn eu hannog i beidio â gwneud hynny. Roedd Richard Arnold yn annog symrlwydd:

Os bydd yn mynd yn rhy gymhleth ac yn cymryd amser, bydd yn drech na'r amcan o gael cofrestr ddiffiniol. Bydd perchnogion tir yn penderfynu'n gyflym a yw cyfranogi yn mynd i fod yn wrthgynhyrchiol.

- 3.83 Rhybuddiodd Cyfoeth Naturiol Cymru am y posibilrwydd o anghydfodau gyda thirfeddianwyr, a allai anghytuno â chofnodion mwyngloddio neu ganfyddiadau'r awdurdod ynghylch presenoldeb tomennydd.
- 3.84 Edrychodd Bob Leeming a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol ar gosbau fel allwedd i orfodaeth. Roedd Bob Leeming yn credu ei bod yn bwysig ei bod yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd i hysbysu.

### Cymhwysio i domennydd risg uwch yn unig?

- 3.85 Cafwyd un awgrym er mwyn osgoi anawsterau gorfodi gan CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), a oedd yn credu y byddai'n well atodi'r ddyletswydd i gategoriâu risg uwch – er enghraifft, o dan y system ddsbarthu dros dro a ddefnyddiwyd, i domennydd categori C a D. Cyfeiriasant at brofiad Cyfoeth Naturiol Cymru o ddelio â chofrestriadau tanciau septig a systemau carthion preifat, lle mae systemau risg isel yn cael eu cofrestru am ddim.<sup>61</sup>

### Rhesymau dros wrthwynebu dyletswydd a dulliau eraill

- 3.86 Roedd Huw Williams yn ystyried anawsterau gorfodi a datgymhellid i gydymffurfio a daeth i'r casgliad ei fod yn gwrthwynebu creu dyletswydd yn gyfan gwbl:

Pe bai dyletswydd o'r fath a gefnogir gan sancsiynau yn cael ei chyflwyno, cyfyd y cwestiwn ynghylch pa gamau y byddai angen eu cymryd i dynnu sylw perchnogion tir ledled Cymru at rwymedigaeth o'r fath. Mae'n bosibl y bydd dyletswydd o'r fath yn datgymhellu tirfeddianwyr i archwilio eu tir yn rhy fanwl os bydd arwyddion o dipio hanesyddol diamheuol yn dechrau dod i'r amlwg.

- 3.87 Credai y byddai'n well rhoi'r pwerau mynediad ac ymchwilio cynhwysfawr i'r awdurdod goruchwylio, a defnyddio technolegau newydd, fel hedfan drôn a mapio lloeren, i sefydlu presenoldeb tomen.
- 3.88 Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno'n fras â chreu dyletswydd, roedd yn credu y byddai'n ateb gwell i'r awdurdod fod mor rhagweithiol â phosibl wrth sefydlu bodolaeth domen. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy ddefnyddio synhwyro o bell, er mwyn dibynnu cyn lleied â phosibl ar ddyletswydd i hysbysu.

---

<sup>61</sup> Gweler Cyfoeth Naturiol Cymru, Cofrestru eich tanc septig o waith trin carthion bach (pecyn), <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges-and-septic-tanks/register-your-septic-tank-or-small-sewage-treatment-plant/?lang=en>. Rhaid i danciau septig a safleoedd trin carthion bach (paced) fod wedi'u cofrestru gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Er mwyn bod yn gymwys i gofrestru am ddim, rhaid i'r system fodloni meini prawf penodol. Mae'r rheini nad ydynt yn bodloni'r meini prawf, er enghraifft oherwydd gollyngiadau mwy neu agosrwydd at safle gwarchoddedig, sy'n dangos bod y system yn peri risg uwch o lygredd, angen trwydded bwrpasol a chodir tâl am hynny.

3.89 Mynegodd CLA Cymru amheuron hefyd, gan bwysleisio'r angen i'r ddyletswydd godi mewn categori mor gul â phosibl o achosion. Roeddent yn cytuno bod agwedd "belt a bresys" yn gofyn am fodolaeth y ddyletswydd, ond roeddent yn meddwl mai ychydig iawn o domennydd a ddylai fod o dan y ddyletswydd o gofio y gwaith helaeth a wnaed eisoes gan y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo ers y llithriad yn Tylorstown i ddod o hyd i domennydd. Gan fod tomennydd glo yn fater a etifeddwyd, dylai hyn, yn eu barn nhw, fod yn ymarfer unwaith ac am byth.

### Trafodaeth

- 3.90 Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid dyletswydd perchennog i hysbysu, er bod rhai amheuron wedi'u mynegi. Cytunwn y gall y ddyletswydd godi mewn nifer fach iawn o achosion yn unig, ond credwn ei bod yn dal yn bwysig. Dylai ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd gael effaith ar ymddygiad perchnogion tir. Er enghraifft, dylai datblygwr sy'n adeiladu ystâd dai ar dir y canfuwyd wedyn ei fod yn cynnwys deunydd tomen roi gwybod am y darganfyddiad fel ei fod yn dod yn eiddo cyhoeddus cyn i berchnogion tai unigol gaffael buddiannau yn yr eiddo a adeiladwyd ar y safle.
- 3.91 Er ei bod yn wir y gallai fod anghymhellion i gofrestru, credwn, fel mater o bolisi, ei bod o fudd i'r cyhoedd sicrhau bod y gofrestr yn cynnwys tomennydd nad ydym yn gwybod amdanynt o'r blaen yn ogystal â thomennydd lle mae gweithrediadau mwyngloddio wedi dod i ben yn ddiweddar.<sup>62</sup>
- 3.92 Rydym yn cytuno y gallai fod anawsterau o ran sefydlu bod person wedi "dod yn ymwybodol" o domen. Rydym yn croesawu awgrym Keith Bush CF ac yn argymhell y dylai'r ddyletswydd i hysbysu ond codi pan fo seiliau rhesymol dros gredu bod y tir yn cynnwys tomen. Yr ydym yn derbyn, fel gydag unrhyw elfen aneglur wrth lunio dyletswydd, y bydd achosion ffiniol o'r math a gyflwynwyd gan Chris Seddon. Rydym yn rhagweld, mewn achos o amheuaeth, y bydd yn agored i dirfeddiannwr wneud hysbysiad rhagofalus a fydd yn cyflawni'r ddyletswydd dybiedig. Nid ydym o blaid trothwy is fel "achos rhesymol i amau", a allai achosi pryder ac ysgogi hysbysiaidau rhagofalus gor-ofalus.
- 3.93 Rydym yn cytuno, yng ngoleuni ein casgliad isod ym mharagraffau 3.137 y dylai manylion y tomennydd fod ar gael i'r cyhoedd ar y gofrestr, bod yr amddiffyniad arfaethedig, ar sail cred resymol bod y domen wedi'i chofrestru, yn ddiangen. Bydd person sy'n canfod tomen, yn unol â'n hargymhellion, yn gallu chwilio'r gofrestr amdani. Felly, dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol os nad yw'r domen eisoes wedi'i chofrestru.
- 3.94 Credwn y byddai'n ormodol gosod y ddyletswydd ar unrhyw berson sy'n darganfod sail dros gredu mewn presenoldeb tomen ar dir na fyddai ganddo gysylltiad o gwbl ag ef o bosibl. Yn hytrach, rydym yn ystyried y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i berson sydd â chyfran sylweddol o gysylltiad â'r tir, ac mai dangosydd derbynol ac ymarferol o gysylltiad o'r fath yw perchnogaeth y rhydd-ddaliad neu lesddaliad a roddir

---

<sup>62</sup> Mae dyletswyddau eisoes yn codi o erthyglau 12 a 13 y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwynau (Cyfarwydddeb 2006/21/EC o'r Senedd a Cyngor Ewropeaidd o'r 15 Mawrth 2006 ar y reoli o gwastraff o diwydiannau echdynnol). Mae'r rhain yn darparu ar gyfer cyfnod ar ôl cau cyfleuster gwastraff mwyngloddio lle'r oedd y cyfleuster yn weithredol ar 1 Mai 2008 neu ar ôl hynny. Ar gyfer ystyriaeth bellach o'r Gyfarwydddeb Gwastraff Mwynau, gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.3 i 5.12.

am gyfnod o fwy na saith mlynedd. Nid ydym yn credu y dylai fod ynghlwm wrth unrhyw berson sy'n meddiannu'r tir nac wrth drydydd parti.<sup>63</sup> Os oes nifer o fuddiannau yn y tir, dim ond y rheini fydd â sail resymol dros gredu bod tomen yn bodoli fydd yn agored i gael eu herlyn. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig i drydydd partion allu hysbysu'r awdurdod os ydynt yn amau presenoldeb tomen, ond nid ydym yn credu bod angen proses hysbysu ffurfiol ar gyfer hyn. Credwn ei bod yn well cael proses hawdd ei defnyddio er mwyn gallu rhoi gwybod i'r awdurdod yn anffurfiol am bryderon, er enghraifft drwy ddarparu rhif ffôn neu ffurflen ar-lein.

- 3.95 Mae'r ymatebion hefyd yn nodi pryderon ynghylch atebolrwydd sy'n codi pan fo tomen yn rhy ddibwys i gyfiawnhau ei chynnwys ar y gofrestr. Gellir lliniaru'r anhawster hwn drwy roi diffiniad i tomen fydd yn cael ei fabwysiadu gan y drefn newydd, a drafodir ym mhennod 7. Ni fyddai'r ddyletswydd i hysbysu yn codi oni bai fod sail resymol dros gredu bod unrhyw ddeunydd tipio a ddarganfuwyd ar dir yn croesi trothwy'r diffiniad.
- 3.96 Nid ydym yn gweld bod angen unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i hysbysu. Nod ein hargymhelliad yw brwydro yn erbyn celu tomennydd a allai fod yn beryglus, yn hytrach na sicrhau cywirdeb manwl y gofrestr. Trafodir yr angen am ddyletswydd i ateb ceisiadau am wybodaeth a dogfennau sy'n berthnasol i ddiogelwch tomennydd i'r awdurdod goruchwyllo yn y bennod nesaf. Yng ngoleuni ein penderfyniad i beidio ag argymhell cynnwys manylion perchnogaeth ar y gofrestr tomennydd, nid ydym yn gweld bod angen dyletswydd i roi gwybod am gaffael perchnogaeth. Yn hytrach, rydym yn awgrymu y gallai cytundebau a gorchmynion tomennydd gynnwys telerau safonol sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo o newid perchnogaeth arfaethedig neu derfynu meddiannaeth.<sup>64</sup>
- 3.97 Nid ydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cymhwyso'r ddyletswydd i domennydd risg uwch yn unig; mae'n debygol y byddai angen arbenigedd technegol ychwanegol i benderfynu nid yn unig a yw'r tir yn cynnwys tomen ond a yw'r domen yn un risg is neu uwch. Mae hefyd yn well i'r ddyletswydd i hysbysu fod yn gyson â'r gofyniad i gynnwys y domen ar y gofrestr tomennydd.<sup>65</sup> Ar ben hynny, mae budd i'r cyhoedd pe bai'r awdurdod goruchwyllo yn ymwybodol o fodolaeth tomen a allai, hyd yn oed os yw'n peri risg is, olygu gwaith cynnal a chadw ataliol.
- 3.98 Yn olaf, rydym yn cytuno bod yn rhaid cael cosb am dorri'r ddyletswydd er mwyn rhoi effaith ymarferol iddi. Rydym yn credu mai'r ffordd hawsaf fyddai gwneud torri'r ddyletswydd yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy. Hyderwn y byddai erlyniadau'n brin neu ddim yn bodoli, o ystyried y posibilrwydd o roi hysbysiad rhagofalus. Bwriad y ddarpariaeth yw meithrin diwylliant o fod yn agored mewn achos prin, mae'n debyg, lle mae perchennog tir yn darganfod presenoldeb tomen nas gwelwyd o'r blaen. Rydym yn disgwyl i domennydd o'r fath fod yn fychan, yn amhroblemus ac yn fychan o ran nifer, ond byddai'r amrywiaeth o ddirwyon sydd ar

---

<sup>63</sup> Rydym yn ystyried sefyllfa tenantiaid o dan ddaliadau amaethyddol neu denantiaethau fferm ym mharagraffau 5.30, 7.48 a 7.67 isod. Nid ydym yn ystyried bod y tebygolrwydd y bydd tomennydd glo an hysbys yn cael eu darganfod ar dir a ddelir o dan denantiaethau o'r fath yn ddigon mawr i gyfiawnhau gorfod i'r ddyletswydd hysbysu ar ddaliadau amaethyddol neu denantiaid busnesau fferm fel y cyfryw.

<sup>64</sup> Rydym yn trafod chwilio'r gofrestr tomennydd ar adeg y trawsgludiad ym mharagraffau 3.133 a 3.134 isod. Mae cytundebau a gorchmynion tomennydd yn cael eu hystyried ymhellach ym mhennodau 5 a 6.

<sup>65</sup> Mae'r diffiniad o domen yn cael ei ystyried ym mhennod 7.

gael, y byddwn yn ei adael i Lywodraeth Cymru benderfynu arnynt, yn adlewyrchu ystod o feiusrwydd o ddifaterwch i gelu er budd masnachol.<sup>66</sup>

- 3.99 Rydym hefyd yn cydnabod na ddylai'r ddyletswydd i hysbysu ddod i rym cyn gynted ag y bydd y gofrestr yn cael ei chreu. Bydd angen i'r rhai sy'n dod o dan y ddyletswydd gael cyfnod ar ôl ei chreu i weld a oes tomen ar eu tir wedi'i gynnwys arno. Mae'n debygol hefyd y bydd angen cymryd camau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddyletswydd. Am y rheswm hwn, byddai'n ddymunol darparu cyfnod pontio cyn i'r ddyletswydd i hysbysu godi. Yn yr un modd, bydd angen i'r rheini sy'n darganfod tomen anhysbys gael cyfnod o amser i hysbysu am ei bodolaeth.
- 3.100 Rydym yn argymhell felly y dylai fod yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy, i berchennog y rhydd-ddaliad neu â buddiant lesddaliad a roddwyd am dros saith mlynedd, sydd â sail resymol dros gredu bod y tir yn cynnwys tomen lo nad yw eisoes ar y gofrestr ac nad yw'n hysbysu'r awdurdod goruchwyllo o fodolaeth y domen.

#### **Argymhelliad 11.**

- 3.101 Rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy, i fethu â hysbysu'r awdurdod goruchwyllo, o fewn terfyn amser penodedig, o fodolaeth tomen lo nad yw'r manylion wedi'u cynnwys ar y gofrestr tomennydd.
- 3.102 Rydym yn argymhell y dylai'r drosedd allu cael ei chyflawni gan
- (1) berchennog rhydd-ddaliadol ar dir sy'n cynnwys y cyfan neu ran o domen lo o'r fath; a
  - (2) pherchennog buddiant lesddaliad mewn tir o'r fath a roddwyd yn wreiddiol am gyfnod o fwy na saith mlynedd.
- sydd â sail resymol dros gredu bod y tir yn cynnwys y cyfan neu ran o domen lo.

---

<sup>66</sup> I drafod y ffactorau sydd i'w hystyried wrth asesu a oes angen ymyriad troseddol mewn fframwaith rheoleiddio, a'r angen am broses deg, gweler y cynigion yn Atebolrwydd Troseddol mewn Cyd-destunau Rheoleiddiol (2010) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 195, paragraffau 3.137–3.143

## **A DDYLAI'R WYBODAETH AR Y GOFRESTR DOMENNYDD FOD AR GAEL I'R CYHOEDD?**

**Cwestiwn Ymgynghori 13: A ydych yn creu y dylai'r wybodaeth mewn cofrestr tomennydd fod yn hygyrch i'r cyhoedd ai peidio? A oes yna unrhyw gategoriâu penodol o wybodaeth na ddylid eu cyhoeddi?**

3.103 Atebodd pum deg dau o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 42 (81%) yn cytuno y dylai gwybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd. Roedd pump (10%) yn meddwl na ddylai, ac atebodd y gweddill "arall".

### **Rhesymau pam y dylai'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd**

3.104 Roedd yr ymatebwyr oedd o blaid sicrhau bod y gofrestr ar gael i'r cyhoedd yn dibynnu'n fwyaf cyffredin ar yr angen i hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd, atebolrwydd a thryloywder. Fel y dywedodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo:

Rydyn ni'n credu ei bod hi'n hanfodol bod y gofrestr tomennydd yn agored ac yn hawdd i'w defnyddio er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd ac atebolrwydd – yn enwedig i'r cymunedau sydd wedi dioddef yng nghysgod tomennydd glo, heb fawr o ffyrdd i weithredu.

3.105 Dywedodd yr Athro Bob Lee y byddai "unrhyw beth heblaw cofrestr gyhoeddus yn mynd yn groes i ysbryd deddfwriaeth bresennol Cymru". Credai hefyd fod risgiau o ddibrisio eiddo eisoes yn cael eu "hymgorffori" yn ôl pob tebyg:

Nid wyf yn derbyn y bydd malltod yn debygol iawn, sy'n diystyru gwybodaeth leol a lleyg sylweddol yn y cymunedau dan sylw, er y gallaf weld y gallai yswirwyr ddefnyddio unrhyw gofrestr ac y byddai'n anodd gwarchod rhag hyn pe bai'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, fel y dylai fod.

3.106 Pwysleisiodd rhai fod gwybodaeth yn grymuso'r rhai y gallai tomen effeithio arnynt. Roedd Keith Bush CF yn cydnabod effaith bosibl presenoldeb tomen ar y gofrestr ar werth tir, ond dywedodd:

3.107 gan mai holl bwrpas y drefn yw gwarchod pobl ac eiddo rhag canlyniadau tomennydd ansefydlog dylai fod gan y cyhoedd hawl i wybod am bresenoldeb tomennydd er mwyn iddynt medru gofyn cwestiynau perthnasol am gyflwr y tomennydd hynny. Roedd rhai ymatebwyr yn dibynnu ar gymariaethau â mathau eraill o gofrestr a oedd yn agored i'r cyhoedd. Credai Dr John Perry y dylai prynwr tir allu edrych ar y gofrestr yn yr un modd â map llifogydd. Nododd Huw Williams debygrwydd y wybodaeth i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar gofrestri cyhoeddus eraill megis y rhai sy'n ymwneud â thir halogedig.

3.108 Cyfeiriwyd hefyd at ddefnyddiau penodol ar gyfer y wybodaeth ar y gofrestr i gefnogi mynediad cyhoeddus: asesu risg fel sail i ddylunio seilwaith newydd ar y rhwydwaith rheilffyrdd a'r broses rheoli risg ar gyfer yswirwyr tir (Network Rail); prosiectau ymchwil prifysgol (Dr Peter Brabham); diogelwch dŵr yfed a chyflenwadau dŵr preifat (Dŵr Cymru); ac arweiniad ar ddatblygu diogel ac osgoi gweithgareddau ansefydlogi (Howard Siddle).

## Rhesymau pam na ddylai'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd

- 3.109 Y rheswm mwyaf amlwg a roddwyd yn erbyn gwneud cynnwys y gofrestr yn gyhoeddus oedd y risg o "falltod" ar eiddo wrth ymyl neu'n agos at domennydd risg uchel, gan effeithio ar werth tir a phrisiau eiddo ac ar gost yswiriant. Gallai hefyd gael effaith ar eiddo sy'n cael eu hadeiladu ar safleoedd wedi'u hadfer. Pwysleisiwyd y safbwyntiau hyn gan Flaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot wrth wrthwynebu mynediad cyhoeddus i'r gofrestr.
- 3.110 Yn ogystal, yr oedd pryderon ynghylch achosi braw diangen i'r cyhoedd. Roedd ICE Cymru yn cytuno â hygyrchedd, ond yn rhybuddio y dylid hefyd "bod yn ofalus o ran cyhoeddi data a allai achosi pryder i'r cyhoedd heb reswm digonol".

## Pryderon a fynegwyd er gwaethaf cytundeb

- 3.111 Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Philip Thomas a Richard Arnold, yn cytuno â hygyrchedd cyhoeddus, ond hefyd yn mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd o falltod. Mynegodd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) yr un pryder gan roi ateb "arall". Awgrymodd Philip Thomas gynllun iawndal am golli gwerth eiddo. Dywedodd Stephen Smith:

Mae hwn yn faes anodd (er enghraifft, roedd mabwysiadu Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 wedi arwain at oedi hir o ran materion fel malltod), ond, ar y cyfan, teimlaf y byddai mynediad i'r gofrestr yn fuddiol – yn wahanol halogiad sydd wedi'i gladdu yn y ddaear, mae presenoldeb tomen yn amlwg iawn.

- 3.112 Tynnodd Cymdeithas y Gyfraith sylw at yr effaith ar yswiriant cartrefi, a'r angen i ymgynghori ag yswirwyr cartrefi. Byddai ymatebion yswirwyr i ddigwyddiadau diogelwch yn ddiweddar yn rhoi syniad o'r effaith bosibl. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod chwiliadau prynu tai eisoes yn rhoi mynediad at wybodaeth am gloddio glo, perygl llifogydd a safleoedd tirlenwi.

## Chwilio am wybodaeth am eiddo

- 3.113 Cyfeiriodd Cymdeithas y Gyfraith, CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chyfoeth Naturiol Cymru at bwysigrwydd chwilio am wybodaeth am eiddo wrth ystyried mynediad y cyhoedd i'r gofrestr. Mae'r rhain eisoes yn ymchwilio i gofnodion yr Awdurdod Glo o asedau pyllau glo, ardaloedd risg llifogydd a safleoedd tirlenwi. Awgrymodd CLILC y gellid ymestyn y chwiliadau safonol sy'n ofynnol ar adeg y trawsgludiad i gynnwys chwilio'r gofrestr tomennydd. Cynigiodd Cymdeithas y Gyfraith y dylai'r wybodaeth ar y gofrestr gael ei chynnwys fel rhan o'r chwiliad CO29M safonol (Cloddio Glo Swyddogol) heb fod angen cwestiwn ychwanegol, gan y byddai hyn yn golygu byddai angen ffi ychwanegol. Yn eu barn nhw, byddai risgiau sy'n gysylltiedig â thomennydd, fel ymsuddiant, yn debygol o fod angen cyngor arbenigol yn ogystal â chyfreithiwr.<sup>67</sup>

## Categoriâu gwybodaeth na ddylai fod ar gael i'r cyhoedd

- 3.114 Nododd ymatebwyr fod nifer o gategoriâu gwybodaeth angen cael eu heithrio o'r gofrestr tomennydd.

---

<sup>67</sup> Gallai chwiliad o'r gofrestr ddatgelu, er enghraifft, fodolaeth gorchymyn tomen. Gweler paragraff 3.129 isod.



## GDPR/personol

- 3.115 Nododd llawer o ymatebwyr yr angen i'r gofrestr gydymffurfio â gofynion GDPR. Nododd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chastell-nedd Port Talbot fod angen sicrhau bod gwybodaeth bersonol am dirfeddianwyr yn cydymffurfio â gofynion GDPR. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai cynnwys rhagnodedig y gofrestr (a drafodir uchod ym mharagraffau 3.25 i 3.41) nodi, er enghraifft, y dylid nodi cyrff corfforaethol a chymdeithasau, a darparu statws "turfeddiannwr preifat" i'w ddefnyddio ar gyfer rhyddhau i'r cyhoedd. Nododd yr Athro Thomas Watkin hefyd fod angen eithrio unrhyw gofnod o achosion blaenorol yn erbyn perchnogion. Credai Rhondda Cynon Taf a Vikki Howells AS hefyd y dylid eithrio gwybodaeth bersonol y tu hwnt i berchnogaeth, fel mewn perthynas â chyfrifiadau a chostiadau. Awgrymodd Kim Moreton y dylid eithrio gwybodaeth fasnachol sensitif am brydles lle mae busnes yn bodoli ar y tir.
- 3.116 I'r gwrthwyneb i bryderon a fynegwyd ynghylch cynnwys gwybodaeth am berchnogaeth, tynnodd CLA Cymru sylw at y ffaith bod gwybodaeth am berchnogaeth ar gael yn gyhoeddus gan y Gofrestrfa Tir. Ni welsant unrhyw reswm dros eithrio manylion y perchennog.

## Categoriâu risg ac arolygiadau

- 3.117 Credai llawer o'r ymatebwyr na fyddai'n briodol cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag asesu risg ac arolygiadau ar y gofrestr. Safbwynt Howard Siddle oedd y dylai'r wybodaeth ar y gofrestr fod yn ffeithiol ac y dylai barn ar ddiogelwch aros ar adroddiadau sydd y tu ôl i'r gofrestr. Yn yr un modd, credai CLA Cymru y dylai manylion sy'n ymwneud â gwaith adfer, manylion contract ac unrhyw apelïadau fod yn gyfrinachol. Credai Steve Jones o'r Adran Cynllunio Argyfwng yng Nghyngor Sir Penfro y dylai'r sgôr risg fod yn gyfrinachol. Roedd Trafnidiaeth Cymru o'r farn bod angen rheoli categorïau risg gyda goblygiadau i drydydd partïon mewn modd sensitif. Gwelodd yr Athro Bob Lee wahaniaeth rhwng gwybodaeth ar wyneb y gofrestr a dogfennau cefndir sy'n sail i wybodaeth gofrestrdig:

Er enghraifft, er y gellid cofrestru amleddau arolygu, efallai na fyddai angen cofrestru adroddiadau arolygu – er mwyn cadw'r gofrestr o filoedd o domennydd yn gymharol hygrych.

- 3.118 Roedd Lee Jones yn credu:

Ni ddylid cyhoeddi penderfyniadau parhaus yr Awdurdod mewn perthynas â sefydlogrwydd tomennydd oherwydd byddai angen adolygu'r rhain yn rheolaidd oherwydd newidiadau disgwylïedig yn nodweddion y domen.

Credai mai'r dull gorau fyddai defnyddio'r "llwybrau cyfathrebu priodol" i ryddhau'r wybodaeth angenrheidiol i'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio pe bai tomen yn cael ei ystyried yn berygl uniongyrchol i'r cyhoedd.

- 3.119 Ym marn Rhondda Cynon Taf, gallai archwiliadau tomennydd ymddangos ar y gofrestr ar yr amod bod dull unffurf safonol o arolygu a dosbarthu yn bodoli.
- 3.120 Credai'r Athro Bob Lee y gallai adroddiadau arolygu a dogfennau eraill sy'n sail i sgorio risg gael eu defnyddio gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a/neu

geisiadau am wybodaeth amgylcheddol, ac ni allai weld unrhyw achos dros eu heithrio.<sup>68</sup> Fel sy'n cael ei ystyried uchod, yn ei farn ef byddai malltod yn cael ei osgoi gan fod gwybodaeth leol am domen yn golygu bod unrhyw effaith ar werth eiddo eisoes yn cael ei "ymgorffori", a nododd hefyd y dylai fframwaith rheoleiddio newydd llwyddiannus hyrwyddo mwy o ddiogelwch tomennydd, gan wrthbwysu unrhyw anfantais fasnachol sy'n gysylltiedig â chofrestru.

- 3.121 I'r gwrthwyneb, nododd Ove Arup a Phartneriaid y dylai'r gofrestr fod yn ddigon cynhwysfawr i gynnwys gwybodaeth y gellid gwneud asesiad ar sail risg ohoni, yn ogystal â nodi canlyniadau ansefydlogrwydd neu fethiant y domen.

### Gwybodaeth am orfodaeth

- 3.122 Roedd Lee Jones hefyd o'r farn na ddylai ystyriaethau parhaus sy'n ymwneud â champau gorfodi arfaethedig fod yn hygyrch i'r cyhoedd, ond y gallent fynd ar y gofrestr ar ôl iddynt gael eu pennu a'u gweithredu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gorchmynion cynnal a chadw ac adfer a roddwyd.

### Gwybodaeth sensitif i ddiogelwch

- 3.123 Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Steve Jones o Adran Cynllunio at Argyfwng Cyngor Sir Penfro at yr angen i gadw gwybodaeth am nodweddion ffisegol penodol y domen yn gyfrinachol lle gallai'r rhain gael eu hecsbloetio gan rai â bwriad gelyniaethus. Roedden nhw'n meddwl y gallai rhai nodweddion tomen, er enghraifft tomen hylifol, ddatgelu gwendidau a chreu potensial ar gyfer gweithredoedd maleisus sy'n gallu achosi niwed a risg enfawr i fywyd. Tynnodd CNC ein sylw at nifer o benderfyniadau'r Comisiynydd Gwybodaeth sydd wedi cadarnhau gwrthod rhyddhau deunyddiau sensitif sy'n ymwneud â diogelwch cronfeydd dŵr.<sup>69</sup> Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn darparu y gellir dal gwybodaeth ar y gofrestr cronfeydd dŵr yn ôl os byddai ei chynnwys yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol.<sup>70</sup>

### Math o fynediad

- 3.124 Roedd rhai ymatebwyr yn edrych yn fanylach ar y cysyniad o fynediad cyhoeddus. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y trafodwyd uchod, yn pwysleisio ansawdd y mynediad, gan fynnu bod y gwasanaethau digidol gorau yn cael eu defnyddio. Roedd ALGAO yn credu y gallai fod yn briodol darparu lefelau gwahanol o fynediad ar gyfer grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr, er enghraifft rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Roeddent hefyd o'r farn, lle'r oedd gwybodaeth wedi'i darparu gan drydydd parti, y dylid ymgynghori â'r corff gwreiddiol ynghylch cyfyngiadau hawlfraint, mynediad neu ddefnydd cyn eu cyhoeddi.

---

<sup>68</sup> Mae cais wybodaeth amgylcheddol yn cael ei wneud yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol SI 2004 Rhif 3391.

<sup>69</sup> Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Hysbysiad Penderfyniad Cyfeiriad FER0899827, <https://ico.org.uk/media/action-weve-taken/decision-notice/2020/2618059/fer0899827.pdf>; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Hysbysiad Penderfyniad Cyfeiriad IC-48075-B0D4, <https://ico.org.uk/media/action-weve-taken/decision-notice/2020/2618499/ic-48075-b0d4.pdf>

<sup>70</sup> Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2(2A).

## Trafodaeth

- 3.125 Roedd cefnogaeth gref gan ymatebwyr i wneud y gofrestr tomennydd yn gyhoeddus. Rydym yn cytuno â'r rhesymau a fynegwyd. Fel y soniwyd eisoes, rydym o'r farn y dylai ei gynnwys gael ei reoli gan p'un a oes budd i'r cyhoedd petai gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd.<sup>71</sup> Ni ddylai'r gofrestr geisio bod yn gronfa ddata gyflawn o'r holl wybodaeth sy'n bodoli am domennydd, ac ni ddylai ychwaith fod mor gynhwysfawr nes bod yr awdurdod goruchwylio mewn gwirionedd yn cyflawni ei swyddogaeth gyfan yn gyhoeddus. Mae ymatebion ar fater mynediad i'r gofrestr wedi ein helpu i ddod i'r farn hon.
- 3.126 Os dilynir yr argymhelliad hwnnw, ni ddylai fod angen adran gaeedig ar y gofrestr na haenau mynediad iddi. Yn hytrach, credwn y dylid ymddiried yn yr awdurdod goruchwylio i gaffael y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol, ac i'w rhannu gyda'r rheini sydd â diddordeb dilys yn ei derbyn, ond dylai'r broses honno ddigwydd y tu allan i'r gofrestr.
- 3.127 Rydym yn deall y pryderon a fynegwyd am falltod a braw diangen ond mae angen gosod y rhain yn eu cyd-destun. Pwrpas y fframwaith rheoleiddio newydd, gan gynnwys y gofrestr tomennydd, yw lleihau'r risg drwy ragnodi'n fanwl y gofynion ar gyfer archwilio, cynnal a chadw ac adfer. Bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu hystyried yn fanwl dros dair pennod nesaf yr adroddiad hwn. Os oes angen sicrwydd gan y cyhoedd oherwydd categori risg uwch, efallai y bydd angen cynnwys gwybodaeth gyhoeddus ychwanegol gyda'r cofnod ar y gofrestr ynghylch y gwaith sy'n ofynnol ar y domen a'r amserlen ar gyfer ei gwblhau. Ond, unwaith eto, nid oes angen darparu hyn yn ddieithriad drwy'r gofrestr. Gall Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdod goruchwylio ac awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i drigolion lleol a chwmnïau yswiriant i sicrhau eu bod yn deall bod y system newydd yn ymwneud â gwaith rhagweithiol i sicrhau diogelwch.
- 3.128 Rydym yn cytuno y dylai'r wybodaeth ar y gofrestr fod yn syml ac yn ffeithiol. Byddai cofnodion hanesyddol, er enghraifft, yn ddogfennau y gallai'r awdurdod goruchwylio gadw copïau ohonynt, ac a allai fod ar gael mewn manau eraill hefyd, ond a fyddai'n ychwanegu'n sylweddol at swmp y gofrestr os yw hefyd ar gael ar y gofrestr. Gellid atodi cofnodion o'r fath i'r gofrestr fel gwybodaeth gefndir sy'n sail i'r gofrestr yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y gofrestr. Byddai cynnwys adroddiadau technegol cymhleth neu hir yn cyflwyno gwybodaeth ar ffurf anhygyrch. Ar ben hynny, gallai rhai cofnodion, fel cofnodion tomennydd hŷn, fod yn gamarweiniol ac achosi braw diangen os cânt eu cyhoeddi'n swyddogol gan yr awdurdod; gallent, er enghraifft, gofnodi pryderon diogelwch cynharach sydd wedi cael eu cywiro ers hynny.
- 3.129 Rydym wedi cynnig uchod y gallai'r wybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus gynnwys lleoliad a gwybodaeth sylfaenol am ddsbarthu risg a mesurau rheoli tomennydd. Rydym yn awgrymu y gallai hyn gynnwys y canlynol: crynodeb o'r adroddiad ar yr arolygiad cychwynnol rydym wedi'i argymhell yn 4.32 mewn iaith sy'n hygyrch i'r rheini nad ydynt yn arbenigwyr, y dosbarthiad risg sydd wedi'i neilltuo i'r domen (gan gynnwys a yw wedi cael ei dynodi yn unol â'n hargymhelliad ym mharagraff 6.70), a chopi (neu grynodedb hygyrch) o'r cynllun rheoli tomennydd a argymhellwyd gennym yn 4.63. Gwybodaeth arall y gellid ei chynnwys yw dyddiad yr arolygiad diwethaf,

---

<sup>71</sup> Gweler paragraff 3.34 uchod.

dyddiad yr arolygiad nesaf a drefnwyd, crynodebau o adroddiadau archwiliadau dilynol, gwybodaeth am unrhyw waith arfaethedig ac a oes unrhyw orchmynion tomen mewn grym. Rhaid i wybodaeth o'r fath fod yn seiliedig o reidrwydd ar ddull unffurf o archwilio, rheoli tomennydd a dosbarthu risg, a drafodir ymhellach yn y bennod nesaf.

- 3.130 Nid ydym yn credu y dylid cynnwys yr holl adroddiadau technegol sy'n arwain at y categoredd. Rydym hefyd yn cytuno â'r ymatebwyr bod angen eithrio rhywfaint o wybodaeth o olwg y cyhoedd; er enghraifft manylion contract sy'n ymwneud â gwaith sydd i'w wneud, cyfrifiadau cost, apeliadau, gweithgareddau gorfodi, a gwybodaeth sensitif am ddiogelwch. Rydym yn gweld yr egwyddor arweiniol yma fel dymuniad i ddangos i'r cyhoedd yng Nghymru fod yr awdurdod goruchwylio yn delio â phroblem tomennydd glo, a'i fod yn mynd i'r afael â hi.
- 3.131 Mae'r wybodaeth y bydd angen i'r awdurdod ei chadw yn debygol o fod yn fwy cymhleth na'r wybodaeth sydd ei hangen at ddibenion sicrwydd cyhoeddus. Rydym o'r farn y dylai'r awdurdod fabwysiadu dull agored o rannu gwybodaeth gydag awdurdodau eraill, gan gynnwys y gwasanaethau brys, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n ymwneud â gwaith arbenigol fel gwarchod yr amgylchedd, cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol ac archaeoleg. Byddai angen i hyn gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am gynnal HER a NMRW.
- 3.132 Er mwyn cymharu, mae gan gyfundrefnau eraill y mae angen cofrestr asedau ar eu cyfer ddulliau gwahanol o roi mynediad i'r cyhoedd. Rhaid i'r gofrestr risg llifogydd, er enghraifft, fod ar gael i'w harchwilio, ond dim ond rhestr o strwythurau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd yn yr ardal. Mae dyletswydd ychwanegol i gadw cofnod sy'n cynnwys gwybodaeth am berchnogaeth a chyflwr y strwythur neu'r nodwedd, ond cyfrifoldeb yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yw penderfynu a fydd cofnod ar gael i'w archwilio. Y bwriad y tu ôl i'r ddeddfwriaeth oedd rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod benderfynu sut y cofnodwyd gwybodaeth a faint o fanylion a gynhwysir.<sup>72</sup> Rhaid i gofrestrau o gronfeydd dŵr yng Nghymru hefyd gynnwys yr wybodaeth a bennir mewn rheoliadau, ond mae'r rhestr o wybodaeth ragnodedig yn llawer ehangach. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gadw'r gofrestr yn ei brif swyddfeydd.<sup>73</sup>
- 3.133 Rydym yn cytuno y dylai chwiliadau trawsgludo safonol gynnwys chwilio'r gofrestr tomennydd. Gall chwiliadau presennol ddangos presenoldeb tomennydd glo, ond gall y chwiliadau a wneir gan drawsgludwyr penodol amrywio. Nid yw chwiliadau yn orfodol oni bai fod benthyciwr morgais yn gofyn am hynny. Mae chwiliad CON29M, a gynnigir gan yr Awdurdod Glo, yn darparu gwybodaeth am "beryglon wyneb sy'n

---

<sup>72</sup> Gweler Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, adran 21(1) a Adran ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Nodyn Gwybodaeth ar Brif Ddyletswydd Awdurdodau Llifogydd Lleol i Gynnal Cofrestr* (2011) [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/218672/Ifa-register-infonote.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/218672/Ifa-register-infonote.pdf). Mae'r Ddeddf yn darparu bŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer cynnal y gofrestr a chofnodi: a 21(2). Mae yn darparu hefyd bŵer i wneud rheoliadau i ddarparu i wybodaeth o ddisgrifiad penodedig gael ei heithrio o'r gofrestr: a 21(4).

<sup>73</sup> Mae Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhagnodedig, etc.) (Cymru) 2016 Rhif 180 (Cy 37), atodlen 1, paragraffau 1 i 10 yn rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w rhoi mewn cofrestrau Cymreig o gyfgronfeydd dŵr mawr. Mae'r rhestr yn cynnwys lleoliad y gronfa ddŵr, enw a chyfeiriad yr ymgymerwr, crynodebau o dystysgrifau neu adroddiadau sy'n ofynnol gan statud ac a yw'r gronfa ddŵr wedi'i dynodi'n gronfa risg uchel. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud wrthym fod y rhan fwyaf o geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â lleoliad, perchnogaeth a dyddiad yr arolygiad diwethaf a'r un nesaf.

gysylltiedig â chloddio glo". Mae chwiliadau awdurdodau lleol yn cynnwys chwilio'r gofrestr pridiannau tir lleol (LLC1) ac atebion i set safonol o ymholiadau CON29. Mae ymchwiliadau CON29 yn ymwneud â phriffyrdd cyhoeddus, cynigion ar gyfer ffyrdd newydd, cynlluniau rheilffordd neu benderfyniadau cynllunio a allai effeithio ar yr eiddo, hysbysiadau statudol heb eu cwblhau, torri rheoliadau cynllunio neu adeiladu, gorchmynion prynu gofodol a ffactorau amgylcheddol megis a yw'r tŷ yn sefyll ar dir halogedig.<sup>74</sup>

3.134 Er y gallai'r chwiliadau hyn ddatgelu presenoldeb tomennydd glo, byddai'n symlach, ar ôl sefydlu'r gofrestr, i drawsgludwyr gynnal chwiliad o'r gofrestr ei hun. Rydym o'r farn ei bod yn hynod ddymunol i chwiliad o'r gofrestr tomennydd fod yn rhan o chwiliad trawsgludo safonol. Rydym yn gadael i Lywodraeth Cymru ymchwilio i'r math o chwiliad a fyddai'n gweddu orau i'r darpariaethau presennol. Bydd angen ymchwilio ymhellach i weld a fyddai'n fwyaf priodol cynnwys chwiliad o'r gofrestr fel rhan o chwiliad CON29M, a gyfeiriwyd at yr Awdurdod Glo, neu ran o ymholiadau CON29, a gyfeiriwyd at awdurdodau lleol.

3.135 Rydym yn cytuno ag awgrymiadau ynghylch ansawdd mynediad i'r gofrestr, a'r angen i sicrhau bod modd deall y wybodaeth ar y gofrestr yn hawdd, ond ei gadael i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i'r dull gorau. Efallai y gellir cydlynu hyn drwy ddatblygu gwasanaethau digidol eraill.

#### **Argymhelliad 12.**

3.136 Rydym yn argymhell y dylai cynnwys rhagnodedig y gofrestr tomennydd gael ei reoli gan p'un a yw er budd y cyhoedd i wybodaeth benodol ynghylch tomennydd glo fod ar gael i'r cyhoedd.

#### **Argymhelliad 13.**

3.137 Rydym yn argymhell y dylid cael mynediad cyhoeddus i'r gofrestr tomennydd, gan ddarparu crynodeb hygyrch o wybodaeth berthnasol.

---

<sup>74</sup> Dan Ddeddf Seilwaith 2015, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gofrestrau pridiannau tir lleol yng Nghymru a Lloegr i Gofrestrfa Tir EM fesul cam. Mae awdurdodau lleol yn parhau i ymateb i ymholiadau CON29. Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-local-land-charges-programme/local-land-charges-programme>.

#### **Argymhelliad 14.**

3.138 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Chymdeithas y Gyfraith, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r bwriad o sefydlu chwiliad o'r gofrestr tomennydd fel rhan o chwiliad trawsgludo safonol mewn perthynas ag eiddo yng Nghymru.

## Pennod 4: Archwilio tomennydd, asesiadau risg, cynlluniau rheoli tomennydd a dosbarthiadau risg

- 4.1 Roedd ein papur ymgynghori yn egluro mai un o'r prif broblemau gyda Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969 oedd diffyg dyletswydd gyffredinol i archwilio pob tomen. Seiliwyd y Ddeddf 1969 ar y farn bod tomennydd anweithredol yn broblem weddilliol, eu bod yn llai tebygol o fod yn beryglus, ac y gallai awdurdodau lleol ddelio ag unrhyw broblemau ansefydlogrwydd. Y mecanwaith a ddarparwyd gan y Ddeddf 1969 i ddiogelu'r cyhoedd oedd pŵer awdurdod lleol i gael mynediad at wybodaeth ac i fynd ar dir i gynnal profion archwiliadol i benderfynu a yw tomen anweithredol "yn sefydlog ac a yw unrhyw ansefydlogrwydd yn beryglus neu'n debygol o fod yn berygl i aelodau o'r cyhoedd".<sup>75</sup>
- 4.2 Yr oedd rhai awdurdodau lleol wedi dweud wrthym eu bod wedi dehongli'r pŵer fel gofyniad iddynt ddangos achos dros amau ansefydlogrwydd cyn ymchwilio. Roedd hyn yn creu sefyllfa lle'r oedd awdurdodau'n gallu ymchwilio dim ond os oedd ganddynt dystiolaeth o ansefydlogrwydd, y gallent ei chael dim ond drwy ymchwilio. Roedd eraill yn dehongli'r pŵer yn fwy eang.<sup>76</sup>
- 4.3 Yr oedd awdurdodau lleol hefyd wedi dweud wrthym eu bod am gael mwy o eglurder ynghylch eu pwerau i fynd ar y safle i gynnal arolygiad. Nid oeddent am gael eu clymu i'r angen i gyfiawnhau eu hymyriad oherwydd perygl tybiedig i'r cyhoedd. Roeddent hefyd am i'r ddyletswydd gael ei hategu gan ddull safonol o ddosbarthu risg.<sup>77</sup> Dywedodd tîm yr Awdurdod Glo sy'n gwneud gwaith i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo hefyd eu bod yn credu bod manteision clir o fabwysiadu proses safonol o arolygu ac adrodd yn seiliedig ar ddiffiniad clir o'r hyn sydd i'w wirio. Gellid cefnogi hyn drwy ddefnyddio un fformat adrodd a safonau hyfforddi unffurf ar gyfer arolygwyr.<sup>78</sup>
- 4.4 Am y rhesymau hyn, gwnaethom gynnig dros dro y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â dyletswydd i archwilio'r holl domennydd ar ôl eu cofnodi ar y gofrestr. Fe wnaethom egluro y gellid defnyddio gwybodaeth o'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ers mis Chwefror 2020 mewn rhai achosion fel arolygiad cyntaf. Roeddem hefyd wedi awgrymu y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer i ddirprwyo'r swyddogaeth arolygu i gyrff eraill sydd â chymwysterau priodol fel awdurdodau lleol os nad oedd nifer yr arolygiadau gofynnol o fewn amser penodol yn ymarferol. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i domennydd risg is.<sup>79</sup>

---

<sup>75</sup> Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969, Rhan 2; Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 4.36 i 4.38.

<sup>76</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 7.11.

<sup>77</sup> Uchod, paragraff 7.55.

<sup>78</sup> Uchod, paragraffau 10.32 a 8.30.

<sup>79</sup> Uchod, paragraff 10.42.

- 4.5 Gan ddefnyddio barn rhanddeiliaid ac agweddau ar y model a ddarperir gan y drefn reoleiddio ar gyfer cronfeydd dŵr, roeddem yn rhagweld mai pwrpas yr arolygiad cychwynol fyddai cynnal asesiad risg ar gyfer y domen a dylunio cynllun rheoli tomennydd. Byddai'r asesiad risg yn seiliedig ar broffil ffisegol y domen a'r derbynyddion y byddai hyn yn effeithio arnynt pe bai'r domen yn methu. Fel hyn, byddai tebygolrwydd a chanlyniadau methiant yn cael eu hystyried. Roeddem yn awgrymu y gallai casglu data gynnwys ffactorau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o beryglon yn hytrach na dim ond sefydlogrwydd. Byddai'r cynllun rheoli tomen yn benodol i'r domen neu'r clwstwr o domennydd. Byddai'n cynnwys manylebau fel pa mor aml y cynhelir yr archwiliad, y gwaith cynnal a chadw ac adfer sy'n ofynnol ac amserlen ar gyfer cwblhau unrhyw waith.<sup>80</sup>
- 4.6 Yr oeddem yn credu y byddai'n briodol, ar lefel gyffredinol, rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r materion sydd i'w cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd. Rhagwelwyd y byddai'n agored i'r awdurdod goruchwyllo lunio'r cynllun ei hun, neu drefnu i'r cynllun gael ei baratoi.<sup>81</sup>
- 4.7 Yn unol â hynny, roeddem yn cynnig dros dro y byddai'r awdurdod goruchwyllo o dan ddyletswydd i drefnu bod asesiad risg a chynllun rheoli tomen yn cael eu llunio ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr, ac y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys drwy offeryn statudol. Roeddem hefyd wedi cynnig dros dro y dylai dosbarthiad risg y domen ystyried y risg o ansefydlogrwydd y domen, a chanlyniadau llithriad rwbel, a gofynnwyd am farn ynghylch a ddylai'r dosbarthiad ychwanegol ystyried risgiau llygredd, hyllogi a llifogydd.
- 4.8 Mae'r adrannau canlynol yn trafod ymatebion ar yr agweddau hyn ar y fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig.

## DYLETSWYDD I ARCHWILIO

**Cwestiwn Ymgynghori 14: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal. A ydych yn cytuno?**

- 4.9 O'r 50 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 45 (90%) yn cytuno. Roedd un ymatebydd (2%) yn anghytuno a phedwar wedi ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno â dyletswydd i archwilio

- 4.10 Roedd y rhesymau a gyflwynwyd gan ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig hwn yn cynnwys gwerthfawrogiad o'r cyfraniad y byddai dyletswydd arolygu ar draws y bwrdd yn ei wneud i hyder y cyhoedd mewn diogelwch tomennydd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sefydlu gwaelodlin gyson ac o ansawdd uchel hefyd. Byddai hyn yn golygu bod modd nodi'r camau priodol i sicrhau diogelwch a darparu man cyfeirio ar gyfer adolygu archwiliadau yn y dyfodol. Fe'i galwyd gan Kim Moreton yn:

<sup>80</sup> Uchod, paragraffau 10.44 i 10.46.

<sup>81</sup> Uchod, paragraffau 10.32 a 10.48.



“cofnod o gyflwr” cyfoes a fyddai'n golygu bod modd sefydlu llinell sylfaen y gellid modelu risgiau yn ei herbyn oherwydd dirywiad neu ddirywiad annisgwyl yn y dyfodol.

- 4.11 Credai Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt) y byddai angen i'r arolygiad “wrth fynd i mewn” fod yn “asesiad lefel uchel o'r domen i ddosbarthu'r domen yn gywir, a fydd yn llywio'r camau gweithredu wrth symud ymlaen”. Roeddent hefyd wedi nodi'r dreth ar adnoddau sy'n deillio o fethu â chymryd y cam cychwynol hwn:

Mae diffyg data sylfaenol neu ddata llinell sylfaen gwael yn debygol o wneud dehongli arolygiadau yn y dyfodol yn fwy anodd, o gymryd mwy o amser ac am fwy o gost.

### Cynnwys yr archwiliadau cychwynol

- 4.12 O ran cynnwys yr arolygiad cyntaf, pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen am ganllawiau a disgwyliadau clir. Yng ngeiriau CNC, byddai angen “safon glir o ran beth yw archwiliad derbynol”. Cyfeiriodd y Cynghorydd Julie Edwards at greu “rhestr dicio” i sicrhau bod yr holl domennydd yn cael eu harchwilio i'r un safon yn ddieithriad. O ran sut i ymdrin â'r archwiliadau, awgrymodd Dr Peter Brabham y gallai timau efallai ddefnyddio delweddau yn gyntaf, ac yna arolwg ar droed.

- 4.13 Pwysleisiodd Howard Siddle bwysigrwydd cofnodion tomennydd hanesyddol. Credai y byddai'r arolygiad cychwynol, yr asesiad risg dilynol a'r cynllun rheoli, pa mor drylwyr bynnag y bo, bron yn ddibwys os nad oedd gan yr arolygydd unrhyw wybodaeth flaenorol am hanes y domen.<sup>82</sup> Yn ei farn ef:

Mae angen adolygu adroddiadau blaenorol cyn cofrestru er mwyn i hanes y domen, a'r ansefydlogrwydd blaenorol a'r mesurau adfer gael eu deall a'u hadolygu'n feirniadol yn ystod yr arolygiad ac fel sail i'w gasgliadau ... . Bydd adroddiadau blaenorol, os ydynt ar gael, yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am, ymhlith eraill, ffactor cynllunio diogelwch ar gyfer asesu graddfa sefydlogrwydd llethrau'r tomennydd.... Bydd angen i arolygiad a'i adroddiad ddod i ben gyda barn yr arolygydd ar ddiogelwch y domen, a ddylai fod yn seiliedig nid yn unig ar eu harolygiad ond hefyd ar feini prawf dylunio, os oes rhai, fel ffactor diogelwch y llethrau, y cofnodir pob un ohonynt mewn adroddiadau.

- 4.14 Pwysleisiodd Jacobs bwysigrwydd cofnodion hanesyddol hefyd:

Mae llawer o wybodaeth hanesyddol ddefnyddiol iawn am lawer o domennydd pyllau glo yn Ne Cymru, gan gynnwys asesiadau o sefydlogrwydd, asesiadau risg/atebolrwydd, cynlluniau adfer/unioni, cofnodion arolygu, a bydd pob un ohonynt yn werthfawr iawn o ran dosbarthu tomennydd a gwaith asesu tomennydd yn y dyfodol o ran gwynwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

### Blaenoriaethu archwiliadau

- 4.15 Roedd rhai ymatebion yn myfyrio ar effaith ymarferol dyletswydd gyffredinol i arolygu yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig anochel. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda thua 2500 o safleoedd tomennydd glo anweithredol ledled Cymru, y byddai'r

---

<sup>82</sup> Trafodir hyn hefyd ym mharagraff 3.30 uchod.

llwyth gwaith archwilio yn uchel iawn adeg creu'r gofrestr. Awgrymwyd y "byddai angen blaenoriaethu archwiliadau a gall fod angen diffinio'r dull yn bragmatig". Daeth Stephen Smith i'r casgliad hefyd y byddai "archwiliadau llawn o ddiwrnod 1 yn dasg enfawr". Awgrymodd y byddai'n dibynnu ar yr ymarfer casglu data cychwynnol a gynhaliwyd ers mis Chwefror 2020 oherwydd, os byddai hynny "yn gynhwysfawr ac wedi'i ddilysu'n briodol", byddai wedi nodi'r holl domennydd "mewn perygl" y byddai angen eu harchwilio'n fwy trylwyr. Ychydig iawn o gofnodion "newydd" fyddid yn eu cael ar ôl sefydlu'r gofrestr yn y lle cyntaf.

- 4.16 Yn yr un modd, credai'r Athro Bob Lee y byddai'r cysyniad o archwiliad "ddigon diweddar" yn helpu gyda'r blaenoriaethu. Gan ei bod yn debygol y bu arolygiadau cymharol ddiweddar o'r tomennydd risg uwch, gallai amllder arolygiadau yn ôl categori risg bennu'r amserlen ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol. Fel arall, yn ei farn ef, "byddai mynnu bod pob tomen sydd newydd eu cofrestru yn cael eu harchwilio o'r newydd yn gosod baich a allai fod yn amhosibl ei reoli".
- 4.17 Daeth Huw Williams i'r casgliad hefyd fod sefydlu llinell sylfaen o wybodaeth drwy gynnal arolygiadau cychwynnol o'r holl domennydd yn debygol o gymryd nifer o flynyddoedd. Yn ei farn ef, yr awdurdod goruchwylio ddylai roi blaenoriaeth i drefn arolygiadau ar sail gwybodaeth gyfredol.
- 4.18 Ym marn ICE Cymru, dylai cymwysterau'r rhai sy'n cynnal yr arolygiad diweddaraf fod yn ffactor dylanwadol:
- Os yw cymhwysedd y person(au) sy'n cwblhau archwiliad 'digon diweddar' yn anhysbys neu'n ansicr, yna dylai person(au) cymwys yr awdurdod goruchwylio gwblhau archwiliad newydd. Yr awdurdod goruchwylio ddylai benderfynu ar bwy sy'n 'gymwys' yn yr amgylchiadau hyn.
- 4.19 I'r gwrthwyneb, credai'r Cynghorydd Julie Edwards na ddylai fod yn bosibl dibynnu ar arolygiad diweddar, gan y gallai safonau gwahanol fod wedi'u cymhwyso. Credai Richard Arnold mai dim ond archwiliad yr awdurdod goruchwylio ddylai gael ei ganiatáu i sefydlu'r arolygiad cychwynnol.

### **Pwy ddylai gynnal yr archwiliad**

- 4.20 Soniodd ICE Cymru, yr Athro David Petley a Chyfoeth Naturiol Cymru am lefel yr arbenigedd sydd ei angen i gynnal archwiliad. Roedd ICE Cymru yn diffinio hyn fel "person cymwys gydag arbenigedd addas mewn tomennydd glo anweithredol a'r amgylchedd rheoleiddio newydd". Cyfeiriodd yr Athro David Petley at "weithwyr proffesiynol gydag arbenigedd perthnasol"
- 4.21 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwestiynu ein cynnig mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod yn gyfrifol am y ddyletswydd arolygu. Roeddent yn nodi ein bod wedi trafod y drefn cronfeydd dŵr fel model posibl, ond yn nodi nad yw'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 ei hun yn gofyn i'r awdurdod gorfodi gynnal yr arolygiad. Yn hytrach, mae gan yr awdurdod ddyletswydd i sicrhau bod yr "ymgymerwr" yn penodi peiriannydd annibynnol a chymwys i gynnal yr arolygiad.<sup>83</sup> O dan y dull hwn, mae'r perchennog yn

---

<sup>83</sup> Yng Nghymru, diffinnir yr ymgymwr yn Neddf Cronfeydd Dŵr 1975, adran 1(4) fel a ganlyn: Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw'r gronfa ddŵr yn cael ei rheoli a'i gweithredu gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu

atebol am dalu costau'r archwiliad. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bŵer wrth gefn i benodi peiriannydd ar ôl methu â gweithredu ar hysbysiad statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad. Petai'r dull panel arbenigol a ystyriwyd yn ein papur ymgynghori yn cael ei fabwysiadu (a drafodir isod ym mhennod 10), roedden nhw'n cynnig y gallai'r ddyletswydd i arolygu a roddwyd i'r awdurdod goruchwyllo gynnwys pŵer i gyfarwyddo perchennog i benodi peiriannydd o'r panel i gynnal yr arolygiad.

### **Perthnasedd y diffiniad o domen**

- 4.22 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn nodi pwysigrwydd y diffiniad o domen wrth benderfynu a fyddai tomen yn cael ei chynnwys ar y gofrestr ac felly a fyddai angen ei harchwilio. Cyfeiriwyd at hyn eisoes ym mhennod 3 mewn perthynas â'r ddyletswydd i gynnwys tomen ar y gofrestr, a bydd yn cael ei ystyried yn fanylach ym mhennod 7 isod. Yng nghyd-destun y ddyletswydd i archwilio, cododd y naill a'r llall bryderon am domennydd sydd wedi cael eu datblygu. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, lle'r oedd cynlluniau hanesyddol yn dangos bodolaeth tomen a oedd wedi bod yn destun gwaith adfer sylweddol, y byddai angen archwiliad gweledol neu ymchwiliad tir i benderfynu a oedd y domen yn dal i fodoli o gwbl. Awgrymodd CLILC y gallai fod angen cymhwysio meini prawf ar wahân wrth arolygu tomennydd datblygedig er mwyn sicrhau dull cyson a phriodol o weithredu.

### **Rhesymau dros anghytuno**

- 4.23 Dim ond Owen Jordan oedd yn anghytuno â'r cynnig am ddyletswydd i archwilio. Yn ei farn ef, mae pob tomen yn peri risg, a dylid rhoi hynny mewn rhaglen ar gyfer triniaeth.

### **Trafodaeth**

- 4.24 Dywedodd yr ymatebwyr bron yn unfrydol eu bod o blaid dyletswydd i archwilio ar ôl cofrestru. Rydym yn cytuno â'r rhesymau a fynegwyd. Rydym yn ymwybodol bod yr archwiliadau o'r dwysedd a fu'n ofynnol ar gyfer y tomennydd mwy problemus yn cymryd llawer o amser ac yn gostus, a bod bron i 2,500 o domennydd glo anweithredol yng Nghymru. Nid ydym yn bwriadu i'r ddyletswydd archwilio hon fod yn ddiangen o feichus. Gellid teilwra'r flaenoriaeth a dwyster yr arolygiad i amgylchiadau tomennydd unigol. Rydym hefyd yn argymhell bod y ddyletswydd i archwilio fod yn destun amod y gallai archwiliad digon diweddar a thrylwyr sefyll fel yr arolygiad cyntaf.
- 4.25 Ar ben hynny, gellid llunio'r ddarpariaeth ar gyfer y math o arolygiad sy'n ofynnol ar gyfer pob categori o domen yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r ddyletswydd fod yn ymarferol i'r awdurdod newydd. Mater technegol yw cynnwys yr arolygiad, ac nid mater i ni benderfynu arno. Mae'n hanfodol bod y dull yn cael ei safoni, ond gall y gofynion a ddefnyddir fod yn wahanol yn ôl y math o domen. Mae'r dull safonol o gynnal archwiliad tomennydd risg uchel yn debygol o fod yn llawer mwy cymhleth na phroses fwy generig ar gyfer tomennydd risg is. Gallai'r math o ffactorau y gellid eu hystyried wrth benderfynu ar ddwysedd yr arolygiad gynnwys materion fel hanes

---

ymgymerwr dŵr statudol; neu, mewn unrhyw achos arall, fel naill ai'r person sy'n cynnal ymgymeriad lle mae'r gronfa ddŵr yn cael ei defnyddio neu y bwriedir ei defnyddio at ddibenion yr ymgymeriad, neu berchennog neu lesai'r gronfa ddŵr lle nad oes unrhyw ddefnydd ohoni neu fwriad i'w defnyddio at ddibenion ymgymeriad. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.9.

sefydlogrwydd y domen, ei maint a/neu ei graddiant tebygol a natur y “derbynyddion” a fyddai'n cael eu heffeithio gan ansefydlogrwydd. Ar gyfer tomennydd risg is, efallai y bydd modd dibynnu'n fwy ar ddelweddau lloeren, er enghraifft. Rydym yn deall gan Lywodraeth Cymru bod dull safonol o archwilio yn cael ei ddatblygu.

- 4.26 Bydd blaenoriaethu archwiliadau'n hollbwysig. Hyd yn oed gydag archwiliadau o wahanol ddwyster, mae'n annhebygol y bydd yn bosibl cwblhau archwiliadau o'r holl domennydd ar yr un pryd adeg cofrestru am y tro cyntaf. Credwn mai'r awdurdod goruchwylio ddylai benderfynu ar y drefn flaenoriaeth. Bydd y data sydd eisoes wedi'i gasglu ers mis Chwefror 2020 ar gael i lywio'r ymarfer. Efallai y bydd hefyd yn bosibl darparu mewn deddfwriaeth ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol. Er enghraifft, gellid gohirio cychwyn y ddyletswydd mewn perthynas â'r tomennydd sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd i'r categorïau A a B er mwyn gallu rhoi blaenoriaeth i archwilio tomennydd risg uwch.<sup>84</sup>
- 4.27 Rydym yn cytuno y dylid defnyddio cofnodion hanesyddol lle bo rhai ar gael ac yn berthnasol. Bydd yn bwysig i awdurdodau megis yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol rannu cofnodion o'u harchifau gyda'r awdurdod goruchwylio. Trafodir hyn ym mhennod 3.<sup>85</sup> Credwn hefyd ei bod yn bwysig bod perchnogion tomennydd yn rhannu unrhyw ddogfennau sydd yn eu meddiant adeg yr arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru, os nad ydynt eisoes ym meddiant yr awdurdod goruchwylio. Mae darpariaeth debyg yn Neddf 1969.<sup>86</sup>

#### Pwy ddylai gynnal yr archwiliad?

- 4.28 Rydym yn rhagweld y bydd dyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i “drefnu” yr archwiliadau. Byddai hyn yn cynnwys pŵer i ddirprwyo'r archwiliad i eraill ar yr amod bod gan y rhai sy'n archwilio arbenigedd priodol a bod dull gweithredu cyson yn cael ei gynnal.<sup>87</sup>
- 4.29 Gallai'r awgrym y dylai'r perchennog gynnal yr archwiliad yn hytrach na'r awdurdod goruchwylio fod yn rhan o'r strategaeth gyffredinol a ddefnyddir gan yr awdurdod goruchwylio wrth drefnu i archwilio pob tomen. Er enghraifft, gallai'r awdurdod goruchwylio benderfynu dirprwyo'r gwaith o archwilio'r tomennydd risg isaf i berchnogion tomennydd, gan gynnwys perchnogion preifat, ar yr amod eu bod yn cyflogi arbenigwr cymeradwy i wneud y gwaith a'i gwblhau o fewn cyfnod penodedig. Gallai'r dull hwn roi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar yr awdurdod i flaenoriaethu gwaith ar domennydd risg uwch tra'n sicrhau bod tomennydd risg is yn cael eu harchwilio cyn

---

<sup>84</sup> Mae categorïau A a D dros dro yn cael eu hesbonio yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 8.6 a 8.7. Maent hefyd yn cael eu hesbonio gan Lywodraeth Cymru, ar adeg cyhoeddi ffigurau dros dro ar gyfer tomennydd glo ym mis Hydref 2021, fel a ganlyn: A = Tomen fach/tomen wedi'i adfer; B = Annhebygol o achosi risg oherwydd maint neu leoliad; C a D = risg bosibl uwch. Gweler <https://gov.wales/coal-tipt-safety/section-72291>.

<sup>85</sup> Gweler paragraffau 3.20 a 3.21 uchod.

<sup>86</sup> Mae Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969, adran 12 (1) yn darparu y gall yr awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i berchnog tomen “roi i'r awdurdod ddogfennau o'r fath sydd yn ei feddiant neu dan ei reolaeth (boed ar ffurf mapiau, archwiliadau, cynlluniau, cofnodion gwaith neu fel arall, ac p'un a ydynt yn ymwneud â'r domen ei hun neu'r tir y mae wedi'i leoli arno: gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.38.

<sup>87</sup> Gweler ein trafodaeth ynghylch y ffordd orau o ddarparu ar gyfer sgiliau arbenigol diogelwch tomennydd glo priodol ym mhennod 10.

gynted â phosibl. Petai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai'n hanfodol sicrhau bod dull gweithredu unffurf yn cael ei gynnal mewn perthynas ag archwiliadau.

- 4.30 Mae dull sy'n rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod goruchwylio er mwyn rhoi blaenoriaeth i domennydd risg uwch yn cyd-fynd yn dda â'r argymhellion a wnaed yn ddiweddar ar gyfer gwella rheoleiddio cronfeydd dŵr. Mae'r argymhellion a wnaed gan yr adolygiad annibynnol a ddilynodd ddigwyddiad Toddbrook yn cynnwys rhannu cronfeydd dŵr risg uchel i wahanol ddsbarthiadau o berygl er mwyn sicrhau bod mwy o ymdrech ac adnoddau'n cael eu cyfeirio at y rheini sydd ar ben uchaf yr ystod peryglon.<sup>88</sup>
- 4.31 Yn unol â hynny, rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i drefnu archwiliad cychwynnol o bob tomen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal. Wrth lunio'r ddyletswydd hon yn ddeddfwriaethol, bydd yn bwysig cydnabod y bydd angen hyblygrwydd ar yr awdurdod o ran sut y mae'n cyflwyno archwiliadau. Er mwyn gwella ansawdd yr archwilio, ac effeithlonrwydd y gwaith, rydym yn argymhell y dylai perchnogion a deiliaid fod o dan ddyletswydd i ddarparu unrhyw ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r domen neu â'r tir y mae wedi'i lleoli arno.

#### **Argymhelliad 15.**

- 4.32 Rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.

#### **Argymhelliad 16.**

- 4.33 Rydym yn argymhell, adeg yr arolygiad, y dylai fod dyletswydd ar berchnogion a meddianwyr tomennydd i ddarparu i'r awdurdod goruchwylio ddogfennau yn eu meddiant sy'n berthnasol i'r domen neu'r tir y mae wedi'i lleoli arno.

### **ASESIADAU RISG, CYNLLUNIAU RHEOLI TOMENNYDD A DOSBARTHADAU RISG**

- 4.34 Fel yr esboniwyd ar ddechrau'r bennod hon, pwrpas yr archwiliad tomen yw llunio asesiad risg a llunio cynllun rheoli tomen. Mae'r adran hon yn ystyried safbwyntiau ar ein cynnig dros dro i roi dyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i drefnu bod asesiad risg a chynllun rheoli yn cael eu llunio ar gyfer unrhyw domen sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr. Rydym yn archwilio'r broses a fydd yn arwain at ddyrannu dosbarthiad risg. Rydym hefyd yn ystyried ein cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i

---

<sup>88</sup> Cafodd yr adolygiad annibynnol ei sefydlu gan Lywodraeth y DU yn 2019 yn dilyn digwyddiad cronfa Toddbrook yn Whaley Bridge, Swydd Derby, pan arweiniodd difrod storm i orlifan (sianel gorlifo) at bryderon y byddai'r argae yn cwmpo, a gwacawyd yr ardal amgylchynol. Cynhaliodd ail gam yr ymchwiliad, a elwir yn Rhan B, asesiad eang o ddeddfwriaeth diogelwch cronfeydd dŵr a'i rhoi ar waith. Gweler D Balmforth, *Adroddiad Adolygu Diogelwch Cronfeydd Dŵr Annibynnol (2021)* <https://www.gov.uk/government/publications/rservoir-review-part-b-2020>.

ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol.

**Cwestiwn Ymgynghori 15: Rydym yn cynnig dros dro y dylai (1) yr awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i drefnu bod asesiad risg a chynllun rheoli yn cael eu llunio ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr; a (2) dylai fod gan Weinidogion Cymru bŵer i ragnodi'r materion sydd i'w cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli drwy offeryn statudol. A ydych yn cytuno?**

4.35 O'r 51 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 43 (84%) yn cytuno â'n cynigion. Tri (6%) oedd yn anghytuno, a phump a ddewisodd ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno â dyletswydd

4.36 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi ein cynnig yn pwysleisio'r manteision a fyddai'n dod yn sgil goruchwyllo asesiadau risg a chynlluniau rheoli tomennydd gan yr awdurdod goruchwyllo. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn sicrhau bod asesiadau risg a chynlluniau rheoli yn seiliedig ar fethodoleg gyson a gwybodaeth o ansawdd uchel. Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, "un awdurdod i oruchwyllo hyn, yn hytrach nag awdurdodau lluosog, yw'r ffordd orau o sicrhau dull gweithredu cyson". Gwnaeth Jacobs a CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) sylwadau tebyg. Nododd Ove Arup a Phartneriaid y paralel â'r darpariaethau ar gyfer cynlluniau llifogydd ac argyfwng o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

### Pryderon ynghylch dyletswydd unffurf

4.37 Fel y trafodwyd uchod mewn perthynas ag archwiliadau, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch blaenoriaethu. Dywedodd yr Athro Bob Lee:

Bydd rhai tomennydd eisoes yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gyson fel y gellir cymeradwyo cynlluniau presennol ond efallai y bydd angen ystyried safleoedd risg uchel eraill gyda mwy o frys.

4.38 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i wahaniaethu rhwng faint o sylw a roddir i domen, yn dibynnu ar faint o risg y mae'n ei achosi. Cynigiodd Keith Bush CF y dylai ein hargymhelliad:

cynnwys yn yr argymhelliad esboniad y byddai cymhlethdod yr asesiad rhisg amrywio o achos i achos. Gall fod yn un sylweddol iawn mewn rhai achosion ond, mewn achosion eraill – er enghraifft tomen fach neu anghysbell - gall fod yn fyr ac yn syml.<sup>89</sup>

4.39 Credai Stephen Smith mai dim ond categorïau penodol o domen ddylai fod angen cynllun rheoli tomennydd:

Nid yw'n ymddangos bod y cynnig hwn yn cydnabod y bydd angen ychydig iawn o waith cynnal a chadw (os o gwbl) ar y rhan fwyaf o'r tomennydd a nodwyd. Yn yr achosion hyn, ni fyddai angen 'cynllun rheoli'. O ganlyniad, teimlaf fod angen

---

<sup>89</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

categori penodol o domen a fyddai angen cynllun o'r fath yn hytrach na dyletswydd cyffredinol.

#### 4.40 Ym marn Steve Jones o'r Adran Cynllunio Argyfwng yng Nghyngor Sir Penfro:

Ni ddylai tomennydd wedi'u hadfer ar ddarnau gwastad o dir, sy'n golygu nad oes perygl na pheryglon amgylcheddol, fod angen cynllun rheoli, ar wahân i asesiad cyfnodol i gadarnhau sgoriau 'dim risg' blaenorol a dim newidiadau o bwys yn y cyfamser.

#### 4.41 Rhybuddiodd Jane Iwanicki rhag cymryd agwedd rhy ragnodol neu anhyblyg tuag at asesu a chynllunio risg. Pwysleisiodd "ni fydd pob risg yn berthnasol i bob safle felly mae angen i'r awdurdod allu rhagnodi'r materion sy'n berthnasol ar sail safle penodol ac osgoi gwaith a chost ddiangen".

### Cyfrifoldeb dros y cynllun rheoli tomennydd

#### 4.42 Agwedd arall ar ein cynnig a esgorodd ar ddadl oedd y cwestiwn ynghylch cyfrifoldeb dros lunio'r cynllun rheoli tomennydd. Fel yn achos y ddyletswydd archwilio a drafodwyd uchod, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y dylai perchennog y domen fod yn gyfrifol am lunio'r cynllun. Er na fyddai gan lawer o berchnogion y cymhwysedd technegol i wneud hyn eu hunain, gallai'r perchennog contractio'r gwaith o baratoi'r gwaith rheoli i drydydd parti, a allai fod yr awdurdod goruchwyllo ei hun. Dyma'r dull sy'n cael ei fabwysiadu ar hyn o bryd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrth contractio'r gwaith o ofalu am y tomennydd y mae'n eu rheoli i'r Awdurdod Glo.<sup>90</sup>

#### 4.43 Edrychodd CLILC (Ben-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) ar ystyr posibl "dyletswydd i drefnu" ar gyfer llunio cynllun rheoli. Roeddent yn credu y gallai hyn gynnwys rhoi cyfrifoldeb ar berchennog y domen i baratoi'r cynllun, o leiaf mewn perthynas â thomennydd risg is. Roeddent yn egluro, wrth iddynt baratoi eu hymateb, eu bod wedi derbyn safbwyntiau gwahanol gan awdurdodau lleol ar y mater:

Teimlai rhai y dylai perchennog y domen gael ei wneud yn gyfreithiol gyfrifol am lunio'r cynllun, gyda'r corff goruchwyllo wedyn yn ei gymeradwyo. Teimlai eraill y byddai dull gweithredu o'r fath yn dderbyniol ar gyfer tomennydd risg isel yn unig. Ac eto teimlai eraill y dylai'r corff goruchwyllo fod yn gyfrifol am yr holl asesiadau a chynlluniau, am resymau cysondeb, ac yn amodol ar ei gyllideb.

#### 4.44 Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y ffordd orau o fynd ati i lunio cynllun rheoli tomennydd lle roedd clystyrau o domennydd a oedd yn creu problemau o ran effaith ar y cyd. Yn yr achosion hyn, gallai cynllun grŵp fod yn fwy addas. Roeddent yn egluro mai dyma'r dull a ddefnyddiwyd wrth daclo targedau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, pan fabwysiedir dull dalgylch dŵr er mwyn codi safonau amgylcheddol lluosog. Ymdriniwyd â materion sy'n ymwneud â thir halogedig mewn ffordd debyg.

### Cynnwys cynlluniau rheoli tomennydd

#### 4.45 Roedd yr ymatebion yn cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer ffynonellau cynnwys ychwanegol ar gyfer cynlluniau rheoli tomennydd. Pwysleisiodd Howard Siddle a

---

<sup>90</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 3.24.

Jacobs yr angen i ymgorffori gwybodaeth o gofnodion hanesyddol er mwyn sicrhau bod y tomennydd yn cael eu "cydlynu'n gyfannol". Credai Steve Harford y dylai'r Awdurdod Glo fod o dan ddyletswydd i roi mynediad i'r awdurdod at unrhyw ddata perthnasol sydd ganddo ar y domen a gweithfeydd cloddio cysylltiedig o dan y domen a'r siafftau a'r mynedfeydd yng nghyffiniau'r domen.

- 4.46 Tynnodd Buglife a Clare Dinham sylw at yr angen i gynnwys bioamrywiaeth fel ystyriaeth ym mhob cynllun rheoli tomennydd a chynigiodd awgrymiadau ar gyfer cydlynu gyda chyrrff perthnasol:

Er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i wreiddio'n ddigonol mewn cynlluniau rheoli tomennydd, mae'n hanfodol bod arbenigwyr ecolegol mewn awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau anllywodraethol (er enghraifft, elusennau amgylcheddol fel Buglife, Plantlife, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Bumblebee, Cadwraeth Gloÿnnod Byw, Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt) ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill (er enghraifft, arbenigwyr unigol) yn rhan o'r broses a bod cynlluniau'n cael eu dylunio gan ddefnyddio eu mewnbyn. Gallai Tasglu Rhanddeiliaid Ecolegol fod yn un ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod pwysigrwydd bioamrywiaeth hen domennydd glo yn cael ei ystyried yn briodol.

- 4.47 Tynnodd Graham Hathaway sylw hefyd at yr angen i gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i warchod yr amgylchedd mewn cynlluniau rheoli tomennydd er mwyn gallu rheoli ecoleg y tomennydd a bywyd gwyllt ochr yn ochr ag ystyriaethau diogelwch:

Rhaid i'r materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i warchod fod yn flaenllaw a'u hadolygu'n gyson. Nid ydym yn gwneud digon i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dylem gynyddu ein gallu i'w warchod a'i wella drwy fonitro gweithgarwch a pholisïau bywyd gwyllt yn well er mwyn gwella a chynyddu cynefinoedd bywyd gwyllt. Dylid cael adroddiad amgylcheddol ar bob tomen yn nodi ei nodweddion, yr hyn sy'n achosi arferion gwael o ran bywyd gwyllt, fel arfer oherwydd gofal gwael a diffyg plannu [yn ogystal â] dinistr gan feiciau modur oddi ar y ffordd a diffyg cynnal a chadw'r planhigion a'r anifeiliaid presennol.

- 4.48 Soniodd Neal Carhart am yr angen i gynnwys rheolaeth ar feiciau modur oddi-ar-y-ffordd a beiciau cwad wrth reoli tomennydd sbwriel. Yn ei brofiad ef, ger ei gartref yng Nghefnpenar, roedd cerbydau ar y domen yn dinistrio'r coed a'r llystyfiant gan helpu i'w sefydlogi ac o bosibl yn amharu ar lwybr y nentydd sy'n rhedeg oddi tani.

### **Rhagnodi'r materion sydd i'w cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd gan offeryn statudol**

- 4.49 Yn yr un modd â'r cynnig sy'n cael ei ystyried uchod i bennu cynnwys y gofrestr tomennydd drwy offeryn statudol, roedd y rheini sy'n cytuno yn cefnogi rhagnodi â chymorth fel ffordd o sicrhau dull gweithredu cyson.<sup>91</sup> Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i ddibynnu ar gyngor y rheini sydd ag arbenigedd priodol wrth benderfynu ar y materion i'w cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd.

---

<sup>91</sup> I weld trafodaeth ar ragnodi cynnwys y gofrestr tomennydd drwy offeryn statudol, gweler paragraffau 3.26 i 3.41 uchod.



- 4.50 Credai Huw Williams mai gwell dull fyddai i'r awdurdod goruchwyllo lunio canllawiau i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Byddai hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd nag offeryn statudol wrth ddelio â datblygiadau mewn gwybodaeth am risgiau a thechnegau rheoli. Cytunodd yr Athro Thomas Watkin â'n cynnig ar gyfer offeryn statudol, ond rhybuddiodd na ddylai datblygiadau dros amser gael eu llesteirio gan ymagwedd rhy anhyblyg. Credai y dylai'r awdurdod goruchwyllo ddatblygu arfer gorau a chael ei rymuso i argymhell ychwanegiadau a diwygiadau i Weinidogion Cymru. Dylai Gweinidogion Cymru fod o dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i argymhellion o'r fath wrth adolygu'r materion sydd i'w cynnwys o bryd i'w gilydd.
- 4.51 Roedd CLA Cymru o'r farn y dylid ymgynghori ynghylch unrhyw reoliadau newydd cyn eu rhoi ar waith, ac nad oedd offeryn statudol yn cynnig digon o dryloywder. Roedd Cymdeithas y Gyfraith yn cytuno â defnyddio offeryn statudol, os byddai'n destun craffu gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol.
- 4.52 Roedd Caerffili yn poeni y dylid ystyried rhagnodi drwy offeryn statudol fel gosod safon sylfaenol yn unig, gan fod pob tomen yn unigryw ac mae'n bwysig bod materion ychwanegol yn cael eu hychwanegu os oes angen.
- 4.53 Cytunodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau â rhagnodi, ond credai y dylid llunio'r rhestr ochr yn ochr â llywodraethau ledled y DU.

### Trafodaeth

- 4.54 Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i drefnu bod asesiadau risg a chynlluniau rheoli tomennydd yn cael eu llunio. Rydym yn cytuno â'r rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r cynnig, gan gynnwys yr angen am ddull cyson o asesu risg a chynlluniau rheoli tomennydd, ac yn ystyried mai goruchwyliaeth gan yr awdurdod goruchwyllo yw'r ffordd orau o sicrhau hyn.
- 4.55 Trafodwyd uchod yr angen i flaenoriaethu archwiliadau tomennydd. Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr fod yr un ystyriaethau yn berthnasol i asesiadau risg a chynlluniau rheoli tomennydd. Rydyn ni'n credu y dylai pob tomen gael asesiad risg a chynllun rheoli tomen, ond bydd yr hyn fydd ei angen ar gyfer pob un yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar briodoleddau'r domen. Efallai fod y cynllun rheoli tomennydd ar gyfer tomennydd risg is yn ddogfen safonol iawn sy'n nodi pa mor aml y cynhelir archwiliadau ac unrhyw ddarpariaethau sylfaenol ar gyfer cynnal a chadw tomennydd. Gall fod ychydig yn fwy na rhestr wirio a fydd yn sail i gynnwys cytundeb cynnal a chadw tomennydd (pwnc a drafodir ym mhennod 5). Bydd y cytundeb yn ei gwneud yn glir i'r perchennog beth yn union sydd angen ei wneud ar y domen ac yn gweithredu fel ffurf ar wybodaeth ac arweiniad.
- 4.56 Mae'r awgrym y dylai perchnogion, yn hytrach na'r awdurdod goruchwyllo, ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr asesiad risg a'r cynllun rheoli tomennydd yn adlewyrchu'r awgrym a drafodwyd uchod mewn perthynas ag archwiliadau. Fel yr esboniwyd mewn perthynas ag archwiliadau, credwn y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer i fabwysiadu dull gweithredu hyblyg sy'n adlewyrchu lefel risg y domen. Gallai'r awdurdod goruchwyllo benderfynu dirprwyo'r gwaith o baratoi'r asesiad risg a'r cynllun rheoli tomennydd i

berchnogion tomennydd, ar yr amod eu bod yn cyflogi arbenigwr cymeradwy i wneud y gwaith a'i gwblhau o fewn cyfnod penodedig.<sup>92</sup>

- 4.57 Yn ein barn ni, dylai hyn fod yn amodol ar ofyniad i'r cynllun drafft, ynghyd â'r archwiliad a'r asesiad risg, gael ei gyflwyno i'r awdurdod goruchwyllo i'w gymeradwyo. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod yr awdurdod goruchwyllo yn craffu ar yr adroddiad archwilio a'r asesiad risg ar gyfer pob tomen, a'r dosbarthiad risg sy'n cael ei neilltuo, ar sail yr adroddiad a'r asesiad risg. Mae'r dosbarthiadau risg yn neilltuo categorïau eang er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a phwy fydd yn gyfrifol am ymgymryd â'r gwaith a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd, a all amrywio o fân faterion cynnal a chadw i weithrediadau adfer cymhleth. Rydym hefyd o'r farn y dylid cyflwyno adroddiadau arolygu dilynol, a baratoir o ganlyniad i arolygiadau a gynhelir ar adegau a bennir gan y cynllun rheoli tomennydd, i'r awdurdod goruchwyllo. Lle mae'r adroddiadau'n dangos y gallai fod angen newid y dosbarthiad risg, byddai angen dwyn hyn i sylw'r awdurdod.
- 4.58 Mantais y dull hwn fyddai y gallai'r awdurdod goruchwyllo gynnal dull cyson o asesu pob tomen, gan ymgymryd â rôl fwy weithredol mewn perthynas â thomennydd sydd angen eu blaenoriaethu.<sup>93</sup> Gallai'r system hon hefyd gynnig cysondeb yn ogystal â hyblygrwydd wrth ddelio â thomennydd mewn aml-berchnogaeth a grwpiau o domennydd gyda gofynion diogelwch tebyg. Byddai pŵer hyblyg i ddirprwyo yn rhoi'r dewis i'r awdurdod i gadw'r gwaith o baratoi asesiadau risg cyfansawdd a chynlluniau rheoli ar gyfer tomen o'r fath.
- 4.59 Mater technegol yw cynnwys penodol asesiadau risg a chynlluniau rheoli tomennydd, ac nid mater i ni benderfynu arno. Ond rydym yn gweld grym yn yr awgrymiadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr y dylid ystyried cofnodion tomennydd hanesyddol, yn ogystal â gwybodaeth gan yr Awdurdod Glo am weithfeydd mwyngloddio ac y dylid cynnwys gwybodaeth am ecoleg tomennydd a derbynyddion o bwysigrwydd amgylcheddol.
- 4.60 Roedd ymatebwyr yn bennaf o blaid rhagnodi cynnwys drwy offeryn statudol. Roedd y rhesymau a roddwyd yn debyg i'r rheini a oedd yn cefnogi rhagnodi cynnwys y gofrestr tomennydd.<sup>94</sup> Cytunwn y byddai rhagnodi'n hyrwyddo eglurder a chysondeb, ac argymhellwn y dylid creu pŵer i wneud hynny drwy offeryn statudol yn y ddeddfwriaeth newydd. Rydym yn rhagweld y byddai unrhyw offeryn statudol yn nodi materion i'w cynnwys ar lefel gyffredinol ac y byddai'n cael ei ategu gan ganllawiau.
- 4.61 Gan mai prosiect Cymru'n unig yw hwn, ac nad ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau ar gyfer deddfwriaeth debyg gan lywodraethau eraill ledled y DU, nid ydym yn credu y bydd yn ymarferol cydlynu'r rhestr ar draws y DU.
- 4.62 Yn unol â hynny, rydym yn argymhell y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd yn y gofrestr. Fel yn achos y ddyletswydd i archwilio, wrth lunio'r ddyletswydd hon yn

---

<sup>92</sup> Gweler ein trafodaeth ynghylch y ffordd orau o ddarparu ar gyfer arbenigedd diogelwch tomennydd glo priodol ym mhennod 10.

<sup>93</sup> Rydym yn trafod dynodi tomennydd risg uwch ym mhennod 6.

<sup>94</sup> Gweler paragraffau 3.25 i 3.41 uchod.

ddeddfwriaethol, bydd yn bwysig cydnabod y bydd angen hyblygrwydd ar yr awdurdod o ran sut y mae'n cyflawni'r gofynion hyn. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gymeradwyo'r cynllun rheoli tomennydd a dyrannu dosbarthiad risg i bob tomen ar sail yr adroddiad arolygu a'r asesiad risg. Yn ail, rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol, gyda chanllawiau atodol.

### **Argymhelliad 17.**

4.63 Rydym yn argymhell

- (1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr;
- (2) dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gymeradwyo'r cynllun rheoli tomennydd; a
- (3) dylai'r awdurdod goruchwyllo dyrannu dosbarthiad risg i bob tomen ar sail yr adroddiad arolygu a'r asesiad risg.

### **Argymhelliad 18.**

4.64 Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol.

## **DULLIAU O DDOSBARTHU RISG**

- 4.65 Roedd ein papur ymgynghori yn edrych yn gryno ar y gwahanol ddulliau dosbarthu sydd wedi cael eu mabwysiadu'n hanesyddol gan awdurdodau lleol a'r system ddosbarthu dros dro a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Glo ers mis Chwefror 2020 yn y gwaith diogelwch tomennydd glo a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r system dros dro hon yn dosbarthu tomennydd yn fras drwy gyfeirio at y risg a chanlyniadau symudiad.<sup>95</sup>
- 4.66 Roedd ein dau gwestiwn nesaf yn gofyn am safbwyntiau ar y risgiau sydd i'w hystyried yn y system dosbarthu tomennydd fydd i'w mabwysiadu gan yr awdurdod goruchwyllo. Yn gyntaf, gofynnwyd am farn ar ein cynnig dros dro y dylai'r dosbarthiad ystyried y risg o ansefydlogrwydd a chanlyniadau llithriad tomen. Er ein bod yn cydnabod mai sefydlogrwydd oedd y risgiau mwyaf enbyd a difrifol o ran y peryglon a achosir gan domennydd glo, gofynnwyd hefyd a ddylai'r dosbarthiad hefyd ystyried peryglon eraill fel llygredd, hylosgi a llifogydd.

---

<sup>95</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 8.4, 8.7 a 8.8.

## **Cwestiwn Ymgynghori 16: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau llithriad gwastraff. A ydych yn cytuno?**

4.67 O'r 49 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 45 (92%) yn cytuno. Dau (4%) oedd yn anghytuno, a dau a ddewisodd ateb "arall".

### **Rhesymau dros gytuno**

4.68 Eglurodd Howard Siddle fod risg yn seiliedig ar debygolrwydd a chanlyniadau proses niweidiol fel ansefydlogrwydd, felly dylai tebygolrwydd a chanlyniadau fod yn sail i gategoreiddio risg. Diffiniodd yr Athro David Petley mai'r ffactorau sy'n pennu risg yw perygl, bod yn agored i niwed a chanlyniadau. Cytunodd ICE Cymru:

Mae'n rhesymol seilio system ddosbarthu ar faint posibl y canlyniadau sy'n deillio o unrhyw risg a ganfyddir ar domen lo anweithredol ynghyd ag asesiad o'r tebygolrwydd y bydd risg o'r fath yn dod i'r amlwg.

4.69 Nododd Paul Connolly fod "datblygu matrices sgorio yn seiliedig ar debygolrwydd yn erbyn effaith" yn hanfodol i'r broses asesu risg. Byddai'n caniatáu nodweddu tomennydd i grwpiau risg a'r gallu i flaenoriaethu tomennydd risg uwch. Dywedodd Stephen Smith fod "ansefydlogrwydd wedi cael ei ystyried yn fygythiad sylfaenol yn hanesyddol ac y bydd yn parhau felly".

4.70 Er eu bod yn cytuno â'n cynnig, awgrymodd rhai ymatebwyr nad oedd y termau a ddefnyddiwyd yn ein cwestiwn yn ddigon cywir. Eglurodd ICE Cymru nad yw risgiau ansefydlogrwydd yn cael eu cyfyngu i symudiadau ar ochrau dyffrynnoedd sydd ar oledf. Gallai gwastraff o forlynu, er enghraifft, ar dir gweddol wastad, achosi risg o ymsuddo hyd yn oed o dan lwyth cymharol isel. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwestiynu'r cyfeiriad at "lithriad rwbel" ac yn ffafrio'r cyfeiriad ehangach at "symudiad neu fethiant llethr". Eglurodd Jacobs fod amrywiaeth o fecanweithiau methiant o ran ansefydlogrwydd llethrau a allai fod yn berthnasol i domen a bod angen eu rheoli. Argymhellodd Howard Siddle y dylid cyfeirio at "tebygolrwydd ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau methiant o'r fath".

4.71 Roedd Howard Siddle a Chris Seddon ill dau o'r farn mai'r risg o ansefydlogrwydd oedd yr unig risg y dylid ei chynnwys mewn system dosbarthu risg. Dywedodd Chris Seddon mai dyma'r risg "gyda'r canlyniad mwyaf yn gysylltiedig â thomennydd glo yng Nghymru. O'r herwydd, ni ddylai'r risg o ansefydlogrwydd gael ei 'leihau' gan risgiau eilaidd". Ystyrir y safbwyntiau hyn ymhellach isod.<sup>96</sup>

4.72 Ym marn Kim Moreton, diogelu rhag colli bywyd ddylai fod y brif flaenoriaeth. Rhybuddiodd Ove Arup a Phartneriaid am yr angen i gadw diffiniadau'n symlach nag yn y drefn cronfeydd dŵr, sy'n neilltuo categorïau risg sy'n gwahaniaethu rhwng cronfeydd dŵr yn seiliedig ar nifer y bobl sydd mewn perygl pe bai methiant.<sup>97</sup>

---

<sup>96</sup> Gweler paragraffau 4.93 i 4.96 isod.

<sup>97</sup> Trafodir hyn yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.22.

- 4.73 Cytunodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau â'r dull arfaethedig o gategoreiddio tomennydd, ond credai y dylid cael hawl i apelio i berchnogion tomennydd sbwriel.

### Rhesymau dros anghytuno a dulliau eraill

- 4.74 Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd anghytundeb hynny oherwydd eu bod yn credu y dylai dosbarthiad risg ystyried mathau o risg ar wahân i ansefydlogrwydd. Ystyrir y safbwyntiau hyn yn y cwestiwn ymgynghori nesaf.

### Trafodaeth

- 4.75 Rydym yn ddiolchgar i arbenigwyr yn y maes am dynnu sylw at ddiffygion yn y derminoleg a ddefnyddir yn ein papur ymgynghori, ac yn benodol am egluro bod y dylai tebygolrwydd a chanlyniadau digwyddiad dinistriol gyfrannu at gategoreiddio risg. Mae'r termau a ddefnyddiwyd gennym yn ein cynnig gwreiddiol yn cael eu hail-lunio yn unol â hynny yn ein hargymhelliad isod.
- 4.76 Nid ydym yn credu bod angen hawl i apelio yn erbyn dosbarthiad gaiff ei aseinio. Rydym yn ystyried bod dosbarthiad risg yn fater technegol i'w ddatblygu gan arbenigwyr, yn seiliedig ar ystyriaeth fanwl o briodweddau tomen a'i lleoliad, a'i bod yn anaddas i gorff barnwrol benderfynu arno. Mae'n arwydd i'r cyhoedd o'r categori eang o ddull gweithredu sydd i'w ddefnyddio ar gyfer rheoli tomennydd. Mae hefyd yn bwysig yn fewnol er mwyn i'r awdurdod goruchwyllo lywio'r broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau. Er y gallai'r lefel risg a neilltuir i domen effeithio'n anuniongyrchol ar delerau cytundebau neu orchmynion a wneir mewn perthynas â rheoli tomen, rydym yn argymhell yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn y dylai gorchmynion o'r fath fod yn destun hawl i apelio. Rydym o'r farn y dylid cyfeirio'r hawl i apelio at y gorchmynion tomennydd a wrthwynebir, yn hytrach na'u bod yn codi yn y cam blaenorol o gategoreiddio risg.<sup>98</sup>

### Argymhelliad 19.

- 4.77 Rydym yn argymhell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau methiant o ran sefydlogrwydd.

### Cwestiwn Ymgynghori 17: A ddylai dosbarthiad tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlogiad a llifogydd?

- 4.78 O'r 50 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 45 (90%) yn cytuno. Dau (4%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".
- 4.79 Roedd y rhesymau a roddwyd dros gytuno y dylai'r dosbarthiad ystyried y risgiau hyn yn ogystal â'r risg o ansefydlogrwydd yn cynnwys yr angen i sicrhau bod yr holl risgiau cysylltiedig perthnasol yn rhan o'r system ddosbarthu. Fel y dywedodd Merthyr Tudful: "dylai unrhyw beth sy'n peri risg i'r cyhoedd gael ei gynnwys yn y dosbarthiad". Credai Syr Wyn Williams fod "budd cyhoeddus clir" wrth ystyried y materion hyn. Cyfeiriodd

<sup>98</sup> Rydym yn defnyddio dull tebyg o ymdrin ag apelïadau yn erbyn dynodi tomen yn risg uwch, gweler paragraffau 6.72 i 6.89 isod.

Graham Hathaway at bwysigrwydd cydnabod yr ansicrwydd a'r bygythiad ychwanegol a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd, yn enwedig yng nghyswllt llifogydd.

- 4.80 Ystyriodd Keith Bush CF bod ffocws Deddf 1969 ar berygl i bobl fel gwendid yn y system. Gwelodd fanteision mabwysiadu ystod ehangach o ffactorau risg gan y byddai hyn yn caniatáu i risgiau i eiddo ac i'r amgylchedd fod yn rhan o'r asesiad. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod cynnwys y ffactorau risg ychwanegol yn cyd-fynd yn dda â ffactorau deddfwriaethol fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Gwelodd Wrecsam fanteision economaidd o fynd i'r afael â ffactorau risg gyda'i gilydd mewn un asesiad:

Mae'n bosibl y gallai gwaith adfer ar gyfer unrhyw un o'r risgiau hyn ddelio â risg arall ar yr un pryd, felly mae'n debygol y gallai mynd i'r afael â risgiau ar yr un pryd fod yn fwy cost-efeithiol, yn llai trafferthus ac yn defnyddio llai o adnoddau.

- 4.81 Roedd rhai o'r rhai a gytunodd y dylid cynnwys y risgiau hyn, er enghraifft ICE Cymru, yn cydnabod mai'r risg bennaf i'w hystyried yw ansefydlogrwydd, ond nad oedd hyn yn golygu y dylid eithrio'r risgiau eraill. Cytunodd Jacobs y dylai'r dosbarthiad ystyried yr holl beryglon a gyflwynir gan domen, ond nododd "y gellir dileu rhai o'r rhain yn gynnar yn y rhan fwyaf o safleoedd":

Mae tanau tomennydd yng Nghymru yn gymharol brin ac yn digwydd yn gyffredinol oherwydd bod trydydd parti, heb sylweddoli, wedi dechrau llosgi ar y domen. Gall y perygl i danau gwyllt danio tomennydd fod yn rhywbeth a allai ddigwydd yn enwedig gyda hafau mwy sych. Mae llygredd tomennydd yng Nghymru yn gymharol brin ac fel arfer mae'n gysylltiedig â dŵr mwynol.

### Rhyngweithiad ffactorau risg

- 4.82 Arweiniodd y cytundeb at rai ymatebwyr yn ystyried sut y gellid asesu a chyfuno risgiau lluosog o'r fath wrth bennu'r risg gyffredinol. Credai Steve Harford fod angen i'r ffactorau risg i gyd fod yn rhan o fatrics. Credai Paul Connolly y dylid cyflwyno'r categorïau ychwanegol hyn ochr yn ochr ag ansefydlogrwydd tomennydd er mwyn rhoi sgôr risg gyfun gyffredinol yn ogystal â manylu ar bob risg unigol.

- 4.83 Credai Chris Seddon mai'r her fyddai dod o hyd i fframwaith addas ar gyfer asesu'r risgiau:

Fel sy'n gyffredin gyda geo-berylon, mae ffactorau risg yn aml yn gallu cyfuno. Enghraifft amlwg fyddai tomen sy'n achosi perygl ansefydlogrwydd, ac mae'r canlyniadau'n cynnwys rhyddhau llygryddion a llifogydd. Sut bydd hyn yn cymharu â thomen gydag ansefydlogrwydd annibynnol, llygredd a pheryglon llifogydd?

- 4.84 Roedd ICE Cymru hefyd yn ystyried y ffyrdd cymhleth y gall ffactorau risg ryngweithio:

Gall hylosgi newid proffil risg tomen oherwydd gall natur y gwastraff y domen (er enghraifft nodweddion geodechnegol) newid o ganlyniad i hylosgi ... . Ar ben hynny, er y gallai'r domen effeithio ar y perygl lleol o lifogydd yn ei lleoliad gwreiddiol, gallai hefyd greu risg llifogydd eilaidd petai ansefydlogrwydd achosi iddi rwystru cwrs dŵr.

- 4.85 Credai Kim Moreton y byddai cofnodi cymhlethdod y rhyngweithiadau hyn yn gwella cywirdeb modelu risg:

Mae hylosgi yn risg o ffynhonnell sylweddol o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gall llygredd o domennydd glo fod yn gymysgedd cymhleth, ac mae'r domen ei hun yn ffynhonnell wasgaru drwy aer a dŵr; byddai dosbarthiad yn golygu bod modd modelu risgiau ardal agos yn fwy hyderus.

- 4.86 Gwelodd yn arbennig gyfle i gael gwell rhyngweithio rhwng data'r domen a mapiau llifogydd:

Mae mapiau llifogydd yn esblygu o ran cymhlethdod; byddai hepgor tomennydd yn effeithio ar ymdrechion ehangach i fapio a modelu perygl llifogydd.

- 4.87 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys llifogydd, ond roedd yn rhybuddio bod angen bod yn ofalus gyda'r diffiniad o risg llifogydd, gan fod angen gwahaniaethu rhwng y risg o lifogydd o ganlyniad i fethiant y draeniad neu o ganlyniad i ddraenio tomennydd yn gyflym. Rhybuddiodd Caerffili y gallai'r cymysgedd o ffactorau risg arwain at ddryswch oni bai fod system wedi'i mabwysiadu i wahaniaethu rhwng y ffactorau a arweiniodd at y sgôr gyffredinol. Roedden nhw'n awgrymu defnyddio ôl-ddodiad:

Gallai'r risg dosbarthiad hefyd gynnwys ôl-ddodiad sy'n dynodi'r math o risg (ansefydlogrwydd, llifogydd, llygredd, hylosgi ac ati) neu bydd pobl yn poeni bod pob tomen categori D yn agored i ansefydlogrwydd ac efallai na fydd hynny'n wir. Gallai fod yn domen categori D oherwydd y perygl o lifogydd, er enghraifft.

- 4.88 Awgrymodd Paul Connolly y gellid pennu trothwyon risg unigol ar gyfer pob categori a allai sbarduno strategaethau adfer yn awtomatig os tybir eu bod yn ddigon difrifol.

### Dulliau eraill

- 4.89 Pwysleisiodd Howard Siddle a Jacobs bwysigrwydd draenio wrth asesu risg. Eglurodd Jacobs:

Mae draenio (gan gynnwys dŵr ffo wyneb) ac is-wyneb (cario cyrsiau dŵr a rheoleiddio lefelau a ffynhonnau dŵr daear) yn berygl sylweddol mewn llawer o domennydd. Bydd cau sianel arwyneb neu gwmpwllferi yn arwain at olchi deunydd y tomen i ffwrdd, gyda risg bosibl o gau cyrsiau dŵr a llifogydd. Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i ddraeniad.

- 4.90 Cynigiodd Howard Siddle fethiant draenio fel perygl perthnasol:

Perygl llawer mwy perthnasol y mae angen ei gynnwys yn yr asesiad risg yw methiant systemau draenio, naill ai yn naturiol (ffrwd neu gwrs dŵr) neu wedi'i beiriannu (sianeli wedi'u leinio, cwllferi, piblinellau, sianeli baffl, pyllau gwanhau, systemau draenio dŵr daear ac ati) sy'n bresennol mewn nifer o domennydd sydd wedi'u hadeiladu neu eu hadfer yn y cyfnod ar ôl Aberfan. Gall methiant y systemau hyn achosi erydiad cyflym o wastraff a'i ddyddodi mewn mannau eraill a gall hefyd sbarduno gwahanol fathau o lithriadau a llifoedd, fel yr ydym wedi'i weld yn Ysgol Gyfun Tredegar a Llanwonno. Byddai'n anodd mesur y tebygolrwydd o ddigwyddiad o'r fath gan ei fod yn dibynnu ar gadernid y systemau a gwaith cynnal a chadw'r systemau a'u safonau dylunio, ond gellid creu graddfeydd addas ar gyfer perygl, er enghraifft, bodolaeth, cyfeiriadedd, oed a math o strwythur draenio.

## Rhesymau dros gytundeb neu anghytundeb amodol

- 4.91 Cafwyd cytundeb amodol gan rai ymatebwyr, gan gytuno â rhai ond nid y cyfan o'r peryglon arfaethedig. Roedd Bob Leeming o'r farn y dylid cynnwys hylogsi, ond nid oedd wedi'i argyhoeddi gan deilyngdod cynnwys llifogydd a llygredd. Byddai Dr Peter Brabham yn cynnwys llifogydd fel risg haen uchaf oherwydd bod llithriad tomennydd i mewn i afonydd yn risg uchel, ond roedd yn ystyried bod y gweddill yn risgiau ail haen.
- 4.92 Roedd yr Athro Bob Lee yn credu ei bod yn hanfodol ystyried peryglon a niwsans a achosir gan hylogsi ac effeithiau eraill gwastraff glo ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth, ond roedd yn credu y gellid gwneud hyn drwy fesurau y tu hwnt i'r asesiad risg cychwynnol. Roedd yn awgrymu cadw'r dosbarthiad risg cychwynnol yn syml ac yn seiliedig ar sefydlogrwydd yn unig.
- 4.93 Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno'n llwyr â chynnwys ffactorau penodol. Nid oedd Howard Siddle a Stephen Smith o'r farn bod digon o dystiolaeth i gynnwys risgiau llygredd o wastraff tomennydd neu lifogydd. Roedd Howard Siddle o'r farn y gallai hylogsi o ganlyniad i danau gwyllt fod yn berygl cynyddol, ond roedd yn meddwl efallai na fyddai gwybodaeth i seilio asesiad risg arni yn gost-effeithiol i'w chael.
- 4.94 Cytunodd Ove Arup a Phartneriaid y gallai canlyniadau methiant tomen fod yn gysylltiedig â llygredd yn y dyfodol neu berygl llifogydd, ond credai y dylid eithrio hyn gan y daw o dan ddeddfwriaeth arall. Yn eu barn nhw, dylid cyfyngu'r gwaith o reoleiddio ac arolygu tomennydd i ddiogelwch y cyhoedd.

## Trafodaeth

- 4.95 Roedd cefnogaeth gref gan fwyafriif i gynnwys risgiau llygredd, hylogsi a llifogydd fel ffactorau i'w hystyried wrth bennu dosbarthiad risg.
- 4.96 Mae'n amlwg o ymatebion arbenigwyr mai'r risg o ansefydlogrwydd fydd y mwyaf difrifol o'r peryglon a ystyrir. Rydym yn cydnabod anghytundeb ymysg arbenigwyr ynghylch y tebygolrwydd o risgiau ar wahân i ansefydlogrwydd, ond mae'n well gennym fabwysiadu agwedd ofalus a chynnwys yr holl beryglon hynny y mae corff o gefnogaeth ar eu cyfer. Gallai'r risgiau hyn, hyd yn oed os ydynt yn cael eu diystyru'n gynnar yn y rhan fwyaf o achosion, fod yn bresennol a gallent ryngweithio ag ansefydlogrwydd. Rydym hefyd yn cytuno y gall fod manteision economaidd o fynd i'r afael â ffactorau risg gyda'i gilydd mewn un asesiad.<sup>99</sup>
- 4.97 O ran y ffactorau ychwanegol a awgrymir i'w hystyried wrth ddatblygu system dosbarthu risg newydd, er enghraifft y risg o ddiffyg draenio, a dulliau amgen, fel ailddiffinio diffiniadau'r categori, rydym yn cyfleu'r rhain i'w hystyried ymhellach gan arbenigwyr technegol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru.

---

<sup>99</sup> Trafodir y posibilrwydd o ymestyn y drefn reoleiddio i domennydd nad ydynt yn rhai glo ym mhennod 12. Mae tomennydd nad ydynt yn rhai glo yn achosi peryglon ychwanegol, er enghraifft llygredd metel trwm; gweler paragraffau 12.46 a 12.48 isod.



## Argymhelliad 20.

- 4.98 Rydym yn argymhell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlosgiad a llifogydd.

### Dulliau o ddsbarthu risg a awgrymir

- 4.99 Wrth ymateb i'r ddau gwestiwn a ystyriwyd uchod ynghylch y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar ddsbarthiad risg, nododd rhai ymatebwyr ag arbenigedd yn y maes eu barn ar y dull gorau o gategoreiddio risg.

### Pryderon cyffredinol

- 4.100 Rhybuddiodd Jacobs am y gofal sydd ei angen i sicrhau bod y system ddsbarthu a fabwysiedir yn addas i'r diben ac nad yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol. Er mwyn canfod faint o risg sydd yn bodoli (y tebygolrwydd o berygl wedi'i gyfuno â'i ganlyniadau), mae angen nodi ac asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â thomen yn unigol. Roedd diffiniadau categori fel "potensial i achosi risg i fywyd neu eiddo", fel a ddefnyddiwyd dros dro ers mis Chwefror 2020 ar gyfer tomen categori C a D, yn rhy eang ac nid oedd yn ystyried maint y risg.

- 4.101 Yn gyffredinol, credai Jacobs ei bod yn well osgoi cael gormod o gategoriâu ac ailddiffinio categoriâu yng nghyd-destun cyffredinol y system rheoli tomennydd newydd sydd i'w mabwysiadu yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau bod y cynllun rheoli sy'n deillio o'r asesiad risg yn briodol i'r domen benodol. Rhybuddiwyd hefyd rhag cynnwys "tomen categori R wedi'i hadfer yn llawn ond wedi'i chadw mewn cronfa ddata fel cofnod heb ddim i'w archwilio". Roeddent yn cyfiawnhau hynny fel a ganlyn:

Mae bron pob cynllun sefydlogi/adfer yn cynnwys cyfuniad o waith cloddio a draenio – draeniau wyneb i gario dŵr ffo a draeniau bas (hyd at ddyfnder o 5m) o dan yr wyneb i reoli lefelau a ffynhonnau dŵr daear. Mae'n hanfodol bod yr holl domennydd yn cael eu harchwilio'n gyson ac yn rheolaidd, a bydd pa mor aml y byddant yn digwydd yn dibynnu ar y risgiau. Mae angen cynnal a chadw'r draeniau ar yr wyneb a'u cadw'n glir er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac osgoi erydiad a llifogydd posibl.

Mae Jacobs yn ymwybodol bod sefydlogrwydd rhai tomennydd yn cael ei gynnal drwy ddraenio dwfn o dan yr wyneb yn unig... Mae draenio dwfn o dan yr wyneb yn gofyn am waith cynnal a chadw arbenigol. Ymhen amser, disgwylir y bydd angen i ddraeniau o dan yr wyneb (bas a dwfn) gael eu hamnewid. Gyda lefelau cynyddol o ddŵr daear yn sgil rhoi'r gorau i bwmpio dŵr mwyngloddio a/neu newid yn yr hinsawdd, mae angen adnabod ymddangosiad ffynhonnau newydd ar domen wedi'i sefydlogi/adferedig ac asesu'r angen am ddraenio. Bydd archwilio tomen yn rheolaidd yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn brydlon.

- 4.102 Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y categoriâu dylunio ar gyfer cronfeydd dŵr yn rhedeg o A i D, gydag A yn nodi'r perygl mwyaf a gofynion dylunio manylach, a D y

lleiaf. Roeddent yn credu bod gwerth mewn alinio categorïau diogelwch y tomen â'r un system, yn hytrach na'u rhedeg o D i A, gyda D yn nodi'r perygl mwyaf.<sup>100</sup>

#### 4.103 Rhybuddiodd Stephen Smith rhag llunio deddfwriaeth cyn cwblhau'r gwaith o gategoreiddio risg:

Ar hyn o bryd, nid yw gwaith yr Awdurdod Glo ar gategoreiddio risg yr hen ystâd lo wedi'i gwblhau ac felly ni ellir seilio'r 'atebion' ar y risgiau a aseswyd. Mae'n ymddangos yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau ar faterion deddfwriaethol nes bydd y gwaith technegol wedi'i gwblhau.

Mae'r angen hanfodol am arbenigedd technegol yn cael ei gydnabod yn y ddeddfwriaeth ddiweddaraf ar ddiogelwch mwynloddiau – Rheoliadau Mwynfeydd 2014 – a'r canllawiau ar hyn a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r olaf yn cynnwys pynciau penodol i'w cynnwys mewn archwiliadau tomennydd ar gyfer tomennydd gweithredol a gallai fod yn dempled defnyddiol ar gyfer tomennydd nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.<sup>101</sup>

#### Canllawiau penodol

#### 4.104 Pwysleisiodd Howard Siddle yr angen i sicrhau bod asesiad o'r tebygolrwydd o ansefydlogrwydd yn seiliedig ar rywbeth mesuradwy neu amlwg. Eglurodd y gall ffactorau diogelwch bortreadu graddau cymharol o ansefydlogrwydd yn feintiol, ond nid yw hyn ond yn bosibl lle mae llethrau tomennydd wedi cael eu dylunio a bod cofnodion o'r cyfrifiadau peirianyddol yn bodoli.<sup>102</sup>

#### 4.105 Awgrymodd y gallai dull o ddsbarthu llethrau fod fel a ganlyn:

- gweithredol ansefydlog (yn seiliedig ar dystiolaeth) gyda ffactor diogelwch tybiedig dim uwch nag undod

- llethrau heb eu hadfer gyda thystiolaeth o symudiad blaenorol (lle byddai ffactor diogelwch o gwmpas undod)

- llethrau wedi'u tipio heb unrhyw symudiad blaenorol (ffactor diogelwch o undod neu ychydig yn uwch nag undod)

- llethrau wedi'u peiriannu (gallai'r ffactor diogelwch fod yn o leiaf 1.2 neu cyn uchod ag 1.5 yn dibynnu ar eu dyluniad)

Ychwanegodd "gellid cyfuno'r rhain ag elfennau sydd mewn perygl mewn matrices 2-D i bortreadu graddau risg cymharol ar gyfer perygl ansefydlogrwydd. Byddai angen

---

<sup>100</sup> Trafodir categorïau dyluniad cronfeydd dŵr yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.22.

<sup>101</sup> Nododd Stephen Smith hefyd fod gwaith Richards, Moorehead a Laing o 1993, a drafodwyd isod ym mharagraff 12.34, hefyd yn cynnwys arweiniad gwerthfawr ar reoli tomennydd.

<sup>102</sup> Mae ffactor diogelwch tomen yn hafal i gymhareb grymoedd ymwrthedd a grymoedd aflonyddu: po uchaf yw'r ffactor, y mwyaf diogel yw'r domen. Os yw'r ffactor yn is na un, mewn geiriau eraill yn llai nag undod, mae'r grymoedd aflonyddu yn gryfach na'r grymoedd ymwrthedd. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 2.16.

methodoleg debyg pe bai peryglon eraill (llygredd, llosgi neu lifogydd) yn cael eu cynnwys mewn asesiad risg.”

4.106 Awgrymodd Dr Peter Brabham y dylid penderfynu ar risg ar sail:

cyfaint y rwbel

onglau llethr

natur y rwbel

llwybrau dŵr

ongl y llethr sylfaen (llethr y bryniau)

ardaloedd dŵr ffo posibl

seilwaith o fewn parth yr ardal dŵr ffo

### Trafodaeth

4.107 Nid oes gennym yr arbenigedd technegol i gynnig sylwadau ar awgrymiadau penodol, ond rydym yn ddiolchgar am y cyfraniadau hyn ac rydym yn eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru rhag ofn eu bod o gymorth i lunio system dosbarthu risg.

4.108 Cytunwn â'r sylw ehangach y bydd yn bwysig cadw categorïau mor syml â phosibl. Fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae dosbarthiadau risg yn gweithredu fel arwydd i'r cyhoedd o lefel yr ymyrraeth sy'n ofynnol ar y domen, ac fel arweiniad i'r awdurdod wrth gynllunio a blaenoriaethu gwaith ar domennydd.<sup>103</sup> Bydd y lefel uwch o fanylion sydd eu hangen i ddod i benderfyniadau am y mesurau sydd i'w cymryd ar bob tomen unigol yn cael eu cynnwys yn adroddiadau'r archwiliad, yr asesiad risg a'r cynllun rheoli tomennydd.

4.109 Rydym hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig bod gan bob tomen unigol gynllun rheoli tomen, hyd yn oed os yw amlder yr archwiliadau a argymhellir yn isel.

### CANLYNIADAU DOSBARTHU: CYTUNDEBAU A GORCHMYNION

4.110 Bydd angen i'r awdurdod goruchwylio wneud penderfyniadau ynghylch sut y mae'r gwaith a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei gyflawni, ar ôl cwblhau'r arolygiad, yr asesiad risg a'r cynllun rheoli tomennydd. Rydym yn rhagweld y bydd gan yr awdurdod goruchwylio becyn o gytundebau a gorchmynion i drefnu gwaith diogelwch tomennydd.<sup>104</sup> Bydd y cytundeb neu'r gorchmyn yn nodi pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith ar y domen a phwy fydd yn talu amdano. Bydd hefyd yn agored i'r awdurdod bennu lefel yr arbenigedd sydd ei angen ar gyfer y gwaith.

---

<sup>103</sup> Gweler paragraff 4.57 uchod.

<sup>104</sup> Wrth gynnwys cytundebau a gorchmynion yn ein cynllun, rydym wedi edrych ar y drefn rheoli rhywogaethau yn atodlen 9A i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 2015, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Seilwaith 2015, adrannau 23 i 25. Roedd Ddeddf 2015 yn dilyn argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith mewn Cyfraith Bywyd Gwyllt: Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynno I (2014) Comisiwn y Gyfraith, Rhif 342. Roedd yr argymhellion hyn yn seiliedig ar Ddeddf Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) 2011, a gyflwynodd system o gytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau.

Dylanwadir ar ddull gweithredu'r awdurdod goruchwylio gan lefel y risg a berir gan y domen a'r math o weithredu diogelwch sydd ei angen.

- 4.111 Mae ein pennod nesaf yn edrych ar gytundebau a gorchmynion ar gyfer tomennydd risg is y mae angen eu cynnal a'u cadw. Mae penodau eraill hefyd yn cynnwys trafodaeth sy'n berthnasol i defnydd cytundebau a gorchmynion fel mecanwaith i cario mas y gwaith a nodwyd yn y cynllun rheoli tomennydd. Mae pennod 6 yn ystyried blaenoriaethu gwaith ar domennydd risg uwch drwy broses rydyn ni wedi'i galw'n ddynodiad. Mae pennod 9 yn edrych ar y telerau ariannol y gellir eu cynnwys mewn cytundebau a gorchmynion. Mae pennod 10 yn ystyried sut i ddefnyddio cytundebau a gorchmynion i sicrhau'r lefel briodol o arbenigedd ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud.

## Pennod 5: Sicrhau cynnal a chadw tomennydd risg is

- 5.1 Roedd ein papur ymgynghori yn nodi bod y mwyafrif helaeth o'r tomennydd ar y gofrestr yn annhebygol o fod angen gwaith adfer cymhleth. Dywedodd awdurdodau lleol wrthym mai'r prif broblem gyda'r grŵp hwn o domennydd oedd yr angen am waith cynnal a chadw rheolaidd i atal y tomennydd rhag dod yn berygl. Clywsom hefyd fod diffyg pŵer o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969 i sicrhau bod y gwaith rhagweithiol hwn yn cael ei wneud gan berchnogion tomennydd yn fwlc mawr yn y ddeddfwriaeth. Gwnaethom cyfeirio at y grŵp o domennydd fel "tomennydd risg is".<sup>105</sup>
- 5.2 Roeddem yn cydnabod bod gosod cyfrifoldeb ar un awdurdod am yr holl ofynion cynnal a chadw parhaus ac unrhyw waith adfer a nodwyd yng nghynlluniau rheoli tomennydd y grŵp hwn yn debygol o fod yn anymarferol. Ar ôl arolygu a pharatoi'r cynllun rheoli tomennydd, gwnaethom gynnig dros dro y gellid rhoi pŵer i'r awdurdod sy'n gyfrifol am y tomennydd hyn i ddod i gytundeb cynnal a chadw gyda pherchennog y domen. Gellid ategu hyn â'r pŵer i roi gorchymyn cynnal a chadw rhag blaen os bydd diffyg cydymffurfio, a'r pŵer i ganiatáu i'r awdurdod wneud y gwaith ei hun pe bai'n dod i'r casgliad bod hyn yn angenrheidiol neu'n fwy cost-effeithiol.<sup>106</sup>
- 5.3 Rhagwelwyd y gallai cytundebau cynnal a chadw gymryd ymagwedd ragnodol iawn, er mwyn cynorthwyo perchnogion tomennydd gyda lefelau isel o wybodaeth am ddiogelwch tomennydd. Roeddem yn credu y gallai'r cytundebau gynnwys materion fel dyletswyddau i archwilio systemau draenio ar adegau penodedig ac ar ôl glaw trwm, cynnal a gwella systemau draenio, neu osod a gwirio cyfarpar monitro. Gallai'r cytundebau hefyd nodi'r gwaith adfer sydd ei angen a ddarparu amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Gan ddibynnu ar gymhlethdod y gwaith, gallai'r cytundeb nodi bod yn rhaid i'r gwaith gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol sydd â'r cymwysterau priodol. Mewn achosion o waith cynnal a chadw sylfaenol heb sgiliau, gallai perchnogion wneud y gwaith eu hunain. Awgrymasom y gallai Gweinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer i ddarparu canllawiau ymarferol ar ddefnyddio cytundebau a gorchymynion i ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd.<sup>107</sup>
- 5.4 Gwnaethom gynnig dros dro y byddai gan yr awdurdod sy'n gyfrifol am y grŵp hwn o domennydd ddyletswydd i archwilio tomen yn amodol ar gytundeb cynnal a chadw tomen ar adegau priodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r cytundeb. Byddai'r cyfnodau hyn yn cael eu nodi yn y cytundeb. Byddai'r cofnod archwilio'n cael ei ychwanegu at y gofrestr tomennydd.
- 5.5 Rydym yn cynnig dros dro, pe bai'r perchennog yn methu â chydymffurfio â'r cytundeb neu'n gwrthod ymrwymo i gytundeb, y gallai'r awdurdod roi gorchymyn i'r perchennog

---

<sup>105</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 7.17, 7.18 a 10.70.

<sup>106</sup> Uchod, paragraffau 10.71 a 10.72.

<sup>107</sup> Uchod, paragraffau 10.77 a 10.78. I weld rhagor o drafodaeth ynghylch sut i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas, gweler pennod 10 yr adroddiad hwn.

wneud y gwaith neu ddarparu i'r awdurdod wneud y gwaith ei hun. Awgrymasom y gallai'r gorchmynion gynnwys darpariaeth ar gyfer talu gan yr awdurdod i'r perchennog mewn perthynas â chostau rhesymol gweithrediadau sydd i'w cyflawni dan y gorchymyn, neu ar gyfer talu gan berchennog mewn perthynas â chostau rhesymol gweithrediadau sydd i'w cyflawni gan yr awdurdod. Ac eithrio mewn argyfwng, gwnaethom gynnig dros dro y dylid rhoi hawl i'r perchennog apelio yn erbyn gorchymyn o'r fath.<sup>108</sup>

- 5.6 Nid oeddem yn sicr a ddylai'r awdurdod goruchwyllo newydd neu awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros oruchwyllo gorchmynion a chytundebau cynnal a chadw a'r archwiliadau gofynnol. Gallem weld dadleuon y ddwy ffordd, gydag awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i integreiddio'r gwaith gyda gwaith draenio a rheoli perygl llifogydd arall, ond gyda'r risg o efelychu tueddiad y strwythur presennol o ran natur anghyson a thameidiog.<sup>109</sup> Roeddem yn cydnabod bod y gwaith yn debygol o fod yn ddwys, ac roeddem yn ymwybodol o'r rhybudd a roddwyd i ni gan awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau am nifer sylweddol o domennydd na allent, heb adnoddau ychwanegol, ysgwyddo beichiau ychwanegol.<sup>110</sup>
- 5.7 Am y rheswm hwn, roeddem yn credu y byddai'r penderfyniad ynghylch pa awdurdod fyddai mewn sefyllfa well i oruchwyllo gwaith cynnal a chadw'r tomennydd yn dibynnu ar faint y grŵp o domennydd a fyddai'n dod o dan y math hwn o reoleiddio. Rhagwelwn y byddai hyn yn ei dro yn dibynnu ar y meini prawf a ddewiswyd i benderfynu a yw tomen wedi'i dynodi.<sup>111</sup> Roeddem hefyd yn ymwybodol o'r rhybudd gan randdeiliaid, bod yn rhaid i unrhyw system sy'n gosod gofyniad cynnal a chadw ar dirfeddianwyr preifat gael ei hategu gan system drylwyr o archwiliadau, er mwyn bod yn effeithiol.<sup>112</sup> At ei gilydd, daethom i'r casgliad na allem wneud cynnig dros dro ynghylch y dewis o awdurdod cyfrifol, ond yn hytrach gofyn cwestiwn agored yn gofyn am farn ar y mater.
- 5.8 Ynghyd â'r cynigion hyn, cafwyd cynigion sy'n ymwneud â'r tomennydd yr aseswyd eu bod yn peri lefel uwch o risg. Trafodir tomennydd risg uwch ym mhennod 6.
- 5.9 Mae'r bennod hon yn edrych ar ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn ein papur ymgynghori am ein system arfaethedig ar gyfer rheoli tomennydd risg is. Edrychwn yn gyntaf ar cytundebau, yn cynnwys fel i monitro cydymffurfiad, ac wedyn at gorchmynion ac yn olaf at lle dylai cyfrifoldeb ar gyfer creu a goruchwyllo cytundebau a gorchmynion bod. Roedd ein cwestiynau ymgynghori yn ymwneud â'n cynigion dros dro ar gyfer gorchmynion a chytundebau cynnal a chadw tomennydd. Gan ein bod yn rhagweld mai cytundebau a gorchmynion fydd y mecanwaith i reoli gweithrediadau diogelwch tomennydd ar bob tomen, boed y rheini yn cael eu cyflawni gan y perchennog neu gan yr awdurdod goruchwyllo, rydym wedi ymestyn ein trafodaeth lle

---

<sup>108</sup> Uchod, paragraff 10.74.

<sup>109</sup> Uchod, paragraff 10.88.

<sup>110</sup> Uchod, paragraffau 7.5 i 7.8.

<sup>111</sup> Uchod, paragraffau 10.89 a 10.90.

<sup>112</sup> Uchod, paragraff 10.91.

bo hynny'n briodol i gynnwys cymhwyso cytundebau a gorchmynion o'r fath i bob tomen.

## CYTUNDEBAU CYNNAL A CHADW TOMENNYDD

**Cwestiwn Ymgynghori 22: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai awdurdod gael y pŵer i lunio cytundeb rheoli tomennydd gyda pherchennog y tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y perchennog yn cynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd. A ydych yn cytuno?**

5.10 O'r 47 a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 36 (77%) yn cytuno. Pump (11%) oedd yn anghytuno, a chwech a ddewisodd ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno

5.11 Roedd Graham Hathaway o'r farn bod y cynigion yn darparu'r "rhan ragweithiol sydd wedi bod mor ddiffygiol" ac yn "gam mawr ymlaen i broffesiynoli'r gofynion sydd eu hangen ar gyfer diogelwch tomennydd". Dywedodd Syr Wyn Williams fod y cynigion yn gwneud "synnwyr ymarferol a masnachol".

5.12 Roedd rhai ymatebwyr wedi ychwanegu amodau at eu cytundeb. Tynnodd Chris Seddon sylw at y ffaith y byddai angen i'r awdurdod arfer diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod y perchennog yn gymwys i gyflawni'r gweithrediadau yn y cytundeb. Credai Kim Moreton y byddai diffiniadau clir o weithredoedd a chyfrifoldebau yn hanfodol. Dywedodd Lee Jones y byddai angen i'r Cod Ymarfer fod yn glir ynghylch lefel y cymhwysedd peirianyddol a/neu amgylcheddol sydd ei angen ar gyfer pob tasg cynnal a chadw.

5.13 Cytunodd CLA Cymru a Richard Arnold â'r cynnig ar yr amod bod yr awdurdod yn talu am y gwaith. Tynnodd CLA sylw at y ffaith y byddai hyn yn cymell y perchennog i gydymffurfio. Er hynny, dywedodd Richard Arnold mai'r llywodraeth ddylai reoli problem a oedd yn wastraff diwydiannol i bob pwrpas, a dywedodd fod y Bwrdd Glo Cenedlaethol, a oedd unwaith yn berchen ar gymaint o'r tomennydd, wedi bod yn ddiwydiant gwladoleidig. Roedd Grŵp Plaid Cymru Castell-nedd Port Talbot yn gwahaniaethu unwaith eto rhwng perchnogion llai sy'n annhebygol o allu talu am y gwaith sydd ei angen a gweithredwyr mawr fel Celtic Energy a thirfeddianwyr mawr a fyddai â digon o adnoddau i wneud hynny.

5.14 Roedd CLA Cymru hefyd yn credu y dylid cael proses apelio, ac eithrio mewn argyfwng, os na ellid dod i gytundeb rhwng yr awdurdod a pherchennog y domen. Byddai angen diffinio "argyfwng" yn glir.

5.15 Roedd Howard Siddle yn cefnogi'r cynnig ond yn rhagweld problemau o ran cydymffurfio oherwydd diffyg adnoddau "naill ai go iawn neu'n honedig". Roedd gan Stephen Smith bryderon hefyd ynghylch cymell perchnogion tomennydd preifat i gydymffurfio.

5.16 Credai Jane Iwanicki y gallai'r cynllun weithio mewn rhai amgylchiadau ond nid y cyfan. Roedd hi'n credu ei bod hi'n bwysig caniatáu i randdeiliaid eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol neu'r Awdurdod Glo gymryd rhan, yn dibynnu ar y gweithrediadau. Mewn rhai achosion, gallai'r gwaith fod y tu hwnt i gapasiti'r

perchnogion. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y gallai fod angen caniatâd neu drwyddedau gan reoleiddwyr eraill.

### Yr angen am bwerau mynediad a gorfodi digonol

- 5.17 Pwysleisiodd ICE Cymru y byddai angen pŵer ar yr awdurdod i gael mynediad at y domen a chwblhau gwaith cynnal a chadw nad yw wedi'i gwblhau gan y perchennog, gyda phŵer ychwanegol i adennill costau a ysgwyddwyd. Roedd CNC hefyd yn credu y byddai adennill costau'n bwysig, yn ogystal ag ystyried y cosbau am beidio â chydymffurfio. Credai Graham Hathaway y dylid cael dirwyon cosb benodedig am beidio â chydymffurfio, yn cynnwys carchariad.
- 5.18 Dywedodd yr Athro Bob Lee y byddai'r drefn yn ddiddannedd oni bai fod gan yr awdurdod bwerau mynediad digonol. Fel y mae wedi'i gynnig, pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â rôl orfodi, gellid ymestyn y darpariaethau ar gyfer mynediad yn Neddf yr Amgylchedd 1995 i ganiatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â'r gwaith o oruchwylio gwaith cynnal a chadw'r safle. Credai fod tebygrwydd rhwng y math hwn o archwiliad safle a'r hyn a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau eraill sy'n cael eu rheoleiddio.<sup>113</sup>

### Yr angen am bwerau prynu gorfodol

- 5.19 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent, Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf a Sioned Williams AS i gyd yn credu, yn unol â sylwadau ar y cynllun ar gyfer tomennydd dynodedig, y byddai ar yr awdurdod goruchwylio angen pwerau prynu gorfodol i ddod â thomennydd i berchnogaeth gyhoeddus lle bo angen. Gallai hyn fod, er enghraifft, pan allai'r domen ddod yn "asiant amddifad", megis pan fo perchennog yn ansolfent neu lle mae'r gwaith y tu hwnt i fodd y perchennog. Roedd Philip Thomas yn teimlo bod y cytundebau'n feichus ac yn cymryd llawer o amser. Petai dim cytundeb yn cael ei wneud o fewn mis, cynigiodd y dylid defnyddio pwerau prynu gorfodol a chychwyn ar y gwaith heb oedi pellach.

### Trosglwyddo cytundeb

- 5.20 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful yn rhagweld y byddai angen i gytundebau cynnal a chadw drosglwyddo gydag unrhyw newid ym mherchnogaeth y domen.
- 5.21 Tynnodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai sylw at y cymhlethdodau a allai godi wrth drosglwyddo'r cyfrifoldeb yn achos datblygiad newydd ar dir yn amodol ar gytundeb cynnal a chadw'r domen. Eglurodd ei bod yn anarferol iawn i ddatblygwr tai gadw perchnogaeth ar safle, gyda lleiniau unigol yn cael eu gwerthu i'r meddianwyr ac unrhyw dir arall megis ffyrdd neu barciau naill ai'n cael eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol drwy gytundebau mabwysiadu neu'n cael eu rheoli gan gwmni rheoli. Roedd hyn yn awgrymu bod angen meddwl yn ofalus a bod yn hyblyg "i ganiatáu ar gyfer modelau perchnogaeth gwahanol". Roeddent hefyd yn awgrymu y gallai cytundeb

---

<sup>113</sup> I drafod rôl gorfodi bosibl ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, gweler paragraffau 2.34, 2.35 a 2.63 uchod. Mae Deddf yr Amgylchedd 1995, adran 108 yn caniatáu mynediad i awdurdod gorfodi ar unrhyw adeg resymol i arfer pwerau rheoli llygredd penodedig. Ystyrir pwerau gorfodi ymhellach ym mhennod 8.



cynnal a chadw tomennydd gael ei alinio gyda mabwysiadu cynllun draenio cynaliadwy, oherwydd ei bod yn debygol y byddai cysylltiad agos rhwng y ddau.<sup>114</sup>

### Dulliau eraill

- 5.22 Nid oedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am gytundebau a negodwyd gyda pherchnogion tomennydd unigol. Roeddent yn credu y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gyfrifol am y gwaith sydd ei angen ar bob tomen, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw. Tynnodd Wreccsam sylw at ganran uchel o'r tomennydd sydd mewn perchnogaeth breifat, a'n bod wedi'n hysbysu bod llawer o'r rhain yn ffermwyr bach na fyddai ganddynt y sgiliau na'r adnoddau i gynnal tomennydd.<sup>115</sup>
- 5.23 Roedd ICE Cymru a Rhondda Cynon Taf hefyd yn anghytuno ag unrhyw rannu cyfrifoldeb am domennydd, ond roeddent yn cytuno â'r cynnig am gytundebau cynnal a chadw ar yr amod bod y rhain rhwng yr awdurdod goruchwyllo a pherchennog y domen.<sup>116</sup>
- 5.24 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn mai dull arall fyddai caniatáu i berchnogion wneud eu trefniadau eu hunain yn gyntaf. Gallai'r awdurdod gamu i mewn gyda chytundeb cynnal a chadw os nad oedd y trefniadau hyn yn foddhaol. Awgrymodd Paul Connolly y gellid caniatáu i dirfeddianwyr gyfrannu at ddylunio gwaith adfer mewn ffyrdd creadigol a allai fod o fudd iddynt.
- 5.25 Roedd Sue Jordan yn anghytuno'n llwyr â'r cytundebau, ar y sail mai gwaredu ac adfer llwyr oedd yr unig opsiwn derbynol ar gyfer hen domennydd.

### Perchnogaeth luosog

- 5.26 Mewn digwyddiadau ymgynghori, holodd rhanddeiliaid am y broblem o ddod i gytundeb lle'r oedd nifer o berchnogion ar domen.

### Trafodaeth

- 5.27 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cefnogi system o gytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd risg is. Cydnabuwyd yr angen am ddull rhagweithiol i atal problemau diogelwch rhag datblygu. Credwn y gallai'r cytundebau ysgogi a hwylyso'r gwaith cynnal a chadw. Gallai eu cynnwys a'r canllawiau ategol fod â swyddogaeth addysgol o ran cynyddu gwybodaeth am berchnogion tomennydd. Gallai'r cynnwys gynnwys darpariaethau sy'n rheoleiddio gweithgareddau neu ddatblygiadau ar y domen a allai fod yn niweidiol i ddiogelwch tomennydd.

---

<sup>114</sup> Trafodir system cynlluniau cynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, atodlen 1 yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 9.73 i 9.7 a 10.75.

<sup>115</sup> Gweler Rheoli Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 7.21 a 10.77, a gweler ein Hasesiad o Effaith sydd ar gael ar dudalen y prosiect Diogelwch Tomennydd Glo: <https://www.lawcom.gov.uk/project/project/regulate-coal-tix-safety-in-wales/>. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif, ar sail ffigurau'r cyngor dros dro a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, bod 65% o'r hen domennydd mewn perchnogaeth breifat.

<sup>116</sup> Ystyrir pa awdurdod ddylai fod yn gyfrifol am wneud a goruchwyllo'r cytundebau ar ddiwedd y bennod hon ym mharagraffau 5.92 i 5.123.

- 5.28 Rydyn ni'n rhagweld y bydd modd gwneud cytundebau cynnal a chadw gyda pherchnogion a thirfeddianwyr tir sy'n cynnwys tomen. Bydd ymyriad diogelwch tomen yn effeithio'n uniongyrchol ar y person sy'n meddiannu'r tir ac efallai mai dyma'r person sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni tasgau cynnal a chadw arferol. Am resymau rydyn ni'n eu trafod yn fanylach ym mhenodau 7 a 9, rydyn ni'n gweld darpariaeth ariannol mewn perthynas â gwaith ar domennydd fel mater ar wahân i bwy sy'n ei gyflawni, a allai gynnwys amrywiaeth o bobl sydd â buddiannau yn y tir neu mewn deunyddiau tomennydd sydd arno.<sup>117</sup> Gallai'r cytundebau hefyd fynnu bod perchnogion a phreswylwyr yn adrodd ar eu cydymffurfiad â'r cytundeb yn ogystal â rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i domen a allai effeithio ar ddiogelwch. Lle mae sawl perchennog ar domen, gellid datblygu rhyw fath o gytundeb cynnal a chadw ar y cyd.
- 5.29 Gan adael y drafftio deddfwriaethol i'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, rhagwelwn y bydd y cytundeb a'r pwerau gwneud gorchymynion a argymhellir yn cael eu drafftio er mwyn galluogi mwy nag un awdurdod i fod yn barti i gytundeb neu y cyfeirir ato mewn gorchymyn (trafodwn orchymynion yn ddiweddarach yn y bennod hon). Wnaethom hefyd rhagweld y bydd y diffiniad o berchennog yn ddigon eang i gwmpasu unrhyw berson sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu lesddaliad yn y tir perthnasol. Bydd hyn yn galluogi i unrhyw ddyletswyddau i wneud gwaith gael eu cyfeirio at y person mwyaf addas a bydd hefyd yn ddefnyddiol yng nghyd-destun dyrannu rhwymedigaethau ariannol, pwnc y byddwn yn ei drafod yn fanylach ym mhennod 9.
- 5.30 Dylem nodi y bydd y dull hwn yn cynnwys tenantiaid o dan ddaliadau amaethyddol statudol neu denantiaethau busnes fferm, y tynnwyd ein sylw atynt gan Dr Nerys Llewellyn-Jones.<sup>118</sup> Mae'r rhain, a all barhau am flynyddoedd lawer yn ymarferol, yn bodoli o flwyddyn i flwyddyn ac nid ydynt yn ein barn ni wedi'u cynnwys yn y diffiniad o berchennog yn Neddf 1969, er ein bod o'r farn y gellid dwyn achos cyfrannu o dan adran 19 o'r Ddeddf yn eu herbyn.<sup>119</sup> Credwn y dylai fod yn bosibl cynnwys denantiaid o'r fath mewn cytundebau a gorchymynion; mater i Lywodraeth Cymru yw a ddylid eu cynnwys mewn unrhyw egwyddorion y mae'n eu gosod o ran ariannu gwaith, a sut y dylid gwneud hynny.
- 5.31 O ran yr amheuon a fynegwyd, cytunwn y bydd eglurder ynghylch cyfrifoldebau yn hanfodol. Bydd angen mynd i'r afael â phroblemau cydymffurfio drwy sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gynnal archwiliadau a thrwy bwerau mynediad a gorfodi digonol. Credwn hefyd ei bod yn debygol y bydd achosion lle nad yw'r perchnogion yn gallu gwneud y gwaith ei hun, er enghraifft oherwydd oed neu anabledd. Efallai y bydd angen i'r cytundeb ddarparu mewn achosion o'r fath i awdurdod wneud y gwaith ei

---

<sup>117</sup> Gweler paragraffau 7.60 i 7.70 a 9.699.83 isod.

<sup>118</sup> Gweler paragraff 7.48 isod.

<sup>119</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adran 36(3). Gallai daliadau amaethyddol neu denantiaeth busnes fferm fod yn destun gorchymyn cyfrannu o dan adran 19 o'r Ddeddf, gan ei fod yn gyfystyr â "ystâd neu fuddiant... yn y tir y lleolir y domen arno". Mae les o unrhyw hyd yn ystâd mewn tir o dan y diffiniad cyffredinol o "cyfnod blynyddoedd absoliwt" yn adran 205(1)(xxvii) Deddf Cyfraith Eiddo 1925. Mae hyn yn darparu bod "cyfnod o flynyddoedd" yn cynnwys cyfnod o lai na blwyddyn, neu am flwyddyn neu flynyddoedd a ffraciwn o flwyddyn neu o flwyddyn i flwyddyn.

hun. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 8.<sup>120</sup> Mae materion sy'n ymwneud â chyllido gwaith sy'n ofynnol ar domennydd y tu allan i'n cylch gorchwyl.

- 5.32 Rydyn ni'n cytuno y gallai fod angen pwerau prynu gorfodol, ond rydyn ni'n credu bod y rhain yn fwy tebygol o fod yn angenrheidiol ar gyfer tomennydd dynodedig fel sy'n cael ei drafod yn y bennod nesaf.<sup>121</sup> Bydd y tomennydd sy'n ymwneud â chytundebau cynnal a chadw yn domennydd risg is o'u hanfod.
- 5.33 Rydym yn bryderus y gallai'r awgrym o ddull gweithredu amgen sy'n caniatáu i berchnogion gynllunio eu cytundebau eu hunain arwain at greu toreth o gytundebau gwahanol. Gallai hyn arwain yn y pen draw at waith ychwanegol sylweddol i'r awdurdod gorfodi. Rydym yn rhagweld y bydd y cytundeb yn dilyn y cynllun rheoli tomennydd. Yn yr achosion mwyaf syml, efallai y bydd modd i'r ddwy ddogfen fod yn debyg iawn o ran cynnwys ac ar ffurf eithaf safonol. Roedd yr adolygiad annibynnol diweddar o ddiogelwch cronfeydd dŵr a ddilynodd ddigwyddiad Toddbrook yn rhybuddio bod angen cysondeb yn ansawdd y gwaith a wneir gan ymgwymerwyr cronfeydd dŵr, a phwysigrwydd goruchwyliaeth gan yr awdurdod rheoleiddio ar gydymffurfiaid perchnogion â gofynion.<sup>122</sup> Byddai amrywio'r dulliau o lunio cytundebau cynnal a chadw yn ei gwneud hi'n anoddach cyflawni hyn i gyd.
- 5.34 Mae posibilrwydd hefyd y gellid cyflwyno cytundebau cynnal a chadw gyda chytundebau rheoli tir eraill. Efallai fod y rhain eisoes ar waith mewn perthynas, er enghraifft, â chyrsiau dŵr neu warchod yr amgylchedd o dan gynlluniau rheoli tir cynaliadwy ar ffermydd.<sup>123</sup> Awgrymwyd mewn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori y gellid cymell cydweithredu drwy dalu cymhorthdal bach. Mae hwn unwaith eto yn fater polisi i Lywodraeth Cymru benderfynu arno.
- 5.35 Rydym yn rhagweld y byddai cytundebau cynnal a chadw tomennydd yn ymdrin yn bennaf â'r tomennydd risg is hynny sy'n gofyn am waith cynnal a chadw sylfaenol neu fesurau adfer gweddol syml y mae modd i berchennog neu feddiannydd eu cyflawni neu eu comisiynu.<sup>124</sup> Lle bo angen gwneud gwaith adfer mwy sylweddol, gallai fod yn fwy priodol i'r cytundeb ddarparu ar gyfer comisiynu neu gyflawni gwaith gan yr awdurdod goruchwyllo, gan roi rôl i'r awdurdod o ran negodi telerau ac o ran penderfynu pwy fyddai'n gwneud y gwaith. Byddai hyn yn gofyn am ystyried cytundeb tomen ar ffurf a oedd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn awdurdodi cyflawni gwaith gan awdurdod yn hytrach na'r perchennog neu'r deiliad.

---

<sup>120</sup> Gweler paragraff 8.46 isod.

<sup>121</sup> Gweler paragraff 6.115 isod.

<sup>122</sup> Gweler D Balmforth, *Adroddiad Adolygu Diogelwch Cronfeydd Dŵr* Annibynnol (2021) <https://www.gov.uk/government/publications/rservoir-review-part-b-2020> a pharagraff 4.30 uchod.

<sup>123</sup> Gweler, er enghraifft, cynllun Glastir, cynllun rheoli tir cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru lle cynigir cymorth ariannol i ffermyr a rheolwyr tir: <https://gov.wales/glastir>.

<sup>124</sup> Mae hierarchaeth mesurau unioni a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Glo yn cael eu nodi yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 8.25. Mae cynnal a chadw rheolaidd, er enghraifft, ffosydd a sgriniau, ar waelod yr hierarchaeth. Mae rhaglenni ymateb i'r tywydd a mesurau fel tyfu glaswellt a phlannu tua chanol y rhestr. Mae gwaith peirianyddol mawr fel adeiladu seilwaith ffosydd newydd yn ymddangos tua'r brig.

- 5.36 Rydym yn parhau i ystyried y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer cael mynediad i gytundebau cynnal a chadw gael ei hategu gan bŵer i roi gorchymyn cynnal a chadw, pwnc y byddwn yn ei drafod yn nes ymlaen yn y bennod hon.
- 5.37 Fel enghraifft o faint posibl, mae'n ymddangos i ni y gallai cytundebau cynnal a chadw sylfaenol ar gyfer tomennydd sydd angen eu cynnal a'u cadw gan y perchennog neu'r deiliad fod yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r tomennydd yng nghategoriâu A, B ac R o dan y system dosbarthu risg dros dro bresennol.<sup>125</sup> Ar y sail honno, byddai'r cytundebau hyn yn berthnasol i bron i 90% o domennydd glo anweithredol yng Nghymru.<sup>126</sup>
- 5.38 Rydym yn cydnabod y bydd gwneud a goruchwyllo nifer fawr o gytundebau yn gofyn am lawer o adnoddau, yn ogystal â chydabod pwysigrwydd blaenoriaethu gwaith ar domennydd sy'n achosi pryderon diogelwch mwy uniongyrchol. Am y rheswm hwn, efallai y bydd angen rhoi blaenoriaeth i ddelio â thomennydd risg uwch dros gytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd risg is. Rydym hefyd yn cytuno y bydd gorfodaeth effeithiol yn hanfodol. Rydym yn ystyried sut y gellir monitro cydymffurfiad yn adran nesaf y bennod hon a materion gorfodi fel rhan o'n trafodaeth ar orchmynion cynnal a chadw yn yr adran sy'n dilyn a hefyd ym mhennod 8.
- 5.39 Rydym yn trafod pa awdurdodau ddylai fod yn gyfrifol am lunio a goruchwyllo cytundebau cynnal a chadw tomen yn adran olaf y bennod hon.

### **Argymhelliad 21.**

- 5.40 Rydym yn argymhell y dylai'r ddeddfwriaeth diogelwch tomennydd glo darparu ar gyfer llunio cytundebau rhwng awdurdodau a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud.

## **MONITRO CYDYMFFURFIAD Â CHYTUNDEBAU CYNNAL A CHADW TOMENNYDD**

- 5.41 Roedd ein cwestiwn ymgynghori nesaf yn edrych ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundebau, gan ofyn a ddylai awdurdod fod o dan ddyletswydd i arolygu cydymffurfiaeth.

### **Cwestiwn Ymgynghori 23: A ydych yn cytuno mai awdurdod ddylai ysgwyddo dyletswydd archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundeb rheoli tomennydd?**

<sup>125</sup> Gweler y ffigurau tomennydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 202: <https://gov.wales/coal-tipt-safety/section-72291>. Mae tomennydd categori A a B yn cael eu diffinio o dan y system d'dosbarthu dros dro bresennol fel A: Tomen fach / Tomen wedi'i hadfer; B: Annhebygol o achosi risg oherwydd maint neu leoliad. Tomen wedi'i hadennill yw tip R.

<sup>126</sup> O blith cyfanswm o 2,456 o domennydd, mae yna 678 o domennydd B (28% o'r cyfanswm), 1155 o domennydd A (86% o'r cyfanswm) a 296 o domennydd R (12%).

- 5.42 O'r 48 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 41 (85%) yn cytuno â'r ddyletswydd archwilio. Pedwar (8%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".
- 5.43 Roedd y rhai a gytunodd yn gweld bod cydymffurfio â'r cytundebau'n hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd parhaus, ac felly roedd gwirio cydymffurfiaid yn hanfodol. Pwysleisiodd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) ei bod yn annhebygol y bydd gan berchnogion tomennydd fuddiant economaidd parhaus yn y domen, ac felly nad oes ganddynt gymhelliant annibynnol i gydymffurfio â'r cytundeb. Nododd Lee Jones y byddai'r cofnod arolygu hefyd yn sefyll fel tystiolaeth os bydd unrhyw ymgyfreitha'n gysylltiedig â diogelwch tomennydd.

### Pwy ddylai gynnal yr archwiliad?

- 5.44 Aeth rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn ymlaen i ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad ei hun. Credai Chris Seddon y gellid ei ddirprwyo i drydydd parti cymwys. Pwysleisiodd CNC hefyd yr angen i'r archwilydd fod yn annibynnol ar y perchennog. Soniodd Kim Moreton am yr angen i'r archwilydd feddu ar sgiliau digonol. Tynnodd sylw at yr enghreifftiau niferus o "archwilwyr cydymffurfio arbenigol" yn methu, a dywedodd mai'r drychineb yn Brumadinho oedd yr achos gwaethaf o'r fath.<sup>127</sup> Credai fod "cyfle i gadw sgiliau o'r hen weithlu mwyngloddio ac i adeiladu sylfaen sgiliau newydd gyda pheirianwyr sydd yng nghamau cynnar eu gyrfaedd".
- 5.45 Roedd rhai ymatebion yn nodi bod eu cytundeb yn amodol ar y trefniadau cyllido sydd ar waith. Cytunodd Sir Fynwy ar yr amod bod digon o adnoddau ar gael i'r awdurdod. Roedd CLA Cymru o'r farn y dylai'r gwaith gael ei ariannu'n llwyr gan yr awdurdod. Yn groes i hynny, credai Philip Thomas mai'r tirfeddiannwr ddylai dalu'r gost.
- 5.46 Yr oedd y rhai oedd yn anghytuno yn cynnwys Wrecsam a Paul Connolly, y ddau ar y sail y dylai'r ddyletswydd i archwilio fod yn gyfrifoldeb ar awdurdod canolog. Dywedodd Wrecsam y "dylai fod yn gorff goruchwyllo, nid awdurdodau lleol. Mae gwirio cydymffurfiaeth yn hanfodol".

### Trafodaeth

- 5.47 Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid dyletswydd i archwilio er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r cytundeb cynnal a chadw tomennydd.
- 5.48 Roedd rhai o'r rhai a ymatebodd hefyd yn ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad. Ystyrir hyn yn fanylach yn adran olaf y bennod hon, sy'n edrych ar ba awdurdod ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y cytundebau. Cytunwn ei bod yn hanfodol i'r archwilydd feddu ar y sgiliau angenrheidiol; trafodwn sut y gellir sicrhau arbenigedd ym mhennod 10. Cytunwn hefyd fod yn rhaid i'r archwilydd fod yn annibynnol ar y perchennog, ac eithrio lle bo'r perchennog ei hun yn awdurdod cyhoeddus sydd ag arbenigedd angenrheidiol. Yn amodol ar yr amodau hyn, ac er mwyn sicrhau bod dyletswyddau archwilio yn ymarferol, credwn y dylai'r ddyletswydd i

---

<sup>127</sup> Bu i drychineb Brumadinho yn 2019, un o'r trychinebau amgylcheddol gwaethaf yn hanes Brasil, ladd 270 o bobl pan fu methiant trychinebus mewn argae sorod segur mewn mwynglawdd haearn, er gwaethaf cynnal archwiliadau bob pythefnos. Mae achos sifil wedi'i chyflwyno yn yr Almaen yn erbyn y cwmni sydd wedi'i gontractio i gynnal yr archwiliadau.

archwilio gynnwys pŵer i gcontractio archwiliadau i drydydd partïon sydd â chymwysterau addas. Mae angen cofio y bydd tomennydd sy'n addas ar gyfer cytundeb cynnal a chadw yn eiddo i ystod eang o fathau o berchnogion, gan gynnwys awdurdodau lleol.

- 5.49 Rydym yn argymhell bod dyletswydd i drefnu archwiliadau cydymffurfio yn gyfrifoldeb ar awdurdod i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw tomennydd, gyda'r pŵer i ddirprwyo, gan gynnwys i drydydd partïon cymwys sy'n annibynnol ar berchennog y domen.

### **Argymhelliad 22.**

- 5.50 Rydym yn argymhell y dylai awdurdod fod yn gyfrifol am ddyletswydd i drefnu archwiliad er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chytundeb cynnal a chadw, gyda'r pŵer i ddirprwyo archwiliadau i drydydd partïon sydd â chymwysterau addas.

## **GORCHMYNION CYNNAL A CHADW TOMENNYDD**

- 5.51 Mae'r adran hon yn edrych ar ein cynigion dros dro ar gyfer y camau y gellid eu cymryd os na chydymffurfir â chytundeb, neu os gwrthodir ymrwymo i gytundeb.

**Cwestiwn Ymgynghori 24: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai awdurdod allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r**

**(1) perchennog wedi methu â chydymffurfio â chytundeb yr ymrwymwyd iddo a'i fod wedi cael hysbysiad priodol o'r methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w gywiro;**

**(2): cynigwyd cytundeb i'r perchennog ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod, ac mae'r awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn cytuno**

**(3) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu**

**(4) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.**

**Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.**

**Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i'r awdurdod wneud hynny.**

**Dylai'r perchennog gael hawl i apelio yn erbyn gorchymyn cynnal a chadw.**

**Ac eithrio yn achos gorchymyn brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.**

## A ydych yn cytuno?

- 5.52 Atebodd pedwar deg pump o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd tri deg chwech (80%) yn cytuno â'n cynigion dros dro. Pump (11%) oedd yn anghytuno, a phedwar a ddewisodd ateb "arall".

## Rhesymau dros gytuno

- 5.53 Credai Keith Bush CF ei bod yn ymddangos bod y cynigion yn effeithiol ac yn gymharol syml i'w gweithredu. Disgrifiodd Kim Moreton y drefn arfaethedig a arweiniodd at orchymyn fel un sydd "yn hawdd ei adnabod ac sy'n gadarn". Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Chastell-nedd Port Talbot yn credu y byddai hyn yn datrys y broblem o berchnogion yn methu neu'n anfodlon gwneud y gwaith angenrheidiol dan gytundeb.

- 5.54 Credai Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt) ei bod yn hanfodol cael darpariaeth ar gyfer ymyrraeth amserol er mwyn lleihau'r risg o ddamwain fawr:

Mae Jacobs yn ymwybodol o sawl tomen lle nodwyd diffygion/problemau a risgiau cysylltiedig o fethiant, ond roedd oedi cyn gweithredu/defnyddio mesurau adfer wedi arwain at ddigwyddiad mawr a oedd wedi gofyn am fwy o asesu ac adfer ar gost economaidd a chymdeithasol llawer uwch nag a fyddai ei angen pe bai camau wedi cael eu cymryd yn gynnar.

- 5.55 Roedd gan rai ymatebwyr sylwadau ar yr amgylchiadau arfaethedig lle gallai'r awdurdod roi gorchymyn (rhifau (1) i (4) yn ein cwestiwn ymgynghori).

### Sylwadau ar:

(1): mae'r perchennog wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb a luniwyd ac wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;

(2): cynigwyd cytundeb i'r perchennog ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod, ac mae'r awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn cytuno

- 5.56 Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai fod angen gwarant ynadon yn yr amgylchiadau hyn oni bai fod y sefyllfa'n un frys. Mewn perthynas â (2), awgrymodd yr Athro Bob Lee y byddai'n fwy effeithiol darparu bod "absenoldeb unrhyw ymateb o fewn 42 diwrnod yn cael ei ystyried fel gwrthodiad i ymrwymo i gytundeb" yn hytrach na bod yr "awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn cytuno".

Sylwadau ar (3): mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys

- 5.57 Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai angen diffinio "brys" yn glir ochr yn ochr ag "argyfwng" neu y dylid gwneud penderfyniad i ddefnyddio un o'r termau hyn yn unig.

Sylwadau ar (4): ni fu'n bosibl canfod pwyr perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny

- 5.58 Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru eto y dylai fod angen gwarant ynadon mewn achos nad yw'n achos brys.

## Sail arfaethedig ychwanegol

- 5.59 Awgrymodd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) bumed sail dros roi gorchymyn. Byddai hyn yn berthnasol pe bai perchennog wedi methu â cheisio'r trwyddedau angenrheidiol i wneud y gwaith. Rhoesant enghraifft o'r angen am gymeradwyaeth i system ddraenio gynaliadwy (SUD) neu ganiatâd i ollwng o gwrs dŵr.<sup>128</sup>

## Buddiannau trydydd partïon

- 5.60 Tynnodd Network Rail a Trafnidiaeth Cymru sylw at fuddiannau trydydd partïon mewn gorchymynion cynnal a chadw tomennydd. Roedd Network Rail yn gweld bod angen dyletswydd ragweithiol ar yr awdurdod i roi gwybod i unrhyw dirfeddianwyr y gallai hyn effeithio arnynt am unrhyw broblemau gyda rheoli tomen a allai arwain at effaith niweidiol – er enghraifft ar reilffordd. Dylai hyn gynnwys dyletswydd ar ran yr awdurdod i hysbysu perchnogion tir o'r fath ynghylch rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd. Roedd Trafnidiaeth Cymru yn credu y dylai fod yn agored i drydydd partïon roi gorchymynion cyngor ar waith pan ystyrir bod tomen yn peri risg o ran diogelwch neu'r amgylchedd. Yr oeddent hefyd yn annog mewn amgylchiadau o'r fath bod yn rhaid cael digon o bŵer i'r awdurdod ymgymryd â'r gwaith ei hun os nad oes gan y tiffeddiannwr ddigon o fodd i wneud hynny.
- 5.61 Awgrymodd Castell-nedd Port Talbot y dylid cael cynllun cymorth grant ar gyfer perchnogion tir sy'n cael eu rhoi mewn perygl heb unrhyw fai arnynt eu hunain oherwydd ymddygiad perchennog y domen.

## Cymesuredd

- 5.62 Gwnaeth yr Athro Bob Lee sylwadau ar ein cynnig bod yn rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni. Er ei fod yn cytuno â'r cynnig, credai y dylid nodi'r math hwn o ddarpariaeth mewn canllawiau yn hytrach nag mewn deddfwriaeth.
- 5.63 Roedd CNC yn credu y byddai'r hyn a fyddai'n gymesur yn dibynnu ar amcanion y gorchymyn. Gallai'r rhain wneud y domen yn ddiogel, neu amddiffyn yr amgylchedd. Roedden nhw'n awgrymu mai'r ffordd orau o asesu cymesuredd fyddai gan beiriannydd sifil cymwysedig.

## Hawl i apelio

- 5.64 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno, lle na fu'n bosibl dod i gytundeb â pherchennog y domen a bod angen cynnal a chadw'r domen, ei bod yn iawn mewn egwyddor cael hawl i apelio. Roeddent yn awgrymu y gallai gwasanaeth ardystio achrediaid wedi'i gymeradwyo gan UKAS bennu amserlen apelio, a hynny'n gweithredu fel uchafswm statudol. Roeddent yn meddwl y gellid cael darpariaeth ar

---

<sup>128</sup> Trafodir systemau draenio cynaliadwy, yn cynnwys yr angen am gymeradwyaeth cyn y gellir dechrau ar y gwaith adeiladu, yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.70.



gyfer amserlenni diwygiedig gyda chytundeb y gwasanaeth achredu petai archwilwyr yn datgelu bod angen mwy o waith sylweddol nag a dybiwyd yn wreiddiol.<sup>129</sup>

- 5.65 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cytuno, lle'r oedd angen gwneud gwaith ar frys, na ddylai apêl oedi'r gwaith sydd ei angen i gadw'r domen yn ddiogel. Credai Huw Williams y dylai gorchymyn tomen mewn argyfwng ddod i rym ar unwaith, ond y dylai barhau i fod yn destun apêl unwaith y bydd mewn grym. Awgrymodd fod y weithdrefn hysbysiadau stop mewn deddfwriaeth gynllunio yn gysail ddefnyddiol. Credai'r Athro Bob Lee y dylai'r awdurdod, mewn achosion brys, wneud y gwaith ei hun ac y gallai'r perchennog apelio yn erbyn codi unrhyw dâl am y gwaith. Nododd y dylai'r angen am orchymyn brys fod yn brin iawn ar gyfer tomennydd heb eu dynodi.

### Terfynu

- 5.66 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu ei bod yn bwysig darparu bod y gorchymyn yn cael ei "gau" ar ôl i beiriannydd sifil cymwys ardystio'r gwaith.

### Ariannu

- 5.67 Pwysleisiodd rhai ymatebwyr unwaith eto fod eu cefnogaeth i'r cynnig yn dibynnu'n rhannol ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud ynghylch pwy fyddai'n talu am y gwaith. Tynnodd CLA Cymru sylw at y ffaith nad oedd perchennog y domen, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gysylltiedig o gwbl â'r gwaith mwyngloddio gwreiddiol a greodd y domen. Roeddent yn credu, pe na bai'r awdurdod yn ysgwyddo'r baich o dalu am y gwaith, ei bod yn debygol y byddai achosion lle gallai perchnogaeth ddod yn "llai na thryloyw mewn ymgais i osgoi atebolrwydd parhaus".
- 5.68 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y dylai perchennog y domen dalu'r costau, ond roedd angen eglurder ynghylch sut y gellid cael cyllid pe na bai'r perchennog yn gallu talu. Credai Philip Thomas ei bod yn anghywir mewn egwyddor i'r tiffeddiannwr elwa o fuddsoddiad cyhoeddus yn ei dir. Credai mai'r ateb gorau oedd i'r tir gael ei brynu'n orfodol fel y gellid ei ddefnyddio er budd y gymuned.

### Trosglwyddo perchnogaeth

- 5.69 Mewn digwyddiad ymgynghori, awgrymodd Wrecsam y dylid trin gorchymyn cynnal a chadw tomen fel pridiant tir lleol. Byddai wedyn yn ymddangos ar y gofrestr pridiannau tir lleol adeg trawsgludiad.

### Trafodaeth

- 5.70 Cefnogwyd ein cynigion ar gyfer gorchymynion cynnal a chadw tomennydd gan fwyafrif cryf o ymatebwyr. Cafwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol ar gyfer ychwanegiadau neu amrywiadau i'r rhagamodau ar gyfer cyhoeddi gorchymyn.

- (1) Yn achos methiant gan berchennog i ymateb, rydym yn cytuno â newid ein geiriad arfaethedig i ddileu "ac mae'r awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn cytuno". Fel hyn, mae diffyg ymateb o fewn 42 diwrnod yn ysgogi'r pŵer i roi gorchymyn. Yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ystyried bod y perchennog yn annhebygol o gytuno i orchymyn dan

---

<sup>129</sup> UKAS yw Corff Achredu Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a benodir gan y llywodraeth i asesu ac achredu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gan gynnwys ardystio, profi, arolygu a graddnodi.

yr amgylchiadau hyn, allai achosi anghydfodau, credwn y gellir dibynnu ar yr awdurdod i beidio â gweithredu'n fyrbwyll. Er enghraifft, os oes arwydd bod ymateb y perchennog yn debygol o gael ei roi o fewn cyfnod byr o amser ar ôl i'r 42 diwrnod ddod i ben, byddai'n syniad da peidio â rhoi gorchymyn ar unwaith.

- (2) Rydym yn cytuno y byddai'n gliriach cyfeirio at waith "brys angenrheidiol" yn hytrach na chyfuno'r termau "brys" ac "argyfwng" heb ddiffiniad pellach.<sup>130</sup> Pan fydd "argyfwng" yn cael ei ddefnyddio, bydd angen ei ddiffinio. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 11.<sup>131</sup>
- (3) Nid ydym wedi ein darbwyllo bod angen i fethu â gwneud cais am drwyddedau angenrheidiol sefyll fel sail ychwanegol. Credwn mai'r peth gorau fyddai i'r cytundeb ei hun gynnwys gwybodaeth am y trwyddedau y bydd eu hangen. Os bydd perchennog y domen yn methu â chael y trwyddedau hyn, byddai hyn yn cael ei drin fel methiant i gydymffurfio â'r cytundeb.

5.71 Rydym yn amau y byddai dyletswydd i hysbysu perchnogion tir trydydd parti ynghylch rhoi gorchymyn, neu effaith andwyol bosibl gorchymyn, yn ymarferol. Gallai'r ddyletswydd fod yn eang iawn, a gallai fod yn anodd diffinio pa dirfeddianwyr y dylid rhoi gwybod iddynt. Rydym wedi argymhell y byddai rhoi gorchymyn yn cael ei gofnodi ar y gofrestr tomennydd. Dylai hyn roi sicrwydd y bydd y gwaith cynnal a chadw neu adfer angenrheidiol yn cael ei wneud. Yn yr un modd, nid ydym o blaid proses ffurfiol i drydydd parti'n wneud cais am orchmynion tomennydd. Credwn y byddai'n well i drydydd parti'n gysylltu â'r awdurdod goruchwylio'n anffurfiol os oes pryderon.<sup>132</sup>

5.72 Rydym yn cytuno na fyddai'n briodol i ddarpariaeth statudol gynnwys yr holl fanylion ynghylch sut y byddai'r system gorchymyn tomennydd yn gweithio. Bydd yn bwysig darparu canllawiau ategol i helpu awdurdodau i benderfynu a yw amgylchiadau'n briodol ar gyfer gorchymyn. Ond credwn y gall darpariaeth ar gyfer gwaith i fod yn gymesur â'i amcan aros mewn darpariaeth ddeddfwriaethol fel datganiad defnyddiol o egwyddor gyffredinol a fydd yn bwysig os bydd her o ran a yw'r gorchymyn wedi'i wneud yn gyfreithlon.

5.73 Rydym yn cytuno na ddylai arfer hawl i apelio atal gwaith brys rhag cael ei wneud. Dylai sefyllfaoedd o'r fath fod yn brin, gan y bydd gorchmynion cynnal a chadw yn ymdrin â thomennydd sy'n annhebygol o achosi argyfwng; pe bai argyfwng yn codi, credwn ei bod yn fwy tebygol y byddai gorchymyn yn awdurdodi gwaith gan awdurdod na gofyn am waith gan berchennog.

5.74 Gallai'r weithdrefn hysbysiad stop mewn deddfwriaeth gynllunio, fel yr awgrymwyd, ddarparu model. Pan fo apêl yn cael ei dwyn yn erbyn hysbysiad gorfodi a roddwyd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'r hysbysiad yn peidio â chael unrhyw

---

<sup>130</sup> Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, paragraff 10(2)(c) yn darparu y gellir rhoi gorchymyn rheoli rhywogaethau pan fo'r "awdurdod amgylcheddol o'r farn bod rhoi'r gorchymyn yn angenrheidiol ar frys". Nid yw "angenrheidiol ar frys" wedi'i ddiffinio fel arall.

<sup>131</sup> Gweler paragraffau 11.36, 11.37 a 11.44 isod.

<sup>132</sup> Gweler paragraffau 3.77, 3.78 a 3.94 uchod am drafodaeth ynghylch rôl trydydd parti'n sy'n amau presenoldeb tomen heb ei chofrestru, a'n hawgrym y dylai'r awdurdod goruchwylio gynllunio proses hygyrch, fel ffurflen ar-lein, i ganiatáu i drydydd parti'n godi pryderon.

effaith hyd nes y penderfynir ar yr apêl neu ei thynnu'n ôl oni chyflwynir "hysbysiad stop" hefyd. Caiff yr awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad stop ochr yn ochr â hysbysiad gorfodi neu ar ôl cyflwyno hysbysiad gorfodi os yw "yn ystyried ei bod yn hwylus i unrhyw weithgaredd perthnasol ddod i ben cyn i'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad gorfodi ddod i ben".<sup>133</sup> Mae torri hysbysiad stop yn drosedd ac nid oes hawl apelio yn ei erbyn. Petai'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gorchymyn cynnal a chadw, a bod angen atal gweithgaredd ar y domen, gellid cyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwnnw ar yr un pryd â gorchymyn tomen.

- 5.75 Rydym yn cytuno y byddai'n synhwyrol cael darpariaeth ar gyfer sefydlu bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol. Ond hyd yn oed pan fydd y gwaith adfer a nodir mewn gorchymyn wedi'i gwblhau, mae'n debygol y bydd y gofynion cynnal a chadw yn parhau. Efallai y bydd angen i'r gorchymyn barhau i ganiatáu gorfodi'r rhwymedigaethau hyn oni bai fod cytundeb yn ei le.
- 5.76 Mewn rhai achosion mae cefnogaeth i'n cynnig yn dibynnu ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud ynghylch pwy fyddai'n talu am y gwaith. Er bod materion cyllido yn fater o bolisi i Lywodraeth Cymru, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod ein cynnig yn ymwneud â darpariaeth ar gyfer tomennydd risg isel. Bydd y gwaith sy'n ofynnol dan orchymyn cynnal a chadw'r domen yn bennaf yn cynnwys tasgau cynnal a chadw arferol a mân fesurau adferol na ddylai fod yn gostus iawn. Ond rydym yn cydnabod y risg y gallai perchnogion tir gael cymhelliant i osgoi atebolrwydd os ydynt yn gyfrifol am gost y gwaith.
- 5.77 Nodwn yr awgrym y gellid trin gorchymyn tomen fel math o arwystl tir. Mae hyn, fodd bynnag, yn codi rhai materion anodd. Mae dau ddull posibl sy'n caniatáu i gytundebau rhwng corff cyhoeddus a thirfeddiannwr rwympo olynwyr mewn teitl a hysbysu prynwyr y tir. Os bydd y cytundeb yn creu buddiant mewn tir, gallai parhau i rwympo'r tir yn dilyn trosglwyddiad i perchennog newydd os bodlonwyd y gofynion cofrestru. Os mae'r tir yn digofrestredig, wedyn gall y buddiant cael ei amddiffyn gan cofnod fel pridiant tir ar y gofrestr pridiant tir. Os mae'r tir wedi'i cofrestru, gallai cael ei amddiffyn gan hysbysiad yn y Gofrestr Tir.<sup>134</sup> Mae cofrestriad hefyd yn hybysu prynwyr o presenoldeb y buddiannau. Fel arall, gellir gwneud y cytundeb yn faich statudol ar y tir yn gofrestrdig fel pridiant tir lleol. Mae pridiannau tir lleol, yn gyffredinol, yn rhwymedigaethau ar tirfeddiannwyr gyda blas cyhoeddus sydd yn buddio awdurdodau cyhoeddus ac wedi'u chreu dan pwerau statudol penodol.<sup>135</sup> Mae rhaid i'r rhwymedigaethau yma cael eu cofrestru gan yr awdurdod lleol yn yr Cofrestr

---

<sup>133</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 183(1).

<sup>134</sup> O dan Ddeddf Pridiannau Tir 1972, mae'r methiant i cofrestru buddiant sydd yn cofrestredig fel pridiant tir yn achosi i'r buddiant bod yn annilys yn erbyn rhai categorïau o prynwyr. Dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002, gallai rhai buddiannau mewn tir cael ei rhoi ar y cofrestr trwy hysbysiad. Nid yw'r cofnod mewn hysbysiad yn gwarantu bod y buddiant y mae'n ei ddiogelu yn ddilys neu hyd yn oed ei fod yn bodoli, dim ond yn sicrhau bod y buddiant a ddiogelir yn cael blaenoriaeth wrth gofrestru gwarediad cofrestradwy dilynol ar gyfer gwerth, os yw'r buddiant yn ddilys: <https://www.gov.uk/government/publications/notices-restrictions-and-the-protection-of-third-party-interests-in-the-register/practice-guide-19-notices-restrictions-and-the-protection-of-third-party-interests-in-the-register>.

<sup>135</sup> Gweler Conservation Covenants (2014) Law Com No 349. Er enghraifft, mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'u nodi fel pridiannau tir lleol.

Pridiannau Tir Lleol.<sup>136</sup> Mae Pridiannau Tir Lleol yr un mor berthnasol i dir cofrestredig a thir heb ei gofrestru.<sup>137</sup> Fel gyda'r cofrestru o buddiant mewn tir fel pridiant tir neu gan cofnodi hysbysiad, mae cofrestriad fel pridiant tir yn hysbysu prynwyr o presenoldeb y baich ar y tir. Fodd bynnag, mae pridiannau tir lleol fel arfer yn rhwymo prynwr trwy gweithrediad statudol gyda cofrestriad neu beidio.<sup>138</sup>

- 5.78 Daeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfmodau cadwraeth (cytundebau rhwng tirfeddiannwr a "chorff cyfrifol") i'r casgliad bod y dull pridiant tir lleol yn well ar gyfer cytundebau o'r math hwn.<sup>139</sup> Canfu'r adroddiad fod pridiannau tir lleol yn adlewyrchu'n well gynllun sy'n cyfuno menter breifat a budd y cyhoedd. Mae defnydd cofrestr pridiannau tir lleol yn adlewyrchu'r ffaith bod cyfmodau cadwraeth ddim yn buddiannau mewn tir. Fel a wnaeth Comisiwn y Gyfraith egluro yn ei adroddiad, mae nhw yn "baich statudol, gyda'i rheolau ei hyn ar gyfer rhwymo olynwyr, ar gyfer trosglwyddo, cofrestru a gollyngiad neu addasiad ac yn y blaen". Daeth yr adroddiad i'r casgliad ni ddylsen cael ei creu fel buddiant newydd mewn tir oherwydd bydd buddiant mewn tir yn ychwanegu at gymhlethdod y systemau cofrestru tir a chofrestru pridiannau tir. Am yr un rhesymau, rydym o'r farn y byddai gorchymyn tomen yn ffitio'n fwy naturiol i'r fframwaith pridiannau tir lleol.
- 5.79 Mae trin gorchymyn tomen fel ffurf o pridiant tir hefyd yn codi cwestiynau o gymhwysedd deddfwriaethol. O dan atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw gwarchod yr amgylchedd yn fater a gedwir yn ôl ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O dan adran M1 yr atodlen, fodd bynnag, mae cofrestru tir wedi'i gadw; mae hyn yn amodol ar eithriad ar gyfer ffioedd ar gyfer cofrestru pridiannau tir lleol, sy'n dangos i ni bod creu pridiannau tir lleol yn rhan o'r mater a gedwir. Mae Atodlen 7B paragraff 2 yn caniatáu i ddarpariaeth sy'n ymwneud â mater a gedwir gael ei deddfu pan fo'n ategol i ddarpariaethau fel arall o fewn cymhwysedd pwnc y Senedd ac nad yw'n cael mwy o effaith ar faterion a gedwir na'r hyn sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth o fewn cymhwysedd.
- 5.80 Er hynny, mae enghraifft o greu pridiant tir gan ddeddfwriaeth y Senedd yn bodoli mewn perthynas â chytundebau rheoli tir a grëwyd gan adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain gytundebau gwirfoddol sydd yn gosod rhwymedigaethau mewn perthynas â defnyddio tir, yn cyfyngu ar arfer hawliau dros dir neu ddarparu ar gyfer cyflawni gwaith. Mae'r Ddeddf yn darparu i cytundebau gael eu trin fel creu buddiannau mewn tir. Mae adran 17 yn darparu ar gyfer eu cofrestru fel pridiannau tir os nad yw'r tir wedi ei gofrestru,<sup>140</sup> neu ar gyfer cofnodi hysbysiad yn y gofrestr teitlau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 os yw'r tir wedi ei gofrestru. Yn y ddau achos, yn ddarostyngedig i amodau penodol, mae'r cytundeb yn rhwymo'r olynwyr yn

---

<sup>136</sup> Mi oedd y Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn wreiddiol yn nifer of cofrestri gwahanol wedi'i rheoli gan awdurdodau lleol ar wahân ac nawr yn y broses o cael ei trosglwyddo i Cofrestr Tir EM fel cofrestr sengl unedig.

<sup>137</sup> Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975. Diffinnir pridiant tir lleol gan adran 1 y Ddeddf.

<sup>138</sup> Os nad ydynt wedi'u cofrestru, gall prynwr o bosib hawlio iawndal i'r awdurdod lleol.

<sup>139</sup> Gweithredwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn Rhan 7 o'r Deddf Amgylchedd 2021. Dan a 119 o'r Deddf, mae cyrff cyfrifol yn cyrff wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae rhaid i brif pwrpas, gweithred neu swyddogaethau rhai ohonynt ymwneud â cadwraeth. Gall cyrff cyfrifol bod yn awdurdodau lleol, elusennau neu cyrff preifat. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn corff cyfrifol.

<sup>140</sup> Cânt eu trin fel petaent yn gyfmodau cyfyngol dan Ddosbarth D, paragraff (ii).

y teitl.<sup>141</sup> Gellid dadlau bod diben amgylcheddol i gytundebau rheoli tir a gorchmynion tomen, ond un a fyddai, yn ein barn ni, yn cael ei warchod yn fwy priodol gan y cynllun pridiannau lleol nag o dan y Ddeddf Pridiannau Tir neu'r Ddeddf Cofrestru Tir

- 5.81 Os oes pryderon ynghylch cymhwysedd o ran creu math o bridiant tir lleol, posiblirwydd arall yw gwahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn o dan adran 150 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r adran hon, yn darparu pŵer eang i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn "gwneud unrhyw ddarpariaeth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu ei bod yn briodol" o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan Ddeddf gan y Senedd.
- 5.82 Efallai y bydd mecanweithiau eraill ar gael i orfodi gorchymyn yn erbyn olynnydd yn y teitl. Gallai cynllun o fath Glastir fod o gymorth, er bod y cynllun yn cynnwys cytundebau gwirfoddol yn hytrach na gorchmynion. Mae Glastir yn gynllun rheoli tir cynaliadwy pum mlynedd ar gyfer ffermydd. Rheolir cytundebau a wneir oddi tani gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014.<sup>142</sup> Mae rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddai tir sy'n ddarostyngedig i gytundeb o'r fath hysbysu Gweinidogion Cymru o drosglwyddiad perchnogaeth o fewn 30 diwrnod. Mae'r drosglwyddwr yn dod yn atebol o dan y cytundeb, gan gynnwys am unrhyw dor-amod a nodir yn dilyn y trosglwyddiad a chosbau canlyniadol, hyd yn oed os digwyddodd achos y tor-amod cyn y trosglwyddiad. Mewn geiriau eraill, gellir trosglwyddo atebolrwydd o dan y cynllun, er na all y Llywodraeth rwystro'r gwerthiant.
- 5.83 Credwn na fydd darpariaethau ar gyfer trosglwyddo atebolrwydd dan orchymyn tomen yn hanfodol. Yn wahanol i gyfamod cadwraeth, cytundeb rheoli tir neu gytundeb dan gynllun Glastir, sy'n drefniadau gwirfoddol, gellir gwneud gorchymyn tomen o'r newydd ar ôl trosglwyddo tir os yw cyflwr y domen yn parhau i warantu un. Rydym eisoes wedi awgrymu y dylai cytundebau a gorchmynion gynnwys rhwymedigaethau i hysbysu'r awdurdod goruchwylio o newid perchnogaeth neu feddiannaeth.
- 5.84 Rydym yn cydnabod na fyddai unrhyw un o'r dulliau hyn yn datrys y broblem o berchennog yn osgoi atebolrwydd drwy drosglwyddo perchnogaeth i gwmni coeg dramor. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl lliniaru'r baich dilynol ar arian cyhoeddus drwy brynu gorfodol. Gallai'r tir fod â gwerth isel oherwydd y gwaith sydd ei angen. Ni fyddai hyn yn osgoi costau cyhoeddus wrth wneud y gwaith adfer angenrheidiol, ond byddai o leiaf yn sicrhau bod y gwaith adfer yn cael ei wneud ar dir sy'n eiddo cyhoeddus.<sup>143</sup> Byddai manteision hyn yn dibynnu ar y berthynas rhwng cost y gwaith adfer a defnyddioldeb a gwerth y tir ar ôl ei adfer. Rydym yn gadael i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y dull mwyaf addas i'w fabwysiadu.
- 5.85 Yn olaf, rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr un modd â chytundebau tomen, y dylai'r pŵer i roi gorchmynion fod yn arferadwy yn erbyn perchnogion a meddianwyr. Rydym wedi nodi ym mharagraff 5.29 uchod sut y gellid diffinio perchennog.

---

<sup>141</sup> Gweler Deddf Pridiannau Tir 1972, a4 a Deddf Cofrestru Tir 2002, adrannau 28 i 30.

<sup>142</sup> SI 2014 No 3222 (Cym. 327).

<sup>143</sup> Mae prynu gorfodol yn cael ei ystyried ymhellach ym mharagraffau 6.115 a 12.25 isod.

5.86 Mae ein hargymhellion ynghylch yr amgylchiadau lle gellir gwneud a gorfodi gorchymyn cyngor wedi'u nodi isod.

### **Argymhelliad 23.**

- 5.87 Rydym yn argymhell y dylai awdurdod allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r
- (1) perchennog neu'r deiliad tir wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb tomen a'u bod wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;
  - (2) cynigwyd cytundeb i'r perchennog neu'r deiliad ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod;
  - (3) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu
  - (4) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.
- 5.88 Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.
- 5.89 Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r deiliad gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i awdurdod wneud hynny.
- 5.90 Dylai fod gan y perchennog neu'r deiliad hawl i apelio yn erbyn rhoi gorchymyn, ond ni ddylai arfer yr hawl i apelio atal gwaith sy'n angenrheidiol ar frys.
- 5.91 Ac eithrio yn achos gorchymyn a roddir pan fo angen gwaith brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.

### **CYFRIFOLDEB DROS GYTUNDEBAU A GORCHMYNION CYNNAL TOMENNYDD**

5.92 Y mater sydd ar ôl i benderfynu arno wrth ddylunio system o gytundebau a gorchymynion cynnal a chadw tomennydd yw pwy ddylai fod yn gyfrifoldeb am eu gwneud a'u goruchwylio. Yn y cwestiwn ymgynghori nesaf, gofynnwyd a ddylid rhoi'r dyletswyddau, yn achos cytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd risg is, yn gyfan gwbl i'r awdurdod goruchwylio neu i awdurdodau lleol neu eu rhannu rhwng y ddau, gyda'r awdurdod goruchwylio yn cael y cyfrifoldeb i wneud y cytundeb.

**Cwestiwn Ymgynghori 25: A ydych yn credu mai'r awdurdod goruchwylio neu'r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am gytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd risg is? Os ydych yn credu mai'r awdurdod lleol ddylai fod yn gyfrifol, a ddylai hynny gynnwys llunio a goruchwylio trefniadau, neu a ddylid rhoi'r dyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i lunio'r cytundeb?**

- 5.93 Atebodd pedwar deg pedwar o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd tri deg chwech (82%) o blaid i'r awdurdod goruchwylio ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gytundebau cynnal a chadw tomennydd yn llwyr. Roedd tri ymatebydd (7%) o blaid awdurdodau lleol. Rhoddodd pump ymatebydd 'arall'.

### Cyfrifoldeb yr awdurdod goruchwylio

- 5.94 Roedd ymatebwyr yn dibynnu ar nifer o resymau dros ffafrio'r awdurdod goruchwylio fel y corff i gymryd cyfrifoldeb dros gytundebau cynnal a chadw tomennydd. Y brif thema yn yr ymatebion oedd y byddai'n well ganddynt i un corff ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr holl domennydd glo anweithredol, waeth beth fo lefel y risg. Dywedodd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) fod swyddogion awdurdodau lleol mewn ardaloedd â nifer sylweddol o domennydd wedi dod i gonsensws eang o blaid y farn hon ar ôl cryn drafodaeth. Nododd Wreccsam mai'r prif resymau dros ffafrio'r awdurdod goruchwylio oedd y gallu i gynnig "cysondeb, arbenigedd a gwytnwch". Eglurodd Castell Nedd Port Talbot:

Byddai'n well pe bai un corff goruchwylio yn gyfrifol am BOB cytundeb cynnal a chadw tomennydd, beth bynnag fo y lefel risg, er mwyn gynnal dull cyson ac i beidio â rhoi gormod o faich ar awdurdodau lleol gyda nifer uwch o domennydd o fewn eu ffiniau.

- 5.95 Pwysleisiwyd gwerth dull cyson gan Jacobs: Yn eu barn nhw, roedd yn well osgoi unrhyw raniad mewn cyfrifoldeb er mwyn sicrhau cysondeb. Credai Jane Iwanicki fod system ddwy haen mewn perygl o gymylu cyfrifoldebau a darparu lefelau anwastad o arbenigedd a phrofiad technegol. Roedd CLA Cymru o'r farn y byddai un corff yn "osgoi unrhyw ddryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth a ble".
- 5.96 Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru yr angen i feithrin sgiliau technegol fel rheswm dros ffafrio bod y cyfrifoldeb yn cael ei ysgwyddo'n gyfan gwbl gan yr awdurdod goruchwylio:

Mae hyn nid yn unig yn sicrhau dull gweithredu cyson ond hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd a chryfder ... i gynnal arbenigwyr profiadol a chymwys. Byddai rhannu cyfrifoldeb ar draws sefydliadau yn gwanhau hyn ac yn atal cryfder digonol ... gwytnwch a datblygiad gyrfa ar gyfer staff.

- 5.97 Roedd Rhondda Cynon Taf hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i gynnal lefelau sgiliau, gan ddadlau y gallai'r awdurdod goruchwylio "datblygu canolfan ragoriaeth i gynnal y sgiliau priodol". Soniodd Vikki Howells AS am gapasiti uwch yr awdurdod goruchwylio i ddatblygu arbenigedd ac arferion gorau. Credai Wreccsam hefyd y byddai'r arbenigedd a ddatblygid gan un awdurdod yn rhoi cyfle i ddadansoddi ac ymchwilio'n well, gan arwain at lunio polisiau'n well ac yn annibynnol ar sail tystiolaeth.
- 5.98 Roedd Network Rail yn credu y byddai'n well i awdurdodau fel hwy weithio ar y cyd ag un corff rheoleiddio.
- 5.99 Roedd rhai ymatebwyr yn amau gallu'r awdurdodau lleol i reoli'r gwaith. Credai Dr John Perry a Dr Peter Brabham nad oedd gan awdurdodau lleol ledled Cymru y lefelau angenrheidiol o arbenigedd. Roedd Wreccsam yn ategu'r farn hon, gan nodi

nad oedd gan lawer o awdurdodau lleol, gan gynnwys eu hawdurdodau eu hunain, unrhyw swyddogion â'r arbenigedd geodechnegol angenrheidiol.

- 5.100 Tynnodd Graham Hathaway sylw at y blaenoriaethau niferus sy'n cystadlu â'i gilydd yng ngwaith awdurdodau lleol. Er ei fod yn derbyn bod hyn yn anochel wrth ddarparu llawer o wasanaethau, nid oedd yn credu ei fod yn briodol ar gyfer gwasanaeth a oedd yn delio â lefelau risg a allai beryglu bywyd:

Mae busnes gwleidyddiaeth leol yn cael ei reoli gan gymaint o effeithiau sy'n cystadlu â'i gilydd o ganlyniad i gynnal gwe gymhleth o wasanaethau. Mae pennu blaenoriaethau yn aml yn anodd ac mae ansawdd staff yn sylfaenol amrywiol. Ni allaf weld y gallu a'r cymhelliant i gyflawni cynllun rheoli da a'i roi ar waith yn effeithiol ym mhob man. Yn ôl ei ddiffiniad, mae'n rhaid iddo fod yn dameidiog ac yn amrywiol.

- 5.101 Pwysleisiodd Ove Arup a Phartneriaid a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol hefyd y risgiau a achosir gan flaenoriaethau awdurdodau lleol sy'n gwrthdaro â'i gilydd a'r galw ar eu cyllidebau. Ym marn y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau, mae "difrifoldeb y mater yn cyfiawnhau corff technegol a ariennir nad yw'n wleidyddol".
- 5.102 Nododd nifer o ymatebwyr y potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau gan fod awdurdodau lleol eu hunain yn berchen ar domennydd. Roedd Lee Jones yn credu na ddylai'r awdurdod lleol allu llunio, dod i gytundeb na goruchwyllo ei hun. Ni fyddai'r awdurdod goruchwyllo yn berchennog ar domen ac, am y rheswm hwn, byddai'n ddiuedd. Credai Steve Harford ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cael eu trin yn yr un ffordd â pherchnogion tir eraill.
- 5.103 Rhybuddiodd Chris Seddon y gallai rhannu cyfrifoldeb danseilio gwrthrychedd yr awdurdod goruchwyllo, gan y byddai'n gymhelliant i'r awdurdod goruchwyllo leihau'r sgôr risg ar domennydd i reoli eu llwyth gwaith. Roedd Swyddfa Ystâd Parc Pont-y-pŵl yn cwestiynu ymarferoldeb newid rhwng systemau gweinyddol lle'r oedd dosbarthiad risg y domen wedi newid.
- 5.104 Darparodd yr Athro Bob Lee enghreifftiau o ddulliau rheoleiddio lle mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu yn ôl risg, gan nodi llygredd aer o dan Ran 1 a thir halogedig o dan Ran 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Cydnabu y gallai hyn daenu cost gweinyddu, ond credai fod hyn ar draul system fwy cydlynol.
- 5.105 Roedd rhai ymatebion yn pwysleisio bod cyllid yn rheswm dros ffafrio'r awdurdod goruchwyllo. Ym marn Merthyr Tudful, nid oedd gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i wneud gwaith ychwanegol megis cytundebau cynnal a chadw tomennydd. Rhybuddiodd Wrecsam, hyd yn oed pe bai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu ar y dechrau, y gallai hyn leihau dros y blynyddoedd a gadael awdurdodau lleol yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau. Roedd hyn wedi bod yn brofiad i lawer o awdurdodau lleol ar ôl dyfodiad cyfundrefn tir halogedig Rhan 2A. Roedd anghysondeb o ran cyllido gwahanol awdurdodau lleol wedi datblygu hefyd.<sup>144</sup>

---

<sup>144</sup> I weld pwynt tebyg a godwyd mewn perthynas â chyllido'r awdurdod goruchwyllo, gweler paragraffau 2.9 a 2.18 uchod.



## Cyfrifoldeb awdurdodau lleol

- 5.106 Roedd lleiafrif bach o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r awdurdod lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gytundebau cynnal a chadw tomennydd. Credai'r Athro David Petley mai dyma oedd yr opsiwn mwyaf pragmatig:

Mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, bydd gan yr awdurdod lleol y ddealltwriaeth o'r sefyllfa leol sydd ei hangen i wneud y gwaith hwn o ddydd i ddydd. Bydd dirprwyo hyn ar lefel yr awdurdod goruchwyllo yn aneffeithlon ac yn aneffeithiol.

- 5.107 Credai Huw Williams y dylai diogelwch tomennydd barhau i fod yn swyddogaeth sy'n cael ei rheoli ar lefel awdurdod lleol yn bennaf". Roedd yn dibynnu ar y safbwyntiau yr oedd wedi'u mynegi ynghylch pa ffurf ddylai'r awdurdod goruchwyllo ei chael. Credai fod awdurdod goruchwyllo sy'n seiliedig ar y cydbwyllgor statudol yn cynnig y potensial i ail-greu model "canolfan ragoriaeth" ar gyfer peirianwyr a phroffesiynau eraill sydd â diddordeb mewn mecaneg pridd ac ansefydlogrwydd tir.<sup>145</sup>

## Rhannu swyddogaethau rhwng yr awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol

- 5.108 Roedd Steve Jones o Adran Cynllunio at Argyfwng Gyngor Sir Penfro yn ffafrio rhoi'r cyfrifoldeb ar awdurdod lleol, ond roedd yn credu y dylai'r awdurdod goruchwyllo gadw golwg ar hyn. Credai na ddylai awdurdod goruchwyllo fod mewn sefyllfa i oruchwyllo ei waith ei hun.
- 5.109 Gwnaeth Keith Bush CF ffafrio'r awdurdod goruchwyllo yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr holl domennydd glo anweithredol, gan dynnu sylw at y ffaith na ddylid rhannu'r cyfrifoldeb rhwng awdurdodau. Nododd nad oedd hyn yn atal dirprwyo pwerau perthnasol i awdurdodau lleol drwy gytundeb mewn achosion priodol. Awgrymodd y gallai hyn fod yn berthnasol yn achos tomennydd llai neu domennydd risg is.
- 5.110 Credai Caerffili y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â chyfrifoldeb cyffredinol, ond y dylai'r system fod yn ddigon hyblyg i alluogi awdurdodau lleol unigol i ddod i gytundeb gyda'r awdurdod os ydynt yn dymuno helpu. Roedden nhw'n meddwl y byddai hyn o ddiddordeb i awdurdodau sy'n berchen ar eu tomennydd eu hunain gyda'u staff profiadol eu hunain. Byddai'n agored i awdurdodau lleol nad oedd â'r lefel ofynnol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i adael i'r awdurdod goruchwyllo wneud y gwaith, neu i ddod i gytundeb gydag awdurdod lleol arall sy'n barod i ymgymryd â'r gwaith. Roeddent yn argymhell y gellid safoni cytundebau cynnal a chadw, gyda'r cynnwys yn cael ei oruchwyllo gan yr awdurdod goruchwyllo.
- 5.111 Gwelodd Howard Siddle hefyd y posibilrwydd o ddyrannu rolau rhwng yr awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol, cyn belled â bod cytundebau cynnal a chadw yn cael eu safoni gan yr awdurdod goruchwyllo:

Mae'n ymddangos i mi y byddai cysondeb yn pennu mai'r awdurdod goruchwyllo fyddai'r corff sy'n cael ei ffafrio i wneud a goruchwyllo cytundebau cynnal a chadw. Fodd bynnag, pe gallai'r awdurdod goruchwyllo safoni'r geiriad a'r fformat ar gyfer gwaith cynnal a chadw sy'n digwydd yn gyffredinol ar domennydd risg is, gallai awdurdodau lleol ddyroddi cytundebau cynnal ar ran yr awdurdod goruchwyllo, [ac]

---

<sup>145</sup> Gweler hefyd paragraff 2.55 uchod.

archwilio bod y gwaith wedi ei gwblhau yn foddhaol er mwyn i'r awdurdod goruchwyllo gofnodi hynny ar y Gofrestr.

- 5.112 Nododd Stephen Smith y byddai sicrhau cydbwysedd y cyfrifoldeb yn anodd i'w gyflawni, ond credai, er cysondeb, y dylai'r awdurdod goruchwyllo gymryd yr awenau o ran datblygu'r holl gynlluniau rheoli tomennydd, gydag awdurdodau lleol o bosibl yn cymryd rôl gyflawni ar gyfer y tomennydd a aseswyd fel rhai risg is. Byddai angen arweiniad cadarn petai'r cyfrifoldeb yn cael ei rannu i sicrhau cysondeb.
- 5.113 Roedd CNC yn credu mai'r awdurdod goruchwyllo ddylai wneud y cytundeb, gan y byddai ganddynt yr arbenigedd i wneud hynny, ond y gallai awdurdodau lleol weithio'n agos gyda'r awdurdod goruchwyllo. Gellid llunio protocol i benderfynu ar "dull cydgysylltiedig o weithio a chyflawni canlyniadau". Rhoddwyd enghraifft ganddynt o gydweithredu cyfredol rhwng awdurdodau lleol, yr Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru fel model o'r hyn y gellid ei gyflawni.<sup>146</sup>
- 5.114 Roedd Cymdeithas y Gyfraith am i'r awdurdod goruchwyllo ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros bob tomen "er budd taclusrwydd a chyflawnder gweinyddol", ond roedd yn credu y dylid dosbarthu awdurdodau lleol fel ymgynghoreion statudol yn y broses llunio cytundebau.

### Nodweddion ychwanegol

- 5.115 Yn olaf, rhoddodd Howard Siddle ystyriaeth i sefyllfa perchennog tomen, ni waeth pwy oedd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Credai fod angen nodyn cyfarwyddyd ar gyfer perchnogion tomennydd i egluro "cyfrifoldebau, sancsiynau, arferion da o ran cynnal a chadw a'u manteision".

### Trafodaeth

- 5.116 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr o blaid i'r awdurdod goruchwyllo ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gytundebau cynnal a chadw tomennydd yn llwyr. Roedd rhai o'r rhesymau a roddwyd dros y sefyllfa hon yn gryf iawn, yn enwedig o ran yr angen i gynnal dull gweithredu cyson.
- 5.117 Mae hyn yn codi materion yn ymwneud ag adnoddau. Er bod yr ymatebion o blaid dyrannu cyfrifoldeb dros y cytundebau i'r awdurdod goruchwyllo, mae lle i effeithlonrwydd wrth rannu tasgau rhwng yr awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol. Mae hefyd yn bwysig cofio bod ein cynnig ar gyfer cytundebau cynnal a chadw yn ymwneud â thomennydd risg is. Mae angen cydbwysu'r angen am gysondeb o ran dull gweithredu, sy'n ffafrio dyrannu cyfrifoldeb i'r awdurdod goruchwyllo, yn erbyn yr arbedion effeithlonrwydd y gellid eu cael drwy gadw swyddogaethau ar lefel lleol.
- 5.118 Awgrymwn y gallai'r awdurdod goruchwyllo rannu rolau'n effeithiol er mwyn ymrwymo'n ffurfiol i gytundebau ac er mwyn i'r awdurdodau lleol, a allai fod yn bartïon i'r cytundebau, oruchwyllo ac, mewn rhai achosion, eu negodi. Byddai goruchwyliaeth yn cynnwys archwiliadau. Fel hyn, gallai'r awdurdod goruchwyllo reoli cynnwys y

---

<sup>146</sup> Mae ymdrechion i sicrhau bod pob awdurdod sy'n ymwneud ag argyfwng tomen lo yn gallu cydlynu eu hymateb, cytuno ar y dull gorau a chadw trywydd archwilio o'u gweithredoedd, yn cael eu disgrifio yn y ddogfen Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.127.

cytundebau, er mwyn sicrhau nad yw arferion lleol yn amrywio. Byddai'r awdurdod lleol yn cael y fantais o fod yn agos at y tomennydd yn amodol ar gytundebau. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau rheoli tir cysylltiedig eraill hefyd. Gallai fod yn bosibl cyfuno'r cytundebau gyda chytundebau rheoli tir gyda thirfeddianwyr, er enghraifft mewn perthynas â chynefinoedd, bioamrywiaeth neu gyrsiau dŵr. Byddai angen adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r archwiliad i'r awdurdod goruchwylio, a fyddai'n cofnodi cydymffurfiad. Fel hyn, gallai'r awdurdod goruchwylio fod â rôl weithredol gyfyngedig mewn perthynas â'r tomennydd risg is, a byddai'n gweithredu mwy fel rheoleiddiwr.

- 5.119 Rydym eisoes wedi ystyried y ffordd y bydd yr awdurdod goruchwylio yn gysylltiedig â threfnu i gynnal archwiliadau o domennydd, asesiadau risg a chynlluniau rheoli tomennydd ym mhennod 4. Rhagwelwyd y byddai gan yr awdurdod goruchwylio'r grym i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros rai o'r swyddogaethau hyn ond y dylai cymeradwyo'r cynllun rheoli tomennydd ei hun. Fe wnaethom hefyd egluro ein bod yn disgwyl i gynnwys cynllun rheoli tomennydd a chytundeb cynnal a chadw fod yn debyg iawn ar gyfer tomennydd risg is. Gellid ategu cytundebau cynnal a chadw tomennydd gyda chanllawiau ar ffurf safonol. Byddai llunio cytundeb cynnal a chadw tomennydd yn fater syml yn y rhan fwyaf o achosion.
- 5.120 Petai'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio, byddai angen i'r fframwaith rheoleiddio ddarparu i'r awdurdod goruchwylio lunio cytundebau cynnal a chadw ac i awdurdodau lleol eu goruchwylio. Mae'n ymddangos i ni'n synhwyrol y dylai'r rhaniad cyfrifoldeb fod yr un fath ar gyfer gorchmynion tomennydd ag ar gyfer cytundebau tomennydd. Rydym o'r farn mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod yn gyfrifol am y pŵer i wneud gorchmynion, ond nad yw'r ystyriaethau sy'n ffafrio goruchwyliaeth awdurdod lleol o reidrwydd yn newid gan ei bod wedi bod yn angenrheidiol troi at orchymyn.
- 5.121 Rydym yn gwerthfawrogi y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod goruchwylio lunio oddeutu 2,500 o gytundebau neu orchmynion. Bydd yn bwysig sefydlu blaenoriaethau. Gall fod sawl blwyddyn cyn y gellir rhoi'r trefniadau ar gyfer tomennydd risg is ar waith.
- 5.122 Felly, rydym yn argymhell mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod â chyfrifoldeb i lunio trefniadau a rhoi gorchmynion ar gyfer tomennydd risg is, a dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i oruchwylio'r cytundebau, gan gynnwys cynnal arolygiadau, oni bai bod cytundeb neu orchmyn penodol yn darparu fel arall. Er mwyn helpu i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, rydym yn argymhell bod yr awdurdod goruchwylio yn llunio canllawiau manwl ar gyfer awdurdodau lleol a pherchnogion tomennydd er mwyn darparu dull cyson o ymdrin â thasgau cynnal a chadw sy'n digwydd yn aml.

#### **Argymhelliad 24.**

- 5.123 Rydym yn argymhell mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod â phŵer i lunio trefniadau a rhoi gorchmynion ar gyfer tomennydd risg is, a dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i oruchwylio'r cytundebau, gan gynnwys cynnal arolygiadau.

## Pennod 6: Blaenoriaethu gwaith ar domennydd risg uwch

- 6.1 Buom yn trafod yn ein papur ymgynghori yr angen am fframwaith rheoleiddio sy'n gallu gwahaniaethu a blaenoriaethu tomennydd sydd angen ymyrraeth fwy trylwyr. Nodwyd gennym fod gan gyfundrefnau rheoleiddio eraill bwerau i ddynodi strwythur neu safle risg uwch. Mae pŵer i ddynodi i'w weld yn y gwaith o reoleiddio cronfeydd dŵr, yn y darpariaethau ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol a chwareli, mewn rheoli perygl llifogydd ac mewn deddfwriaeth tir halogedig. Yn achos tir halogedig, ceir pŵer i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y safle halogedig o'r awdurdod lleol i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r model rheoli risg llifogydd yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cynnwys rhoi dyletswydd ar y perchennog i beidio ag addasu strwythur dynodedig heb ganiatâd yr awdurdod cyfrifol.
- 6.2 Gwnaethom gynnig dros dro y dylai'r fframwaith rheoleiddio newydd ddarparu ar gyfer dynodi tomen lo yn un "risg uwch" gan yr awdurdod goruchwyllo. Ar ôl cyrraedd trothwy penodol, er enghraifft prawf "perygl sylweddol", fel sy'n berthnasol i domennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol, roeddem yn rhagweld y byddai statws dynodedig yn cymhwyso trefn ddiogelwch well i'r domen gyda mwy o gyfranogiad gan yr awdurdod goruchwyllo.<sup>147</sup>
- 6.3 Roeddem hefyd wedi ystyried sut y gellid dewis tomen i'w dynodi. Un dull fyddai cymhwyso'r drefn ddiogelwch uwch dim ond i'r tomennydd hynny yr ystyrir eu bod angen y sylw mwyaf uniongyrchol. Fel arall, gellid ymestyn y dynodiad ymhellach i gynnwys tomennydd sydd ar hyn o bryd yn cael sgôr risg is lle bo hynny'n briodol i'r math o waith sydd ei angen. Er enghraifft, gellid cyfiawnhau dynodi lle bo angen gwneud gwaith adferol lle nad oes cymaint o frys, ond sydd yn fwy sylweddol. Gallai canlyniadau methiant tomen fod yn ffactor arwyddocaol o ran penderfynu a yw tomen angen dynodiad neu beidio. Gwnaethom nodi hefyd y gellid dod â dynodiad i ben lle barnwyd bod y domen wedi cael ei dychwelyd i gyflwr lle nad oedd angen ei dynodi mwyach.<sup>148</sup>
- 6.4 Gan ein bod yn credu bod y dynodiad yn debygol o ychwanegu at y beichiau ar y tiffeddiannwr, gwnaethom gynnig dros dro hawl i apelio yn erbyn y dynodiad.<sup>149</sup>

---

<sup>147</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 10.54 a 10.55. I drafod y drefn sy'n berthnasol i domennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol, gweler paragraffau 9.46 a 9.48. Os tybir bod tomen yn achosi "perygl sylweddol", gan ddod yn domen "hysbysadwy" o ganlyniad i hynny, bydd dyletswyddau penodol yn codi. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i gael asesiad geodechnegol gan "arbenigwr geodechnegol" bob dwy flynedd. Rhaid i'r asesiad gynnwys barn yr arbenigwr ar ddiogelwch a sefydlogrwydd, a oes angen gwneud gwaith adferol ai peidio, yr amserlen ar gyfer cwblhau hyn, a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cynnal yr asesiad nesaf.

<sup>148</sup> Uchod, paragraffau 10.56, 10.57 a 10.68.

<sup>149</sup> Uchod, paragraff 10.57.

- 6.5 Gofynnwyd am farn ynghylch a ddylai'r fframwaith rheoleiddio newydd ddarparu ar gyfer dynodi lle mae'r domen yn bodloni meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. Aethom ymlaen i ofyn am farn ynghylch beth ddylai'r meini prawf hyn fod. Roeddem hefyd wedi gofyn am sylwadau ar ein cynnig dros dro ar gyfer hawl i apelio yn erbyn y dynodiad.
- 6.6 Yn olaf, buom yn edrych ar bwy fyddai'n gyfrifol am y gwaith sy'n ofynnol ar domennydd dynodedig. Un opsiwn oedd i'r awdurdod goruchwyllo ysgwyddo'r holl waith. Byddai hyn yn sicrhau dull gweithredu cyson a rhagweithiol, byddai'n cadw'r holl ddogfennau perthnasol mewn un lle, ac yn caniatáu blaenoriaethu systematig yn ôl risg. Dewis arall fyddai rhoi perchennog y domen dan ddyletswydd i wneud y gwaith, o bosibl dan oruchwyliaeth peirianwyr sydd â chymwysterau addas, gyda dyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i archwilio bob hyn a hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, diweddarar cofnodion ac adolygu'r dynodiad.
- 6.7 Yn unol â'n barn ni y dylai cysondeb ac atal niwed lywio dyluniad y fframwaith rheoleiddio, rydym yn tueddu i ffafrio'r farn y dylai'r awdurdod goruchwyllo fel arfer fod yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd ar gyfer tomen ddynodedig. Roeddem yn cydnabod, fodd bynnag, ei bod yn debygol y byddai achosion lle byddai'n well gan berchennog y domen, ac y byddai mewn sefyllfa well, i wneud y gwaith ei hun. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, pan fyddai perchennog neu reolwr y domen yn awdurdod cyhoeddus. Mewn achosion o'r fath, roeddem yn ffafrio dull gweithredu dros dro a oedd yn seiliedig ar lunio cytundeb rhwng yr awdurdod goruchwyllo a perchennog y domen, wedi'i ategu gan bŵer, yn niffyg dim arall, i roi gorchymyn. Gallai cytundeb i wneud y gwaith gynnwys amod i'r gwaith gael ei wneud neu ei oruchwyllo gan weithiwr proffesiynol sydd â'r cymwysterau priodol.<sup>150</sup>
- 6.8 Eglurwyd nad oeddem o'r farn ei bod yn briodol dilyn y model cronfeydd dŵr drwy osod dyletswydd i archwilio ar y perchennog. Roeddem yn credu bod gwahaniaethau sylweddol rhwng perchnogion tomennydd ac ymgymrwyr cronfeydd dŵr o ran nad oes gan berchnogion unrhyw ddiddordeb economaidd parhaus yn y domen. Am y rheswm hwn, roeddem yn credu bod cyfiawnhad dros roi mwy o faich ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun i fonitro'r domen.<sup>151</sup>
- 6.9 Yn y bennod hon rydym yn ystyried yn gyntaf yr ymatebion i gwestiynau ein hymgyngoriad ynghylch system o ddynodi tomen yn un "risg uwch" a'r meini prawf ar gyfer dynodiad o'r fath. Rydym yn dod â'r rhan hon o'r drafodaeth i ben drwy argymhell system ddynodi sy'n seiliedig ar feini prawf yr ydym yn eu gadael i Lywodraeth Cymru eu cwblhau gyda chymorth arbenigwyr. Yr ydym wedyn yn troi at fater hawl i apelio yn erbyn dynodiad, yr ydym wedi penderfynu peidio â'i argymhell, ac yn olaf at fater pwy ddylai fod yn gyfrifol am waith ar domennydd dynodedig.

## DYNODI TOMENNYDD FEL FFORDD O FLAENORIAETHU TOMENNYDD

### Cwestiwn Ymgynghori 18: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomen lo fel un "risg uwch" gan

<sup>150</sup> Uchod, paragraffau 10.62 i 10.65.

<sup>151</sup> Uchod, paragraff 10.7. Gweler hefyd paragraffau 9.29 i 9.31 o'r bapur ymgynghori am gymhariaeth o gronfeydd dŵr a thomennydd glo anweithredol.

## **yr awdurdod diogelwch pan fo'r domen yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. A ydych yn cytuno?**

6.10 O'r 45 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 39 (87%) yn cytuno. Tri (7%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".

### **Rhesymau dros gytuno**

6.11 Pwysleisiodd ymatebwyr fel CLILC a Blaenau Gwent bwysigrwydd blaenoriaethu gwaith a dull systematig o ddyrannu adnoddau. Dywedodd yr Athro Bob Lee:

Mae dynodi sgôr yn ffactor hanfodol mewn rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg er mwyn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf gwarchodol.

6.12 Dywedodd Bob Leeming gyda chymeradwyaeth fod y system arfaethedig yn adlewyrchu'r model "dosbarthu tomennydd" a ddefnyddir wrth reoli'r tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol er mwyn dod o hyd i ragor o domennydd peryglus. Credai y byddai'r aliniad hwn yn helpu i ddarparu ar gyfer "newid o fod yn domen weithredol i fod yn domen anweithredol".

6.13 Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r dull gweithredu, ond dywedodd ei bod yn well dynodi "perygl uchel" yn hytrach na "risg uwch", gan fod hyn yn adlewyrchu'n briodol feini prawf sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Roedd Howard Siddle a Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt) hefyd yn cytuno â'r cynnig, ond roeddent yn meddwl bod "risg uwch" yn derm emosiynol. Roedd Howard Siddle yn ffafrio system o domennydd "wedi'u rheoleiddio" neu wedi'u "dynodi" lle'r oedd y tomennydd yn bodloni meini prawf ffisegol penodol.

6.14 Edrychodd Huw Williams ar sut y byddai'r dynodiad yn cyd-fynd â'r arolygiad, a chredai, gan y byddai'r broses arolygu ffurfiol yn cymryd amser, fod achos dros ddosbarthiad dros dro yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol yn amodol ar archwiliad cychwynnol dan y drefn newydd. Byddai hyn yn eu galluogi i flaenoriaethu ar unwaith.

### **Amheuon a'r rhesymau dros anghytuno**

6.15 Cyfeiriodd CLILC a Blaenau Gwent at y posibilrwydd y byddai dynodiad yn effeithio ar werth tir ac eiddo. Roeddent o'r farn y byddai'n anodd dadlau, mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth i ddatgelu dynodiad, nad oedd gwybodaeth am ddynodiad er budd y cyhoedd.

6.16 Roedd Keith Bush CF yn anghytuno â system ddynodi a oedd yn seiliedig ar gategoriâu syml. Dadleuodd, gan fod pob tomen yn wahanol y byddai angen i'r awdurdod gynnal asesiad unigol o'r gwaith sydd ei angen ar bob tomen:

Ni ddylai ymateb yr awdurdod gael ei rwymo gan yr angen i osod tomen mewn categori artiffisial, gan greu disgwyliad y dylid rhoi blaenoriaeth i drin neu adfer tomennydd ar sail y categori maent wedi'u gosod ynddo.<sup>152</sup>

---

<sup>152</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

## **Pennu meini prawf ar gyfer dynodi drwy offeryn statudol**

- 6.17 Gwelodd Wrecsam fanteision clir wrth ddiffinio'r meini prawf ar gyfer pob categori risg mewn deddfwriaeth. Yn eu barn nhw, byddai hyn "yn sicrhau cysondeb ac yn osgoi amwysedd". Roeddent hefyd yn nodi mai dyma'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer safleoedd tir halogedig o dan Ran 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
- 6.18 Yn ôl ICE Cymru, fel yn achos cynnwys y gofrestr tomennydd a materion i'w cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd, mae angen i'r meini prawf fod yn seiliedig ar gyngor gweithwyr proffesiynol cymwys yn y maes. Roedd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn credu ei bod yn hanfodol seilio'r ddeddfwriaeth ar gyngor technegol a geodechnegol cadarn ac osgoi "hwylustod gwleidyddol".
- 6.19 Roedd Cymdeithas y Gyfraith yn cefnogi offeryn statudol pe bai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.
- 6.20 Roedd y gwrthwynebiadau i ddefnyddio offeryn statudol yn adlewyrchu'r rhai a godwyd uchod mewn perthynas â chynnwys y gofrestr tomennydd a'r materion i'w hystyried mewn cynlluniau asesu risg a rheoli tomennydd. Roedd CLA Cymru yn gwrthwynebu deddfwriaeth eilaidd ar sail diffyg tryloywder. Ailadroddasant eu cais am ymgynghoriad. Holodd Jane Iwanicki ai rheoleiddio oedd y ffordd orau o ddiffinio'r meini prawf ar gyfer blaenoriaethu tomennydd.
- 6.21 Roedd Stephen Smith yn credu y byddai canllawiau'n fwy priodol nag offeryn statudol, gan ragdybio nad oedd hwn yn faes rheoleiddio a fyddai'n arwain at dorri gofynion. Cytunodd Lee Jones ag offeryn statudol, ond credai y byddai'r canllawiau cysylltiedig yn helpu'r awdurdod a'r perchnogion.
- 6.22 Roedd Owen Jordan yn anghytuno'n llwyr â'r cynnig i ddynodi, gan ddadlau y byddai unrhyw gategoreiddio'n rhoi cyfle i osgoi cyfrifoldeb. Roedd Sue Jordan hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig ar y sail y dylid cael gwared â'r holl domennydd.

## **MEINI PRAWF AR GYFER DYNODI**

- 6.23 Roedd ein cwestiwn ymgynghori nesaf yn delio â'r meini prawf ar gyfer dynodi.

**Cwestiwn Ymgynghori 19: Rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylai dynodi tomen ddigwydd drwy gyfeirio at unrhyw un o'r meini prawf canlynol, neu unrhyw rai eraill:**

**(1) mae'r domen yn dangos arwyddion neu mae ganddi hanes diweddar o symudiad neu ansefydlogrwydd;**

**(2) byddai llithriad gwastraff o'r domen yn debygol o effeithio ar**

**(a) adeiladau neu ardaloedd sydd wedi eu dylunio i bobl fyw ynddynt neu eu meddiannu;**

**(b) ffordd, rheilffordd, camlas neu unrhyw seilwaith arall; neu**

**(c) gwrs dŵr;**

**(3) mae yna risg sylweddol i'r domen ryddhau llygredd peryglus i'r amgylchedd;**

**(4) mae yna risg sylweddol i'r domen achosi llifogydd;**

**(5) mae yna risg sylweddol i ddeunydd yn y domen danio'n ddigymell;**

**(6) mae angen gwaith peiriannu ar y domen.**

6.24 O'r 46 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 24 (52%) yn cytuno â'r holl feini prawf arfaethedig, roedd 7 (15%) yn cytuno â rhai, roedd dau (4%) yn anghytuno â'r cyfan, ac roedd 13 (28%) yn cael eu hystyried fel "arall" gan roi sylwadau nad oeddent yn mynegi eu bod yn cytuno nac yn anghytuno'n benodol â'r meini prawf arfaethedig.

### Rhesymau dros gytuno

6.25 Mynegodd llawer o ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r categorïau. Credai Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, y byddai'r meini prawf a awgrymwyd yn ymdrin â sefydlogrwydd, diogelwch y cyhoedd a materion amgylcheddol. Cytunodd Wrecsam, ond credai y dylid pwysoli'r meini prawf i sicrhau mai tomennydd sy'n peri risg i fywyd sy'n cael y flaenoriaeth uchaf. Lle'r oedd ffactorau lluosog yn rhan o'r asesiad risg, byddai bodolaeth un corff goruchwyllo fyddai'n defnyddio un fethodoleg yn sicrhau bod tomennydd "yn cael eu dynodi yn y pen draw yn nhrefn blaenoriaeth".

6.26 Roedd rhai ymatebwyr, fel yr Athro Bob Lee, yn cytuno'n gyffredinol ond yn gadael i'r rhai sydd ag arbenigedd yn y maes i roi sylwadau ar y meini prawf.

6.27 Mynegodd nifer o ymatebwyr eu bod yn cytuno â meini prawf penodol. Cytunodd Dŵr Cymru fod yr effaith bosibl ar gyrsiau dŵr sy'n bwydo cyflenwadau dŵr yfed yn cyfiawnhau dynodiad. Roedd Network Rail yn gefnogol, gan gynnwys yr effaith ar seilwaith rheilffyrdd gweithredol.

### Rhesymau dros anghytuno â meini prawf unigol

6.28 Roedd eraill yn anghytuno â meini prawf penodol.

### Arwyddion neu hanes diweddar o ansefydlogrwydd

6.29 Roedd Ove Arup a Phartneriaid yn credu na ddylai arwyddion o symudiadau hanesyddol fod yn ffactor llywodraethol gan nad yw'r rhain o reidrwydd yn arwydd y bydd tomen yn methu yn y dyfodol.

### Risgiau sylweddol o lygredd, llifogydd neu danio digymell

6.30 Roedd Howard Siddle yn anghytuno â chynnwys risgiau llygredd a llifogydd. Mae ei wrthwynebiadau eisoes wedi cael eu nodi uchod yn y drafodaeth ar ymatebion i gwestiwn 17 yr ymgynghoriad, a oedd yn edrych ar a ddylai dosbarthiad tomennydd glo ystyried y risg y mae'r domen yn ei hachosi o ran llygredd, hylosgi neu lifogydd. Yn ei farn ef, mae'r perygl o lygredd o domennydd yn isel.<sup>153</sup> Roedd Bob Leeming hefyd yn credu na ddylid cynnwys y risg o ryddhau llygredd, gan y byddai'n cael ei gwmpasu

---

<sup>153</sup> Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u nodi ym mharagraffau 2.86 a 4.93 uchod.



gan ddeddfwriaeth amgylcheddol arall sy'n cael ei gorfodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

- 6.31 Credai Howard Siddle y dylid amnewid cyfeiriad at lifogydd drwy gyfeirio at risg sylweddol o fethiant system ddraenio naturiol neu system ddraenio wedi'i pheiriannu a fyddai'n effeithio ar ei diogelwch. Roedd yn cytuno â chynnwys hylosgi digymell, ond roedd yn bryderus ynghylch defnyddioldeb neu gost effeithiolrwydd ei gynnwys.
- 6.32 Roedd ICE Cymru yn cytuno â chynnwys risgiau llygredd a llifogydd, ond roedd yn credu bod hylosgi digymell bellach yn llai tebygol o ddigwydd gan y byddai'r rhan fwyaf o domennydd sy'n cynnwys llawer o lo bellach wedi cael eu hadennill neu eisoes wedi hylosgi yn y gorffennol. Roedden nhw'n meddwl y byddai angen rhagor o ddata ar gynnwys tomen lo i asesu'r risg hon.
- 6.33 Roedd Ove Arup yn cytuno â chynnwys llygredd, llifogydd a risgiau hylosgi, ond dim ond os oeddent hefyd yn peri risg uniongyrchol i'r cyhoedd.
- 6.34 Cwestiynodd Huw Williams y cysyniad o "risg sylweddol" yn y categorïau hyn. Roedd yn meddwl ei fod yn creu cyfle ar gyfer ansicrwydd a dadl. Awgrymodd y dylai adnabod risg a llwybr o achosiaeth fod yn ddigon. Credai y dylai'r categori llifogydd wahaniaethu rhwng llifogydd ar dir a llifogydd mewn adeiladau neu eiddo a feddiannir fel anheddau neu ar gyfer busnes.

#### Mae angen gwaith peiriannu ar y domen

- 6.35 Roedd Steve Jones o Adran Cynllunio at Argyfwng Cyngor Sir Penfro a CLA Cymru ill dau yn gwrthod cynnwys yr angen am waith peirianyddol fel pennawd ar wahân, gan y byddai'r angen am waith peirianyddol yn codi o ganlyniad i asesiad o dan y penawdau eraill ar y rhestr. Roedd ICE Cymru yn mynegi yr un gwrthwynebiad: "efallai y bydd angen gwaith peirianyddol o ganlyniad i asesu risg, a'r asesiadau risg fyddai'n sail i'r dosbarthiad". Cytunodd Howard Siddle, gan nodi mai'r angen am waith peirianyddol fyddai casgliad asesiad risg ac na ddylai fod yn ffactor wrth ddynodi. Nododd Stephen Smith mai canlyniad risg oedd y categori hwn, nid ffactor yn ymwneud â nodweddion y domen.
- 6.36 I'r gwrthwyneb, credai Caerffili fod y categori gwaith peirianyddol yn ddefnyddiol, gan ei fod yn eithaf agored ac y gallai gynnwys, er enghraifft, tomennydd gyda seilwaith draenio ar ddiwedd ei oes neu tu hwnt i hynny. Holasant a allai'r gwaith cynnal a chadw hefyd ddod o fewn y categori, gan nodi bod rhai tomennydd yn "crefu am waith cynnal a chadw" a bod angen eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn atal dirywiad cyflym.
- 6.37 Holodd yr Athro David Petley ynghylch y term "angen" yn y categori hwn, gan ofyn a ddylid cael amserlen i gyd-fynd â'r term. Canfu nad oedd yn glir a oedd y term yn golygu bod angen y gwaith ar y domen ar hyn o bryd, neu'n debygol o fod ei angen o fewn cyfnod penodol.

#### Meini prawf ychwanegol

- 6.38 Tra'n cytuno â'r meini prawf arfaethedig, awgrymodd ICE Cymru feysydd lle gellid eu hehangu. Mewn perthynas â'r risg o effaith ar ardaloedd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer preswyllo neu feddiannaeth gan bobl (is-gategori 2(b) yn y cwestiwn ymgynghori),

roeddent yn ychwanegu ardaloedd preswyllo dros dro fel meysydd gwerysyla. Mewn perthynas â'r risg o lifogydd (categori 4), ychwanegodd fod angen ystyried y risg o lifogydd eilaidd sy'n gysylltiedig â rhyddhau dŵr o gronnwyd ar ôl i domen fethu.

- 6.39 Disgrifiodd Caerffili y meini prawf a awgrymwyd fel "man cychwyn da" ond roeddent yn meddwl bod angen categorïau mwy agored. Gallai hyn gynnwys gwaith cynnal a chadw ar domennydd lle'r oedd hyn yn hanfodol i ddiogelwch, fel y nodir uchod. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at faterion eraill fel gwarchod ecoleg, bywyd gwyllt, dŵr ffo, a llystyfiant yn gwywo ac yn amnewid, ac yn awgrymu y dylai'r angen i dirweddu fod yn faen prawf. Byddai hyn yn caniatáu ail-blannu ardaloedd er mwyn lleihau dŵr ffo neu sgwrio. Mae hyn, yn ei dro, yn gweithredu i atal problemau cynnal a chadw eraill.
- 6.40 Roedd Lee Jones hefyd am ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer effaith amgylcheddol. Awgrymodd gynnwys effaith bosibl ar rywogaethau neu amgylcheddau gwarchoddedig fel Safleoedd Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), gwarchodfeydd natur neu ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, naill ai'n ffisegol, yn gemegol neu'n fiolegol. Codwyd yr angen i ystyried pwysigrwydd amgylcheddol ardaloedd derbyn posibl gan Elisabeth Jones CF mewn digwyddiad ymgynghori ar gyfer Cymru'r Gyfraith.
- 6.41 Cytunodd yr Athro David Petley â'n rhestr, ond awgrymodd ychwanegu is-gategoriâu ychwanegol at gategori 2, i ymdrin ag achosion lle byddai llithriad yn debygol o effeithio ar ardal sydd â gwerth economaidd sylweddol neu werth ecolegol sylweddol. Cynigiodd hefyd gategori hollgynhwysfawr o domennydd sy'n "achosi unrhyw fath arall o risg sylweddol" i'w ychwanegu at ddiwedd y rhestr. Roedd Castell-nedd Port Talbot yn cynnig ychwanegu potensial i achosi ansefydlogrwydd i dir cyfagos.
- 6.42 Roedd Trafnidiaeth Cymru o'r farn y dylai'r categorïau gynnwys effaith ar wasanaethau cyhoeddus, er enghraifft trafndiaeth, gofal iechyd ac addysg ac effaith ar dirweddau naturiol a safleoedd dynodedig fel y rheini sydd o bwysigrwydd hanesyddol. Ychwanegodd y dylai'r asesiad o'r effaith bosibl gynnwys rhagolygon yn y dyfodol, fel y rhai y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt, er mwyn sicrhau bod methodolegau risg yn addas ar gyfer y dyfodol.
- 6.43 Awgrymodd Paul Connolly ddsbarthiad nad oedd yn seiliedig ar ddiogelwch lle'r oedd tomen wedi'i nodi fel ffynhonnell bosibl ar gyfer peiriannu neu waith tirlunio.
- 6.44 Darparodd ICE Cymru restr o feini prawf ychwanegol arfaethedig:
- Mae'r domen wedi'i lleoli ar dirlithriad neu dir naturiol lled sefydlog
  - Cyflwr gwael arall ar y ddaear danategol
  - Ar gyfer gwastraff golchfa/lagŵn – risg bosibl o ymsuddiant a methiant wrth lwytho
  - Natur y gwastraff yn y domen. Bydd gan wahanol ddeunyddiau gwastraff briodweddau geodechnegol gwahanol ac felly bydd gwahanol ddylanwadau ar ansefydlogrwydd tomennydd

- Mynedfeydd mwyngloddiau yn y cyffiniau ac yn enwedig llethrau tomennydd ar ochr bryniau a allai beri risg o ollyngiadau dŵr mwynglawdd a allai achosi ansefydlogrwydd

6.45 Nododd Philip Thomas feini prawf ychwanegol hefyd. Awgrymodd y dylid cynnwys methiant perchennog tir i gynnal tir neu gamau gweithredu wrth ymgymryd â datblygiad lle bo'r rhain yn cynyddu'r risg. O ran methiant i gynnal a chadw tir, rhoddodd enghraifft o erydu ar lwybr ceffylau cyhoeddus gan lif a gafodd ei ddargyfeirio o ganlyniad i waith adfer tomen yn y 1970au, gan ddweud bod erydiad ar y llwybr ceffylau yn rhwystro mynediad i'r domen a fydd yn cyfyngu ar allu'r awdurdodau i ymateb i ddigwyddiad fel tân. Mewn perthynas â datblygiadau sy'n cynyddu'r risg, rhoddodd enghraifft o osod tyrbinau gwynt ar ben tomennydd glo, lle gallai'r llwybr, y sylfeini a'r gwaith o adeiladu'r tyrbinau gynyddu'r perygl o ansefydlogrwydd yn y domen. Cyfeiriodd at dirlithriad mawn Meenbog ym mis Tachwedd 2020, a ddigwyddodd ar adeg pan oedd fferm wynt yn cael ei datblygu ar fawnog, fel tystiolaeth o'r risg hon.<sup>154</sup>

### Terminoleg

6.46 Nododd Arolwg Daeregol Prydain fod angen egluro'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn hwn. Dylid ystyried sefydlogrwydd tomennydd fel graddfa o berygl, gyda'r risg yn cael ei diffinio gan debygolrwydd yr effeithiau amrywiol, fel yr effaith ar adeiladau neu lygredd a nodir yn y rhestr sy'n dilyn. Yn yr un modd, mae tanio digymell yn berygl ar wahân a allai fod yn amodol ar raddio ac asesu risg.

### Dulliau eraill

- 6.47 Awgrymodd nifer o ymatebwyr ddulliau amgen o ddynodi. Ym marn Jacobs, mae angen i ddynodiad tomen ddod o asesiad seiliedig ar risg sy'n ystyried yr holl beryglon mewn tomen ac sy'n sefydlu eu sgôr risg cysylltiedig. Lle nodir bod gan beryglon sgôr risg "uchel", dylai hyn arwain at ddynodi'r domen heb fod angen ei dosbarthu ymhellach.
- 6.48 Roedd Keith Bush CF hefyd yn anghytuno â'r syniad o ddynodi ar sail categorïau cyfyngedig. Yn yr un modd â'i ymateb i'r cwestiwn blaenorol, credai na ddylai ymateb yr awdurdod gael ei gyfyngu gan yr angen i osod tomennydd mewn categorïau artiffisial, ond yn hytrach dylai gael ei arwain gan asesiad unigol o ba waith sydd ei angen.
- 6.49 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol at ei gilydd i'r holl feini prawf a nodwyd yn ein rhestr, ond roedd yn credu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i sut byddai dynodiadau'n cael eu defnyddio i gategoreiddio tomennydd unigol. Roeddent hefyd yn credu y dylai unrhyw ddynodiad fod yn seiliedig ar ganlyniad.
- 6.50 Awgrymodd Trafnidiaeth Cymru y dylid ymgynghori â chyrff fel ei hun sy'n gyfrifol am seilwaith fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio newydd a'r broses o asesu'r risg. Bydd hwn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar ei seilwaith yn cael eu hystyried yn llawn. Gwnaethom gofyn y dylid ailasesu'r risgiau mewn ymateb i

<sup>154</sup> I gael rhagor o fanylion, gweler ymateb llawn Philip Thomas i gwestiwn 19 yr ymgynghoriad yn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad sydd ar gael ar wefan ein prosiect Diogelwch Tomennydd Glo: <https://www.lawcom.gov.uk/project/rheoleiddio-diogelwch-tomennydd-glo-yng-nghymru/>.

newidiadau i'w seilwaith neu ei ddefnydd ohono, ac y dylid rhoi gwybod iddo am newidiadau yn y dyfodol i'r risg neu'r dynodiadau tomennydd os gallai'r rhain effeithio ar ei fuddiannau.

### Newidiadau mewn statws dynodiad

- 6.51 Roedd Howard Siddle o'r farn bod y dynodiad yn label a ddylai aros gyda'r domen hyd yn oed ar ôl i'r gwaith gael ei wneud gan ei fod yn dal yn risg bosibl. Byddai hyn yn sicrhau bod y lefel gywir o archwilio a chynnal a chadw yn cael ei darparu. Mewn geiriau eraill, y gwaith o reoli tomen sy'n newid ar ôl gwneud gwaith adfer, nid y dynodiad.
- 6.52 Roedd CNC, i'r gwrthwyneb, yn credu y dylai fod modd newid y dynodiad mewn ymateb i arfer da gan berchennog y domen. Gallai'r awdurdod gynhyrchu canllawiau Rheoli Tomennydd Da i'w helpu i wneud hyn.

### Trafodaeth

#### System ddynodi

- 6.53 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig ar gyfer system ddynodi. Cytunwn ei bod yn hanfodol cael system sy'n galluogi i waith gael ei flaenoriaethu mewn ffordd systematig. Fel y trafodwyd ym mhennod 4 mewn perthynas ag archwilio tomennydd, pwysleisiwyd pwysigrwydd blaenoriaethu a'r angen i dargedu adnoddau yn yr adolygiad annibynnol o ddiogelwch cronfeydd dŵr a oedd yn dilyn digwyddiad Toddbrook. Mae'n ymddangos hefyd ei bod yn briodol defnyddio'r dull tomennydd hysbysadwy sy'n berthnasol i domennydd gweithredol, a gynhwyswyd yn wreiddiol mewn Rheoliadau o dan Ran 1 Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 ac sydd bellach yn Rheoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i arfarnu tomennydd er mwyn penderfynu a yw'r domen yn "berygl sylweddol oherwydd ansefydlogrwydd neu symudiad".<sup>155</sup> Byddai fecanwaith o'r fath hon yn arwydd o gydnabyddiaeth nad yw'r dull gweithredu sy'n sail i Ran 2 Deddf 1969, sef bod hen domennydd yn annhebygol o beri risg ac nad oedd angen gwerthuso a blaenoriaethu'n systematig, yn briodol ar gyfer amgylchiadau heddiw yng Nghymru.
- 6.54 Yn rhan olaf y bennod hon rydym yn edrych ymhellach ar beth fyddai system o'r fath yn ei olygu. Rydym yn rhagweld y byddai dynodi yn ganlyniad i'r broses dosbarthu risg a drafodir ym mhennod 4. Byddai'n dangos bod blaenoriaeth i'w rhoi i'r gwaith sydd angen ei wneud ar y domen. Byddai goblygiadau o ran lefel y sgiliau sydd eu hangen ar y rhai sy'n gwneud y gwaith a phwy fyddai yn gyfrifol am gyflawni'r gweithrediadau; ystyriwn mai'r awdurdod goruchwyllo ei hun ddylai hwn fod fel arfer.
- 6.55 Mae'n bwysig pwysleisio nad yw dynodi'n disodli'r prosesau yr ydym yn eu hargymell ar ôl cofrestru tomen, fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol. Bydd angen archwiliad, asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd ar gyfer pob tomen. Bydd y cynllun yn ymdrin â materion megis gwaith cynnal a chadw ac adfer sydd ei angen a pha mor

---

<sup>155</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.45 i 9.48.

aml y cynhelir yr archwiliad. Rydym yn rhagweld y bydd y dosbarthiad risg sy'n dilyn y camau hyn yn cynnwys dynodi rhai tomennydd fel rhai â blaenoriaeth uwch.

- 6.56 Mae'n bwysig cofio hefyd y byddai'r cynllun rydyn ni'n ei argymhell yn dod i fodolaeth yng nghyd-destun y gwaith sylweddol sydd wedi cael ei wneud ers llithriad Tylorstown ym mis Chwefror 2020 i nodi, blaenoriaethu a dechrau gweithio ar y tomennydd sydd angen hynny fwyaf. Mae'n debygol y bydd tomennydd o'r fath wedi bod yn destun arolygiad diweddar a thrwyadl, felly nid oes angen i'r gwaith o'u dynodi a'r gwaith arnynt aros am arolygiad cyntaf dan y cynllun newydd.
- 6.57 Cytunwn fod angen gofal o ran y derminoleg a ddefnyddir. Gall cyfeirio at domen "risg uwch" neu at "berygl" fod yn gamarweiniol yn ogystal â brawychus. Bydd tomen yn cael ei dynodi oherwydd ei bod yn bodloni meini prawf penodol, a drafodir ymhellach isod. Yn yr un modd â dosbarthiadau risg eraill, rydym yn rhagweld bod dynodi yn arwydd o gydnabyddiaeth bod tomen yn haeddu sylw blaenoriaethol yn hytrach nag awgrymu bod pobl yn ei hardal mewn perygl. Dylai hyn roi sicrwydd ac osgoi malltod.

#### Meini prawf ar gyfer dynodi

- 6.58 Cyflwynodd yr ymatebwyr safbwyntiau amrywiol ar ein meini prawf arfaethedig. Roedd cyfran sylweddol nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â nhw ac yn rhoi ymateb "arall". Rydym yn cytuno â'r sylw y dylai dynodiad tomen ddeillio o'i asesiad risg, a ddylai ystyried yr holl beryglon a gyflwynir gan domen a sefydlu dosbarthiad y risg.
- 6.59 Mae cynnwys neu eithrio risgiau sy'n ymwneud â llygredd, hylosgi a llifogydd yn bwnc a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn wrth ystyried y dull o ddsbarthu risg.<sup>156</sup> Os bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ein hargymhelliad y dylai'r dosbarthiad risg ystyried y ffactorau hyn, credwn ei bod yn synhwyrol eu cynnwys hefyd ymysg y risgiau a all arwain at ddynodi. Er na fydd unrhyw domennydd yn cael eu hasesu ar hyn o bryd fel rhai sy'n peri risgiau ar wahân i'r rheini sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd, mae'n bosibl y bydd risgiau o'r fath yn cael eu nodi yn y dyfodol ac y gallent arwain at yr angen am sylw blaenoriaeth. Byddai'n anffodus pe bai'r mecanweithiau cyfreithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau hynny yn cael eu hepgor o'r ddeddfwriaeth.
- 6.60 Nododd ymatebwyr yn gywir fod ein maen prawf olaf yng nghwestiwn ymgynghori 19, gan gyfeirio at yr angen am waith peirianyddol, wedi mynd i'r afael â'r mater o ddynodi o gyfeiriad gwahanol i'r meini prawf eraill, a bod yr angen am waith yn ganlyniad i ganfod risg. Rydym yn tueddu i gredu y gall elfennau o'r ddau ddull fod yn briodol wrth ddylunio set o feini prawf ar gyfer dynodi. Mae llunio set o feini prawf ar gyfer dynodi yn fater technegol, ac nid yw'n addas i ni benderfynu arno. Rhaid i ni ei adael i Lywodraeth Cymru, drwy ymgynghori ag arbenigwyr, i benderfynu ar y meini prawf i'w defnyddio. Rydym yn ddiolchgar am y cyfraniadau a wnaed ynghylch y meini prawf unigol rydym wedi'u cynnig. Rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau pellach. Y mwyaf yr ydym yn gymwys i'w awgrymu yw y bydd dynodiad, fel yr ydym yn ei ragweld, yn deillio o gydbwysedd o dri ffactor cyffredinol a nodwn, sef

---

<sup>156</sup> Gweler paragraff 4.95 i 4.98 uchod.

- (1) maint y risg y bydd unrhyw un o'r pedwar perygl (ansefydlogrwydd, llygredd, hyllogi a llifogydd) yn dod i'r amlwg;
- (2) difrifoldeb y canlyniadau (natur y "derbynyddion" y byddid yn effeithio arnynt; roedd cwestiwn ein hymgyngoriad yn nodi ardaloedd ble mae bobl yn byw ynddynt, a rhai mathau o seilwaith, fel derbynyddion sensitif ac mae ymatebwyr wedi awgrymu eraill);
- (3) maint neu soffistigeiddrwydd y gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael â'r risg.

- 6.61 Mae'r ffactorau, yn amlwg, yn gysylltiedig â'i gilydd. Po fwyaf sensitif yw'r derbynyddion, y lleiaf yw'r risg dderbyniol o berygl yn dod i'r amlwg. Mae'r trydydd ffactor yn berthnasol oherwydd y canlyniad yr ydym yn ei ragweld, sef y bydd y gwaith sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r perygl fel arfer yn cael ei wneud gan yr awdurdod goruchwyllo ei hun. Ni fydd peryglon y gellir eu datrys, er enghraifft, drwy gynnal a chadw sianeli draenio fel mater o drefn, yn sail ar gyfer eu dynodi yn yr un ffordd â pheryglon y mae angen eu datrys drwy ailbroffilio cyfuchliniau tomen yn ofalus.
- 6.62 Rydym felly'n awgrymu, wrth benderfynu ar y meini prawf, y dylid rhoi sylw i ganlyniadau dynodi. Fel sy'n cael ei drafod yn adran olaf y bennod hon, bydd hyn yn gofyn am roi blaenoriaeth i'r domen, gwaith sy'n cael ei wneud gan arbenigwyr, a chydabyddiaeth y bydd y gwaith fel arfer yn cael ei wneud gan yr awdurdod goruchwyllo. Mae hyn yn ein harwain i'r casgliad y gallai pwyso a mesur cymhlethdod y gwaith sy'n ofynnol yn erbyn gallu'r perchennog i ymgymryd ag ef, fod yn ffactor pwysig, yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir i fesur perfformiad gwaith ar domennydd heb eu dynodi. Ar gyfer tomennydd sydd angen y gwaith mwyaf cymhleth, mae'n debygol y byddai maint y gwaith sydd ei angen y tu hwnt i allu perchennog y domen i ymgymryd ag ef.
- 6.63 Y tu hwnt i dynnu sylw at sylwadau ymatebwyr, dyna'r mwyaf yr ydym yn gymwys i'w ddweud am agweddau technegol y meini prawf ar gyfer dynodi. Wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei dull o ddynodi risg, efallai y bydd yn gallu nodi trothwyon priodol ar gyfer dynodi sy'n deillio o "sgorio" peryglon a derbynyddion.<sup>157</sup> Bydd y dull gweithredu a ddefnyddir yn dibynnu ar faterion technegol a dewisiadau polisi.
- 6.64 Dim ond nifer fach o sylwadau sydd gennym ar agweddau penodol ar gyfraniadau ymatebwyr:
- (1) Mae polisi deddfwriaethol eisoes wedi penderfynu bod môr-lynnoedd yn dod o dan ddiogelwch tomennydd yn hytrach na'r gyfundrefn cronfeydd dŵr. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol ymyrryd â hyn.<sup>158</sup>
  - (2) Gallai methiant hirsefydlog i gynnal a chadw, ynghyd â'r angen am waith cynnal a chadw lefel uchel, gyfiawnhau dynodi. Ond nid ydym yn credu y byddai'r brys i wneud gwaith cynnal a chadw ar ei ben ei hun yn ddigonol. Credwn mai'r dull gorau o ymdrin ag achosion lle mae angen cynnal a chadw brys, ond ar lefel

<sup>157</sup> Gweler y drafo daeth ar gategoreiddio risg ym mharagraffau 4.65 i 4.109 uchod.

<sup>158</sup> Gweler y drafo daeth ar drin môr-lynnoedd yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 4.31 a 9.56 i 9.60. Gweler hefyd pennod 7 isod, sy'n ystyried y diffiniad o domen.

gymharol isel, fyddai sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw y darperir ar ei gyfer yn y cynllun rheoli tomennydd cael ei wneud. Mae'r bennod flaenorol, ar orchmynion a chytundebau cynnal tomennydd, yn nodi sut y gellid cyflawni hyn ar gyfer tomennydd sy'n peri risg is.

- (3) Rydym yn cytuno â'r cynnig y dylai maen prawf sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd gynnwys effaith bosibl ar ardal sydd â gwerth ecolegol sylweddol.
- (4) Mae defnyddio tomen fel ffynhonnell tirlenwi o ran peirianeg neu dirlunio yn ymwneud â chwestiynau adennill tir, a drafodir ym mhennod olaf yr adroddiad hwn, yn hytrach nag arwydd o risg. Gallai'r posibilrwydd y gallai deunydd tomen gael ei waredu'n broffidiol fod yn ffactor pwysig wrth ddatblygu strategaethau tymor hwy i ddod o hyd i ddefnydd buddiol ar gyfer hen domennydd.
- (5) Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys categori "cynnwys popeth" fel "unrhyw risg sylweddol arall" yn cael ei ddylanwadu gan benderfyniadau a wneir ynghylch y meini prawf eraill i'w mabwysiadu. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw risgiau sylweddol ar wahân i ansefydlogrwydd, llygredd, llifogydd a hylosgiad.
- (6) Rydyn ni'n credu y gallai gosod gofyniad penodol bod tomen angen y gwaith ar hyn o bryd, neu'n debygol o fod ei angen o fewn cyfnod penodol, fod yn ddull rhy gyfyngol, ond byddai'n bwysig ystyried sut mae angen gweithredu ar frys wrth benderfynu ar flaenoriaethau.

6.65 Rydym hefyd wedi ystyried a ddylid dynodi tomennydd ar ôl cwblhau'r gwaith. Pwrpas dynodi yw caniatáu blaenoriaethu tomennydd lle mae angen gwaith diogelwch, felly byddai'n rhesymegol i'r domen, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, fynd i gategori is. Credwn y bydd yr ateb yn dibynnu ar faterion technegol. Er enghraifft, os nad oes angen gwneud rhagor o waith ar wahân i waith cynnal a chadw arferol, mae'n ymddangos nad oes diben parhau â dynodiad. Gellid ystyried bod y domen yn addas ar gyfer cytundeb cynnal a chadw gyda'r perchennog, fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol. Fel arall, os ystyrir nad oedd y domen yn addas i'w dynodi mwyach, ond nad yw'n briodol chwaith ar gyfer dull cynnal a chadw sy'n cael ei arwain gan berchennog, efallai y bydd angen iddi berthyn i gategori penodol heb ei ddynodi.<sup>159</sup>

6.66 Fel arall, mae'n bosibl y gallai tomen, nad ystyrir bod angen ei dynodi adeg yr archwiliad cyntaf, newid ei statws yn dilyn archwiliad dilynol (a gynhelir ar yr adegau a bennir gan y cynllun rheoli tomennydd). Gallai newidiadau mewn tomen, er enghraifft oherwydd glaw trwm, neu ddigwyddiad fel cwmp ceudod, newid ei hasesiad risg a chyfiawnhau'r dynodiad. Fel yr esboniwyd ym mhennod 4, cyfrifoldeb yr awdurdod goruchwylio fyddai derbyn adroddiadau archwilio a chymeradwyo dosbarthiadau risg.<sup>160</sup>

---

<sup>159</sup> Gweler paragraff 5.35 uchod.

<sup>160</sup> Gweler paragraffau 4.57 a 4.63 uchod.

- 6.67 Rydym yn argymhell yn unol â hynny y dylai dynodiad ddeillio o'r broses asesu risg, ac y dylai'r meini prawf ar gyfer dynodi gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr.

#### Meini prawf rhagnodi drwy offeryn statudol

- 6.68 Yn ein hymgyngoriad yng nghwestiwn 18, gwnaethom gynnig dros dro y dylid rhagnodi'r meini prawf ar gyfer dynodi drwy offeryn statudol; roedd cefnogaeth mwyafrifol i'r cynnig hwn. Rydym yn cytuno ag ymatebwyr bod gosod meini prawf ar gyfer dynodi drwy offeryn statudol yn hybu eglurder a chysondeb. Mae manteision y dull hwn wedi cael eu harchwilio eisoes mewn perthynas â chynnwys y gofrestr tomennydd a'r materion i'w hystyried mewn cynlluniau asesu risg a rheoli tomennydd dilynol. Mewn perthynas â'r penderfyniad dynodi, byddai gosod meini prawf drwy offeryn statudol yn helpu i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn cydymffurfio â safon wrthrychol. Bydd hyn yn bwysig ar gyfer penderfyniadau sy'n effeithio ar lif gwaith yr awdurdod goruchwyllo, oherwydd yn anochel, lle mae cyfyngiadau o ran adnoddau, bydd pwysau i reoli'r llwyth gwaith.
- 6.69 Gan nad yw'r meini prawf ar gyfer dynodi wedi'u llunio eto, mae'n anodd rhagweld pa mor hawdd y byddant yn cynnig eu hunain i ragnodi drwy offeryn statudol. Dim ond ar ôl iddynt gael eu pennu y bydd modd gwybod a fyddai'n well eu nodi mewn canllawiau sy'n cynnwys mwy o destun agored. Yr ydym wedi penderfynu gwneud argymhelliad o blaid rhagnodi drwy offeryn statudol oherwydd ei fanteision o ran tryloywder, eglurder a chysondeb; y meini prawf rhagnodedig y gellid eu hategu gan ganllawiau manylach. Bydd yn agored i Lywodraeth Cymru wrthod yr agwedd hon ar ein hargymhellion os yw'n teimlo bod cyfiawnhad dros wneud hynny yng ngoleuni natur y meini prawf sy'n dod i'r amlwg. Os creir offeryn statudol, rydym yn cytuno y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol i sicrhau craffu gan y Senedd.

#### Argymhelliad 25.

- 6.70 Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomennydd sydd yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol gan yr awdurdod goruchwyllo.

#### Argymhelliad 26.

- 6.71 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r meini prawf ar gyfer dynodi drwy ymgynghori ag arbenigwyr.

#### HAWL I APELIO YN ERBYN DYNODIAD

- 6.72 Roedd ein cwestiwn nesaf yn gofyn am farn ar ein cynnig y dylai fod gan rywun sy'n cael ei dramgwyddo gan ddynodiad tomen hawl i apelio.



## **Cwestiwn Ymgynghori 20: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai unigolyn yr effeithiwyd arno gan ddynodi tomen lo fel un risg uwch gael hawl i apelio. A ydych yn cytuno?**

6.73 Atebodd pedwar deg wyth o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 39 (81%) yn cytuno. Wyth (17%) oedd yn anghytuno, ac un a ddewisodd ateb "arall".

### **Rhesymau dros gytuno**

6.74 Credai Syr Wyn Williams fod "tegwch yn golygu bod angen mecanwaith lle gellir herio dynodiad". Nododd Chris Seddon fod "pob deddfwriaeth yn agored i'w dehongli ac felly dylai penderfyniadau fod yn agored i'w hadolygu". Cytunodd Howard Siddle hefyd ond mynegodd yr angen am feini prawf dynodi wedi'u llunio'n dda i gyfyngu ar nifer yr apelïadau.

6.75 Rhybuddiodd CNC hefyd y dylid adolygu'r fethodoleg a ddefnyddir yn rheolaidd, ac y byddai angen bod yn ofalus "os ydym am osgoi cwestiynu'r broses ddynodi'n barhaus". Roedden nhw'n awgrymu defnyddio'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 fel model ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu fesul cam ar gyfer y broses ddynodi. Mae hyn yn darparu ar gyfer dynodiad dros dro yn seiliedig ar wybodaeth a ddelir gan y rheoleiddiwr yn y lle cyntaf, cyfnod ar gyfer sylwadau fel y gall y perchennog gywiro gwallau neu ddarparu tystiolaeth bellach, a dynodiad terfynol yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd. Gellir apelio yn erbyn y dynodiad terfynol.<sup>161</sup>

### **"Person wedi'i dramgwyddo"**

6.76 Cododd nifer o ymatebwyr gwestiynau ynghylch pwy fyddai'n cael yr hawl i apelio. Holodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chastell-nedd Port Talbot a ddylai'r hawl fod ar gael nid yn unig i berchennog y domen ond hefyd i berchnogion tir ac eiddo cyfagos y gallai hyn effeithio arnynt.

6.77 Credai'r Athro Thomas Watkin y dylai pawb sydd â buddiant dilys mewn diogelwch tomen hefyd gael hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â dynodi tomen. Gallai hyn gynnwys trigolion lleol, busnesau, cwmnïau trafndiaeth a chyfleustodau y gallai penderfyniad anghywir gael effaith niweidiol arnynt.

6.78 Rhybuddiodd Trafnidiaeth Cymru am yr angen i fabwysiadu dull a phroses apelio sy'n sicrhau bod apelïadau annilys yn cael eu trin yn briodol a'u diystyru.

### **Ffordd i apelio**

6.79 Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i'r apêl gael ei chlywed gan gorff annibynnol gydag arbenigedd priodol. Roedd Huw Williams o'r farn mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai fod â'r hawl i apelio. Roedd ICE Cymru yn credu y dylid cyflogi person cymwys gydag arbenigedd mewn dosbarthu tomennydd glo i gyfrannu at y broses apelio.

### **Effaith apelio**

6.80 Tynnodd Joel James AS a Lee Jones sylw at bwysigrwydd cadw statws dynodedig tra bod apêl yn cael ei chlywed. Anogodd CLILC a Chastell-nedd Port Talbot na ddylid caniatáu hawl i apelio er mwyn gohirio gwaith diogelwch y nodir ei fod yn

---

<sup>161</sup> Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2A(2) a (3), 2B.

angenrheidiol. Credai'r Athro David Petley a CLA Cymru na ddylai'r hawl i apelio allu rhwystro gweithredu mewn sefyllfa o risg sydd ar fin digwydd.

- 6.81 Soniodd Kim Moreton am y posibilrwydd y gallai oedi yn y llys a chyllidebau mwy corfforaethau mawr beri rhwystrau sylweddol i ddatrys anghydfodau. Awgrymodd derfyn amser ar gyfer "ffenstr" apêl o 18 mis o adeg ei ddynodi.

### Rhesymau dros anghytuno

- 6.82 Roedd llawer o'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn tynnu sylw at y wybodaeth arbenigol a fydd yn hysbysu'r dynodiad. Ym marn Merthyr Tudful:

Bydd gan yr awdurdod goruchwyllo wybodaeth arbenigol a dealltwriaeth o ddiogelwch tomennydd er mwyn dynodi tomen yn gywir ac ni ddylai gael ei herio gan bobl heb gymwysterau.

- 6.83 Cyfeiriodd Keith Bush CF at ei resymau, a drafodwyd uchod, dros wrthwynebu system o gategoreiddio ffurfiol a chredai fod yr effaith ar y system hawl i apelio yn rheswm ychwanegol dros wrthod y dull gweithredu hwn:

Mae'r posibilrwydd o greu trefn apelio cymhleth mewn perthynas a system o gategoreiddio ffurfiol yn tanlinellu peryglon mabwysiadu system felly.<sup>162</sup>

- 6.84 Dywedodd Stephen Smith, a atebodd "arall", y byddai hawl i apelio yn briodol ar gyfer categorïau diffiniedig fel tirlfeddiannwyr, er mwyn gwarchod eu buddiannau, ond gofynnodd a fyddai darpariaeth o'r fath yn arwain at broblemau tebyg i'r rhai a nodwyd yn ein papur ymgynghori fel rhai sy'n codi o dan Ddeddf 1969.

### Trafodaeth

- 6.85 Roedd mwyafrif helaeth yn cytuno â'r hawl i apelio yn erbyn dynodiad. Roedd y rhesymau dros wneud hynny'n canolbwyntio ar degwch a dealltwriaeth y gallai dynodiad gynnwys beichiau ychwanegol ar dirfeddiannwr. Mae ein trafodaeth yn nwy adran flaenorol y bennod hon wedi nodi dull gwahanol o ddynodi o'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol yn ein papur ymgynghori. Rydym bellach yn gweld dynodi fel rhywbeth sy'n deillio'n uniongyrchol o asesu a dosbarthu risg. Credwn fod hyn yn effeithio ar yr angen am hawl i apelio yn erbyn dynodiad. Nid ydym yn gallu dweud a fydd dynodi, yn y cynllun a fabwysiedir yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru, yn niweidiol i fuddiannau'r tirlfeddiannwr.
- 6.86 Roeddem wedi egluro ym mhennod 4 bod dosbarthu risg yn benderfyniad technegol sy'n seiliedig ar ystyriaeth fanwl o briodweddau'r domen a'i lleoliad, ac yn arwydd i'r cyhoedd o'r categori eang o ddull gweithredu sydd i'w ddefnyddio ar gyfer ei rheoli.<sup>163</sup> Mae hefyd yn bwysig fel ffordd o lywio penderfyniadau a dyrannu adnoddau gan yr awdurdod goruchwyllo. Rydym yn argymhell hawl i apelio yn erbyn gorchymyn tomen, a fydd yn gosod rhwymedigaethau'n uniongyrchol o ran gwaith, taliadau ac yn y blaen. Am y rhesymau hyn, rydym wedi casglu nad yw hawl i apelio yn erbyn dosbarthiad risg yn briodol. Yn ein barn ni, mae'r un peth yn wir am ddynodiad.

---

<sup>162</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

<sup>163</sup> Gweler paragraff 4.76 uchod.

- 6.87 Mae cymharu â chyfundrefnau eraill sy'n defnyddio dynodiad i ddangos lefel uwch o risg yn fuddiol. Mae'n ymddangos bod p'un a ydynt yn rhoi hawl i apelio ai peidio yn dibynnu ar p'un a yw dynodiad yn arwain yn uniongyrchol at effeithiau andwyol neu feichus. Mae'r hawl i apelio a roddir i'r ymgymerwr o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn erbyn dynodiad yn codi o ganlyniad i osod rhwymedigaethau ar yr ymgymerwr mewn perthynas â'r gronfa ddŵr sy'n amlwg yn fwy beichus nag ar gyfer cronfa ddŵr heb ei dynodi.<sup>164</sup> Yn yr un modd, mae dynodiad o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sydd hefyd yn denu hawl i apelio, yn gosod dyletswydd ar y perchennog i beidio â newid, symud neu ddisodli'r strwythur dynodedig.<sup>165</sup> Yn gyferbyniol, nid yw'r gyfundrefn tir halogedig yn darparu i'r tiffeddiannwr hawl i apelio yn erbyn dynodi tir halogedig yn "safle arbennig". Canlyniad dynodiad o'r fath yw rhoi'r tir dan sylw dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn lle'r awdurdod lleol, mae'n debyg ar y sail y byddai'n well i sefydliad mwy arbenigol ddelio â chymhlethdod y materion a achosir gan yr halogiad penodol, ond nad yw'n golygu canlyniadau niweidiol ar unwaith i'r perchennog. Fodd bynnag, gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyfeirio penderfyniad ar safle arbennig at Weinidogion Cymru os yw'n anghytuno â'r awdurdod lleol.<sup>166</sup> Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad bod tomen sy'n gysylltiedig â mwynglawdd gweithredol yn "domen hysbysadwy".<sup>167</sup>
- 6.88 Am resymau tebyg i'r rheini a wnaeth i ni beidio ag argymhell hawl i apelio yn erbyn dosbarthiad risg, nid ydym yn argymhell hawl i apelio yn erbyn dynodiad. Fel y gwelwyd o'r drafodaeth ar gytundebau a gorchymynion ar gyfer gwaith diogelwch tomennydd ym mhennod 5, bydd perchennog neu feddiannydd tir sy'n cynnwys tomen yn cael diogelwch hawl i apelio yn erbyn telerau'r gorchymyn mewn achosion lle na chafwyd cytundeb, a lle rhoddir gorchymyn.<sup>168</sup> Bydd Adolygiad barnwrol hefyd ar gael fel rhwymedi.
- 6.89 Cytunwn beth bynnag na ddylai arfer unrhyw hawl apelio ohirio gwaith brys. Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i ystyried a fyddai system o ddynodi dros dro, wedi'i dilyn gan gyfnod ar gyfer derbyn sylwadau, yn ychwanegiad gwerth chweil at y cynllun.

## CYFRIFOLDEB AM WAITH AR DOMENNYDD DYNODEDIG

- 6.90 Mae'r adran hon yn ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol ar domennydd dynodedig. Fel yr esboniwyd ar ddechrau'r bennod hon, y farn dros dro a fynegwyd yn ein papur ymgynghori oedd y dylai'r awdurdod goruchwylio fel arfer fod yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith. Ond roedd yn cydnabod y gallai fod

<sup>164</sup> Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2E.

<sup>165</sup> Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, atodlen 1, paragraff 15(1).

<sup>166</sup> Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a 78C a D. Pan fydd tir wedi'i ddynodi'n safle arbennig, neu'n dir halogedig, bydd yr awdurdod gorfodi'n cyflwyno hysbysiad adfer i'r personau priodol. Mae hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad adfer: a 78E ac L.

<sup>167</sup> O dan Reoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 63(1) mae tomen yn debygol o fod yn domen hysbysadwy os daw arbenigwr geodechnegol i'r casgliad bod tomen yn cynrychioli "perygl sylweddol o ganlyniad i ansefydlogrwydd neu symudiad". Ni all gweithredwr mwynglawdd ond herio penderfyniad yr arbenigwr os oes "unrhyw reswm dros amau dilysrwydd casgliad yr asesiad presennol", ac os felly, bydd angen asesiad pellach gan arbenigwr geodechnegol.

<sup>168</sup> Gweler paragraff 5.90 uchod. Trafodir y ffurfio apelio hefyd ym mharagraffau 8.51 i 8.60 isod.

amgylchiadau lle byddai'n well gan berchennog y domen wneud y gwaith ei hun ac y byddai mewn sefyllfa well i wneud y gwaith ei hun. Os felly, roeddem yn awgrymu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gytundeb rhwng yr awdurdod goruchwylio a pherchennog y domen, wedi'i gefnogi gan bŵer i roi gorchymyn.

6.91 Yn yr adran hon rydym yn ystyried safbwyntiau ar ein cynnig dros dro.

**Cwestiwn Ymgynghori 21: Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwylio ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen ar gyfer y domen benodol. A ydych yn cytuno?**

6.92 O'r 50 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 40 (80%) yn cytuno. Tri (6%) oedd yn anghytuno, a saith a ddewisodd ateb "arall". Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig, roedd rhai yn mynegi cefnogaeth amodol. Roedd y rhesymau a roddwyd i gefnogi'r ymatebion yn dangos lefel sylweddol o gefnogaeth i'r farn y dylai'r perchennog fod yn gyfrifol am wneud y gwaith ei hun yn y rhan fwyaf o achosion.

### **Dylai'r awdurdod goruchwylio wneud y gwaith**

6.93 Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi'r cynnig y dylai'r awdurdod goruchwylio fod yn gyfrifol am gyflawni'r gweithrediadau a nodwyd yn y cynllun rheoli tomennydd yn gwneud hynny'n bennaf oherwydd mai dyma'r ffordd orau o sicrhau dull amserol, cyson a dibynadwy o weithredu yng nghyswllt y tomennydd hynny y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Roedd hefyd yn cael ei ystyried yn ffordd o sicrhau bod gwaith sy'n uwch na lefel benodol o gymhlethdod yn cael ei wneud gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas a bod dogfennau priodol yn cael eu cynnal. Dywedodd Kim Moreton:

Fel ymarferydd ym maes rheoli tir mwynol, rwyf yn aml wedi gweld contractwyr adeiladu/gwaith tir generig yn creu mwy o broblemau wrth weithio ar safleoedd mwynau oherwydd diffyg gwybodaeth neu atebolrwydd o dan fanyleb y contract.

6.94 Cytunodd CLA Cymru â'r cynnig, cyn belled â bod y gwaith ar draul yr awdurdod ei hun. I'r gwrthwyneb, cytunodd Philip Thomas cyn belled â bod y tiffeddiannwr yn talu cost y gwaith. Nododd fod tir a oedd yn cynnwys tomennydd wedi cael ei gaffael gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol cyn ei breifateiddio am swm enwol, gan wybod am y gwaith diogelwch angenrheidiol.

6.95 Cytunodd Jane Iwanicki â'r ddyletswydd arfaethedig, ond awgrymodd y gallai'r awdurdod goruchwylio ddefnyddio contractwyr sydd â chymwysterau addas yn hytrach na gwneud y gwaith ei hun. Credai y byddai hyn yn sicrhau bod digon o dryloywder i gyfiawnhau gweithrediadau ac nad oedd yr awdurdod "yn creu ffrwd waith iddo ei hun".

6.96 Ystyriodd Caerffili fater cyfrifoldeb dros arolygu'r gwaith, yn unol â'u barn y dylai'r awdurdod goruchwylio allu dirprwyo ei swyddogaethau i awdurdodau lleol lle bo hynny'n briodol.<sup>169</sup> Yr oedd yn ffafrio dull gweithredu hyblyg, gydag awdurdodau lleol

---

<sup>169</sup> Gweler paragraff 2.19 uchod.

yn cael y dewis o gynnal yr arolygiadau eu hunain yn hytrach na'i adael i'r awdurdod goruchwyllo:

Gellid cytuno ar gymorth fesul awdurdod. Mae gan rai awdurdodau wybodaeth a phrofiad lleol dros flynyddoedd o archwiliadau a hwy fel arfer yw'r pwynt cyswllt cyntaf gan breswylwyr os codir mater. Mae gan awdurdodau lleol wasanaethau y tu allan i oriau i ymateb i unrhyw faterion neu bryderon a godir.

### **Dylai'r perchennog wneud y gwaith**

6.97 Mynegodd ymatebwyr fel CLILC, Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a'r Athro Bob Lee y farn groes y dylai perchennog y domen wneud y gwaith, gan nodi mewn rhai achosion y dylai'r perchennog ysgwyddo'r gost o wneud hynny. Cymhwysodd rhai eu barn i ychwanegu y dylai'r awdurdod gamu i mewn fel cam olaf os nad oedd y perchennog yn gallu neu'n fodlon gwneud y gwaith. Credai'r rhan fwyaf o'r rhai a fabwysiodd y dull hwn y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gynnal archwiliadau. Roedd CLILC, mewn ymateb a rannwyd hefyd gan Gastell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent, yn credu y byddai'r ddyletswydd arfaethedig ar yr awdurdod goruchwyllo fel arall yn anymarferol. Fe wnaethon nhw resymu fel a ganlyn:

Dylai perchennog y tir y mae tomen ddynodedig wedi'i leoli arno gael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun rheoli a'i annog, lle bynnag y bo modd, i gymryd y camau a nodir yn y cynllun hwnnw ei hun. Dylai'r trefeddiannwr fod yn gyfrifol am dalu cost y camau hyn a dylai'r corff goruchwyllo feddu ar y pwerau angenrheidiol i fynd â'r trefeddiannwr i'r llys. Os yw'r trefeddiannwr yn dal i fod yn anfodlon neu'n analluog i weithredu, yna dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gamu i mewn ac adennill costau. Fel arall, gallai gwybod bod gan yr awdurdod goruchwyllo ddyletswydd i weithredu atal rhai perchnogion tir rhag cymryd y camau angenrheidiol.

6.98 Cytunodd Howard Siddle â'r ddyletswydd mewn egwyddor, ond credai y gallai, yn ymarferol, fynd yn feichus ac yn ddrud. Awgrymodd y dylai'r ddyletswydd "sicrhau bod y gweithrediadau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael eu cyflawni" gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei roi yn bennaf ar y perchnogion. Dim ond os nad oedd gan y perchennog y modd i wneud y gwaith y byddai'r awdurdod yn ymyrryd.

6.99 Cytunodd Sir Fynwy â'r ddyletswydd arfaethedig ar yr amod bod gan yr awdurdod goruchwyllo adnoddau digonol a bod y gwaith yn cael ei wneud ar ran dim ond y perchnogion tomennydd hynny nad oeddent yn y sefyllfa orau neu a oedd yn meddu ar ddigon o fodd i wneud y gwaith eu hunain.

6.100 Credai Grŵp Plaid Cymru Castell-nedd Port Talbot y dylid gwahaniaethu rhwng perchnogion tomennydd llai, na fyddai'r cyfrifoldeb dros hynny'n hyfyw iddynt, trefeddiannwr mawr, a gweithredwyr presennol mawr a oedd wedi cau cloddfeydd yn ddiweddar.

6.101 Credai Merthyr Tudful y dylai gweithrediadau sy'n ymwneud â chynnal a chadw yn unig gael eu gadael i berchennog y domen, gydag archwiliad gan yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chynllun rheoli tomennydd. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddull tebyg, gan gynnig y dylai mesurau o fewn "gallu

rhesymol” y perchennog, wedi’u cefnogi gan ganllawiau, gael eu rhoi ar waith gan y perchennog. Fel enghraifft o waith yn y categori hwn, roeddent o’r farn y gellid rhoi’r cyfrifoldeb dros fonitro rheolaidd a darparu cofnodion monitro ar berchnogion tomennydd.

- 6.102 Roedd yr Athro Bob Lee yn ffafrio dull gweithredu a oedd yn seiliedig ar gytundebau rheoli, yn debyg i’r rhai a ddefnyddir mewn cyfraith amgylcheddol i ymrwymo perchennog safle i weithgarwch y cytunwyd arno, er enghraifft, fel y defnyddiwyd ar gyfer SDdGAau dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Gellid gorchymyn y perchennog i gyflawni gofynion y cytundeb dan oruchwyliaeth. Byddai’r awdurdod yn cyflawni’r gwaith pe na bai’r perchennog yn dymuno gwneud y gwaith, neu yn niffyg unrhyw gytundeb. Credai y gallai hyn fod yn ddull mwy cymodlon.
- 6.103 Dywedodd Keith Bush CF, a oedd hefyd yn credu y dylai’r ddyletswydd i sicrhau diogelwch y tir fod ar ysgwyddau’r perchnogion, gyda phwerau wrth gefn yn cael eu rhoi i’r awdurdod goruchwyllo i’w defnyddio i gyflawni gweithrediadau dim ond lle nad oedd y perchnogion “yn fodlon nac yn gymwys” i gyflawni’r gwaith, y byddai’r gweithrediadau’n cynyddu gwerth y tir mewn sawl achos.
- 6.104 Credai Stephen Smith ei bod yn rhy gynnar i roi barn heb wybod faint o domennydd a fyddai’n cael eu dynodi: “Os oes angen gwaith ar 200 o domennydd, yna mae hon yn dasg enfawr i un corff. Os mai dim ond 10 tomen (dywedwch), yna mae’n haws ei reoli”.

### **Problemau gyda pherchnogaeth**

- 6.105 Nododd CLILC fod rhai tomennydd mewn perchnogaeth luosog mewn rhai achosion. Pe bai’r ddyletswydd i wneud gwaith yn cael ei rhoi ar y perchennog, byddai angen bod yn ofalus o ran pwy oedd yn gyfrifol.
- 6.106 Tynnodd CLILC sylw hefyd at broblemau a allai godi pe bai’r tir yn cael ei werthu. Holasant a fyddai unrhyw gyfrifoldeb ariannol yn cael ei drosglwyddo i’r perchennog newydd, ac awgrymodd y gallai fod angen darpariaeth i wahardd gwerthu tir yn amodol ar orfodaeth neu anghydfod cyfreithiol:

Bydd angen osgoi unrhyw fylchau. Er enghraifft, gall perchennog preifat werthu’r tir ar ôl gwaith adfer. Wedyn mae angen i’r cwestiwn o gyfrifoldeb ariannol fod yn glir – a yw’n gyfrifoldeb ar y perchennog ar yr adeg y gwnaed y gwaith, neu a fyddai unrhyw rwymedigaethau’n cael eu trosglwyddo i’r perchennog newydd? Efallai y byddai’n werth ystyried y ddeddfwriaeth newydd sy’n gwahardd gwerthu unrhyw dir sy’n destun gorfodaeth neu achosion llys (efallai fod darpariaethau presennol eisoes yn eu lle ar gyfer hyn).

### **Prynant gorfodol**

- 6.107 Roedd Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf a Sioned Williams AS yn ystyried y sefyllfa lle’r oedd cost y gwaith adfer yn llawer mwy na modd perchennog tomen breifat i dalu amdano. Awgrymasant system prynu gorfodol i alluogi’r gwaith i gael ei wneud ar draul y cyhoedd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Credai Philip Thomas ei bod yn bwysig i’r tir gael ei ddychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod o fudd i’r gymuned gyfan.

6.108 Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai pwerau gorfodol yn galluogi'r awdurdod goruchwyllo i wneud gwaith sy'n ofynnol ar domen yn absenoldeb perchennog y gellir ei adnabod, yn hytrach na gorfod aros i ddibynnu ar bwerau brys i ymyrryd.

### Trafodaeth

6.109 Roedd yna gefnogaeth gref i'n cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen. Ond mae angen ystyried yn ofalus y rhesymau dros gefnogaeth gymwys neu dros anghytuno. Maent yn rhan o'r mater ehangach o "pwysu sy'n gwneud y gwaith" o dan y drefn newydd. Cyfyd y mater hwn hefyd wrth drafod y ddyletswydd i archwilio, cynnal asesiad risg a llunio cynllun rheoli tomennydd.<sup>170</sup>

6.110 Os bydd yr awdurdod goruchwyllo yn gwneud y gwaith, rydym yn cytuno y bydd hyn yn hyrwyddo dull amserol, cyson a dibynadwy. Mae'r rhain yn ffactorau sy'n cynyddu o ran pwysigrwydd wrth i'r risg a achosir gan y domen gynyddu. Felly rydyn ni'n credu mai dyma'r dull gorau ar gyfer tomennydd sydd â'r angen mwyaf i roi sylw iddyn nhw, ac y gallai fod yn llai priodol wrth i'r lefel risg leihau. Am y rheswm hwn, os yw'r meini prawf ar gyfer dynodi yn dewis y tomennydd hynny sy'n peri'r risg fwyaf neu sydd angen y math o waith adferol cymhleth a fyddai y tu hwnt i allu'r perchennog, rydym o'r farn mai'r awdurdod goruchwyllo ei hun ddylai wneud y gwaith hwn fel arfer.

6.111 Roedd materion cyllido, gan gynnwys atebolrwydd perchnogion i dalu am waith ac unrhyw asesiad o allu perchennog tomen i dalu, wedi dylanwadu'n gryf ar rai o'r ymatebion ond nid ydynt yn rhan o gwmpas y prosiect hwn. Mae'n wir bod tomennydd gafodd eu caffael ar ôl preifateiddio wedi cael eu trosglwyddo ynghyd â chyfamod i gadw'r domen mewn cyflwr da, neu eu bod wedi cael eu gwerthu am bris a oedd yn ystyried cost gwaith diogelwch.<sup>171</sup> Gallai hyn, fel yr awgrymir yn yr ymatebion, fod yn ffactor i'w ystyried wrth benderfynu sut y bydd y gwaith yn cael ei ariannu.

6.112 Rydym yn rhagweld, pan fydd yr awdurdod goruchwyllo yn penderfynu bod angen iddo wneud gwaith neu ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei wneud ar domen, y byddai, yn y lle cyntaf, yn ceisio dod i gytundeb tomen gyda perchennog y domen, y meddiannydd a phartïon perthnasol eraill. Byddai hyn yn cael ei ategu gan y pŵer i roi gorchymyn tomen os na cheir cytundeb neu os na fydd cytundeb yn cael ei gyflawni. Yn achos tomen ddynodedig, byddai'r cytundeb yn debygol o ddarparu i'r awdurdod goruchwyllo wneud y gwaith. Mae cytundeb a phwerau rhoi gorchymynion yr awdurdod goruchwyllo wedi cael eu harchwilio'n fanylach ym mhennod 5.

6.113 Er mai'r rhagdybiaeth fyddai y dylai'r awdurdod goruchwyllo ymgymryd â gwaith o gymhlethdod sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â thomen ddynodedig, byddai hefyd yn bosibl i'r cytundeb ddarparu i'r gwaith gael ei gontractio allan i gyrff addas, neu i'r perchennog, neu i berchnogion lluosog wneud y gwaith eu hunain. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, lle mae'r Awdurdod Glo neu'r awdurdodau lleol yn berchen ar y domen. Ym mhennod 9 rydym yn ystyried y potensial i gytundebau o'r fath gynnig dull mwy hyblyg na'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei ddarparu ar gyfer

---

<sup>170</sup> Gweler pennod 4 uchod.

<sup>171</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 3.17 i 3.23.

materion fel cyfrannu at gost gwaith diogelwch tomen. Yn ychwanegol at nodi'r gwaith sydd i'w wneud, gallai'r cytundebau gynnwys darpariaethau sy'n rheoleiddio gweithgareddau neu ddatblygiadau ar y domen a allai fod yn niweidiol i ddiogelwch tomennydd. Gallent hefyd fynnu bod perchnogion a phreswylwyr yn adrodd am unrhyw newidiadau i domen a allai effeithio ar ddiogelwch.<sup>172</sup>

- 6.114 Nid ydym yn cytuno â dull gweithredu sy'n gosod y brif ddyletswydd i weithio ar domennydd dynodedig ar y perchennog, gyda'r awdurdod goruchwyllo yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dim ond pan fo'r perchennog yn methu. Rydym yn cydnabod y gellid creu llawer o waith na ellir ei reoli ar gyfer yr awdurdod, ond dim ond os yw'r categori tomen ddynodedig yn anorchfygol o fawr. Os yw'r grŵp yn ymdrin â'r tomennydd hynny sydd â'r angen mwyaf am waith yn unig, credwn y gallai'r baich fod yn un y gellid ei reoli, yn enwedig ar y cyd â phwerau i gontractio'r gwaith allan a dod i gytundeb gyda pherchnogion addas. Hyd yn oed petai'r dynodiad yn cwmpasu'r holl domennydd gradd D ar hyn o bryd (71, neu oddeutu 3% o'r holl domennydd) credwn y gallai hyn fod yn faich gwaith y gellir ymdopi ag ef i'r awdurdod newydd.<sup>173</sup>
- 6.115 Nodwn y pryderon a fynegwyd ynghylch problemau a allai godi pe bai tir sy'n cynnwys tomen ddynodedig yn cael ei werthu. Rydym yn trafod trosglwyddo rhwymedigaethau o dan gytundebau a gorchmynion tomennydd ym mhennod 5.<sup>174</sup> Rydym hefyd yn trafod prynu gorfodol ym mhenodau 5 a 12.<sup>175</sup>
- 6.116 Yn unol â hynny, rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen ar gyfer y domen benodol. Er y dylai hyn fod yn rhagdybiaeth pan fo tomen wedi'i dynodi, dylai'r awdurdod goruchwyllo hefyd fod â phwerau i gontractio'r gwaith hwn yn allanol neu ddod i gytundeb lle bo hynny'n briodol i'r perchennog neu'r meddiannwr wneud y gwaith.

---

<sup>172</sup> Gweler paragraff 5.28 uchod.

<sup>173</sup> Daw'r ffigurau hyn o'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021, ac maent yn seiliedig ar gyfanswm o 2,456 o domennydd wedi'u cofnodi: gweler <https://gov.wales/coal-tip-safety#section-72291>.

<sup>174</sup> Gweler paragraffau 5.77 i 5.84 uchod.

<sup>175</sup> Gweler paragraffau 5.19, 5.32 a 5.84 uchod a pharagraff 12.25 isod. I gael cyfrif o'r pwerau prynu gorfodol sydd ar gael i awdurdodau caffael (cyrff a awdurdodir drwy statud i gaffael tir drwy orfodaeth at ddiben penodol), er enghraifft, o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a Deddf Caffael Tir 1981, gweler Prynau Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)', cylchlythyr 003/2019, Hydref 2020, [https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/compulsory-purchase-in-wales-and-the-crichel-down-rules-wales-version-2020-circular-0032019\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/compulsory-purchase-in-wales-and-the-crichel-down-rules-wales-version-2020-circular-0032019_0.pdf) Gweler hefyd Ymchwil y Senedd, The Planning Series: 15 – Compulsory Purchase Orders, March 2021, <https://senedd.wales/media/ehpcjme/the-planning-series-15-compulsory-purchase-orders.pdf>



### **Argymhelliad 27.**

6.117 Rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen.

6.118 Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer i gontractio'r gwaith hwn allan neu ddarparu mewn cytundeb tomen i berchennog neu feddiannydd y domen wneud y gwaith pan fo'n briodol gwneud hynny.

### **Argymhelliad 28.**

6.119 Rydym yn argymhell y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gwaith ar domennydd dynodedig, p'un ai gan yr awdurdod goruchwyllo neu berchennog neu feddiannydd y domen, drwy gytundeb neu orchymyn tomennydd.

## Pennod 7: Diffiniadau

- 7.1 Mae prif elfennau trefn reoleiddio newydd wedi'u nodi yn y penodau blaenorol. Ni ellir deall eu cwrpas a'u heffaith yn llawn heb archwilio sut y bydd y drefn yn diffinio dau gysyniad pwysig: "tomen" a "perchennog tomen". Bydd y bennod hon yn ystyried y ddau ddiffiniad o dan y fframwaith rheoleiddio newydd.

### DIFFINIAD O DOMEN

- 7.2 Mae tomen wedi'i diffinio yn Rhan 2 Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 fel a ganlyn:

croniad neu ddyddodiad sbwriel o gloddfa neu chwarel (boed mewn cyflwr solet neu mewn toddiant neu ddaliant) ac eithrio cronriad neu ddyddodiad sydd wedi'i leoli o dan y ddaear, a phan fo unrhyw wal neu strwythur arall yn cynnal neu'n cyfyngu'r domen, yna, p'un a yw'r wal neu'r strwythur hwnnw ei hun yn cynnwys sbwriel ai peidio, bernir bod hynny'n ffurfio rhan o'r domen at ddibenion y Rhan hon.<sup>176</sup>

- 7.3 Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i hen domennydd. O dan Ran 2, roedd tomen anweithredol yn gysylltiedig â mwynglawdd neu chwarel sydd wedi cael ei gadael.<sup>177</sup>

- 7.4 Fel yr esboniwyd yn y papur ymgynghori, disodlwyd y drefn ar gyfer tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol a gynhwyswyd yn wreiddiol yn Neddf 1969 gan Reoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014. Mae'r diffiniadau o domen a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yn wahanol i ddiffiniad Deddf 1969, gan gynnwys cyfeiriadau penodol at sbwriel mewn "cyflwr hylifol" ac at domennydd wedi'u gorlwytho, ôl-lenwi, tomennydd gwastraff, pentyrrau o stoc a lagwnau.<sup>178</sup> Mae Rheoliadau 2014 yn diffinio awgrym fel a ganlyn:

cronriad neu ddyddodiad o unrhyw wastraff o fwynglawdd (boed mewn cyflwr solid neu hylif neu mewn toddiant neu ddaliant) ac eithrio cronriad neu ddyddodiad sydd wedi'i leoli o dan y ddaear, ac mae'n cynnwys (a) twmpathau wedi eu gorlwytho, ôl-lenwi, tomennydd gwastraff, pentyrrau o stociau a lagwnau, a (b) unrhyw wal neu strwythur arall sy'n cynnal neu'n cyfyngu ar domen.<sup>179</sup>

---

<sup>176</sup> Cafodd y diffiniad ei gynnwys yn wreiddiol yn Neddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 2, ond cafodd ei symud i adran 11 pan ddiddymwyd adran 2 gan Reoliadau Mwynfeydd 2014. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.31 a 10.9.

<sup>177</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.36.

<sup>178</sup> Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliadau 2(1) a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 2. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.64, 4.74 a 10.9.

<sup>179</sup> Mae'r diffiniad yn y Rheoliadau Chwareli 1999 yr un fath ar wahân i gyfeiriad at Gronriad neu ddyddodiad o "unrhyw sylwedd mewn chwarel" a rhai gwahaniaethau o ran gosodiad. Mae'r diffiniad o chwarel yn cynnwys mwyngloddiau brig.

- 7.5 Rydym wedi argymhell yn yr adroddiad hwn y dylai'r cyfundrefnau yn y Rheoliadau 1999 a 2014 barhau i fod yn berthnasol i domennydd glo sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.<sup>180</sup> Am y rheswm hwnnw rydym hefyd wedi argymhell y dylid, ar hyn o bryd, mynegi nad yw'r ddeddfwriaeth newydd yn berthnasol i domennydd y mae'r Rheoliadau 1999 a 2014 yn berthnasol iddynt.<sup>181</sup>
- 7.6 Roedd ein papur ymgynghori yn egluro, oni bai y byddai unrhyw ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r prosiect hwn yn cael ei hymestyn i gynnwys pob math o wastraff mwynglawdd a chwarel, y byddai'r ddeddfwriaeth yn gofyn am ddiffiniad o domen lo. Yr oeddem yn cydnabod mai Cwnsleriaid Deddfwriaethol fyddai'n gyfrifol am fanylion y drafftio, ond yr oeddem yn cydnabod y byddai deddfwriaeth o'r math hwn yn defnyddio terminoleg sy'n fwy cyfarwydd i'r rhai yn y diwydiant mwyngloddio nag i gyfreithwyr. Gofynnwyd am farn ynghylch a ellid fframio diffiniad boddhaol drwy ddisodli'r cyfeiriad at "gwastraff o lofa neu chwarel" yn adran 11 Deddf 1969 gyda geiriau fel "gwastraff o gloddio glo". Gofynnwyd hefyd ac a oedd angen cyfundrefn ar gyfer tomennydd anweithredol i gynnwys cyfeiriad at domennydd gorlwyth, ôl-lenwi, tomennydd gwastraff, pentyrrau stoc a lagwnau.<sup>182</sup>

**Cwestiwn Ymgynghoriad 2: Rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a allai diffiniad derbyniol o domen lo anweithredol gyfeirio at wastraff o fwyngloddio glo ac a ddylai gynnwys cyfeiriad penodol at domennydd gorlwyth, ôl-lenwad, tomennydd gwastraff, twmpathau stoc a lagwnau.**

- 7.7 Atebodd pedwar deg saith o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd bron pob un (45 neu 96%) o blaid fersiwn estynedig o'r diffiniad a oedd yn cynnwys y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau penodol. Rhoddwyd gwahanol resymau. Roedd gan rai awgrymiadau ar gyfer elfennau ychwanegol. Nid oedd dau ymatebydd o blaid ychwanegu'r cyfeiriadau penodol, er eu bod yn cytuno â diwygio'r diffiniad i gyfeirio at "wastraff o byllau glo". Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i ddatgan yr achos dros ymestyn y drefn reoleiddio arfaethedig y tu hwnt i domennydd glo i fathau eraill o wastraff mwyngloddio a chwarela. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried ym mhennod 12 isod.

**Rhesymau dros ychwanegu manylion at y diffiniad**

- 7.8 Roedd ymatebwyr fel Cymdeithas Ddaearegol Prydain, CLILC ( Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a llawer o awdurdodau lleol yn dadlau y byddai cynnwys y manylion arfaethedig yn y diffiniad yn ychwanegu eglurder ac yn hyrwyddo diogelwch. Eglurodd Cymdeithas Ddaearegol Prydain:

Po fwyaf eglur yw'r mathau o wastraff mwynglawdd, y mwyaf yw'r potensial i asesu'r goblygiadau ar gyfer sefydlogrwydd, er enghraifft drwy arwain yr hydroleg yn y gwastraff.

<sup>180</sup> Gweler paragraff 1.69 uchod.

<sup>181</sup> Gweler paragraff 1.70 uchod.

<sup>182</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.11.

7.9 Credai Sir Fynwy y gallai cynnwys nodweddion ehangach yn y diffiniad helpu i sicrhau bod y nodweddion yn cael eu hystyried mewn cynlluniau arolygu a chynnal a chadw yn y dyfodol.

7.10 Roedd ymatebion eraill yn canolbwyntio ar yr angen am ddiffiniad cadarn i leihau anghydfodau a sicrhau nad yw tirlfeddianwyr yn gallu osgoi cyfrifoldeb. Dywedodd Paul Connolly y dylai'r diffiniad:

fod mor gyfarwyddol â phosibl i ymgorffori cynifer o senarios a mathau o domennydd ag y bo modd. Bydd hyn yn helpu i egluro'n union pa fathau o hen domennydd y cyfeirir atynt mewn deddfwriaeth ac yn eu tro pwy sy'n gyfrifol am eu diogelwch.

7.11 Nododd yr Athro Bob Lee fod y diffiniad estynedig yn y Rheoliadau 1999 a 2014 yn cynnwys datganiad nad yw'r diffiniad "yn gyfyngedig" i'r nodweddion hyn. Gwelodd cynnwys y term fel rhywbeth gwerth chweil:

Gellid dadlau nad yw'r datganiad nad yw'r diffiniad wedi'i gyfyngu i fathau penodol o seilwaith ... yn angenrheidiol er mai effaith hyn, mewn gwirionedd, yw rhoi o'r neilltu unrhyw ddadleuon bod twmpathau gorlwyth, ôl-lenwi, tomennydd gwastraff, pentyrrau stoc a lagwnau wedi'u heithrio rywsut ac o ystyried, er enghraifft, effeithiau dŵr ôl-lenwi, tomennydd gwastraff a lagwnau, er budd yr amgylchedd ehangach, efallai y byddai'n gwneud synnwyr cadw'r fformiwleiddio hwn.

7.12 Holodd Keith Bush CF a oedd unrhyw dystiolaeth bod y diffiniad yn Rhan 2 Deddf 1969 yn annigonol, neu unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y diffiniad hwnnw a'r diffiniad estynedig yn y Rheoliadau 2014. Credai, yn absenoldeb cyngor technegol bod angen gwahaniaethu rhwng y ddwy gyfundrefn, mai'r rheswm mwyaf cymhellol dros fabwysiadu'r diffiniad estynedig oedd y byddai'n sicrhau bod y drefn reoleiddio ar gyfer hen domennydd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei gymhwyso i domennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol:

Mae yna ddadl amlwg dros fabwysiadu, ar gyfer deddfwriaeth newydd, yr un diffiniad ag sydd yn Rheoliadau 2014. Fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, gall ymddangos bod y mathau o domen sy'n cael eu rheoleiddio pan fydd mwynglawdd yn weithredol newid pan fydd y fwynglawdd yn peidio a gweithredu, ac onibai fod yr argraff honno'n un fwriadol dylid cael gwared ohoni.<sup>183</sup>

### **Pryderon am y diffiniad arfaethedig**

7.13 Rhybuddiodd Jane Iwanicki fod yn rhaid bod yn ofalus wrth gynnwys cyfeiriadau penodol, oherwydd gall hyn "arwain at ddiffiniad nad yw'n hollgynhwysfawr neu'n anfwriadol yn cynnwys nodweddion nad ydynt yn rhwymedigaethau posibl". Esboniodd, er enghraifft:

Yn hanesyddol, mae "gwastraff glo" wedi cael ei ddefnyddio fel deunydd adeiladu sydd ar gael yn rhwydd, er enghraifft i wneud argloddiau ffyrdd a gwelyau rheilffyrdd mwynol. Hefyd, roedd "mwyngloddio glo" yn aml yn cynnwys echdynnu mwynau

---

<sup>183</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

masnachol eraill (er enghraifft clai tân a chlai brics) a fyddai wedi cyfrannu at y rwbel.

- 7.14 Rhoddodd Howard Siddle wybodaeth hefyd am fathau o domennydd na ellir eu gwahaniaethu'n weledol oddi wrth domennydd o gloddio glo yn unig "sy'n cynnwys deunydd siâl yn bennaf ... a ffurfiwyd o gloddio'n helaeth am gnepynnau haearn ar gyfer gwaith haearn cynnar a gweithfeydd craigbridd llai ar gyfer gwneud brics".<sup>184</sup> Eglurodd fod tomennydd o'r fath yn gyffredin ar hyd rhan ogleddol maes glo De Cymru (yn enwedig mewn ardaloedd fel Blaenafon, Merthyr ac Aberdâr) lle maen nhw'n frith o domennydd gwastraff glo. Credai y gallai fod angen ymchwil helaeth i brofi'n ddigamsyniol bod ffynhonnell y gwastraff yn y tomennydd hyn yn dod o'r pyllau glo, er bod gan y tomennydd yr un problemau diogelwch. Awgrymodd ddiffiniad amgen ar gyfer tomen anweithredol:

Dyddodiad a ffurfiwyd drwy waredu deunyddiau gwastraff uwchlaw'r ddaear sy'n deillio o gloddio glo a mwynau cysylltiedig gan gynnwys haearn a chraigbridd ond heb gynnwys tywodfaen.

Eglurodd y byddai defnyddio'r term "echdynnu" yn cynnwys clytiau ac y byddai "eithrio tywodfaen" yn eithrio chwareli tywodfaen Pennant.

- 7.15 Nododd Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt) hefyd fod llawer o domennydd yn Ne Cymru yn gysylltiedig â chloddio haearn neu gyfuniad o lo a haearn. Cyfeiriodd Steve Harford at y llu o gloddfeydd drifft bach yn Ne Cymru a allai fod wedi trin llwch coch neu fwyn haearn yn ogystal â glo.
- 7.16 Credai Stephen Smith y dylid egluro "gwastraff pyllau glo", ac awgrymodd ychwanegu cyfeiriad at "fwynglawdd" fel "gwaith tanddaearol wedi'i wasanaethu gan siafft neu geuffordd".
- 7.17 Roedd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn credu ei bod yn fwy priodol alinio'r diffiniad â diffiniad y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio, lle mae tomennydd glo yn gyfleusterau gwastraff mwyngloddio glo. Gan fod y Gyfarwyddeb Gwastraff Cloddio'n diffinio cyfleuster gwastraff mwyngloddio fel "unrhyw ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer cronni neu ddyddodi gwastraff echdynnol", awgrymwyd y gallai diffiniad priodol fod yn "unrhyw ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer cronni neu ddyddodi gwastraff cloddio glo echdynnol".
- 7.18 Awgrymodd Lee Jones y dylid cynnwys diffiniad o "fwyngloddio". Gallai hyn ymestyn i archwilio'r pyllau glo er mwyn cynnwys y rwbel a gynhyrchir gan y gweithgarwch hwn, pe na bai'r gwaith o gynhyrchu glo yn mynd yn ei flaen ar ôl archwilio.
- 7.19 Credai Ove Arup a Phartneriaid Ltd y dylai'r diffiniad, er mwyn bod yn gyflawn, gynnwys cyfeiriad at y gwahanol fathau o wastraff y gallai tomennydd eu cynnwys. Mae hyn yn cynnwys gwastraff glo solet, siâl a phriddoedd a chreigiau naturiol eraill, yn ogystal â gronynnau mân o, er enghraifft, offer a lagwnau golchi. Awgrymodd Dr Tom St John y dylid is-gategoreiddio lle bo'n bosibl er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfansoddiad y domen.

---

<sup>184</sup> Craigbridd yw'r haen o graig sydd o dan gwythien lo.

- 7.20 Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r diffiniad o domen fod yn amodol ar faint gofodol neu ddyfnder penodol. Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan yr Athro Bob Lee wrth drafod cynhwysiant ar y gofrestr. Teimlai ei bod yn bwysig nodi a fyddai dyddodion *de minimis* o wastraff glo yn cael eu cynnwys yn y diffiniad. Tynnodd Dr Peter Brabham, mewn cysylltiad â'r ddyletswydd arfaethedig ar dirfeddiannwr i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo ynghylch presenoldeb tomen, sylw at y miloedd o domennydd bach sy'n gysylltiedig â mynedfeydd gloddfeydd unigol yn Ne Cymru. Awgrymodd, ynghyd â Philip Thomas, y dylid eithrio tomennydd o dan faint penodol.<sup>185</sup>
- 7.21 Credai Dr Peter Brabham fod y term "tomen" yn rhy generig ac y dylid ei rannu'n categorïau fel a ganlyn: "tomen greiriol fel y mae wedi'i chreu / creiriol ond ar ryw adeg yn domen wedi ei hadfer / pentyrrau stoc / argaeau / lagwnau sorod".

### Ymestyn y drefn i weddillion eraill pyllau glo gadawedig

- 7.22 Credai rhai ymatebwyr, gan gynnwys Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf, y dylai'r drefn reoleiddio fod yn berthnasol nid yn unig i domennydd ond i agweddau eraill ar byllau glo segur. Nododd Grŵp Plaid Cymru fod peryglon ansefydlogrwydd hefyd yn deillio o ansefydlogrwydd gweithio o dan y ddaear a chwareli, yn aml yn agos at y tomennydd.
- 7.23 Disgrifiodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo y risgiau sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau glo brig segur heb eu hadfer neu sydd wedi'u hadfer yn rhannol, er enghraifft Margam a Phwll y Dwyrain, i egluro pam y dylid eu cynnwys yn y drefn:

Mae ceudyllau agored yn berygl diogelwch mewn ffyrdd nad ydynt yn cael eu cynnwys o dan y diffiniad hwnnw o domennydd glo. Er enghraifft, gall gwythiennau glo agored achosi i lwch glo gael ei gario yn y gwynt ac mae'r ochrau serth hefyd yn gallu bod yn berygl i anifeiliaid a phobl gydag arwyddion a ffensys gwael yn atalyddion aneffeithiol – ond ni fyddai hynny'n cyd-fynd â'r diffiniad hwn o domennydd glo.

- 7.24 Awgrymodd Dr John Perry y dylid cynnwys 'gweithfeydd glo segur'. Nododd mai un o effeithiau newid yn yr hinsawdd yw bod hen weithfeydd yn wynebu mwy o berygl o lifogydd ac o achosi difrod i'r gymuned.
- 7.25 Credai Cymdeithas y Gyfraith y byddai'n ddefnyddiol defnyddio unrhyw newid yn y gyfraith fel cyfle i egluro atebolrwydd yr Awdurdod Glo i "archwilio a gweithredu mewn perthynas â gweithfeydd tanddaearol a siafftau". Nododd yr Athro Thomas Watkin y cyfyngiadau ar gylch gwaith y prosiect presennol, ond anogodd fod angen mynd ymhellach drwy ymestyn atebolrwydd yr Awdurdod Glo yn y meysydd hyn.<sup>186</sup>

---

<sup>185</sup> Gweler paragraffau 3.57, 3.62 a 3.95 uchod.

<sup>186</sup> Mae oddeutu 173,500 o fynedfeydd mwyngloddiau ym Mhrydain Fawr wedi'u cofnodi yn archif yr Awdurdod Glo. Mae'r Awdurdod Glo yn amcangyfrif bod gweithfeydd glo dan ddaear a thwneli yn ymestyn dros 26,000 cilomedr sgwâr. Mae dyletswyddau'r Awdurdod Glo o dan Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 i reoli'r dŵr sy'n cael ei ollwng o byllau glo, a'r dyletswyddau o dan Ddeddf Ymsuddiant Glofaol 1991 i gymryd camau unioni mewn perthynas â difrod ymsuddiant a achosir gan dynnu cymorth o dir o ganlyniad i gloddio glo, yn cael eu trafod ym Mhapur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021), paragraff 9.104 a 9.105.

## Elfennau na ddylid eu cynnwys yn y diffiniad

- 7.26 Dywedodd Bob Leeming nad yw “pentyrrou stoc” fel arfer yn wastraff, ac y byddant yn gysylltiedig â chwarel neu gloddfa weithredol, gan eu bod o dan y rheoliadau presennol ar gyfer tomennydd sy’n gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol. I’r gwrthwyneb, credai Dr Tom St John y dylai’r diffiniad gynnwys pentyrrou unrhyw gynnyrch daearegol o’r broses cloddio glo.
- 7.27 Roedd CLA Cymru o’r farn na ddylid cynnwys môr-lynoedd, gan eu bod yn unigryw ac yn achosi eu problemau eu hunain. Roedden nhw’n awgrymu eu gosod o dan drefn y cronfeydd dŵr neu set bwrpasol o reolau. Roedden nhw’n cwestiynu faint o forlynoedd anweithredol sydd yn bodoli o hyd. Fodd bynnag, pwysleisiodd Dr John Perry yr angen i gynnwys morlynoedd:

Mae morlynoedd yn beryglus dros ben gan eu bod yn dueddol o fethu ac yn rhyddhau llawer iawn o ddŵr halogedig a silt.

## Cydweithredu

- 7.28 Cyfeiriodd ALGAO at y gwaith presennol ar derminoleg safle a wneir gan sefydliadau sy’n gyfrifol am gadw cofnodion archeolegol yn y DU i sicrhau cysondeb:

Mae’r rhain yn cynnwys termau ar gyfer mathau o nodweddion diwydiannol unigol a thermau cyffredinol ar gyfer safleoedd cyfun neu safleoedd grŵp. Er nad yw’r gwaith hwn wedi’i wneud gyda’r bwriad o hysbysu deddfwriaeth, efallai y bydd modd defnyddio geirfa gyfredol o dermau a diffiniadau dwyieithog. Efallai y gall Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a swyddogion Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol roi cyngor ar addasrwydd y termau hyn i’w defnyddio yn y fframwaith newydd.

## Trafodaeth

- 7.29 Cynigiwyd dadleuon cryf gan ymatebwyr i gefnogi diffiniad estynedig o domen. Roeddem yn credu bod dadl Keith Bush CF y dylid cadw’r diffiniad yn unol â’r tomennydd sy’n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol, yn arbennig o gryf. Rydym yn cytuno y dylid mabwysiadu’r diffiniad estynedig, ac y dylai gynnwys darpariaeth na fydd y diffiniad “wedi’i gyfyngu” i’r nodweddion a restrir. Bydd hyn yn sicrhau nad yw’r nodweddion a restrir yn cael eu trin fel rhai hollgynhwysfawr.
- 7.30 Nid ydym wedi’n darbwyllo y dylid eithrio unrhyw elfennau o’r diffiniad ehangach. Deallwn fod pentyrrou stoc yn gysylltiedig â phyllau glo gweithredol, ond mae posibilrwydd o hyd y gellid gadael rhai ohonynt ar ôl ar yr adeg y caiff cloddfa ei chau. Mae arbenigwyr yn y maes wedi dweud wrthym hefyd fod môr-lynoedd yn dal yn risg. Mae’r papur ymgynghori yn ystyried y farn bod eu cynnwys yn y diffiniad o domen yn well na’u cynnwys yn y gyfundrefn cronfeydd dŵr.<sup>187</sup> Nid oes gennym yr arbenigedd technegol i wneud sylwadau pellach.

---

<sup>187</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.56 i 9.60.

- 7.31 Credwn na fydd cyfeiriad yn y diffiniad presennol at “groniad neu ddyddodiad gwastraff” yn naturiol yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae gwastraff tomennydd wedi cael ei ail-ddefnyddio fel deunydd adeiladu, ond y gallai fod rhinwedd mewn nodi hyn.
- 7.32 Bydd yn bwysig sicrhau bod y diffiniad o domen yn cynnwys gwastraff o gloddfeydd brig. Am y rheswm hwn, efallai y bydd angen diffinio “gwastraff o gloddio glo” yn well. Mae “mwynglawdd” fel y’i diffinnir yn y Rheoliadau 2014 yn cyfeirio at weithio o dan y ddaear. Mae mwyngloddiau brig yn dod o dan y Rheoliadau 1999, gan nad yw mwyngloddiau brig yn cynnwys pobl sy’n gweithio o dan y ddaear.<sup>188</sup> Un ateb posibl fyddai defnyddio dull y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio, sy’n ymdrin â gwastraff “sy’n deillio o chwilio, echdynnu, trin a storio adnoddau mwynol”.<sup>189</sup> Gellid addasu hyn i gyfeirio at “glo” yn hytrach nag “adnoddau mwynol”.
- 7.33 Rydym yn cytuno â’r awgrym y dylid cynnwys “mwynau cysylltiedig” hefyd, wedi’u diffinio i gynnwys haearnfaen a chraigbridd, ond heb gynnwys tywodfaen, am y rhesymau a roddir yn ymatebion Howard Siddle a Jacobs. Byddai hyn yn sicrhau, lle mae glo yn gymysg â’r mwynau hyn, na chaiff y domen ei heithrio ar sail dechnegol os bydd sampl yn dangos presenoldeb y mwynau eraill yn hytrach na’r glo.<sup>190</sup> Fel arall, nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol, at ddibenion y diffiniad cyfreithiol o domen, rhestru’r mathau eraill o wastraff y gallai tomen lo eu cynnwys, nac y dylid categorioedd tomennydd ymhellach yn fathau o domennydd. Credwn y byddai hyn yn ychwanegu lefel ddiangen o gymhlethdod.
- 7.34 Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch yr angen am drothwy maint er mwyn eithrio cronladau bach o wastraff o’r diffiniad o domen o dan y drefn reoleiddio. Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddatblygu trothwy sy’n dderbyniol yn dechnolegol. Nid oes gennym yr arbenigedd technegol i gynnig barn ar y gwahanol opsiynau. Ein prif bryder yw, gan y bydd manylebau maint yn fater technegol, y gallai fod yn anodd i berchennog tomen anweithredol gymhwyso hynny. Rydym o’r farn, yn niffyg diffiniad mwy manwl, na fydd “croniad neu ddyddodiad” yn ymestyn i symiau ansylweddol o wastraff glo.<sup>191</sup>
- 7.35 Rydym yn nodi pryderon am risgiau a achosir gan agweddau eraill ar byllau glo segur, ac awgrymiadau y dylid ymestyn y drefn reoleiddio newydd y tu hwnt i domennydd i

<sup>188</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.74.

<sup>189</sup> Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd a Chyngor Ewrop dyddiedig 15 Mawrth 2006, erthygl 2. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.4.

<sup>190</sup> Deallwn gan Lywodraeth Cymru, at ddibenion casglu data ers mis Chwefror 2020, fod tomennydd sy’n cynnwys cyfuniad o wastraff glodfeydd a gweithgareddau cloddio cysylltiedig eraill yn cael eu cofnodi fel tomennydd glo. Mae’r dull hwn wedi cael ei fabwysiadu oherwydd bod nifer o domennydd sy’n cynnwys deunydd gwastraff nad yw’n lo’n unig, fel arfer oherwydd hanes cymhleth ar y safle. Dim ond pan fydd tystiolaeth i gefnogi’r potensial tebygol i ddeunydd ddeillio o weithgareddau cloddio glo y defnyddir y dull hwn, ac felly ni fyddai’n cynnwys, er enghraifft, tomennydd lle mai’r unig fwyn y gwyddys ei fod wedi cael ei gloddio yw haearnfaen.

<sup>191</sup> Ym mharagraff 3.95 uchod, rydym yn trafod dyletswydd tirlfeddiannwr i roi gwybod am fodolaeth tomen yn achos dyddodiad ansylweddol. Defnyddiwyd trothwy maint yn Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) SI 1971 Rhif 1377 (nad ydynt mewn grym mwyach) i nodi’r tomennydd “wedi’u dosbarthu” sy’n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol sydd angen trefn ddiogelwch well: gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, 4.33.



gynnwys y rhain. Mae'r rhain y tu allan i gwmpas ein prosiect. Mewn rhai achosion, bydd y gwaith o reoleiddio'r nodweddion hyn yn dod o dan ddeddfwriaeth arall, er enghraifft y drefn tir halogedig, neu'n dod o dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Glo.<sup>192</sup> Bydd unrhyw estyniad neu newid i ddyletswyddau'r Awdurdod Glo, fel awdurdod a gedwir, yn codi materion anodd sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd.<sup>193</sup> Yn ogystal, er bod diogelwch tomennydd glo, yn ein barn ni, yn dod o dan gymhwysedd datganoledig, mae glo ei hun, gan gynnwys perchenogi a defnyddio glo, cloddio glo dwfn a brig, ymsuddiant sy'n gysylltiedig â glo, a gollwng dŵr o byllau glo, yn fater a gedwir.<sup>194</sup>

- 7.36 Wrth ddrafftio'r diffiniad i'w gymhwyso gan y drefn reoleiddio newydd, efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddrafft wyr ystyried y diffiniadau a ddefnyddir gan Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a swyddogion Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol er mwyn cysondeb.<sup>195</sup>
- 7.37 Nid ydym yn gwneud argymhelliad ffurfiol ar fater o ddrafftio deddfwriaethol ond rydym o'r farn y gallai diffiniad boddhaol o domen lo anweithredol gyfeirio at wastraff sy'n deillio o chwilio, echdynnu, trin a storio glo a mwynau cysylltiedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, domennydd gorlwyth, ôl-lenwi, twmpathau gwastraff, pentyrrau stoc a lagwnau.

## DIFFINIAD O BERCHENNOG TOMEN

- 7.38 Mae'r diffiniad o berchennog at ddibenion Deddf 1969 yn cynnwys: rhydd-ddeiliad nad yw wedi rhoi les; tenant sydd wedi cael tenantiaeth am gyfnod o unrhyw hyd, ar yr amod bod gan y cyfnod, ar y dyddiad perthnasol, o leiaf blwyddyn ar ôl; a rhydd-ddeiliad sy'n dal ôl-feddiant les sydd, ar y dyddiad perthnasol, â llai na blwyddyn ar ôl.<sup>196</sup> Fe wnaethom egluro yn ein papur ymgynghori fod effaith y ddarpariaeth hon ar

---

<sup>192</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.32.

<sup>193</sup> Gweler paragraffau 2.60 a 2.61 uchod.

<sup>194</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.73. Deddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 7A. Mae adran D3 yn cadw glo yn benodol, gan gynnwys: (1) perchnogaeth a ecsplotio glo; (2) cloddio glo brig a dwfn; (3) ymsuddiant sy'n ymwneud â chloddio glo; a (4) gollwng dŵr o byllau glo. Mae adfer tir wedi'i eithrio'n benodol o'r mater a gedwir.

<sup>195</sup> Y term sy'n cael ei ffafrio ar gyfer tomennydd glo (neu domen sbwriel) yn *Thesaurus of Monument Types in Wales* yw tomen sbwriel, sy'n cael ei diffinio fel "a conical or flat-topped tip of waste discarded from a mine or similar site": <https://heritagedata.org/live/schemes/10/concepts/69386.html>. Mae hyn yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir yn Lloegr ac a ddiffinir gan Historic England/ Forum for Information Standards in Heritage (FISH): <https://heritagedata.org/live/schemes/ehátmt2/concepts/69386.html>. Mae'r Thesawrws yn cael ei reoli gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru o dan nawdd y Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion Cysylltiedig ag Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru, ac ar ran Partneriaid y Fframwaith Strategol. Mae'r rhain yn cynnwys Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'r sefydliadau partner i gyd yn defnyddio'r derminoleg yn eu setiau data.

<sup>196</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adran 36(3)(a). Mae'r term "ôl-feddiant" yn cyfeirio at reoli'r tir sy'n dychwelyd i'r rhydd-ddeiliad pan ddaw les i ben. Er mwyn cadw pethau'n syml, mae hyn yn tybio nad oes les oedd rhyngol. Gallai lesddeiliad rhyngol fod yn "berchennog" pan oedd gan ei brydles fwy na blwyddyn ar ôl a phan oedd gan is-les lai na hynny. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.42 a 10.15. Ein safbwynt dros dro oedd y byddai ein cynigion yr un mor briodol ar gyfer les oedd rhyngol.

lesddeiliaid byr yn cael ei lliniaru gan bŵer y llys i orchymyn cyfraniad. Ond mae'r pŵer hwn yn ddewisol, sy'n gwneud lesddeiliaid yn ansicr ynghylch hyd a lled eu rhwymedigaethau oni bai eu bod wedi'u cynnwys mewn cytundeb.<sup>197</sup>

- 7.39 Ein barn dros dro oedd y dylai'r gyfraith ddarparu mwy o sicrwydd drwy gyfeirio atebolrwydd at y person sydd, mewn termau economaidd, yn berchennog y tir sy'n cynnwys tomen. Roeddem yn credu y byddai hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod pobl sy'n caffael buddiannau mewn tir sy'n cynnwys tomen yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y cynllun newydd ac yn gyffredinol, a'u bod yn gallu trefnu yswiriant priodol.<sup>198</sup> Roedd ein papur ymgynghori yn holi am y posibilrwydd y gallai atebolrwydd godi mewn perthynas â'r ddyletswydd i hysbysu am fodolaeth tomen anghofrestredig. Ystyriodd hefyd atebolrwydd posibl mewn perthynas â phwerau i ymrwymo i gytundeb gyda neu roi gorchymyn i berchennog neu i godi treuliau ar berchennog.<sup>199</sup>
- 7.40 Yn gyntaf, roeddem wedi ystyried sut i benderfynu a yw rhywun yn dal les ar dir fel perchennog yn hytrach na rhentwr. Nodwyd gennym nad oedd barn bendant. Un dangosydd yw a oes gan berson gyfran ariannol yn y tir fel ased cyfalaf, neu a yw ond yn talu swm cyfnodol ar gyfer meddiannu neu ddefnyddio'r tir, gyda'r gwerth cyfalaf yn aros gyda'r rhydd-ddeiliad. Mewn unrhyw achos unigol, gall telerau'r les oleuo'r mater: yn gyffredinol, nid oes gwerth cyfalaf i les ar rent marchnadol llawn; ar y llaw arall, bydd les a roddir am breimiwm ynghyd â rhent tir isel yn aml yn ased y gellir ei werthu, yn debycach i berchnogaeth. Po hiraf yw les o'r fath, y mwyaf yw ei gwerth cyfalaf a'r cryfaf yw cysylltiad y lesddeiliad â'r tir.<sup>200</sup>
- 7.41 Mewn cynllun rheoleiddio, mae angen rheol llinell bendant. Roedden ni'n meddwl efallai mai hyd y brydles fyddai'r nod amlycaf. Mae lesioedd a roddir am gyfnod o fwy na 21 mlynedd yn aml yn cael eu hystyried fel rhai sy'n croesi ffin. Roeddem yn cydnabod nad yw'r ffaith bod prydles benodol yn cael ei defnyddio mewn un cyd-destun yn golygu ei bod o reidrwydd yn briodol mewn un arall. Ond roeddem yn credu y byddai'n anarferol awgrymu y byddai person sy'n cael les am 21 mlynedd neu lai yn berchennog; a po fyrred y brydles, y lleiaf tebygol ydyw y byddai ganddo fuddiant ariannol yn yr ased cyfalaf. I'r graddau y gallai atebolrwydd am domen lo godi, roedd yn ymddangos yn annymunol i ni fel mater o bolisi i ddarparu, er enghraifft, fod y tenant dan les amaethyddol pum mlynedd yn bennaf atebol yn hytrach na'r rhydd-ddeiliad. Am y rhesymau hyn, gwnaethom gynnig dros dro i gynnwys lesddeiliaid gyda phrydles o 21 mlynedd neu fwy fel perchnogion. Yr eithriad i hyn fyddai pan fydd eu buddiant yn destun ôl-feddiant ar ôl cyfnod o 21 mlynedd neu fwy.<sup>201</sup>
- 7.42 Nid oeddem yn cynnig parhau â'r rheol bresennol sy'n symud atebolrwydd yn ôl i rydd-ddeiliad unwaith y bydd gan les lai na blwyddyn ar ôl. Os defnyddir cyfanswm hyd prydles i benderfynu a ddylai'r lesddeiliad ysgwyddo baich perchnogaeth,

---

<sup>197</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.55 a 10.15.

<sup>198</sup> Uchod, paragraffau 10.14 a 10.15.

<sup>199</sup> Uchod, paragraffau 10.34, 10.101 a 10.105.

<sup>200</sup> Uchod, paragraff 10.16.

<sup>201</sup> Uchod, paragraff 10.17.

roeddem yn credu ei bod yn fwy cymesur i'r baich fod yn berthnasol drwy gydol cyfnod y brydles.<sup>202</sup>

**Cwestiwn Ymgynghori 4: Roeddem yn cynnig dros dro, i'r graddau bod atebolrwydd o dan y fframwaith rheoleiddio newydd ar ysgwyddau perchennog tir sy'n cynnwys tomen, y dylai'r perchennog gael ei ddiffinio fel rhydd-ddeiliad neu lesddeiliad o dan brydles o 21 mlynedd neu fwy, ac eithrio pan fydd eu buddiant yn cael ei adolygu ar ôl cyfnod o 21 mlynedd neu fwy. A ydych yn cytuno?**

7.43 O'r 41 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 31 (76%) yn cytuno â'n diffiniad arfaethedig o berchennog. Saith (17%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno

7.44 Nododd Dŵr Cymru bwysigrwydd sicrwydd ynghylch perchnogaeth ac atebolrwydd tomennydd er mwyn i gyfrifoldebau cynnal a chadw ac adfer fod yn glir i bob parti. Roedd yr Athro Bob Lee yn credu ei bod yn synhwyrol mai dim ond prydlesi hirach gyda rhywfaint o werth cyfalaf oedd wedi cael eu cynnwys. Nododd fod unrhyw derfyn yn fympwyol braidd, ond bod 21 mlynedd yn "weddol arferol". Credai na ddylai'r fformiwla gynnwys prydlesi byrrach, a allai fod, er enghraifft, ar gyfer coedwigaeth neu bori garw. Roedd Dŵr Cymru hefyd yn credu y byddai'n afresymol i denant amaethyddol gyda thenantiaeth pori tymor byr fod yn atebol.

7.45 Roedd Trafnidiaeth Cymru yn cytuno mai cyfnod y buddiant lesddaliadol, yn hytrach na'r cyfnod gweddilliol ar y brydles, ddylai fod y ffactor sy'n penderfynu.

### Rhesymau dros anghytuno

#### Prydlesau o fwy na saith mlynedd

7.46 Credai Keith Bush CF ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng y sawl sy'n elwa o berchnogaeth y tir, a'r sawl sydd â rheolaeth gyfreithiol dros y tir. Yn ei farn ef, yr oedd y dull gweithredu presennol, sy'n canolbwyntio ar y person sydd â rheolaeth gyfreithiol dros y tir, yn rhesymegol. Y person sydd â rheolaeth gyfreithiol yw'r unig berson sy'n gallu caniatáu mynediad ato ac, yn amodol ar natur y denantiaeth, sy'n gwneud gwaith arno. Pan nad yw'n deg i'r tenant ysgwyddo cost y gwaith, mae Deddf 1969 yn galluogi'r tenant i hawlio cyfraniad gan berson arall megis y rhydd-ddeiliad, sy'n elwa o berchnogaeth y tir. Os yw'r diffiniad o berchennog yn ceisio adlewyrchu hyd a lled budd economaidd y tenant a'r rhydd-ddeiliad yn y tir, yn hytrach na'r ffaith syml ei fod yn berchen arno ar hyn o bryd, credai ei bod yn fwy anodd penderfynu ble i dynnu'r llinell.

7.47 Awgrymodd y gellid seilio "trothwy" addas ar y ffaith bod tenantiaeth o fwy na saith mlynedd yn fuddiant cofrestradwy o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Byddai hyn yn golygu y gallai'r awdurdod goruchwyllo weld o'r gofrestr gyda phwy i ohebu. Credai nad oedd yn afresymol disgwyl i denant o'r fath gymryd diddordeb yng nghyflwr y tir a bod yn gyfrifol am hawlio cyfraniad gan y rhydd-ddeiliad tuag at gost gwneud gwaith sylweddol.

---

<sup>202</sup> Paragraff 10.18 uchod.

## Tenantiaethau amaethyddol

- 7.48 Mewn digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, nododd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol nad oedd ein diffiniad arfaethedig yn cynnwys cyfeiriad at lesddeiliaid o dan denantiaethau amaethyddol. Eglurodd Dr Nerys Llewellyn-Jones fod tenantiaethau daliadau amaethyddol yn rhedeg o flwyddyn i flwyddyn ond eu bod yn gallu para oes neu genedlaethau. Bydd tenantiaethau a roddir er 1995 fel arfer yn denantiaethau busnes fferm. Mae'r rhain hefyd yn rhedeg o flwyddyn i flwyddyn os cânt eu rhoi am gyfnod o fwy na dwy flynedd i ddechrau, er bod hawliau olynu yn fwy cyfyngedig a bod gan y landlord fwy o hawliau i ddod â'r denantiaeth i ben.<sup>203</sup> Ceir darpariaethau yn y ddau fath o denantiaethau i'r tenant gael iawndal am derfynu'r denantiaeth am unrhyw welliannau tymor hir neu dymor byr mawr a wneir i'r daliad.<sup>204</sup>

## Diffinio'r perchennog o ran deunydd y domen

- 7.49 Roedd nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu diffinio perchennog y domen yn nhermau perchennog presennol y tir. Dywedodd Jane Iwanicki:

Mae'n bosibl y bydd perchnogaeth tir sy'n cynnwys tomen lo wedi cael ei throsglwyddo i un arall drwy wahanol ddulliau ac ni fyddai ganddynt o reidrwydd unrhyw gysylltiad â'r gweithgareddau tipio sydd wedi creu'r atebolrwydd posibl (er enghraifft, yn ystod y blynyddoedd y gwladolwyd y diwydiant glo, yr NCB neu British Coal fyddai wedi creu'r tomennydd fel perchennog/gweithredwr). Mae'n wir y dylai perchnogion fod yn gysylltiedig o ran mynediad a chynigion ar gyfer y dyfodol ond ni ddylai "atebolrwydd" o reidrwydd fod yn berthnasol i'r perchennog.

- 7.50 Nododd hefyd fod "yr Awdurdod Glo yn rhwymedig i ddelio â'r etifeddiaeth o ymsuddiant mwynloddio, ond nid gosod sgil-gynhyrchion gwastraff mwynloddio a ddyddodwyd ar yr wyneb".
- 7.51 Credai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y gallai perchnogaeth ar domen fod ar wahân i berchnogaeth y tir yr oedd wedi'i lleoli arno, gan y gallai'r perchennog glo fod yn berchnog y deunydd sydd wedi'i dipio. Am y rheswm hwn, "dylai rhywun ystyried a ddylai perchennog y glo ysgwyddo'r baich [o] rywfaint o'r cyfrifoldeb gan eu bod yn

---

<sup>203</sup> Mae dau brif fath o denantiaeth amaethyddol, y rhai sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a'r rhai sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Mae tenantiaeth daliad amaethyddol o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn dod yn denantiaeth o flwyddyn i flwyddyn os rhodddwyd hi'n wreiddiol am gyfnod o fwy na dwy flynedd. Ar farwolaeth y tenant (os rhodddwyd y denantiaeth cyn 12 Gorffennaf 1984 neu o dan amgylchiadau rhagnodedig eraill) gall y wraig, gŵr, partner sifil, brawd neu chwaer neu blentyn (neu blentyn sy'n cael ei drin fel plentyn i'r teulu) wneud cais i Dribiwnlys am gyfarwyddyd sy'n rhoi hawl iddynt dderbyn tenantiaeth y daliad. Gall y tenantiaethau hyn o flwyddyn i flwyddyn felly rychwantu oes, er mai dim ond dwy denantiaeth yn ôl olyniaeth y gellir eu rhoi. Mae tenantiaethau busnes fferm a roddir o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 am gyfnod o fwy na dwy flynedd yn parhau fel tenantiaeth o flwyddyn i flwyddyn. Ni chaiff tenantiaethau sy'n dechrau cyn 1 Medi 1995 fod yn denantiaethau busnes fferm. Ni chaiff tenantiaethau sy'n dechrau ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fod yn denantiaethau busnes fferm o hyd os yw Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn gymwys iddynt.

<sup>204</sup> Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, a 64; Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, adrannau 15 i 27.

sicr wedi elwa o'i echdynnu". Roeddent yn awgrymu hefyd y gallai'r Awdurdod Glo fod yn berchennog ar y glo.<sup>205</sup>

- 7.52 Roedd Richard Arnold, Owen Jordan a Sue Jordan i gyd o'r farn mai'r rhai sy'n gyfrifol am greu'r domen ddylai fod yn gyfrifol am hyn. Dadleuodd Owen Jordan mai perchennog y domen yw'r person a greodd y domen, a dadleuodd na ddylai fod yn bosibl trosglwyddo'r cyfrifoldeb i berchennog presennol y tir. Credai Sue Jordan y dylai fod rhwymedigaeth ar ran yr Awdurdod Glo neu'r Llywodraeth i fynd ar drywydd y rhai sy'n gyfrifol am greu'r domen neu'r cyfranddalwyr gweddilliol.
- 7.53 Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, pe bai'r drefn reoleiddio yn cael ei hymestyn i gynnwys tomennydd nad ydynt yn rhai glo, y byddai'r diffiniad arfaethedig yn creu cyfyng-gyngor. Y tirlfeddiannwr fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch, ond byddai'r perchennog hawliau mwynau'n dal i fod yn berchen ar y domen wastraff mad yw yn domen lo, oni bai fod y tirlfeddiannwr wedi datgan eu buddiant.

### Ffactorau eraill i'w hystyried

#### Atal perchnogion rhag dod o hyd i ffyrdd o beidio â thalu

- 7.54 Cymeradwyodd CLA Cymru y dull gweithredu arfaethedig fel un rhesymegol, ond rhybuddiodd y gallai perchnogion gymryd camau i wneud eu perchnogaeth yn llai syml:

Os bydd perchnogion yn gweld rhwymedigaethau sylweddol yn debygol o ddod i'w ffordd o ganlyniad i fod yn berchen ar domen lo ar eu tir, byddant yn gwneud popeth i geisio eu rhyddhau eu hunain o unrhyw atebolrwydd parhaus a chostus posibl sy'n gysylltiedig â'r gwaith rheoli ac adfer parhaus sy'n ymwneud â'r domen honno. Efallai y bydd cwmnïau coeg yn dechrau ymddangos, gyda pherchnogaeth aneglur, sy'n golygu nad yw'r atebolrwydd am waith adfer yn glir. I'n haelodau (pa mor fach bynnag o ran nifer) gallai hyn fod yn ddewis anodd yn ariannol o ran gorfod tacluso hen atebolrwydd o ymhell yn ôl, sydd mewn rhai achosion wedi dod yn ôl i achosi problemau iddynt heb ddim bai arnynt hwy eu hunain.

- 7.55 Rhybuddiodd Graham Hathaway hefyd fod achosion lle nad yw'n glir pwy yw'r perchennog, a chyfeiriodd at achos Celtic Energy a grybwyllir yn ein papur ymgynghori. Roedd hwn yn enghraifft o werthu hawliau tir a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau brig i gwmnïau coeg lle'r oedd tomennydd wedi cael eu gadael heb gydymffurfio ag unrhyw un o'r dyletswyddau a nodir yn y drwydded mwyngloddio, caniatâd cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol. Ni fu'n bosibl gorfodi'r dyletswyddau yn erbyn y cwmni coeg.<sup>206</sup> Rhoddodd enghreifftiau hefyd o anawsterau o ran dwyn perchnogion i gyfrif am ddifrod a achoswyd i domennydd gyda

---

<sup>205</sup> Roedd Deddfy Diwydiant Glo, adran 7(3) yn darparu ar gyfer trosglwyddo perchnogaeth cronfeydd glo o Gorfforaeth Glo Prydain i'r Awdurdod Glo adeg preifateiddio'r diwydiant glo. Roedd yn darparu "ar y dyddiad ailstrwythuro y bydd buddiannau'r Gorfforaeth mewn glo a phyllau glo heb eu gweithio, gan gynnwys ei fuddiannau mewn unrhyw lo sydd, er ei fod wedi cael ei weithio ar ryw adeg, yn cael ei gysylltu neu ei ymgorffori mewn unrhyw lofa neu dir arall sydd, yn ôl y gyfraith, yn rhan ohono, yn breinio heb sicrwydd pellach yn yr Awdurdod".

<sup>206</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 3.65 a 3.66.

goblygiadau diogelwch o dan y gyfraith bresennol ac awgrymodd y dylai prynu gorfodol fod yn opsiwn.<sup>207</sup>

### Perchnogaeth ddiodyn, cyfraniadau a chyfamodau

- 7.56 Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r diffiniad ddarparu ar gyfer atebolrwydd diodyn yn yr un ffordd â deddfwriaeth cronfeydd dŵr. Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn defnyddio dull dilyniannol wrth briodoli atebolrwydd. Mae ymgymwrwr yn atebol os yw'r gronfa ddŵr yn cael ei defnyddio neu y bwriedir ei defnyddio at ddibenion yr ymgymeriad, neu os yw'r perchennog neu'r prydlesai yn dod yn atebol os nad oes defnydd ohoni neu os nad oes bwriad i'w defnyddio at ddibenion ymgymeriad.<sup>208</sup> Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn, yng nghyd-destun tomennydd glo, mai'r sefyllfa ddiodyn fel dewis olaf fyddai i atebolrwydd gael ei ysgwyddo gan berchennog neu lesddeiliaid y tir y mae'r domen wedi'i lleoli arno. Byddai hyn yn osgoi dadl bod perchnogaeth y domen mewn rhyw ffordd ar wahân i berchnogaeth y tir y mae arno.
- 7.57 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn credu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r sefyllfa ddiodyn sef bod y perchnogion a'r lesddeiliaid yn atebol, neu'r naill neu'r llall. Os bydd proses ar gyfer dosrannu atebolrwydd rhwng y ddau, gofynnwyd hefyd a ddylai cyfraniadau gael eu pennu drwy gytundeb sifil neu raddfa lithr sydd wedi'i diffinio'n gliriach i gyfrif am ddiwedd cyfnod y brydles.<sup>209</sup> Nodwyd hefyd, adeg preifateiddio'r diwydiant glo, bod rhai tomennydd yn cael eu gwerthu gyda chyfamodau sy'n darparu'n benodol ar gyfer atebolrwydd, a gallai rhwymedigaethau godi o berchnogaeth flaenorol Glo Prydain.<sup>210</sup>

### Landlordiaid absennol

- 7.58 Awgrymodd Rhondda Cynon Taf a Vikki Howells AS fod angen i'r cynigion ystyried sut yr ymdrinnir â pherchnogaeth yn achos landlord absennol. Gallai hyn fod, er enghraifft, pan fo'r rhydd-ddaliad yn eiddo i gwmni sydd wedi'i ddiddymu.<sup>211</sup>

### Perchnogion lluosog

- 7.59 Mewn digwyddiadau ymgynghori, gofynnodd rhanddeiliaid sut yr ymdrinnid â'r cwestiwn ynghylch perchnogaeth, ac felly atebolrwydd posibl, lle'r oedd ystâd dai wedi'i hadeiladu ar domen wedi'i hadfer. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys cannoedd o wahanol berchnogion.

---

<sup>207</sup> I weld enghreifftiau o ddifrod a achoswyd i domen breifat gan gcontractwyr yn nhomen Ffrwd yn Aberpennar ac anawsterau gorfodi dan y gyfraith bresennol, gweler yr ymateb llawn i'r ymgynghoriad ar dudalen prosiect Diogelwch Tomennydd Glo: <https://www.lawcom.gov.uk/project/regulate-coal-tip-safety-in-wales/>.

<sup>208</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.9.

<sup>209</sup> Ystyrir y ddarpariaeth ar gyfer cyfraniadau yn adran 9.

<sup>210</sup> Trafodir trosglwyddiadau o dan gynlluniau ailstrwythuro adeg preifateiddio a chyfrifoldeb yr Awdurdod Glo dros rwymedigaethau Glo Prydain sy'n deillio o'i berchnogaeth flaenorol yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 3.20 i 3.23.

<sup>211</sup> Trafodir problem tomennydd â pherchnogaeth anghysbys yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 3.36 a 3.37.

## Trafodaeth

- 7.60 Roedd y mwyafrif yn cefnogi ein diffiniad arfaethedig, ond rhoddwyd rhai rhesymau cryf dros anghytuno. Roedd y ddadl a oedd yn gwahaniaethu perchnogaeth gyfreithiol oddi wrth reolaeth gyfreithiol wedi creu argraff benodol arnom. Mae'r cysyniad o reolaeth gyfreithiol yn canolbwyntio ar y person sy'n meddiannu'r tir beth bynnag fo natur ei fuddiant yn y tir, oherwydd y rhain fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan ymyrraeth diogelwch tomennydd. Dim ond pan ddisgwylir y byddant yn talu am y gwaith y bydd materion sy'n ymwneud â phwy sy'n berchen ar y tir mewn termau economaidd yn codi. Yn unol â sail ein cwestiwn ymgynghori, roedd llawer o'r ymatebion yn mynd i'r afael â phwy ddylai dalu am waith diogelwch ar domennydd. Roedd nifer yn gwrthwynebu diffinio perchennog yn nhermau perchennog y tir; roedd eu sylwadau'n ymwneud yn bennaf â pholisi codi tâl.
- 7.61 Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n ddefnyddiol, yng nghyd-destun ein cynllun a argymhellir, cael un diffiniad unigryw o'r "perchennog". Bydd angen i amrywiol bobl sydd â chysylltiad â thir sy'n cynnwys tomen gael hawliau, dyletswyddau neu rwymedigaethau o dan ein cynllun a argymhellir. Bydd pwy ydynt yn dibynnu ar batrwm y buddiannau yn y tir a phwrpas yr hawl neu'r ddyletswydd benodol dan sylw.
- 7.62 Felly, rydym yn argymhell y dylid cael pŵer i wneud cytundeb tomen gyda pherchennog a deiliad tir sy'n cynnwys tomen lo. Rydym hefyd wedi argymhell y dylai'r pŵer i roi gorchymyn tomen fod yn arferadwy yn erbyn perchennog a deiliad.<sup>212</sup> At y dibenion hyn, rydym wedi awgrymu cysyniad eang o perchennog, i gynnwys perchennog buddiant rhydd-ddaliad neu lesddaliad yn y tir.<sup>213</sup> Mae hyn yn golygu bod modd ymdrin yn fras â'r rheini y mae'n briodol i'r awdurdod goruchwyllo wneud cytundeb cyngor gyda hwy, neu yn erbyn pwy y dylid rhoi gorchymyn; mae hyn hefyd yn effeithio ar ddefnyddio pwerau gorfodi.<sup>214</sup> Fel hyn, mae'r partïon posibl i'r cytundeb neu'r gorchymyn yn cynnwys y rheini sydd â pherchnogaeth gyfreithiol a rheolaeth gyfreithiol dros y tir.<sup>215</sup>
- 7.63 Am resymau yr ydym yn eu trafod ym mhennod 9, nid ydym yn credu y byddai'n foddhaol parhau â'r system bresennol o achosion rhwng partïon preifat am gyfraniadau at gost gweithrediadau ar domennydd. Yn hytrach, rydym yn argymhell y dylai'r pŵer i lunio cytundebau a gorchymynion gynnwys pŵer i ddarparu ar gyfer taliadau gan aelodau o grŵp o bobl sy'n cyfateb yn fras i'r rheini a all fod yn atebol am

---

<sup>212</sup> Gweler paragraffau 5.85 a 5.87 uchod.

<sup>213</sup> Gweler paragraff 5.29 uchod.

<sup>214</sup> Trafodir y pŵer i lunio cytundebau a gorchymynion tomennydd ym mhennod 5. Trafodir ffioedd, cyfraniadau ac iawndal yn mhennod 9.

<sup>215</sup> Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn dda â'r dull a ddefnyddir ar gyfer cytundebau rheoli tir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 16. Mae hyn yn caniatáu i CNC wneud cytundeb "gyda pherson sydd â buddiant mewn tir ... ynghylch rheoli neu ddefnyddio'r tir". Diffinnir "buddiant mewn tir" fel "unrhyw ystâd mewn tir ac unrhyw hawl dros dir, pa un a yw'r hawl yn arferadwy yn rhinwedd perchnogaeth buddiant mewn tir neu yn rhinwedd trwydded neu gytundeb". Mae'r gyfraith gyffredin yn trin unrhyw barti sy'n arfer elfen o reolaeth dros eiddo fel "meddiannydd": gweler *Wheat v E Lacon a Co Ltd* [1966] AC 552, [1966] 2 WLR. 581. Cyn belled â bod elfen ddigonol o reolaeth, mae hyn yn cydnabod y gallai fod nifer o feddianwyr cydredol.

gyfraniadau o dan y drefn bresennol.<sup>216</sup> Bydd hyn yn cynnwys perchennog deunydd tomen nad yw hefyd yn berchen ar y tir.

- 7.64 Dylai cynnwys pawb sydd â buddiannau mewn tir sy'n cynnwys tomen lo mewn cytundeb neu orchymyn hefyd helpu i ddelio â sefyllfaoedd fel pan fydd ystâd dai wedi cael ei hadeiladu ar domen, neu pan fydd deunydd yn cael ei daenu ar draws tir sy'n eiddo i nifer o berchnogion gwahanol. Gellid dod i gytundebau tomen gyda'r perchnogion a'r meddianwyr. Ymdrinnid â phenderfyniadau ynghylch cyfrannu at gost gwaith o fewn y cytundeb neu'r gorchymyn.
- 7.65 Ym mhennod 3 rydym yn argymhell creu dyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwylio o bresenoldeb tomen lo heb ei chofrestru ar dir.<sup>217</sup> Daethom i'r casgliad y byddai'n rhy feichus gosod y ddyletswydd hon ar berson sy'n meddiannu tir yn unig, gyda dim ond buddiant tymor byr. Argymhellwyd felly berchennog rhydd-ddaliad neu lesddaliad o fwy na saith mlynedd, trothwy sydd â'r fantais o gydymffurfio â'r rhwymedigaeth i gofrestru buddiant lesddaliadol o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.<sup>218</sup>
- 7.66 Roedd ein cwestiwn ymgynghori presennol yn canolbwyntio ar nodi perchnogaeth economaidd ar dir tomen at ddibenion rhwymedigaethau ariannol, yn benodol, o dan ein cynllun newydd. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi ein hatgoffa o'r farn bod perchnogi rhydd-ddaliad neu brydles am hyd o 21 mlynedd neu fwy yn arwydd o berchnogaeth ar dir mewn termau economaidd. Rydym ni yn meddwl dyma'r gwirionedd - oni bai fod y perchnogaeth yn ddarostyngedig i brydles a roddir i rywun arall am 21 mlynedd neu fwy (yn unol â'r derminoleg gyfreithiol, "mewn ôl-feddiant"), ac yn yr achos hwnnw y person hwnnw fydd y perchennog mewn termau economaidd. Mae hyn yn ffactor y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ei ystyried wrth lunio set o egwyddorion sy'n ymwneud â thalu cost gwaith.<sup>219</sup>
- 7.67 Rydym wedi nodi ym mhennod 5 y bydd ein dull gweithredu ar gyfer diffinio perchennog at ddibenion pwerau llunio cytundebau a gorchmynion yn cynnwys tenantiaid o dan ddaliadau amaethyddol neu denantiaethau busnes fferm, a all, yn ymarferol, barhau am flynyddoedd lawer. Nid yw tenantiaethau o'r fath, o flwyddyn i flwyddyn, yn gynwysedig yn y diffiniad presennol.<sup>220</sup> Mater i Lywodraeth Cymru yw a

---

<sup>216</sup> Gweler paragraffau 9.69, 9.74 a 9.82 isod.

<sup>217</sup> Gweler paragraff 3.102 uchod.

<sup>218</sup> Ni fydd rhai darnau tir heb eu cofrestru yn ymddangos ar y Gofrestr Tir. Mae pob tir heb ei gofrestru yn amodol ar gofrestru teitl yn orfodol am y tro cyntaf yn achos unrhyw ddigwyddiad a restrir yn Neddf Cofrestru Tir 2002, adran 4. Mae'r digwyddiadau hynny'n cynnwys rhoi prydles o fwy na saith mlynedd allan o "ystâd gymwys". Diffinnir "ystâd gymwys" yn adran 4(2) fel ystâd rydd-ddaliadol neu lesddaliadol mewn tir am gyfnod sydd, ar adeg y trosglwyddo, y grant neu'r creu, â mwy na saith mlynedd ar ôl". Am y rheswm hwn, pan roddir prydles o fwy na saith mlynedd o ystâd rydd-ddaliadol anghofrestredig, rhaid cofrestru'r brydles, ond ni fyddai'r rhydd-ddaliad yn cael ei gofrestru. Yn yr un modd, gellid rhoi prydles o fwy na saith mlynedd allan o brydles heb ei chofrestru o 21 mlynedd neu 99 mlynedd, ac os felly byddai'r brydles a roddir yn amodol ar gofrestru cyntaf gorfodol, ond nid y brif brydles y cafodd ei chreu ohoni.

<sup>219</sup> Gweler paragraffau 9.79, 9.80 a 9.83 isod. Bydd ffactorau eraill, megis y telerau ar gyfer caffael tir, hefyd yn berthnasol.

<sup>220</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adran 36(3). Gallai daliadau amaethyddol neu denantiaeth busnes fferm fod yn destun gorchymyn cyfrannu o dan adran 19 o'r Ddeddf, gan ei fod yn gyfystyr â "ystâd neu fuddiant ... yn y tir y lleolir y domen arno". Mae les o unrhyw hyd yn ystâd mewn tir o dan y diffiniad cyffredinol o "cyfnod blynyddoedd absoliwt" yn adran 205(1)(xxvii) Deddf Cyfraith Eiddo 1925.



ddylid eu cynnwys mewn unrhyw drefniadau y mae'n eu gwneud o ran ariannu gwaith, a sut mae gwneud hynny.

- 7.68 Rydym yn cydnabod safbwyntiau ymatebwyr sy'n gwrthwynebu diffinio perchennog y domen yn nhermau perchennog y tir. Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn bennaf â pholisi arwystlo Llywodraeth Cymru.<sup>221</sup> Trafodir y broblem o berchnogion yn dod o hyd i ffyrdd o osgoi atebolrwydd ym mhennod 5 mewn perthynas â gorchmynion tomennydd.<sup>222</sup> Trafodir perchnogaeth mwynau yn y domen yng nghyd-destun tomennydd ad ydynt yn rhai glo ymhellach ym mhennod 12.<sup>223</sup>
- 7.69 Os na ellir dod o hyd i berchennog, mae gorchymyn tomen yn debygol o fod yn briodol. Mae ein hargymhellion ynghylch yr amgylchiadau lle y gellir rhoi gorchymyn tomen yn darparu ar gyfer rhoi gorchymyn o dan yr amgylchiadau hyn.<sup>224</sup> Credwn y gallai hyn hefyd fod yn sail ar gyfer prynu gorfodol lle mae angen gwaith brys.

### **Argymhelliad 29.**

- 7.70 Rydym yn argymhell, i'r graddau y mae atebolrwydd o dan ein cynllun a argymhellir i'w ysgwyddo gan berchennog, mewn termau economaidd, tir sy'n cynnwys tomen, y dylai'r perchennog hwnnw gael ei ystyried fel perchennog yr ystâd rydd-ddaliadol neu perchennog ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor, ac eithrio lle mae'r ystâd rydd-ddaliad neu lesddaliad ar ddychweliad ar ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor.

---

Mae hyn yn darparu bod "cyfnod o flynyddoedd" yn cynnwys cyfnod o lai na blwyddyn, neu am flwyddyn neu flynyddoedd a ffraciwn o flwyddyn neu o flwyddyn i flwyddyn. Gweler hefyd baragraff 5.30 uchod.

<sup>221</sup> Trafodir y pwerau i godi tâl ac i fynnu cyfraniadau gan berchnogion a meddianwyr ym mhennod 9.

<sup>222</sup> Gweler paragraffau 5.67 a 5.76 uchod.

<sup>223</sup> Gweler paragraff 12.43 isod.

<sup>225</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 12, 13, 17 a 18.

## Pennod 8: Pwerau gorfodi, troseddau ac apeliadau

- 8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y pwerau gorfodi a'r troseddau o ddiffyg cydymffurfio sydd eu hangen i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio newydd yn effeithiol. Bydd hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer llwybrau apêl ble rydym yn nodi mewn penodau eraill bod angen hawl apelio.

### PWERAU GORFODI A THROSEDDAU

- 8.2 Roeddem yn cydnabod yn ein papur ymgynghori y byddai angen pwerau gorfodi digonol ar y gyfundrefn reoleiddio i sicrhau ei bod yn effeithiol. Nodwyd gennym bod Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969 wedi rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol i (a) fynnu gwybodaeth gan berchnogion tomennydd ac eraill, a (b) fynd ar dir i gynnal profion archwiliadol, gwaith adfer a gwaith adsefydlu.<sup>225</sup> Nodwyd gennym hefyd bod arfer y pwerau hyn wedi'i gyfyngu i achosion lle gwyddys bod tomen yn ansefydlog neu lle yr amheuir ei bod yn ansefydlog. Mae methu â darparu gwybodaeth a rhwystro person sydd â hawl i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn yn droseddau, fel y mae rhwystro'r profion a'r gwaith neu ddifrodi neu ymyrryd â gwaith.<sup>226</sup>
- 8.3 Rydyn ni wedi cynnig pŵer mynediad ehangach ar dir sy'n cynnwys tomen lo sydd wedi'i chofrestru neu a amheuir, at ddibenion rhagnodedig. Byddai angen i'r dibenion hyn gynnwys archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio. Edrychwyd ar fodelau posibl ar gyfer pwerau o'r fath o gyfundrefnau rheoleiddio eraill a gwarantau gweithdrefnol priodol i ddarparu cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a hawliau'r tîrfeddiannwr.<sup>227</sup>
- 8.4 Roeddem hefyd wedi cynnig dros dro creu trosedd o beidio â chydymffurfio ac edrych eto ar fodelau posibl o gyfundrefnau rheoleiddio eraill.<sup>228</sup>

### Pŵer mynediad a throstedd rhwystro

- 8.5 Rydyn ni'n edrych yn gyntaf ar safbwyntiau ar ein cynigion dros dro ar gyfer pŵer mynediad ehangach a throstedd rhwystro.

### Cwestiwn Ymgynghori 26: Rydym yn cynnig dros dro

- (1) **y dylai personau a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am**

---

<sup>225</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 12, 13, 17 a 18.

<sup>226</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 12(2), 13(6), 18(6) a 26. Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.95. Gweler paragraff 4.33 uchod am ein hargymhellion ar gyfer dyletswyddau ar ran awdurdodau eraill a pherchnogion tomennydd i rannu gwybodaeth â'r awdurdod goruchwyllo.

<sup>227</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.96 a 10.97.

<sup>228</sup> Uchod, paragraffau 10.98 a 10.99.

**swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â phŵer mynediad ar dir at ddibenion**

- (a) **archwilio neu gynnal profion ar domen lo hysbys neu a amheuir; a**
- (b) **chyflawni, goruchwyllo neu arolygu gwaith cynnal a chadw neu waith adfer neu osod a monitro offer ar domen lo;**
- (2) **dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar ôl 48 awr o roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog ac i unrhyw berson arall y gwyddys ei fod yn meddiannu'r tir, neu mewn argyfwng;**
- (3) **dylai'r awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch awdurdodi mynediad drwy rym;**
- (4) **dylai personau sydd wedi'u hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn fod â phŵer i fynd â phersonau neu gyfarpar eraill gydag hwy yn ôl yr angen; a**
- (5) **dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.**

### **A ydych yn cytuno?**

- 8.6 O'r 44 a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 36 (82%) yn cytuno ac roedd dau (5%) yn anghytuno a rhoddodd chwech ateb "arall".

### **Rhesymau dros gytuno**

- 8.7 Nododd Syr Wyn Williams fod y pwerau arfaethedig yn "angenrheidiol a chymesur" ar gyfer trefn reoleiddio o'r math hwn. Canfu Keith Bush CF eu bod yn ddarpariaethau "eithaf safonol", a chymeradwyodd ddull gweithredu nad oedd yn ddibynnol, fel gyda'r drefn bresennol, ar yr angen i ddangos bod y domen yn peri perygl i'r cyhoedd. Roedd Howard Siddle hefyd yn gweld y darpariaethau arfaethedig fel ffordd o fynd i'r afael â'r broblem hon. Roedd Vikki Howells AS yn eu hystyried yn "hanfodol i sicrhau cydymffurfiaid a diogelwch y cyhoedd".
- 8.8 Nododd Bob Leeming fod y cynigion yn dilyn yr un patrwm â'r darpariaethau ar gyfer arolygwyr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- 8.9 Ychwanegodd Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf ei bod yn bwysig gwneud tîrfeddianwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol i ganiatáu i unigolion awdurdodedig gael mynediad at domennydd.

### **Amodau cytuno**

- 8.10 Mynegodd rhai ymatebwyr gytundeb amodol. Cytunodd CLA Cymru â'r pwerau arfaethedig fel dewis olaf pan fetha popeth arall, neu mewn argyfwng, ond mynegodd y gobaith y byddai deialog synhwyrol gyda'r tîrfeddianwyr yn caniatáu cytundeb o ran mynediad. Credai Jane Iwanicki y dylid rhoi indemniad llawn i berchnogion. Bydd hwn yn sicrhau fel na ellid eu dal yn atebol am unrhyw weithrediadau neu waith a gyflawnir

gan eraill neu unrhyw niwed neu ddifrod sy'n deillio o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i weithrediadau o'r fath neu o ran cael mynediad i'r domen.

- 8.11 Cytunodd Stephen Smith y byddai pwerau mynediad estynedig yn datrys problemau gyda chyfyngiadau mynediad o dan Ddeddf 1969. Ond rhybuddiodd y byddai'r problemau a drafodwyd yn y papur ymgynghori a oedd hefyd yn cyfyngu ar awdurdodau lleol wrth arfer y pwerau presennol, megis diffyg arbenigedd technegol ac adnoddau cyfyngedig, yn parhau oni bai fod y drefn reoleiddio newydd yn mynd i'r afael â'r rhain.

#### Sylwadau ar (1): pŵer mynediad

- 8.12 Credai Howard Siddle y dylid darparu ar gyfer yr ystod lawn o weithgareddau y mae angen mynediad ar eu cyfer er mwyn sicrhau bod y pŵer yn cwmpasu pob senario. Awgrymodd:

archwilio, cynnal profion arwyneb neu is-wyneb, gosod a monitro offer a samplu ar neu o amgylch tomen anweithredol hysbys neu a amheuir.

- 8.13 Roedd ICE Cymru yn credu y dylid diffinio "gweithrediadau adfer".

#### Sylwadau ar (2): hysbysiad mynediad ac eithrio mewn argyfwng

- 8.14 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylid cael gofyniad o ran rhybudd ysgrifenedig mewn achos o argyfwng. Credai Lee Jones a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y dylai fod angen gwarant neu orchymyn llys hyd yn oed mewn argyfwng, oni bai fod angen cymryd camau brys ar unwaith. Awgrymodd Lee Jones mai'r dewis arall fyddai rhoi statws gwarant i arolygwyr yr awdurdod fynd i mewn heb rybudd (fel y darparwyd ar gyfer arolygwyr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch).

- 8.15 Credai rhai ymatebwyr, fel Jane Iwanicki a'r Athro Thomas Watkin, fod y cyfnod rhybudd o 48 awr a gynigiwyd ar gyfer sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai brys, yn rhy fyr. Tynnodd Jane Iwanicki sylw at y ffaith y gallai fod angen i'r perchnogion gysylltu â'r deiliaid sy'n defnyddio'r tir mewn rhai achosion.<sup>229</sup> Awgrymodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol o leiaf 21 diwrnod lle'r oedd arolygiadau'n arferol. Yn groes i hynny, credai Wrecsam fod 24 awr yn ddigonol, yn dilyn esiampl adran 287 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936.<sup>230</sup>

#### Sylwadau ar (3): pŵer mynediad drwy rym

- 8.16 Credai Lee Jones y dylai'r cyfeiriad at "unrhyw gorff cyhoeddus arall" ar wahân i'r awdurdod goruchwyllo gynnwys cwnstabl yr heddlu, gan y byddai hyn yn angenrheidiol pe bai personau awdurdodedig yn cael eu hatal rhag mynd i mewn.

---

<sup>229</sup> Mae'r diffiniad o berchennog tomen a ddefnyddir yn y drefn reoleiddio newydd yn cael ei drafod ym mhennod 7.

<sup>230</sup> Mae adran 287 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn darparu hawl i fynd i mewn i unrhyw safle "ar bob awr resymol" gyda 24 awr o rybudd at ddibenion sy'n cynnwys canfod a dorroyd unrhyw ddarpariaethau'r Ddeddfa chymryd unrhyw gamau neu gyflawni gwaith a awdurdodir neu sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

#### Sylwadau ar (4): pŵer i gymryd personau neu offer

- 8.17 Credai'r Athro Thomas Watkin pe bai peiriannau trwm yn cael eu cludo ar y tir, y dylid rhoi rhybudd penodol o hyn yn yr hysbysiad ysgrifenedig, gan gynnwys disgrifiad o'r offer.

#### Sylwadau ychwanegol

- 8.18 Cododd Network Rail fater hawliau trydydd parti i ofyn i'r awdurdod goruchwylio, ar fyr rybudd mewn argyfwng, arfer ei bwerau, neu gamu i mewn i'w harfer ar ran yr awdurdod. Rhoddodd enghraifft o sefyllfa lle'r oedd tomen yn peri risg i reilffordd.
- 8.19 Credai Lee Jones dylai'r pwerau arfaethedig darparu ar gyfer y sefyllfa lle nad oes perchennog y gellir ei adnabod.
- 8.20 Rhybuddiodd Philip Thomas fod angen gwneud darpariaeth ar gyfer llwybrau mynediad i domennydd. Tynnodd sylw at y risg o dirfeddianwyr yn methu â chynnal llwybr mynediad a fyddai'n rhwystro awdurdodau lleol rhag ceisio mynd i mewn o dan y darpariaethau.

#### Darpariaethau eraill defnyddiol sy'n ymwneud â phwerau mynediad

- 8.21 Gwelodd yr Athro Bob Lee fantais o roi gorfodaeth yn nwylo Cyfoeth Naturiol Cymru gan y byddai hyn yn galluogi'r pwerau gorfodi a ddarperir gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i fod yn berthnasol.<sup>231</sup> Ar ben hynny, gellid diwygio canllawiau rheoleiddio presennol Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys dyletswyddau gorfodi sy'n codi o dan ddeddfwriaeth diogelwch tomennydd glo newydd.<sup>232</sup>
- 8.22 Fodd bynnag, dywedodd CNC fod eu profiad o ddefnyddio eu pwerau gorfodi o dan adran 108 Deddf 1995 wedi bod yn gymysg. Er bod y darpariaethau hyn yn caniatáu mynediad ar unrhyw adeg resymol (neu, mewn argyfwng, ar unrhyw adeg ac, os oes angen, drwy rym), maent wedi canfod bod arfer pwerau mynediad yn golygu gweithdrefn araf a beichus sydd wedi cael ymateb negyddol gan dirfeddianwyr. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ansicr ynghylch defnyddio'r pwerau yma lle mae angen gwneud gwaith tymor hir. Mewn sylwadau a wnaed inni ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, yr oeddent yn cyfeirio at y pwerau mynediad a oedd ar gael o dan y adran 172 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 fel dull gweithredu gwell. Y rheswm am hyn yw, lle mae angen ymweld â safle dro ar ôl tro, nad oes angen iddynt fynd drwy'r weithdrefn hysbysu sy'n ofynnol gan adran 108 o'r Ddeddf 1995 ar gyfer pob ymweliad.
- 8.23 Awgrymodd Huw Williams fod adrannau 172 i 179 Deddf Tai a Chynllunio 2016, sy'n ymwneud â mynediad i dir i arolygu a'i brisio at ddibenion prynu gorfodol, yn enghraifft dda o god cyfredol.
- 8.24 Tynnodd Wrecsam ein sylw at ddarpariaethau Deddf Tai 2004 sy'n rhoi pŵer i gymryd camau adfer i ddelio â risgiau sydd ar fin digwydd i'r cyhoedd. Dilynir hyn gan

---

<sup>231</sup> Gweler paragraffau 2.34, 2.63 a 5.18 uchod.

<sup>232</sup> Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, *Canllawiau ar Orfodi a Sancsiynau* (2013) yn nodi'r gwahanol opsiynau gorfodi sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n darparu canllawiau ynghylch sut dylid eu rhoi ar waith: gweler <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/our-regulatory-responsibilities/regulatory-responsibilities/?lang=en>.

gyflwyno hysbysiad statudol am waith a wneir. Anfonir yr hysbysiad at bersonau sydd â buddiant yn y tir neu'r eiddo gyda darpariaeth ar gyfer adennill costau.<sup>233</sup>

### Trafodaeth

- 8.25 Roedd cefnogaeth helaeth i'n holl gynigion. Rydym yn cytuno y bydd polisïau i hyrwyddo cydweithrediad ac ymwybyddiaeth tirlfeddianwyr o'u dyletswyddau newydd yn elfen bwysig sy'n cyd-fynd â phwerau gorfodi o dan y drefn newydd, ac y bydd yn well cael deialog yn hytrach na mesurau gorfodi lle bynnag y bo modd.
- 8.26 Rydym hefyd yn cytuno â'r rhybudd bod rhai o'r problemau gyda'r drefn bresennol yn ymwneud â chyfyngiadau technegol a chyfyngiadau ar adnoddau yn hytrach na dim ond y cyfyngiadau a roddir ar bwerau awdurdodau lleol gan Ddeddf 1969. Rhaid rhoi sylw i'r materion hyn hefyd. Mae Pennod 10 yn ystyried ffyrdd o feithrin sgiliau arbenigol. Nid ydym yn gallu mynd i'r afael â materion cyllido, ond gallwn gyfleu pryderon a godwyd gan ymatebwyr i Lywodraeth Cymru.
- 8.27 Mae ein sylwadau mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch agweddau penodol ar darpariaethau arfaethedig wedi'u nodi isod.
- (1) Rydym yn cytuno y dylid ehangu'r rhestr o weithgareddau arfaethedig i gynnwys gosod a monitro offer, a samplu.
  - (2) Rydym yn cytuno y dylid rhoi rhybudd clir os yw peiriannau trwm i gael eu defnyddio.
  - (3) Rydym yn cytuno bod angen i'r pŵer mynediad gynnwys llwybrau mynediad i'r domen. Roedd hyn yn ymhlyg yn ein cynnig ond rydym yn ei wneud yn gliriach yn yr argymhelliad a nodir isod drwy ychwanegu darpariaeth ar gyfer "cael mynediad at domen" at y dibenion y gellir mynd ar dir ar eu cyfer.
  - (4) Rydym yn cytuno bod angen darpariaeth benodol ar gyfer mynediad lle nad oes perchennog y gellir ei adnabod. Rydym yn awgrymu diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer arfer y pŵer drwy hysbysu'r perchennog i fynnu mai dim ond pan fydd modd adnabod y perchennog y bydd hyn yn berthnasol. Fel yn achos y prawf ar gyfer rhoi gorchymyn tomen, dylai hyn ddarparu ar gyfer pŵer mynediad heb rybudd lle bu'n amhosibl adnabod y perchennog er cymryd camau i wneud hynny.
  - (5) Credwn fod 48 awr o rybudd yn gyfnod rhesymol. Gall mynediad i archwilio neu gynnal profion gael llawer llai o effaith ar feddiannydd y tir na chyflawni gwaith adfer. Byddai gofyniad i gyflwyno hysbysiad i'r holl berchnogion a meddianwyr a nodwyd yn helpu i sicrhau na fyddai deiliaid y tir yn cael eu synnu. Rydym yn cytuno y dylid hepgor hysbysiad mewn argyfwng.
  - (6) Nid ydym o'r farn bod angen darpariaeth i bersonau sy'n cael mynediad i gael swyddog heddlu gyda nhw, ac eithrio mewn achosion lle rhagwelir y bydd gwrthwynebiad neu'r angen i ddefnyddio grym; credwn ei bod yn annhebygol y byddai heddluoedd yn sicrhau bod swyddogion ar gael ac eithrio mewn

---

<sup>233</sup> Deddf Tai 2004, a 239.

achosion o'r fath. Credwn, fodd bynnag, y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad dan warant ynad, o gofio bod swyddogion awdurdodau lleol wedi profi gwrthwynebiad yn y gorffennol.<sup>234</sup>

- (7) Mae'r trefniadau presennol yn amrywio o ran a ydynt yn mynnu bod swyddog heddlu yn mynd gyda'r rheini sy'n mynd ar dir o dan warant. Er enghraifft, gall gwarantau i fynd ar dir at ddibenion rheoli rhywogaethau o dan atodlen 9A i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 awdurdodi mynediad drwy rym, ond dim ond os bydd cwnstabl yn mynd gyda hwy.<sup>235</sup> Mae gwarantau i fynd ar dir at ddibenion prynu gorfodol o dan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 sy'n awdurdodi defnyddio grym heb fynnu presenoldeb cwnstabl.<sup>236</sup> Rydym yn argymhell y dylid gadael i'r ynad ddefnyddio'i ddisgresiwn ynghylch p'un a oes angen presenoldeb cwnstabl ai peidio mewn perthynas â gwarant i fynd ar dir at ddibenion diogelwch tomennydd glo. Bydd hyn yn caniatáu i ynadon wahaniaethu rhwng achosion lle nad oes ond angen gorfodi agor giât sydd wedi ei chloi, a'r rhai lle gellir rhagweld gwrthwynebiad y deiliad yn bersonol.
- (8) Nid ydym yn credu bod angen hawl ffurfiol i drydydd partïon ofyn i'r awdurdod goruchwyllo arfer ei bwerau. Fel yr awgrymwyd uchod mewn perthynas â hysbysu ynghylch bodolaeth tomen a rhoi gorchymyn tomen, bydd yn bwysig i'r awdurdod ddarparu proses hygyrch i ganiatáu i drydydd partïon fynegi pryderon.<sup>237</sup>

8.28 Rydym yn nodi'r awgrym y gallai pwerau mynediad sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu hymestyn pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgwyddo rôl gorfodi'r awdurdod goruchwyllo newydd. Fel y trafodwyd ym mhennod 2, rydym wedi dod i'r casgliad y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff newydd. Nid ydym yn credu y byddai'n ddoeth rhannu pwerau mynediad rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdod newydd. Rydym hefyd yn nodi'r safbwyntiau cymysg ynghylch i ba raddau y mae pwerau gorfodi o dan adran 108 Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gweithio.

8.29 Mae'r pwerau mynediad a ddarperir gan atodlen 9A i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 95 Deddf Adeiladu 1984, adran 172 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 108 Deddf yr Amgylchedd 1995, adran 239 Deddf Tai 2004 ac adrannau 172 i 179 Deddf Cynllunio a Thai 2016 i gyd yn fodolau defnyddiol o bwerau sy'n taro cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a hawliau'r perchennog neu'r deiliad.<sup>238</sup> Mae eu darpariaethau'n dangos y bydd angen nifer o elfennau hanfodol ar gyfer y pŵer mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys: gofyniad i nodi'r dibenion y caniateir ceisio mynediad ar eu cyfer; gofynion ar gyfer awdurdodi ysgrifenedig neu adnabod personau penodedig yn ffurfiol; cyfnod o rybudd; pŵer i ynad heddwch awdurdodi

---

<sup>234</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 7.14.

<sup>235</sup> Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, paragraff 22(4).

<sup>236</sup> Deddf Cynllunio a Thai 2016, a 173.

<sup>237</sup> Gweler paragraffau 3.94 a 5.71 uchod.

<sup>238</sup> I weld darpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 9.97 i 9.100.

mynediad drwy rym lle mae mynediad yn cael ei rwystro; manylion y gweithgareddau y caniateir eu cyflawni ar ôl mynediad a'r personau, yr offer neu'r deunydd a all fynd gyda'r person sy'n arfer y pŵer mynediad.

8.30 Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol.

### **Argymhelliad 30.**

8.31 Rydym yn argymhell y dylai personau a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â phŵer mynediad ar dir at ddibenion

- (1) archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo hysbys neu a amheuir;
- (2) cyflawni, goruchwyllo neu arolygu gwaith cynnal a chadw neu waith adfer neu osod a monitro offer ar domen lo; a
- (3) chael mynediad at domen lo at y dibenion uchod.

8.32 Rydym yn argymhell y dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar ôl 48 awr o roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog, os yw'n hysbys, ac i unrhyw berson arall y gwyddys ei fod yn meddiannu'r tir, neu heb rybudd mewn argyfwng;

8.33 Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant sy'n awdurdodi mynediad drwy rym pan fo person wedi atal neu'n debygol o atal y pŵer mynediad rhag cael ei arfer, a'i bod yn rhesymol defnyddio grym wrth arfer y pŵer hwnnw; gall y warant ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cael mynediad yn unol â hynny gael eu hebrwng gan gwnstabl.

8.34 Rydym yn argymhell y dylai personau sydd wedi'u hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn fod â'r pŵer i fynd â'r offer angenrheidiol gyda nhw, ar yr amod bod yr hysbysiad yn cynnwys disgrifiad o unrhyw beiriannau trwm sydd i'w cludo ar y tir.

8.35 Roeddem yn argymhell y dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.

### **Trosedd o beidio â chydymffurfio â gorchymyn tomen**

8.36 Nesaf rydym yn ystyried ymatebion i'n cynnig dros dro y dylai methu â chydymffurfio â gorchymyn cynnal a chadw tomen fod yn drosedd diannod. Yn ein papur ymgynghori, roeddem yn egluro nad oeddem yn credu ei bod yn briodol i beidio â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw'r domen fod yn drosedd; y gosb am beidio â chydymffurfio fyddai ei disodli â gorchymyn tomen.<sup>239</sup> Gan ein bod yn rhagweld y byddai

<sup>239</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.99 a 5.2 uchod.



gorchmynion tomennydd yn cael eu defnyddio i roi grym i waith diogelwch ar bob math o domennydd, mae ein trafodaeth ar drosedd o beidio â chydymffurfio yn ymwneud nid yn unig â gorchmynion cynnal a chadw ond hefyd â gorchmynion tomennydd yn gyffredinol.

**Cwestiwn Ymgynghori 27: Rydym yn cynnig dros dro y dylai methiant, heb esgus rhesymol, i gydymffurfio â gorchymyn cynnal a chadw tomen fod yn drosedd diannod. A ydych yn cytuno?**

8.37 Atebodd pedwar deg o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd tri deg chwech (90%) yn cytuno. Dau (5%) oedd yn anghytuno, a dau a ddewisodd ateb "arall".

**Barn am y trosedd arfaethedig**

8.38 Roedd ymatebwyr a fynegodd gytundeb yn cyfeirio at yr angen am gosb i roi cymhelliant i gydymffurfio â gorchymyn cynnal a chadw. Dywedodd Bob Leeming fod yn rhaid i'r system "fod â rhywfaint o ddannedd, ac anogaeth i gydymffurfio". Disgrifiodd Syr Wyn Williams hyn fel "gwarchodaeth hanfodol yn erbyn yr anghyfrifol".

8.39 Awgrymodd Huw Williams y dylai treial ar ddiad fod ar gael hefyd, gan fod "hanes canlyniadau llithriadau tomennydd yn dangos bod peidio â chydymffurfio yn gallu arwain at y canlyniadau mwyaf difrifol". Cyfeiriodd at gynseiliau mewn deddfwriaeth adeiladau hanesyddol ac amgylcheddol.

8.40 Credai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y dylai unrhyw drosedd fod yn "rhesymol a chymesur" ac y dylai'r manylion fod yn destun ymgynghoriad.

8.41 Credai CLA Cymru y dylai'r trosedd fod ar gael fel dewis olaf lle'r oedd gwrandawriad apêl wedi'i gynnal o blaid yr awdurdod a bod angen gwaith brys i ddatrys materion sy'n peri pryder mawr neu fethiant sydd ar fin digwydd.

8.42 Awgrymodd Lee Jones y dylid rhoi dirwy cosb benodedig yn y lle cyntaf, ac yna erlyn pe bai'r methiant i gydymffurfio â'r gorchymyn yn parhau. Bydd hyn gyda'r fantais o llacio'r pwysau ar system y llysoedd a chostau gorfodi.

**Eithriadau**

8.43 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn, er mwyn tegwch, y byddai angen eithriadau i ymdrin, er enghraifft, ag achosion o galedi lle'r oedd asesiad caledi wedi'i gynnal. Roeddent hefyd yn credu y byddai'n anodd cynnwys perchennog eiddo domestig cyffredin a adeiladwyd gyda chymeradwyaeth awdurdod lleol neu'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC).

**Dulliau eraill**

8.44 Edrychodd yr Athro Bob Lee unwaith eto ar y pwerau gorfodi a fyddai ar gael petai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael y rôl o orfodi'r drefn reoleiddio newydd: byddai methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn agor y posibilrwydd o erlyn. Byddai posibilrwydd hefyd o ddefnyddio sancsiynau sifil o dan Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 a defnyddio Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orfodi a Sancsiynau.

## Trafodaeth

- 8.45 Roedd cefnogaeth unfrydol bron i'n cynnig, gan fynegi consensws bod angen rhyw fath o gosb am fethu â chydymffurfio â gorchymyn tomen. Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch y gosb briodol i'w rhoi. Ein hargymhelliad yw y dylai'r gosb uchaf fod yn uchafswm y cyfnod o garchar y gellir ei roi fel arfer am drosedd diannod yn unig, neu ddirwy, neu'r ddau.<sup>240</sup> Dyma'r model a ddilynir gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 o ran peidio â chydymffurfio â gorchymyn rheoli rhywogaethau.<sup>241</sup> Byddem yn disgwyl i'r gosb arferol fod yn ddirwy. Gallai cymhwys hyn, er enghraifft mewn achosion o dorri gorchymyn sy'n mynd i'r afael â mân faterion cynnal a chadw. Ond gallai cynnwys carcharu fod yn angenrheidiol mewn achosion mwy difrifol lle, er enghraifft, mae torri gorchymyn yn barhaus neu dro ar ôl tro yn creu risg ddifrifol i ddiogelwch y cyhoedd. Nid ydym yn credu bod angen creu trosedd ditiadwy; mae uchafswm y cyfnod o garchar am drosedd diannod yn unig, sef 6 mis ar hyn o bryd, yn gosb ddifrifol ac rydym yn rhagweld y bydd yr awdurdod goruchwylio yn dynodi ac yn delio â'r tomennydd mwyaf peryglus.<sup>242</sup>
- 8.46 Nid ydym o'r farn y dylid cael amddiffyniad o galedi fel y cyfryw; yr ateb lle bernir bod gorchymyn yn anghymesur yw apelio yn hytrach nag anufuddhau iddo. Dylai caledi fod wedi cael ei asesu eisoes adeg rhoi y gorchymyn. Yn ein trafodaeth ar gytundebau cynnal a chadw tomennydd ym mhennod 5, gwnaethom egluro, lle nad oedd perchennog y domen yn gallu gwneud gwaith, er enghraifft oherwydd oedran neu anabledd, y gallai fod yn angenrheidiol darparu yn y cytundeb i'r gwaith gael ei wneud gan yr awdurdod.<sup>243</sup> Rydym wedi egluro, wrth trafod pŵer codi tâl ar gyfer y fframwaith rheoleiddio, y gallai cytundeb wneud darpariaeth ar gyfer taliad naill ai gan neu i'r perchennog.<sup>244</sup> Gellid gwneud asesiad o galedi ariannol hefyd ar y cam hwn.
- 8.47 Am y rhesymau hyn, rydym yn rhagweld y bydd y cytundeb ei hun i bob pwrpas, ac eithrio mewn achosion o anawsterau ychwanegol, yn darparu ar gyfer caledi, fel na fydd angen eithriad rhag cosb am beidio â chydymffurfio. Serch hynny, rydym yn argymhell y dylai'r trosedd o fethu â chydymffurfio fod "heb esgus rhesymol", a chydabod y gallai caledi gormodol fod yn esgus rhesymol. Gellid darparu canllawiau statudol i sicrhau bod ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried.
- 8.48 Rydym hefyd wedi ystyried y posibilrwydd o sancsiynau sifil am dorri gorchymyn. Mae sancsiynau sifil o dan Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 yn cynnwys gosod cosbau ariannol sefydlog ac amrywiol, cydymffurfio, adfer ac atal hysbysiadau a gorfodi ac ymrwymadau trydydd parti.<sup>245</sup> Gallwn weld rôl i sancsiynau o'r fath mewn achosion, er enghraifft, o fethiant parhaus i gyflawni mân waith cynnal a

---

<sup>240</sup> H.y. un y gellir ei roi ar brawf gan ynadon yn unig.

<sup>241</sup> Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, paragraff 19(3).

<sup>242</sup> Ar hyn o bryd mae hyn yn 6 mis, nes bo adran 281(5) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn dod i rym, ond mae arwyddion y bydd yn cael ei chodi i un flwyddyn: gweler <https://www.gov.uk/government/news/magistrates-courts-given-more-power-to-tackle-backlog>.

<sup>243</sup> Gweler paragraff 5.31.

<sup>244</sup> Gweler baragraff 9.25 isod.

<sup>245</sup> Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) SI 2010 Rhif 1821 (Cym 178), erthygl 3. Mae'r sancsiynau hyn yn berthnasol i amrywiaeth o droseddau mewn deddfwriaeth amgylcheddol, gan gynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Deddf Draenio Dŵr 1991.

chadw megis clirio sianeli draenio, ond credwn y dylai fod yn gosb droseddol beth bynnag a chyfyngu ein hunain i argymell hynny ar hyn o bryd. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried dod â mân achosion o dorri gorchmynion tomennydd i'r drefn sancsiynau sifil yng ngoleuni eu profiad o ddefnyddio sancsiynau o'r fath.

### Argymhelliad 31.

- 8.49 Rydym yn argymell y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchmyn tomen fod yn drosedd diannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na'r gosb uchaf am drosedd diannod yn unig, neu ddirwy neu'r ddau.
- 8.50 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio sancsiynau sifil mewn perthynas â thorri gorchmyn cynnal a chadw tomen.

## FFYRDD I APELIO

- 8.51 Mae'r drefn bresennol yn rhoi hawl i apelio i'r llys sirol neu i'r Uchel Lys mewn perthynas â hysbysiadau i wneud gwaith a hawliadau am daliadau treuliau gan awdurdod lleol.<sup>246</sup> Mae'r hawliau i gael iawndal a chyfraniad a ddarperir gan y Ddeddf hefyd yn arwain at y posibilrwydd o geisiadau lluosog i'r llys. Yn ein papur ymgynghori, mynegwyd y farn y byddai un cais i lys neu driwlynlys i ddatrys pob mater sy'n ymwneud ag iawndal neu gyfraniad yn well na cheisiadau lluosog.<sup>247</sup>
- 8.52 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig hawliau newydd i apelio o dan y drefn reoleiddio newydd. Rydym wedi argymell yn yr adroddiad hwn bod hawl i apelio yn codi yn erbyn mynediad i'r gofrestr tomennydd ar y sail nad oes tomen ar y tir, ac yn erbyn rhoi gorchmyn tomen.<sup>248</sup> Yn y bennod nesaf, rydym yn esbonio nad ydym yn credu bod angen i'r drefn newydd ddarparu system o geisiadau i ddatrys materion iawndal neu gyfraniad.
- 8.53 Cyfyd y mater ynghylch y corff priodol i wrando apeliadau o dan gynllun newydd. Fe wnaethom egluro yn ein papur ymgynghori bod y rhain, o dan y gyfraith bresennol, yn perthyn i ddau gategori: achosion rhwng partiön preifat, fel ceisiadau am gyfraniad, ac achosion rhwng parti preifat, perchennog y domen fel arfer, a'r awdurdod lleol.<sup>249</sup> Awgrymasom y gallai deddfwriaeth ddarparu ar gyfer gwneud ceisiadau ac apeliadau i Weinidogion Cymru a'u cyfeirio at berson penodedig, i'r Arolygiaeth Gynllunio, neu i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Amgylchedd). Y posibiliadau eraill oedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) neu driwlynlys datganoledig megis Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, neu Dribiwnlys Prisio Cymru. Awgrymasom hefyd y gallai tribiwnlys

<sup>246</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.107 a 10.111.

<sup>247</sup> Uchod, paragraff 10.109.

<sup>248</sup> Gweler paragraffau 3.65 a 5.90 uchod.

<sup>249</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.110.

datganoledig newydd wrando ar apeliadau, gan gyfeirio at y cynigion dros dro ar gyfer system tribiwnlysoedd i Gymru ym mhapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru.<sup>250</sup>

- 8.54 Nodwyd gennym bod yr union fecanwaith apelio y tu allan i'n cylch gorchwyl, ac y dylid ei adael i Lywodraeth Cymru. Ond awgrymasom, gan y gallai sail yr apêl ofyn am feysydd arbenigedd penodol, er enghraifft ynglŷn â adnabod ardal fel tomen, y bydd yn bwysig darparu i'r apêl gael ei chlywed gan berson sydd ag arbenigedd priodol. Ni ofynnwyd cwestiwn ymgynghori penodol ar y pwynt, ond gofynasom am farn.<sup>251</sup>

### Barn ar awdurdodaeth apêl

- 8.55 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) a Blaenau Gwent yn cytuno â'r angen i sicrhau bod apeliadau'n cael eu clywed gan berson sydd â phrofiad priodol, a nododd eu parodrwydd i drafod y materion ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.

- 8.56 Cyfeiriodd Syr Wyn Williams a Huw Williams at yr argymhelliad a wnaed gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru "y dylid defnyddio tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer datrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol".<sup>252</sup> Awgrymodd Huw Williams y gallai anghydfodau iawndal fynd un ai i dribiwnlys datganoledig neu i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd). Roedd Syr Wyn Williams yn credu:

Dylai anghydfodau ac apeliadau sy'n codi yn rhinwedd deddfwriaeth Gymreig yn unig sy'n ymwneud â thomennydd gael eu clywed mewn fforwm neu dribiwnlys sy'n benodol i Gymru. Mae hynny'n rhwystro rhag cyfeirio anghydfodau neu apeliadau i lysoedd presennol Cymru a Lloegr.

- 8.57 O ystyried natur amrywiol yr arbenigedd y gallai fod ei angen i ymdrin â'r mathau o anghydfod a nodwyd yn y papur ymgynghori, daeth Syr Wyn Williams i'r casgliad na allai roi barn bendant ynghylch yr union fecanwaith apelio sy'n ofynnol. Cyfeiriodd at yr angen am gwaith pellach, gan gynnwys ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer system dribiwnlysoedd newydd i Gymru.<sup>253</sup> Awgrymodd:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad manwl o'r tribiwnlysoedd presennol yng Nghymru (eiddo preswyl a thir amaethyddol) er mwyn penderfynu a oes modd ymestyn eu hawdurdodaeth i gynnwys anghydfodau. Yn ogystal, os caiff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a/neu Dribiwnlys Apêl i Gymru ei argymhell gan Gomisiwn y Gyfraith

---

<sup>250</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.111 a 112. Gweler hefyd Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2020) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith 251.

<sup>251</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.113 a 114.

<sup>252</sup> Argymhelliad 27, Cyfiawnder yng Nghymru i Bobl Cymru, Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Hydref (2019) <https://gov.wales/commission-justice-wales-report>. Roedd Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn aelod o'r Comisiwn.

<sup>253</sup> Pan gyflwynodd Syr Wyn Williams ei ymateb, nid oedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith wedi'i gyhoeddi eto. Cyhoeddwyd ein hadroddiad, Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2021) Adroddiad Comisiwn y Gyfraith 403, ar 8 Rhagfyr 2021.

a'i greu maes o law gan Lywodraeth Cymru, dylai'r Llywodraeth asesu a ddylid creu corff newydd i gyd-fynd â'r strwythurau hynny i ddelio â datrys anghydfodau sy'n ymwneud â thomennydd.

- 8.58 Cefnogodd yr Athro Bob Lee y syniad o symud o'r llys i'r system tribiwnlys, gan gynnig Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Amgylchedd) fel y lleoliad priodol. Cyfeiriodd at drafodaethau yng Nghymru yn y Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ynghylch y posibilrwydd y byddai Comisiwn Amgylchedd Cymru yn mynd ar drywydd adolygiad amgylcheddol arfaethedig gerbron yr Uwch Dribiwnlys lle honnir bod corff cyhoeddus yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
- 8.59 Yr oedd Keith Bush CF o'r farn y dylai unrhyw apeladau dan y system newydd, yn y lle cyntaf, fynd i dribiwnlys datganoledig. Byddai hyn yn sicrhau hygyrchedd unrhyw ddatrysiadau.

### **Trafodaeth**

- 8.60 Fel y nodwyd uchod, mae'r union fecanwaith apelio sydd i'w ddefnyddio gan y drefn reoleiddio newydd y tu allan i'n cylch gorchwyl, ac mae'n fater i Lywodraeth Cymru. Am y rheswm hwn, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhelliad yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ein hargymhelliad ar Dribiwnlys yr Haen Gyntaf a Thribiwnlys Apêl newydd i Gymru, efallai y bydd yn dymuno ystyried awgrym Syr Wyn William ei fod yn asesu a ddylid creu corff newydd i ddelio ag anghydfodau sy'n ymwneud â thomennydd i gyd-fynd â'r strwythurau hyn.

## Pennod 9: Telerau ariannol cytundebau a gorchmynion

### PŴER CODI TÂL

- 9.1 Roedd ein papur ymgynghori yn egluro ei bod y tu allan i'n cylch gorchwyl i ystyried pwy ddylai dalu am weithrediadau diogelwch tomennydd glo. Y perchennog sy'n bennaf gyfrifol am waith diogelwch tomennydd o dan y system bresennol.<sup>254</sup> Mae hyn yn amodol ar hawliadau am gyfraniad yn erbyn eraill a phŵer Gweinidogion Cymru i roi grantiau i ariannu gweithrediadau adfer a gyflawnir gan awdurdodau lleol.<sup>255</sup> Fe wnaethom egluro bod gorchmynion cyfrannu yn gweithredu i leddfu effaith y diffiniad haearnidd o berchennog o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969. Gallai'r diffiniad arwain at annhegwch, er enghraifft i denant ar brydles fer.<sup>256</sup> Ar adegau, mae arian cyhoeddus wedi bod ar gael ar gyfer adfywio, ond dim ond o dan gynlluniau penodol.<sup>257</sup>
- 9.2 Nodwyd gennym fod awdurdodau lleol wedi ei chael yn anodd adennill arian gan berchnogion. Ar ben hynny, mae bwch yn y darpariaethau, sef nid oes pŵer i godi tâl am waith cynnal a chadw neu am brofion archwiliadol nad ydynt yn arwain at waith adfer. Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn ei bod yn fwy cost-effeithiol gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol ar domennydd na gwirio a gorfodi y cario mas o'r gwaith gan perchennog tir.<sup>258</sup>
- 9.3 Edrychodd ein papur ymgynghori ar fodolau codi tâl posibl. Rydym yn awgrymu mai un dull fyddai dilyn y drefn codi tâl am gronfeydd dŵr drwy osod ffi ar berchennog tomen ar adeg cofrestru, o bosibl i dalu am gost yr archwiliad, a ffi flynyddol i berchennog tomen ddynodedig. Neu, gellid teilwra'r ffi i'r gwaith sy'n ofynnol. Fe wnaethom egluro mai dewisiadau polisi i Lywodraeth Cymru yw'r rhain, a chynnig pŵer cyffredinol i godi tâl dros dro er mwyn caniatáu i'r dewisiadau hyn gael eu gwneud.

**Cwestiwn Ymgynghori 28: Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r awdurdod goruchwylio ac unrhyw gyrrff cyhoeddus eraill sydd â swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo gael pŵer cyffredinol i godi ffioedd a threuliau ar berchennog tir sy'n cynnwys tomen, a allai gynnwys taliadau cyfnodol. A ydych yn cytuno?**

---

<sup>254</sup> Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 23(1) a (2); Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.51. Diffinnir y perchennog yn adran 36.

<sup>255</sup> Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 19, 21 i 25; Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 4.52 i 4.57.

<sup>256</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 4.42, 4.54 a 4.55.

<sup>257</sup> Uchod, paragraffau 3.25, 3.27 a 10.102.

<sup>258</sup> Uchod, paragraff 10.103.

- 9.4 O'r 41 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 28 (68%) yn cytuno. Roedd un ar ddeg (27%) yn anghytuno, a dau a ddewisodd ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno

- 9.5 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai dod o hyd i ffyrdd i'r drefn newydd fod yn ariannu ei hun drwy'r gwasanaethau a ddarperir yn ffordd o sicrhau ei chynaliadwyedd yn y tymor hir. Roedd Rhondda Cynon Taf yn awyddus i berchnogion tir dalu ffioedd. Credai Graham Hathaway ei bod yn hanfodol gwrthbwysu gwariant cyhoeddus fel hyn. Roedd Syr Wyn Williams yn cefnogi cyfraniadau ariannol gan dirfeddianwyr lle roeddent yn "ymarferol ac yn gymesur".
- 9.6 Nododd yr Athro Bob Lee fod trefniadau codi tâl ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio wedi newid cryn dipyn ers 1969, a chredai na fyddai'r pŵer arfaethedig yn cyd-fynd â'r hyn a godir mewn meysydd eraill o reoleiddio amgylcheddol. Yn ei farn ef, byddai "ffi haenog ar gyfer cofrestru blynyddol sy'n ystyried dosbarthiad a risg" yn darparu model syml yn seiliedig ar y system trwyddedu rheoleiddiol.

### Amheuan

- 9.7 Rhybuddiodd Howard Siddle na fyddai adennill ffioedd mewn perthynas â "thomen ddi-fudd fel arall, yn ddegawdau oed, efallai yn un ddiniwed" yn realistig.
- 9.8 Holodd CNC am sefyllfa perchnogion cyrff cyhoeddus a allai gael eu rhoi yn y sefyllfa o godi ffioedd arnynt eu hunain. Roedd Howard Siddle hefyd yn cydnabod y broblem hon. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y broblem ynghylch tomennydd nad oes modd dod o hyd i berchennog ar eu cyfer.
- 9.9 Cwestiynodd Grŵp Plaid Cymru Castell-nedd Port Talbot yr hyn fyddai, yn eu barn hwy, yn ddyraniad cyfrifoldeb mympwyol, o ystyried hanes y diwydiant glo a phatrwm perchnogaeth tomennydd yr oedd hynny wedi ei gynhyrchu:

Mae gwasgariad y perchnogion yn adlewyrchu'r cefndir hanesyddol, yr arferion gweithredol a'r ffaith bod y diwydiant glo wedi cael ei breifateiddio'n ddiffygiol. Mae hyn yn etifeddiaeth enfawr o orffennol diwydiannol Cymru sy'n parhau i beri risg i gymunedau sydd hefyd wedi dioddef dirywiad economaidd ar ôl i'r diwydiant glo ddod i ben. Y cymoedd hyn oedd crud y chwyldro diwydiannol. Maent wedi cael eu hecsbloetio am eu cyfoeth mwynol, ond ni fuddsoddwyd nac ail-fuddsoddwyd elw enfawr y diwydiannau hynny er budd ein cymunedau....

I lawer o berchnogion llai, nid yw'r cyfrifoldeb dros archwilio a chynnal a chadw tomennydd yn hyfyw. Ar y llaw arall, dylai gweithredwyr presennol mawr fel Celtic Energy gyflawni eu cyfrifoldebau ac mae rhai perchnogion tir mawr a chyfoethog wedi gwneud elw am genedlaethau sy'n rhoi rhwymedigaeth iddynt.

### Dulliau codi tâl

- 9.10 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru a CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) yn cytuno, er bod angen trafod manylion y polisi codi tâl ymhellach, bod yn rhaid i'r ffioedd fod yn "deg, yn gymesur, yn dryloyw ac yn gyson ledled Cymru".
- 9.11 Awgrymodd Huw Williams y byddai angen ystyried ymhellach a ddylid pennu taliadau fesul achos gyda golwg ar adennill costau'n llawn, neu ar raddfa sefydlog debyg i

ffioedd cynllunio. Yn yr achos blaenorol, byddai angen mecanwaith yn ei farn ef i herio ffioedd yr ystyrir eu bod yn ormodol. Credai Kim Moreton mai'r model gorau fyddai graddfa symudol o daliadau yn ôl lefel risg a chostau cynnal a chadw disgwylidig. Nododd Lee Jones ei bod yn bwysig cydnabod y gwahaniaethau yn lefel yr arolygu sydd ei angen. Mae archwiliad arsylwadol anymwithiol yn llawer llai costus nag ymchwiliadau tir ymwithiol.

- 9.12 Nododd Trafnidiaeth Cymru yr angen am fecanwaith i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu'n ddigonol os nad oedd y tirlfeddiannwr yn gallu fforddio'r taliadau. Mewn sefyllfa o'r fath, efallai y bydd ar yr awdurdod angen pwerau i gymryd perchnogaeth ar y domen er budd diogelwch.
- 9.13 Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y ffaith y gallai gwaith a wnaed ar domen wella gwerth y tir y mae wedi'i leoli arno. Gan mai'r perchennog fyddai prif fuddiolwr hyn, dylai unrhyw gost gwaith a gyflawnir gan awdurdod goruchwyllo "gael ei hadennill yn unol â'r gwerth uwch a grëir gan y gwaith".

### Modelau ariannu eraill

- 9.14 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cwestiynu'r egwyddor o godi tâl ar berchnogion nad oedd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gyfrifol am greu'r domen. Credai Jane Iwanicki fod tegwch a chymesuredde yn golygu bod angen ystyried perchnogaeth y gorffennol ar fuddiannau glo a'r tomennydd cysylltiedig. Nododd fod llawer o'r gweithrediadau a greodd y tomennydd wedi'u cyflawni yn nyddiau'r diwydiant glo gwladoleidig. Credai Howard Siddle y dylai'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu" fod yn berthnasol; awgrymodd hyn y dylai'r diwydiant glo fod yn gyfrifol am yr etifeddiaeth o ansefydlogrwydd tomennydd a chost gweithrediadau ar domennydd anweithredol. Awgrymodd hefyd y dylid gosod ardollau ar ddefnyddio hen domennydd ar gyfer defnyddiau newydd i gynhyrchu ffrydiau cyllido ychwanegol.

### Gorfodi

- 9.15 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyd yn tynnu sylw at yr angen am fecanweithiau i fynd ar drywydd ffioedd nad ydynt yn cael eu talu. Rhybuddiodd CLILC a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn erbyn creu system ar gyfer mynd ar drywydd pobl nad ydynt yn talu sy'n mynd yn ddrutach ac yn arafach na gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol yn uniongyrchol.
- 9.16 Credai Wrecsam hefyd, lle nad oedd gan y tir dan sylw berchennog adnabyddadwy adeg gwneud y gwaith, y byddai'n ddefnyddiol cael darpariaeth ar gyfer cofrestru prydiant tir er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r awdurdod goruchwyllo adennill y costau a godwyd.

### Rhesymau dros anghytuno

- 9.17 Roedd rhai o'r rheini a oedd yn anghytuno yn dibynnu ar resymau tegwch i gefnogi eu barn y dylai'r awdurdod goruchwyllo ei hun dalu am gostau gwaith ar domennydd. Roedd Jane Iwanicki, fel y soniwyd uchod, yn edrych ar hanes y diwydiant glo i ddadlau na ddylai perchnogion presennol orfod talu cost y gwaith. Credai Paul Connolly y byddai'n achosi gwrthdaro pe codwyd tâl ar berchnogion tomennydd oherwydd "mae'n annhebygol bod y tirlfeddiannwr wedi cael budd ariannol o'r



gweithgarwch mwyngloddio a gynhyrchodd y gwastraff". Dywedodd Joel James AS yn syml "ni ddylai perchnogion tir orfod talu ffioedd na threuliau am fod yn berchen ar dir sy'n cynnwys tomennydd glo yn unig". Yn ei farn ef, dylai'r eithriad i hyn fod yn gyfrifoldeb i dalu costau'r gwaith brys sydd ei angen oherwydd bod y perchennog wedi methu â chadw'r domen yn ddiogel.

- 9.18 Roedd eraill yn dibynnu ar resymau ymarferol. Credai CLA Cymru y byddai mynnu bod yr awdurdod yn talu ei gostau ei hun yn arwain at well canlyniad, yn lleihau apeliadau ac yn caniatáu i'r awdurdod ganolbwyntio ar y gwaith sydd i'w wneud. Roeddent hefyd yn rhybuddio am y risg y gallai'r trefeddiannwr "ddiflannu":

Byddai'n well o lawer i'r awdurdod dalu'r bil lle gellir ei sicrhau bydd y gwaith yn cael ei wneud ac i safon addas, fel bod rhywfaint o hyder yn y ffaith bod y tomennydd mewn cyflwr diogel wrth symud ymlaen.

- 9.19 Roedd Dr John Perry yn amau y byddai'r system yn gweithio, gan y byddai'n golygu mynd ar ôl awdurdodau lleol a pherchnogion preifat, a fyddai "yn debygol o fod heb ddigon o arian", ac a fyddai'n tynnu oddi ar wasanaethau blaenoriaeth uchel eraill megis iechyd ac addysg.

- 9.20 Yr oedd Keith Bush CF yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail tegwch ac ymarferoldeb, yn enwedig o ran codi tâl ar domennydd nad ydynt yn peri risg:

Nid yw'n ymddangos yn deg y gall perchennog tir sydd heb fod yn creu perygl i bobl nac i eiddo orfod talu at y gost o gynnal gwaith archwiliadol cyffredinol yr awdurdod goruchwyllo. Hyd yn oed pe byddai trefn felly yn dderbyniol mewn egwyddor byddai cwestiynau ymarferol cymhleth iawn yn codi mewn perthynas a phennu maint y tal a theilwra'r drefn i'r ffaith y bydd natur buddiannau perchnogion yn y tir yn amrywio cymaint.<sup>259</sup>

- 9.21 Roedd yn dadlau a ddylid defnyddio'r drefn cronfeydd dŵr fel model:

- 9.22 Nid yw'r drefn mewn perthynas a chronfeydd dwr yn gyfatebol. Mae perchennog cronfa ddwr yn cael elw allan o fodolaeth y gronfa a phe na byddai archwiliadau statudol yn digwydd fe fyddai angen i'r perchennog gwario ar ei archwiliadau ei hyn beth bynnag. Mae sefyllfa perchennog tomen sydd heb fod yn fygythiad presennol i unrhyw un ac nad yw'n gofyn am unrhyw ymyrraeth ymarferol ar ran y perchennog yn wahanol. Roedd Swyddfa Parc Ystâd Pont-y-pŵl yn gwrthwynebu'r cynnig ar y sail na fyddai gan y cyhoedd reolaeth dros y ffordd y rhedid yr awdurdod goruchwyllo, ac y byddai'n annheg trosglwyddo cost camweinyddu i berchnogion heb iawndal.

- 9.23 Roedd Stephen Smith, a atebodd "arall", yn credu y byddai'n annheg cael cynllun cyffredinol i godi tâl ar berchnogion tomennydd a oedd wedi etifeddu'r tomennydd ar eu tir ac wedi cael dim budd ohonynt. Dywedodd na fyddai gan perchennog y domen lwybr ymadael o'r rhwymedigaeth i dalu'r tâl ac eithrio drwy gael gwared â'r domen.

---

<sup>259</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

Byddai hwn yn waith drud, heb gyfiawnhad o bosibl, a gallai gael ei atal gan ddeddfwriaeth amgylcheddol arall.

## Trafodaeth

- 9.24 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig am bŵer cyffredinol i godi ffioedd a threuliau ar berchennog tir sy'n cynnwys tomen, ond roedd lefel y gefnogaeth yn is nag ar gyfer ein cynigion dros dro eraill. Rydym yn cytuno gyda'r rhai sydd yn cefnogi ein cynigion bod cynaliadwyedd tymor hir yr awdurdod goruchwylio yn debygol o ddibynnu ar rywfaint o allu i godi tâl am ei wasanaethau, ac yn cytuno bod y drefn codi tâl o dan Ddeddf 1969 wedi dyddio.
- 9.25 Rydym wedi egluro mewn penodau cynharach ein bod yn ffafrio dull hyblyg o reoli tomennydd nad ydynt wedi'u dosbarthu fel rhai sydd wedi'u dynodi o dan y drefn newydd. Rydym wedi argymhell y dylai'r awdurdod goruchwylio gael disgrisiwn wrth benderfynu pwy ddylai gyflawni swyddogaethau fel archwiliadau ac asesiadau risg. Byddai angen i bŵer arwystlo newydd ddelio â sefyllfaoedd pan fo perchnogion tomennydd, yn gyhoeddus ac yn breifat, yn gwneud eu gwaith eu hunain. Er mwyn bod yn hyblyg, rydym yn awgrymu y dylid cael pŵer i osod ffioedd neu i wneud taliadau, fel yn achos gweithrediadau rheoli rhywogaethau.<sup>260</sup>
- 9.26 Rydym yn cytuno y bydd angen ystyried yn ofalus a ydynt, pan godir ffioedd, yn cael eu pennu fesul achos, neu ar raddfa sefydlog. Rydym hefyd yn cytuno mai model posibl fyddai graddfa symudol o daliadau yn seiliedig ar lefel risg a chostau cynnal a chadw disgwylidig. Bydd angen mecanwaith i ddelio ag anghydfodau ynghylch taliadau os codir tâl fesul achos, a bydd angen gofal i sicrhau bod y mecanwaith yn gallu mynd ar drywydd ffioedd nad ydynt yn cael eu talu yn effeithlon. Efallai y bydd angen cyfuno'r pŵer codi tâl hefyd â phwerau prynu gorfodol, fel y trafodwyd mewn penodau blaenorol.<sup>261</sup>
- 9.27 Bydd patrwm amrywiol perchnogaeth tomennydd hefyd yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu polisi codi tâl. Mae perchnogion tomennydd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus a fathau gwahanol o perchnogion tir preifat, yn cynnwys ffermwyr a thai modern a datblygiadau masnachol. Prynodd rhai perchnogion tir y tir sy'n cynnwys y domen yn ddarostyngedig i gyfamod i cadw'r domen mewn cyflwr da neu am pris isel mewn cydnabyddiaeth o'r waith oedd angen ar y domen. Hefyd, gall un domen fod yn eiddo i gyfuniad o fathau o perchnogion. Mae'r ffactorau hyn hefyd yn debygol o fod yn berthnasol i bolisi codi tâl ac i ystyried dyrannu atebolrwydd, a drafodir yn yr adran nesaf.
- 9.28 Mae llawer o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion yn adlewyrchu dadl ynghylch a ddylai perchnogion preifat neu'r pwrs cyhoeddus ysgwyddo cost y cynllun. Rydym hefyd yn nodi barn rhai ymatebwyr y dylid defnyddio egwyddor "y llygrwr sy'n talu" er

---

<sup>260</sup> O dan y gyfundrefn rheoli rhywogaethau anffrodorol, caiff y cytundeb neu'r gorchymyn gynnwys darpariaethau ar gyfer "taliad i'w wneud gan y naill barti neu'r i'r llall, neu i berson arall, mewn perthynas â'r gweithrediadau rheoli rhywogaethau sydd i'w cyflawni". Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 9.89 a 9.91 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 2015, atodlen 9A, paragraffau 7(3)(b) a 13(2)(b) ac (c).

<sup>261</sup> Gweler paragraffau 5.84 a 6.115 uchod. Mae pwerau prynu gorfodol hefyd yn cael eu trafod ym mharagraffau 12.25 isod.

mwyn i'r diwydiant glo fod yn gyfrifol am y tomennydd y mae wedi'u gadael ar ôl. Mae'r ymatebwyr hyn o'r farn ei bod yn annheg codi tâl ar berchnogion presennol nad ydynt yn gyfrifol am greu'r gwastraff. Mae'r ystyriaethau hyn yn faterion polisi i Lywodraeth Cymru wrth iddynt benderfynu ar eu polisi codi tâl.<sup>262</sup>

- 9.29 Rydym yn cytuno nad yw'r drefn cronfeydd dŵr yn cyfateb i reoleiddio tomennydd glo anweithredol. Mae perchnogion cronfeydd dŵr, yn bennaf, yn cael budd economaidd o gronfa ddŵr. Os nad oes ei angen, gellir draenio cronfa ddŵr. Mae cael gwared â thomen yn weithred wahanol iawn, ac yn anymarferol yn gyffredinol.<sup>263</sup>
- 9.30 Yn unol â hynny, rydym yn argymhell y dylid cael pŵer codi tâl yn y telerau a nodir ar ddiwedd yr adran nesaf. Rydym hefyd o'r farn ei bod yn briodol, er mwyn darparu hyblygrwydd, bod pŵer ar gael i dalu cost y gwaith a wneir gan y perchennog neu'r deiliad.

### HAWLIADAU AM IAWNDAL NEU GYFRANIADAU

- 9.31 Mae'r drefn bresennol ar gyfer hawlio treuliau gan dirfeddianwyr yn amodol ar system gymhleth o hawliadau am iawndal neu gyfraniad.<sup>264</sup> Mae'r rhain yn cynnwys:
- (1) dyletswydd i roi cyfrif am enillion gwerthu deunydd nad yw'n eiddo i berchennog y domen sy'n cael ei dynnu gan y perchennog o domen yn ystod gwaith adfer;
  - (2) dyletswydd i roi cyfrif i berchennog y deunydd am yr elw o werthu deunydd a dynnir gan yr awdurdod lleol o domen yn ystod gwaith adfer, yn ddarostyngedig i bŵer i osod yr enillion gwerthiant yn erbyn unrhyw swm y mae gan yr awdurdod lleol hawl i'w adennill oddi wrth y perchennog;<sup>265</sup> yn y cyd-destun hwn, gall perchennog y deunydd fod yn berchennog y domen neu beidio;
  - (3) darpariaeth ar gyfer iawndal pan fo gorchymyn i wneud gwaith adfer yn cael ei ddirymu;<sup>266</sup>
  - (4) dyletswydd i ddigolledu trydydd partion am ddifrod neu aflonyddwch o ganlyniad i brofion neu weithrediadau adfer;<sup>267</sup> a

---

<sup>262</sup> Mae defnyddio'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu", un o'r pedair egwyddor amgylcheddol gyffredinol yng nghyfraith yr UE, ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'r datblygiad polisi dilynol ynghylch sut i ddelio â bylchau mewn egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar ôl ymadael â'r UE, yn cael eu trafod ym Mhapur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 5.56 i 5.67 Comisiwn y Gyfraith (2021).

<sup>263</sup> Gweler Rheoli Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 9.29 i 9.31 am drafodaeth bellach ar y gwahaniaethau rhwng cronfeydd dŵr a thomennydd glo a allai gyfiawnhau gwahaniaethau mewn polisi.

<sup>264</sup> Trafodir y darpariaethau hyn yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 4.52 i 4.57.

<sup>265</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 14(7) a 17(6).

<sup>266</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adran 16(4) ac atodlen 4.

<sup>267</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adran 20.

- (5) darpariaeth ar gyfer cyfraniad ariannol at atebolrwydd perchennog yn ôl categorïau penodol o berson.<sup>268</sup>

9.32 Eglurwyd yn ein papur ymgynghori fod y darpariaethau'n ymddangos yn feichus, a'n bod yn ansicr i ba raddau yr oedd unrhyw angen amdanynt o hyd. Roedd hyn yn enwedig yn gwir yng ngoleuni ein dull diwygiedig arfaethedig o ddiffinio perchennog a'r ffaith bod tipio gwastraff glo yn dod yn fwyfwy prin. Gofynnwyd am farn ynghylch a ddylid cadw'r darpariaethau, ac am unrhyw brofiad ymarferol o'u defnyddio.<sup>269</sup>

### **Cwestiwn Ymgynghori 29: A yw'n briodol i ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn diogelwch tomennydd glo gynnwys**

**pŵer i werthu deunydd nad yw'n eiddo i berchennog tomen lo sy'n cael ei dynnu o domen yn ystod gwaith adfer ar y domen; os felly, a ddylai fod â dyletswydd i roi cyfrif i'r perchennog am yr enillion o werthu?**

**darpariaeth ar gyfer iawndal pan fo gorchymyn i wneud gwaith adfer yn cael ei ddirymu?**

**dyletswydd i ddigolledu personau heblaw perchennog tomen am ddfrodi neu darfu ar fwynhau tir o ganlyniad i brofion neu weithrediadau adfer?**

**darpariaeth ar gyfer dyfarnu cyfraniadau ariannol yn ôl disgrisiwn i atebolrwydd perchennog?**

**Os felly, a ddylai'r categorïau o berson sy'n atebol fod fel y'u nodir yn adran 19(1) Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tapiau) 1969 a bod yr amgylchiadau sydd i'w hystyried fel y'u nodir yn adran 19(4) y Ddeddf? Os na ddylent fod, pa ddarpariaeth arall y dylid ei gwneud?**

9.33 Atebodd tri deg pedwar o ymatebwyr y cwestiwn hwn neu rannau ohono. Mewn ymateb i is-baragraff (1), atebodd 25 o ymatebwyr, gyda 18 (72%) yn cytuno, roedd pedwar (16%) yn anghytuno a tri yn rhoi ateb "arall". Mewn ymateb i (2), atebodd 23 o ymatebwyr, gyda 14 (61%) yn cytuno, pedwar (17%) yn anghytuno a pump yn ateb "arall". Mewn ymateb i (3), atebodd 25, gyda 15 (64%) yn cytuno, roedd pump (20%) yn anghytuno a phedwar yn ateb "arall". Mewn ymateb i (4), atebodd 21, gyda 12 (57%) yn cytuno, roedd pedwar (19%) yn anghytuno a phump yn rhoi ateb "arall".

### **Rhesymau dros gytuno**

9.34 Roedd Keith Bush CF yn cefnogi'r holl fesurau a nodir yn y cwestiwn uchod fel rhai "priodol er mwyn sefydlu trefn deg ac effeithiol". Nododd Dr John Perry fod

---

<sup>268</sup> Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 19, 21 a 22. O dan adran 19(1), y categorïau o berson yw: unrhyw berson sydd wedi tipio gwastraff mwynglawdd neu wastraff chwarel ar y domen yn ystod y 12 mlynedd flaenorol; unrhyw berson sydd, o fewn y 12 mlynedd hynny, drwy weithred neu esgeulustod afresymol, wedi cyfrannu at ansefydlogrwydd y domen; unrhyw berson a oedd, ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad o dan adran 14 neu adran 17 ag ystâd neu fuddiant, ac eithrio fel morgeisiai, yn y tir y mae'r domen wedi'i lleoli arno; ac unrhyw berson a oedd ag ystâd neu fuddiant o fewn y cyfnod o 12 mlynedd yn union cyn y dyddiad hwnnw.

<sup>269</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.108.

“mecanwaith pawb ar eu hennill” ar gyfer yr awdurdod a’r perchennog yn gymhelliant da i’r perchennog gydymffurfio.

### Yr angen am symlrwydd

- 9.35 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent yn cydnabod yr angen am warchodaeth ddigonol ar gyfer buddiannau tirfeddianwyr, ond yn nodi’r angen am symlrwydd:

Mae’n bwysig, wrth adnewyddu’r ddeddfwriaeth, mai un o’r blaenoriaethau yw symleiddio’r trefniadau cyn belled ag y bo modd a chyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer achosion llys drud sy’n cymryd llawer o amser.

- 9.36 Canfu’r Athro Bob Lee fod y darpariaethau’n “rhy gymhleth a llafurus”. Awgrymodd y gallai cytundebau ar gyfer gwaith sy’n cael ei negodi rhwng y trefdianwyr a’r awdurdod gynnwys y math o ddarpariaethau sy’n dod o dan y ddeddfwriaeth. Credai hefyd ei bod yn werth ymchwilio i weld a oedd atebion amgen ar gael mewn rhai o’r achosion y mae’r darpariaethau’n ymdrin â hwy. Gallai’r rhain ddileu’r angen am ddarpariaeth benodol o fewn y fframwaith rheoleiddio. Cytunodd Huw Williams fod darpariaethau Deddf 1969 yn hen ffasiwn ac yn feichus a bod angen eu newid. Holodd Stephen Smith a fyddai cadw’r darpariaethau yn achosi perygl o ail-greu’r problemau a brofir gan awdurdodau lleol wrth weithredu Deddf 1969.
- 9.37 Awgrymodd Network Rail ofyniad i berchnogion gael yswiriant penodol neu fod yn rhan o gynllun yswiriant gorfodol, o bosibl gyda rhyw fath o drefniant ariannu ar y cyd y gellid ei ddefnyddio pe bai rhywbeth yn digwydd. Dan gynllun o’r fath, gallai pob parti fod yn destun proses hawlio y cytunwyd arni, a fyddai, yn eu barn hwy, yn dod ag eglurder ac yn arbed costau.
- 9.38 Credai Caerffili na ddylid cael unrhyw ddarpariaethau o’r math hwn yng nghyswllt mân faterion cynnal a chadw neu faterion cyffredinol.

### Sylwadau ar (1): pŵer i werthu deunydd a ddiwyddyd a dyletswydd i gyfrifo

- 9.39 Tynnodd Jane Iwanicki sylw at y ffaith, yn achos tomennydd glo, ei bod yn annhebygol y bydd tynnu a gwerthu deunydd sy’n cynnwys glo yn cyd-fynd â strategaeth lleihau carbon Llywodraeth Cymru, sy’n anelu at osgoi echdynnu a llosgi tanwyddau ffosil.<sup>270</sup>
- 9.40 Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru na fyddai pob tomen yn cynnwys cynnyrch y gellir ei werthu, ond lle roedd ganddo bŵer i’w werthu byddai’n helpu i wrthbwysu costau adfer a galluogi aildefnyddio deunyddiau yn hytrach na thrin nhw fel gwastraff. Roeddent hefyd yn credu y gallai dyletswydd i roi cyfrif i’r perchennog am enillion, ar ôl adfer costau adfer yn briodol, gymell y perchennog i gynnal diddordeb yn yr ased. Awgrymasant y gallai marchnad ddatblygu ar gyfer aildefnyddio rwbel a allai helpu’r awdurdod goruchwyllo i ddod yn fwy cynaliadwy. Yr oedd ICE Cymru yn fwy amheus y gallai fod deunydd ar wahân i lo yn y domen na fyddai’n eiddo i’r perchennog.

---

<sup>270</sup> Trafodir hyn yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, paragraff 3.5. Ar ben hynny, nid yw Polisi Cynllunio Cymru yn caniatáu cloddio glo i gynhyrchu ynni, er y gellir ei gloddio at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag ynni.

- 9.41 Cyfeiriodd Paul Connolly at werthiant glo yng nghynllun adfer tir Ffos y Fran fel enghraifft o gyfraniad at gostau adfer.<sup>271</sup>
- 9.42 Roedd Huw Williams yn credu y dylai sefyllfa perchennog trydydd parti deunydd a dynnir yn ystod gwaith adfer gael ei gynnwys mewn darpariaeth gyffredinol i dalu iawndal am golled. Yn ei farn ef, byddai i ba raddau y gallai perchennog deunydd o'r fath wneud hawliad o'r fath yn dibynnu'n rhannol ar a oeddent hefyd yn barti a allai fod yn atebol am gostau glanhau.

### **Sylwadau ar (2): iawndal pan ddirymir gorchymyn**

- 9.43 Roedd CLA Cymru o'r farn y byddai darpariaeth ar gyfer iawndal yn rhesymol pe gallai perchnogion ddangos eu bod wedi wynebu costau ar ôl cyflwyno'r gorchymyn. Rhybuddiodd Kim Moreton fod yn rhaid i unrhyw amhariad gael ei fesur a'i brofi. Roedd Lee Jones yn credu y dylai'r perchennog orfod dangos tystiolaeth bod y gorchymyn wedi cael effaith ariannol drwy atal y tir y mae'n berthnasol iddo rhag cael ei ddefnyddio'n llawn neu'n rhannol. Roedd Huw Williams o'r farn y dylai iawndal o'r fath gael ei gyfyngu'n llym a'i gysylltu'n unig â chostau gadael y tir mewn cyflwr taclus a sefydlog heb fod yn waeth na'r sefyllfa cyn yr hysbysiad. Nododd Trafnidiaeth Cymru y byddai angen mecanwaith iawndal a dull cyfrifo priodol.
- 9.44 Awgrymodd Huw Williams hefyd y dylid ystyried y posibilrwydd y gallai'r gwaith a wnaed, er gwaethaf y dirymiad, fod wedi gwella'r tir. Nododd ei bod yn bwysig, i'r graddau y mae'n gyson â rhwymedigaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol, na ddylai'r ddarpariaeth fod yn anghymhelliad i'r awdurdod goruchwylio weithredu.
- 9.45 Holodd Bob Leeming pa mor debygol yn ymarferol y byddai i orchymyn i wneud gwaith adferol gael ei ddiddymu.
- 9.46 Roedd rhai yn anghytuno'n llwyr â'r ddarpariaeth hon. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai'r holl waith adfer a nodwyd yn y cynllun rheoli tomennydd yn gwella diogelwch y domen, ac felly roedd yn amhosibl cael gwaith diangen. Yn ymarferol, roedd diddymu gwaith a nodwyd ei fod yn angenrheidiol yn y cynllun rheoli tomen yn annhebygol.

### **Sylwadau ar (3): iawndal i drydydd partïon**

- 9.47 Credai CLA Cymru fod y ddarpariaeth yn deg cyn belled ag y gellid profi colled. Roedd eraill yn fwy gofalus ac yn pwysleisio bod angen diffiniad pellach. Cymeradwyodd Huw Williams y mesur mewn egwyddor, ond pwysleisiodd y dylai fod yn ymwneud â cholled wirioneddol yn hytrach na ffigur yn seiliedig ar ostyngiad yng ngwerth tir trydydd parti. Roedd ICE Cymru yn credu y dylai'r ddarpariaeth fod yn berthnasol dim ond pan fydd gweithrediad yn ymestyn neu angen mynediad y tu hwnt i'r tir sy'n cael ei feddiannu gan y domen ei hun. Nododd Trafnidiaeth Cymru yr angen i ddiffinio "personau ar wahân i berchennog tomen". Holasant a fyddai hyn yn cynnwys costau'r rheini sy'n hwyluso mynediad. Gallai hyn gynnwys trydydd partïon fel nhw eu hunain.

---

<sup>271</sup> Trafodir hyn yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 3.9(3).

9.48 Nododd Caerffili fod hawliau iawndal mewn perthynas â gwaith priffyrdd yn debyg i ddarpariaethau Deddf 1969 ar gyfer iawndal.<sup>272</sup> Yn eu barn nhw, dim ond yn achos gwaith mawr y dylai iawndal fod ar gael, a dylid ystyried y budd i berchnogion o ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed i'r tir ar ôl cwblhau'r gwaith.

9.49 Nododd Network Rail fod colledion i'r rhwydwaith rheilffyrdd o ganlyniad i waith yn debygol o fod yn llawer mwy nag ar gyfer y rhan fwyaf o dirfeddianwyr. Dywedasant mai lefel arferol y ddarpariaeth atebolrwydd cyhoeddus a argymhellir ar gyfer gweithrediadau a allai o bosibl niweidio'r rhwydwaith rheilffyrdd yw £155 miliwn. Unwaith eto, roeddent yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i berchnogion tai gael yswiriant penodol neu fod yn rhan o gynllun yswiriant gorfodol.<sup>273</sup>

9.50 Roedd rhai yn gwrthwynebu'r ddarpariaeth yn llwyr. Credai Kim Moreton y gallai'r posibilrwydd o gael nifer o hawl wyr, er enghraifft mewn ardal breswyl ddwys ei phoblogaeth, wneud y gwaith yn rhy ddrud. Roedd Steve Jones o'r Adran Cynllunio Argyfwng yng Nghyngor Sir Penfro yn gwrthwynebu'r mesur yn gadarn:

I beth mae'r byd yn dod? Os oes angen mynd i'r afael â thomen, mae'n rhaid gwneud hynny, a dyna ddiwedd arni. Dydw i ddim yn cael iawndal os bydd ffordd rwy'n ei defnyddio yn cael ei thyllu ar gyfer gwaith atgyweirio, felly pam ddylai "defnyddiwr" tomen?

9.51 Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn eithaf arferol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddigolledu pan gafwyd mynediad i safle drwy dir trydydd parti, hyd yn oed pan oedd y tir yn cael ei adael mewn cyflwr cyfatebol. Ond fe wnaethant rybuddio y gallai fod yn anodd diffinio iawndal am darfu ar fwynhad, a bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i asesu graddfa'r effaith. Yn eu profiad nhw, mae angen bod yn ofalus i sicrhau bod hawliadau o'r fath yn rhesymol ac yn gyfiawn, a dylid ystyried effaith gadarnhaol y gwaith hefyd.<sup>274</sup>

#### **Sylwadau ar (4): cyfraniadau at atebolrwydd perchennog rhwng partïon preifat**

9.52 Cymeradwyodd CLA Cymru yr egwyddor y tu ôl i'r ddarpariaeth, er mai eu safbwynt, a drafodir uchod, yw y dylai'r awdurdod dalu am gostau'r gwaith.<sup>275</sup> Nodwyd ganddynt

---

<sup>272</sup> Mae Deddf Priffyrdd 1980 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau iawndal sy'n berthnasol i fathau penodol o waith. Er enghraifft, mae adran 292 yn darparu ar gyfer digolledu am ddifrod i dir neu darfu ar y mwynhad o dir a achosir i berson sydd â buddiant yn y tir hwnnw drwy arfer y pwerau mynediad a roddwyd gan adrannau 289 a 291 (pwerau mynediad at ddibenion arolwg a chynnalstrwythurau a gwaith penodol). Mae iawndal o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973, sy'n cynnwys colled a achosir gan rai mathau o waith priffyrdd, yn cael ei ystyried isod ym mharagraff 9.64.

<sup>273</sup> Gweler paragraff 9.37 uchod.

<sup>274</sup> Fel enghraifft o'u hagwedd at hawliad am ddifrod ac aflonyddwch trydydd parti, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi disgrifio i ni beth fyddai'n digwydd pan fo cerbyd wedi croesi tir trydydd parti gan adael rhigolau teiars a difrodi giât. Ar ôl i'r tirdeddiannwr wneud hawliad ysgrifenedig gyda thystiolaeth, cytunid ar bris teg i wneud iawn am y difrod, gan adlewyrchu'r ardal yr effeithiwyd arni, cost trin y tir (er enghraifft, isbridd, aredig ac ailhadu) a chost postyn giât newydd a'i osod. Caiff canllawiau blynyddol eu cynhyrchu gan asiantau tir gyda phrisiau'r diwydiant fel canllawiau ar gyfer pennu pris teg.

<sup>275</sup> Gweler paragraff 9.18 uchod.

fod y difrod a achoswyd gan dresmaswyr trydydd parti, megis beiciau modur, yn broblem gyffredin a bod angen rho ystyriaeth i hynny.

- 9.53 Disgrifiodd Kim Moreton ddarpariaeth Deddf 1969 ar gyfer cyfraniadau i atebolrwydd fel rhai “wedi’u profi a’u deall o fewn y cymunedau cyfreithiol a rheoli tir / buddsoddi”. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod y gorchmynion cyfrannu a’r dosbarthiadau o bartïon a allai elwa yn deg.
- 9.54 Roedd Philip Thomas yn gwrthwynebu cadw’r mesur. Yr oedd yn gwrthwynebu darparu unrhyw fudd i dirfeddianwyr a oedd wedi prynu tomennydd ar adeg preifateiddio’r diwydiant glo am symiau enwol fel cydnabyddiaeth o rwymedigaethau diogelwch tomennydd glo parhaus.
- 9.55 Credai Graham Hathaway y dylai’r angen am ddiogelwch fod yn drech na’r ystyriaeth o gyfraniadau, ond roedd yn cytuno â gweithredu cynllun yn ôl disgresiwn.
- 9.56 Cyfeiriodd Huw Williams at y Canllawiau Statudol ar Dir Halogedig (Cymru) 2012, ac yn benodol at drin perchnogion dosbarth B yn adran 7, fel sail dda ar gyfer llunio trefniadau newydd i ddosrannu atebolrwydd am waith diogelwch tomennydd glo.<sup>276</sup> Mae’r Canllawiau, sy’n ymwneud â phennu atebolrwydd am waith adfer ar dir halogedig, yn ei farn ef, yn cynnig “dull modern o bennu atebolrwydd am gyfraniadau”.<sup>277</sup>

## Trafodaeth

- 9.57 Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno’n fras â chadw’r darpariaethau a restrir yn ein cwestiwn ymgynghori, ond gydag ystod eang o resymau ac amodau. Roedd llawer o’r ymatebion yn cytuno ag iawndal neu gyfraniad mewn egwyddor, ond yn nodi bod angen lliflinio neu symleiddio’r trefniadau. Ni chynigiodd unrhyw ymatebydd unrhyw enghreifftiau o brofiad o gymhwyso’r darpariaethau.
- 9.58 Cytunwn fod angen cadw’r darpariaethau’n syml ac osgoi atgynhyrchu natur drwsgl mecanweithiau Deddf 1969. Rydym hefyd yn cytuno y byddai’n well cwmpasu iawndal am golled i un ddarpariaeth symlach a mwy cyffredinol. Credwn y gallai darpariaeth ar gyfer iawndal a/neu gyfraniadau mewn cytundebau a gorchmynion tomennydd ddarparu’r ateb.
- 9.59 Rydym yn dechrau gyda’r sylwadau canlynol mewn perthynas â sylwadau ar ddarpariaethau unigol.

### (1): pŵer i werthu deunydd a ddidynnwyd a dyletswydd i gyfrifo

- 9.60 Gall y pŵer i werthu deunydd tomen a dyletswydd i roi cyfrif i berchennog y deunydd am yr elw o werthu godi mewn dwy sefyllfa o dan Ddeddf 1969. Y cyntaf yw pan fydd y perchennog yn gwneud gwaith adfer ac yn gwerthu deunydd sy’n eiddo i drydydd

---

<sup>276</sup> Gwnaed Canllawiau Statudol ar Dir Halogedig (Cymru) 2012 Llywodraeth Cymru yn unol â Rhan 2A y Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990.

<sup>277</sup> I gael rhagor o fanylion am hyn, darllenwch baragraffau 9.77 a 9.78 isod.



parti. Yr ail yw pan fydd yr awdurdod lleol yn gwneud y gwaith ac yn gwerthu deunydd o'r domen a allai fod yn eiddo i'r tîrfeddiannwr neu drydydd parti.<sup>278</sup>

- 9.61 Rydym yn cytuno ag ymatebwyr ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ddeunydd sy'n cael ei werthu yn lo yng ngoleuni polisi ynni Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd rhywfaint o werth mewn deunydd tomennydd sy'n cael ei werthu fel agregau. O dan y drefn reoleiddio newydd, pe bai awdurdod cyhoeddus yn gwneud gwaith ar y domen, ac yn gwerthu deunydd sy'n cael ei dynnu fel rhan o'r gwaith, dylai'r ddyletswydd i gyfrif am yr elw, yn ein barn ni, gael ei dylanwadu gan bwy sy'n talu am y gwaith. Gellid cynnwys darpariaeth ar gyfer hyn yn y cytundeb neu'r gorchymyn sy'n rheoli'r gwaith.
- 9.62 Rydym yn amheus a fyddai sefyllfaoedd yn codi yn awr lle byddai deunydd mewn tomen yn eiddo i drydydd parti. Ni chawsom unrhyw ymatebion yn awgrymu bod y sefyllfa hon yn bodoli. Rydym yn amheus ynghylch yr angen am ddarpariaeth mewn perthynas â hynny yn y cynllun newydd ond, yng ngoleuni cefnogaeth ymatebwyr i'w gadw, bwriadwn ddarparu ar ei gyfer yn ein hargymhellion isod.

## (2): iawndal pan ddirymir gorchymyn

- 9.63 Nid ydym yn gweld bod angen darpariaeth benodol ar gyfer iawndal pan fydd gorchymyn yn cael ei ddirymu. Rydym yn rhagweld y byddai'r cytundeb neu'r gorchymyn sy'n sail i'r gwaith yn darparu ar gyfer cynlluniau wrth gefn fel hyn os ydynt yn debygol. Gallai hefyd ddarparu ar gyfer cynlluniau wrth gefn eraill fel oedi neu ddigwyddiadau ychwanegol sy'n atal y gwaith rhag mynd rhagddo. Yn fwy cyffredinol, er bod ymatebion yn dangos bod ymatebwyr yn dymuno gweld y ddarpariaeth yn cael ei chadw, ni allwn ragweld yn rhwydd unrhyw amgylchiadau lle byddai canslo gorchymyn yn ei gwneud yn gyfiawn i'r perchennog dderbyn iawndal.

## (3) iawndal i dirfeddianwyr trydydd parti am ddifrod neu aflonyddwch

- 9.64 Rydym yn cytuno mai dim ond colled wirioneddol, nid gostyngiad mewn gwerth tir, ddylai gael ei gwmpasu gan ddarpariaethau ar gyfer iawndal i drydydd parti; yn gyffredinol nid oes dyletswydd ar dirfeddiannwr i gadw ei dir ei hun mewn cyflwr sy'n cynnal gwerth tir cyfagos. Enghraifft o ddull o dalu iawndal am golled yw Rhan 1 Deddf Iawndal Tir 1973. Mae hyn yn darparu ar gyfer iawndal lle mae gwerth buddiant mewn tir wedi dibrisio oherwydd ffactorau ffisegol a achosir gan ddefnydd o waith cyhoeddus. Y ffactorau ffisegol yr ymdrinnir â hwy yw "sŵn, dirgryniadau, aroglau, mygdarth, mwg a goleuadau artiffisial, a gollwng unrhyw sylwedd solid neu hylif ar y tir y gwneir yr honiad mewn perthynas ag ef". Mae'r mathau o waith cyhoeddus a gynhwysir yn cynnwys gwaith i unrhyw briffordd, a gwaith neu dir arall a ddarperir neu a ddefnyddir wrth arfer pwerau statudol.<sup>279</sup>
- 9.65 I'r graddau y mae gwaith y mae cytundeb neu orchymyn yn ymwneud ag ef yn cynnwys mynd ar dir cyfagos, neu'n effeithio fel arall ar y tir hwnnw, byddem yn disgwyl i'r awdurdod goruchwyllo fod yn ymwybodol o'r ffaith honno ac yn ymdrechu ei hun i ymgysylltu â'r tîrfeddiannwr perthnasol. Rydym yn rhagweld mai dim ond mewn achosion o waith mawr ar domennydd dynodedig y byddai effeithiau sylweddol ar dir

---

<sup>278</sup> Gweler Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 14(7) a 17(6).

<sup>279</sup> Deddf Iawndal Tir 1973, adran 1(2) a (3).

cyfagos, neu risg i dir cyfagos, yn debygol o godi, a byddem yn disgwyl i'r awdurdod goruchwyllo ei hun ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Gellid cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar effaith y gwaith ar dir neu seilwaith yn y cytundeb neu'r gorchymyn tomen y gwnaed y gwaith oddi tano. Byddai'r pŵer i roi gorchymyn yn absenoldeb cytundeb hefyd yn helpu i atal hawliadau sydd wedi'u gorliwio.

- 9.66 Gallai trydydd partïon a allai fod yn gymwys i gael iawndal fod yn grŵp eithaf eang. Gallai'r partïon hyn amrywio o berchnogion cyfagos sy'n hwyluso mynediad, i berchnogion seilwaith yr effeithir arno, fel rheilffyrdd. Rydym yn cytuno â'r angen am fecanweithiau sy'n caniatáu mesur colled yn ofalus ar sail tystiolaeth a dull clir o gyfrifo unrhyw iawndal.

#### (4) cyfraniadau at atebolrwydd y perchennog am gost gwaith

- 9.67 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn, os yw perchnogion i dalu taliadau o dan y pŵer i godi tâl a drafodir uchod (sefyllfa y mae rhai ohonynt yn anghytuno yn ei chylch), y dylai cyfraniad rhwng partïon preifat fod yn bosibl ar sail ddewisol.
- 9.68 Credwn y gellid lleihau'r angen am gyfraniad pe bai'r person sy'n bennaf atebol am gost y gwaith yn fwy cysylltiedig nag o dan y gyfraith bresennol gyda'r person â buddiant economaidd yn y tir fel ased. Er hynny, mae amgylchiadau safleoedd unigol yn debygol o amrywio i raddau sy'n ei gwneud yn amhosibl sicrhau canlyniad teg drwy fformiwla gyfreithiol sy'n rhoi atebolrwydd i un person.

#### Casgliad

- 9.69 Rydym o'r farn bod creu achosion gweithredu statudol, gan gynnwys ymglyfreitha yn y llys sirol neu'r Uchel Lys, yn nodwedd feichus o'r ddeddfwriaeth bresennol. Rydym yn credu, mewn achosion lle mae mwy nag un perchennog ar y tir sy'n cynnwys y domen neu pan fo'r gwaith yn effeithio ar hawliau perchnogion tir cyfagos neu berchnogion trydydd parti i ddefnyddio deunyddiau tomen, dull mwy effeithlon o ymdrin â'r mater yw darparu cytundeb ar eu cyfer mewn cytundeb tomen neu, os na wneir hynny, yn y gorchymyn tomen canlyniadol.
- 9.70 Rydym yn ystyried bod nifer o'n hargymhellion mewn perthynas â threfn ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yn rhywbeth y gellir ei drawsosod i'r cyd-destun presennol.<sup>280</sup> Yn ein hadroddiad ar y pwnc hwnnw, roeddem yn rhagweld y byddai'r corff goruchwyllo perthnasol yn gwneud pob ymdrech i gynnwys yr holl bartïon perthnasol wrth negodi'r cytundeb, ond roeddem o'r farn na ddylai fod yn ofynnol i gyrff perthnasol gynnal ymchwiliadau manwl i batrymau buddiannau cymhleth. Rhagwelwyd mai pwynt cyswllt cyntaf y corff perthnasol fyddai gyda deiliad y tir a rhagwelem y byddai'r corff, fel mater o arfer gweinyddol da, yn gofyn i'r person hwnnw beth yw natur ei fuddiant yn y tir a pha fuddiannau eraill y mae'n gwybod amdanynt. Y dylai'r corff perthnasol, yn ein barn ni, gysylltu ag unrhyw un arall a allai fod â buddiannau iddynt.<sup>281</sup>

---

<sup>280</sup> Gweler Cyfraith Bywyd Gwyllt: Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol (2014) Comisiwn y Gyfraith, Rhif 342. Trafodwyd y drefn rhywogaeth anffodrol yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 9.87 i 9.102.

<sup>281</sup> Cyfraith Bywyd Gwyllt: Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol (2014) Comisiwn y Gyfraith, Rhif 342, paragraff 3.15.

- 9.71 Daethom i'r casgliad y dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu na ddylai unrhyw beth a wneir yn unol â chytundeb rheoli rhywogaethau arwain at atebolrwydd y corff perthnasol i unrhyw berson. Er enghraifft, os oedd meddiannydd tir a oedd wedi ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau yn awdurdodi'r corff perthnasol i gyflawni gweithrediadau a oedd yn ymyrryd â hawliau perchnogol trydydd parti nad oedd y corff perthnasol wedi'i ddarganfod, dylai'r corff perthnasol fod yn rhydd o unrhyw atebolrwydd (megis atebolrwydd o ran tresmasu) i'r trydydd parti hwnnw.<sup>282</sup> Fodd bynnag, ni ddylid rhoi imiwnedd i'r parti arall rhag unrhyw atebolrwydd i'r trydydd parti hwnnw: ni ddylai'r drefn alluogi'r parti arall i'r cytundeb i gael imiwnedd rhag ei rwymedigaethau cyfreithiol presennol yn rhinwedd cytundeb rheoli rhywogaethau y mae wedi ymrwymo iddo yn wirfoddol. Byddai'n agored i'r parti hwnnw wrthod ymrwymo i gytundeb petaent yn ofni y byddai hyn yn golygu eu bod yn atebol i drydydd parti.<sup>283</sup>
- 9.72 Yr oeddem yn argymhell y dylai'r ddeddfwriaeth, fodd bynnag, ddarparu y dylai unrhyw berson allu gweithredu unrhyw beth a wneir yn unol â gorchymyn rheoli rhywogaethau. Byddai hyn yn rhoi imiwnedd rhag achos yn unol â (er enghraifft) cyfamod mewn les lle'r oedd landlord neu denant yn gweithredu yn unol â gorchymyn.<sup>284</sup>
- 9.73 Rydym o'r farn y gallai'r model hwnnw weithio'n foddhaol yn y cyd-destun presennol hefyd, o ran partïon â buddiannau yn y tir y lleolir y domen lo arno neu (os yw'n dal yn berthnasol heddiw) mewn deunyddiau tomennydd sydd wedi'u cynnwys ar y tir. Rydym yn cydnabod bod y drefn rheoli rhywogaethau yn wahanol i gyfundrefn diogelwch tomennydd mewn nifer o ffyrdd. Ond mae risg yn y ddwy drefn y gallai deialog adeiladol rhwng yr awdurdod a pherson sydd â buddiant yn y tir sy'n cynnwys tomen gael ei lesteirio gan strwythurau dal tir cymhleth. Gallai hyn, yn ei dro, lesteirio'r gwaith sydd ei angen ar y domen. Byddai'r dull gweithredu a awgrymir yn rhoi pwerau hyblyg i'r awdurdod ddelio ag achosion lle mae perchnogaeth tomennydd yn gymhleth.
- 9.74 Rydym eisoes wedi dod i'r casgliad yn gynharach yn y bennod hon y dylai'r pŵer i roi gorchymyn tomen gynnwys pŵer i osod ffioedd am waith neu, ar y llaw arall, i dalu'r gost. Rydym yn rhagweld y dylai'r pŵer hwnnw ymestyn i osod pridiannau ar berson sydd â buddiant yn y tir hyd yn oed os nad oes ganddynt feddiannaeth mewn gwirionedd. Bydd hyn yn galluogi codi taliadau i gyd-fynd â buddiannau economaidd yn y tir ac unrhyw fater perthnasol arall megis cyfamodau mewn prydles sy'n dyrannu'r cyfrifoldeb dros reoli tomennydd glo. Byddai ehangder y pŵer yn rhoi anogaeth i feddianwyr tir nodi eu prydleswr os nad oedd y prydleswr yn hysbys fel arall (er enghraifft, yn achos tir heb ei gofrestru).
- 9.75 Rydym hefyd yn argymhell y dylai gorchymyn neu gytundeb tomen allu darparu ar gyfer gwerthu deunydd a dynnir yn ystod gwaith ar domen a threfniadaeth unrhyw elw o werthu. Rydym yn rhagweld risg na fyddai perchnogion trydydd parti ar ddeunydd o'r fath yn cael eu hadnabod yn ystod y cytundeb neu'r broses rhoi gorchymynion, gan na fyddai gan ddeiliad y tir unrhyw fudd amlwg mewn tynnu sylw at eu bodolaeth. Rydym

---

<sup>282</sup> Uchod, paragraff 3.16.

<sup>283</sup> Uchod, paragraff 3.17.

<sup>284</sup> Uchod, paragraff 3.18.

yn ystyried hyn yn risg dderbyniol, o ystyried nad ydym wedi derbyn unrhyw enghreifftiau o'r darpariaethau yn cael eu rhoi ar waith, ac ei bod yn annhebygol y bydd gwerth sylweddol i ddeunydd tomennydd. Rydym hefyd yn ystyried mai tebygolrwydd isel iawn sydd i berchennog y deunydd fod yn berchennog trydydd parti. Er hynny, bydd angen fframio'r cytundeb a'r pwerau rhoi gorchmynion i gynnwys perchnogion deunyddiau tomennydd nad ydynt yn berchnogion y tir i'r graddau y credir ei bod yn angenrheidiol eu cynnwys.

- 9.76 Yn fyr, rydym yn ystyried bod dyrannu costau, taliadau ac iawndal yn briodol yn well nag ymglyfreitha ar wahân rhwng partïon preifat. Rydym yn gwerthfawrogi bod ein hargymhellion yn rhoi cryn ryddid disgrisiwn i'r awdurdod goruchwyllo, ond bydd ein hargymhelliad y dylid cael hawl i apelio yn erbyn gorchymyn tomen yn cynnig ateb os ystyrir bod telerau'r gorchymyn yn annheg.<sup>285</sup> Serch hynny, rydym yn cydnabod bod y pŵer dewisol rydym yn ei argymhell yn un eang ac y bydd angen egwyddorion mwy strwythuredig na'r egwyddorion cyffredinol o ran tegwch a chymesuredd er mwyn meithrin canlyniadau cyson a rhagweladwy.
- 9.77 Gallai'r dull a fabwysiadwyd eisoes ar gyfer asesu atebolrwydd am gostau adfer sy'n deillio o dir halogedig a nodir yng Nghanllawiau Statudol Tir Halogedig (Cymru) 2012 fod yn fodel defnyddiol ar gyfer gorchmynion a chytundebau tomennydd glo.<sup>286</sup> Mae'r Canllawiau'n edrych ar y sefyllfa lle mae dau berson neu fwy yn atebol am ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros waith adfer. Mae'n ymdrin â'r cwestiwn ynghylch pwy ddylai gael ei eithrio rhag atebolrwydd, a sut y dylid dosrannu cost pob cam adfer rhwng y rhai sy'n parhau i fod yn atebol ar ôl unrhyw eithriad o'r fath.
- 9.78 O dan y drefn tir halogedig a ddarperir gan Ran 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae atebolrwydd yn y lle cyntaf gyda'r person a achosodd neu a oedd yn fwiadol yn caniatáu'r halogi. Os na ellir dod o hyd i berson o'r fath, mae'r Ddeddf yn troi at berchennog neu feddiannwr y tir. Mae'r Canllawiau, sy'n diffinio'r perchnog neu'r deiliad fel y person Dosbarth B, yn nodi'r egwyddorion ar gyfer eithrio a dosrannu atebolrwydd os oes mwy nag un person Dosbarth B. Mae categorïau'r rheini sydd wedi'u heithrio yn cynnwys y rheini sy'n meddiannu'r tir o dan drwydded neu gytundeb heb werth marchnadol. Mae atebolrwydd yn cael ei ddosrannu rhwng aelodau grŵp atebolrwydd yn gymesur â gwerthoedd cyfalaf eu buddiannau yn y tir dan sylw. Mae darpariaethau pellach ar gyfer cymhwyso egwyddorion mewn unrhyw benderfyniad i adennill costau. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau canlyniad teg a chyfartal, i osgoi unrhyw galedi gormodol ac i ystyried a oedd y person Dosbarth B wedi cymryd camau rhesymol ar adeg caffael y tir i gadarnhau presenoldeb halogyddion.<sup>287</sup>
- 9.79 Er nad ydym yn gymwys i wneud argymhellion ynghylch dyrannu cost y drefn diogelwch tomennydd glo, rydym yn cydnabod pwysigrwydd datganiad clir o'r

---

<sup>285</sup> Gweler paragraff 5.90 uchod.

<sup>286</sup> Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, adran 78F yn nodi'r prif ddarpariaethau ar gyfer sefydlu atebolrwydd am waith adfer ar dir halogedig. Mae'r Cyfarwyddyd a roddir yn unol ag adran 78F(6) yn edrych yn fanylach ar eithrio neu ddosrannu atebolrwydd lle mae dau neu fwy o bersonau yn atebol i fod yn gyfrifol am waith adfer: Llywodraeth Cymru, Canllawiau Statudol ar Dir Halogedig 2012, Rhif WG15450, <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/condemned-land-statutory-guidance-2012.pdf>, a 7.

<sup>287</sup> Llywodraeth Cymru, Canllawiau Statudol ar Dir Halogedig 2012, Rhif WG15450, <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/condemned-land-statutory-guidance-2012.pdf>, a 8.

egwyddorion perthnasol a fyddai'n arwain yr awdurdod goruchwyllo wrth lunio cytundebau tomennydd. Yn ein barn ni, dylai pennu taliadau gyfateb i fuddiannau economaidd yn y tir. Rydym eisoes wedi dod i'r casgliad bod prydles â hyd o 21 mlynedd neu fwy yn arwydd o berchnogaeth ar dir mewn termau economaidd ac yn ffactor y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ei ystyried wrth lunio'r egwyddorion.<sup>288</sup>

- 9.80 Rydym o'r farn y dylai'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r fframwaith rheoleiddio newydd ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'r egwyddorion sydd i'w cymhwyso wrth benderfynu ar ddarpariaethau ariannol gorchymynion a chytundebau tomennydd. Rydym felly'n argymhell y dylai'r egwyddorion sy'n rheoli dyrannu costau, taliadau ac iawndal rhwng categorïau o unigolion preifat gael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol a ddylai, er mwyn darparu ar gyfer craffu seneddol, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
- 9.81 Mae'r pwerau a nodir yn yr argymhelliad isod wedi'u mynegi'n fras gyda golwg ar ddarparu ar gyfer pob posibilrwydd. Yn achos codi tâl gan yr awdurdod goruchwyllo am waith, er enghraifft, credwn ei bod yn well codi'r ffioedd ar y rhai a ddylai eu hysgwyddo yn hytrach na dyblygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cyfraniadau rhwng y rhai sy'n atebol. Mewn rhai amgylchiadau, megis gwerthu deunydd a adferwyd gan barti preifat sy'n gwneud gwaith, efallai y bydd angen i'r gorchymyn gyfeirio taliadau rhyngddynt.

### **Argymhelliad 32.**

- 9.82 Rydym yn argymhell y dylai'r ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn neu gytundeb tomen gynnwys darpariaeth
- (1) ar gyfer gwneud taliadau gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;
  - (2) ar gyfer gwneud taliadau i'r person a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;
  - (3) ar gyfer gwerthu unrhyw ddeunyddiau a adferwyd o domen lo;
  - (4) ar gyfer talu'r enillion o werthu deunyddiau o'r fath i berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn; ac
  - (5) ar gyfer talu iawndal gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn i berson arall a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn.

---

<sup>288</sup> Gweler paragraffau 7.66 a 7.70 uchod.

### **Argymhelliad 33.**

- 9.83 Rydym yn argymhell y dylai egwyddorion sy'n rheoli dyrannu cyfrifoldeb ariannol dros waith diogelwch tomennydd rhwng personau neu endidau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

## Pennod 10: Sgiliau arbenigol

- 10.1 Awgrymodd ein papur ymgynghori y gallai panel cymeradwy o beirianwyr sydd â chymwysterau arbenigol i archwilio tomennydd glo a goruchwylio gweithrediadau arnynt fod yn ffordd dda o sicrhau cysondeb a diogelwch. Dilynwyd y model cronfeydd dŵr gan awgrymu y gallai Sefydliad y Peirianwyr Sifil ymgymryd â rôl achrediad proffesiynol, gydag argymhellion yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.<sup>289</sup>
- 10.2 Roeddem yn credu y byddai'n syml i awdurdod cyhoeddus sydd â dyletswydd i archwilio a chynnal tomennydd er mwyn sicrhau bod y peirianwyr a gyflogir i wneud y gwaith hwn yn dod o banel a gymeradwywyd ar lefel briodol. Yn yr un modd, nid oedd y gofyniad yn debygol o achosi anawsterau i berchnogion tomennydd fel awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo a oedd yn gweithredu o dan gytundeb cynnal a chadw ar gyfer eu tomennydd eu hunain. Ond gallai rhwymedigaeth i gyflogi peiriannydd o'r panel ar gyfer rhai mathau o waith fod yn fwy problemus i berchnogion tomennydd preifat sy'n gyfrifol am weithredu cytundeb cynnal a chadw tomennydd. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym mai un o'r problemau a wynebwyd gan awdurdodau lleol wrth weithredu Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 oedd anghydfodau gyda pherchnogion tomennydd ynghylch yr angen am waith i sicrhau sefydlogrwydd. Gallai panel o beirianwyr ychwanegu at y gost o wneud gwaith cynnal a chadw'r domen, ond gallai helpu i sicrhau dull gweithredu cyson.<sup>290</sup>
- 10.3 Nodwyd gennym fod yr angen am banel arbenigol o beirianwyr wedi cael ei werthfawrogi gan Dribiwnlys Trychineb Aberfan yn 1966, ar adeg pan oedd diwydiant mwyngloddio gweithredol yn bodoli o hyd a llai o domennydd anweithredol. Yr oeddem yn credu bod y ddadl o blaid panel yn ymddangos yn gryfach fyth yng ngoleuni colli arbenigedd mwyngloddio a dirywiad y diwydiant ers hynny.<sup>291</sup>
- 10.4 Gofynnwyd am farn ar banel arbenigol. Mae'r adran isod yn ystyried yr ymatebion i'n cwestiwn.

### **Cwestiwn Ymgynghori 30: Ydych chi'n meddwl bod panel o beirianwyr sydd â chymwysterau arbenigol i archwilio a goruchwylio mathau penodol o waith ar domennydd glo yn ffordd dda o sicrhau cysondeb a diogelwch?**

---

<sup>289</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 9.18–10.117. Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i banel o beirianwyr gyflawni'r gwaith diogelwch cronfeydd dŵr a nodir yn y Ddeddf. Sefydlwyd pedwar panel er mwyn gallu dewis peiriannydd sydd â chymwysterau priodol i fodloni gofynion gwahanol y Ddeddf.

<sup>290</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.63 a 10.118.

<sup>291</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.119.

- 10.5 O'r 44 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 38 (86%) yn cytuno y byddai panel o arbenigwyr yn syniad da. Tri (7%) oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno

- 10.6 Roedd Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt) o'r farn bod panel o weithwyr technegol proffesiynol gyda chymwysterau a phrofiad priodol yn ffordd dda o sicrhau "cysondeb, cywirdeb/ansawdd asesu a diogelwch yn y pen draw". Roedd Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent yn ystyried bod y panel yn gyfle i osod safon a sicrhau cysondeb o ran gwneud penderfyniadau a diogelwch. Cymeradwyodd Dr John Perry y cynnig i bennu safon yr arbenigedd sydd ei angen ar y lefel a bennwyd ar gyfer y panel cronfeydd dŵr. Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) yn credu y byddai hyn yn ffordd dda o sicrhau bod yr arbenigedd perthnasol "ar gael".
- 10.7 Roedd Rhondda Cynon Taf hefyd yn gweld y panel fel cyfle i ddatblygu arbenigedd peirianeg newydd. Nodwyd ganddynt fod arbenigwyr yn cael eu tynnu allan o'u hymddeoliad ar hyn o bryd i gynnal archwiliadau.

### Cymwysterau angenrheidiol

- 10.8 Roedd gan nifer o ymatebwyr ag arbenigedd ym maes diogelwch tomennydd awgrymiadau am y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer penodi i'r panel, a nododd llawer y byddai angen gweithwyr proffesiynol eraill ar y panel yn ogystal â pheirianwyr.
- 10.9 Cynigiodd ICE Cymru y dylai penodiad i'r panel fod drwy dystiolaeth o gymhwysedd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid. Dylai fod angen cymwysterau a phrofiad priodol, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau iechyd, diogelwch a/neu amgylcheddol tomennydd glo. Roedden nhw'n awgrymu y gallai gwahanol raddau fod yn berthnasol ar gyfer gwahanol weithgareddau, a gellid cyfeirio at Gofrestr Gweithwyr Proffesiynol Peirianeg Tir y DU (RoGEP), er eu bod yn nodi bod y gofrestr hon yn ymwneud â pheirianeg tir yn unig ac nad yw'n cynnwys cymhwysedd penodol mewn tomennydd glo.<sup>292</sup>
- 10.10 Esboniodd ICE Cymru hefyd fod gan weithwyr proffesiynol eraill sgiliau perthnasol, a rhoddodd enghraifft o arbenigedd daearegwyr peirianeg mewn perthynas â materion ansefydlogrwydd:
- Efallai y bydd gan weithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd eraill gymhwysedd addas i'w gynnwys ar 'panel o weithwyr proffesiynol cymwys' i ddarparu gwasanaethau mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu hystyried gan yr ymgynghoriad hwn, er enghraifft materion amgylcheddol.
- 10.11 Dywedodd Jacobs fod "gallu a phrofiad o agweddau peirianeg y ddaear ar domen lo ac archwilio ac asesu ar lethr/tirlithriad" yn bwysig. Yn eu barn nhw, byddai'r cofrestriadau proffesiynol allweddol yn cynnwys peirianwyr sifil siartredig, daearegwyr siartredig (CGeol) a hefyd Cofrestr Gweithwyr Proffesiynol Peirianeg Tir y DU sy'n cael eu gweinyddu drwy'r sefydliadau proffesiynol hynny.

---

<sup>292</sup> Mae canllawiau RoGEP ar gael yn [ice.org.uk](http://ice.org.uk).



10.12 Cyfeiriodd Dr John Perry hefyd at y Gofrestr o Beirianwyr Tir, a sefydlwyd yn benodol i sicrhau mewnbwn ac arbenigedd priodol ar gyfer peirianeg tir cyffredinol, gan gynnwys, er enghraifft, priffyrdd, rheilffyrdd ac adeiladau. Yn ei farn ef, nid oedd yn ddigon arbenigol o bell ffordd ar gyfer gwaith tomennydd glo. Roedd yn cefnogi creu cofrestr arbenigol yn benodol ar gyfer diogelwch tomennydd glo yn yr un modd ag yr oedd panel arbenigol wedi'i sefydlu ar gyfer cronfeydd dŵr. Yn ei farn ef, dylai'r gofrestr arbenigol fod angen profiad yn ogystal â chymwysterau. Pwysleisiodd Chris Seddon fod angen i brofiad fod yn gyfredol, yn hytrach na dim ond bod yn gysylltiedig â nifer y blynyddoedd a dreuliwyd yn y diwydiant.

10.13 Pwysleisiodd Jane Iwanicki, y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol a Dr Peter Brabham y byddai angen ymestyn cwrpas y panel y tu hwnt i beirianwyr. Credai Dr Peter Brabham y dylid cynnwys "peirianwyr sifil siartredig, daearegwyr peirianeg siartredig a hydrolegwyr siartredig sy'n deall mecaneg pridd a hydroleg". Nododd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol mai'r arbenigwyr sydd eu hangen yw "peirianwyr geodechnegol, hydrolegwyr, hydrodaearegwyr, ecolegwyr, archaeolegwyr, arbenigwyr ansawdd aer (sŵn a llwch) ac arbenigwyr trafndiaeth". Efallai y bydd angen mewnbwn gan benseiri tirlunio hefyd. Mae Jane Iwanicki hefyd yn taflu'r rhwyd yn eang:

Gallai'r panel gynnwys peirianwyr mwyngloddio, cynghorwyr iechyd a diogelwch, peirianwyr geodechnegol, syrfewyr mwynau ac eraill. Efallai y bydd angen arbenigwyr eraill yng nghyswllt draenio, ansawdd dŵr, ecoleg, archaeoleg ddiwydiannol ac ati.

10.14 Ychwanegodd Dŵr Cymru y dylid cael ymwybyddiaeth briodol o faterion yn ymwneud â chyflenwadau dŵr yfed ac effeithiau halogyddion penodol a tharfu ar lif.

10.15 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu ei bod yn bwysig bod gan y panel gôd ymarfer clir a fforwm ategol, fel yr un a ddarperir gan y Gofrestr Gweithwyr Proffesiynol Peirianeg Tir. Bydd hyn yn caniatáu ail farn, atgyfeiriadau, adolygu gan gymheiriaid a chytundeb ar y dechnoleg a'r technegau gorau sydd ar gael.

10.16 Rhybuddiodd Castell-nedd Port Talbot na ddylai'r cymwysterau sy'n ofynnol fod yn rhy feichus, neu y byddai'r panel yn "cyfyngu ar argaeledd staff a gallai'r system arafu".

### **Rôl panel mewn cytundebau cynnal tomennydd**

10.17 Credai Huw Williams y byddai panel arbenigol yn hanfodol ar gyfer gweithredu ein system arfaethedig o gytundebau cynnal a chadw gyda pherchnogion tomennydd preifat yn effeithiol. Awgrymodd y dylai'r cytundebau gynnwys amod y byddai gwaith yn cael ei gynllunio a'i oruchwylio gan beiriannydd panel.

10.18 I'r gwrthwyneb, roedd gan yr Athro Bob Lee amheuan ynghylch mynnu bod perchnogion preifat yn cyfarwyddo peiriannydd o'r panel. Credai mai rôl well i'r arbenigwr panel fyddai datrys anghydfodau ynghylch asesu sefydlogrwydd a materion cysylltiedig, ac y gallai'r cytundebau enghreifftiol gynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn.

### **Dulliau eraill**

10.19 Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu dulliau gwahanol. Credai Stephen Smith y byddai cynllun ar gyfer gweithwyr proffesiynol cymwysedig, tebyg i'r gofrestr a ddefnyddir yn

y drefn tir halogedig, yn fwy priodol na dull panel cronfeydd dŵr. Mae'r model hwn yn dangos sgiliau arbenigol drwy'r cynllun cofrestru SiLC (Arbenigwr mewn Cyflwr Tir).<sup>293</sup>

10.20 Roedd Howard Siddle o blaid dosbarthiad "person cymwys" fel y'i defnyddir mewn deddfwriaeth gan gynnwys Rheoliadau Mwynfeydd 2014 a darpariaethau iechyd a diogelwch eraill.<sup>294</sup> Byddai hyn yn gofyn am gymwysterau a phrofiad. Ni fyddai'r person cymwys yn cyflawni'r holl dasgau ond byddai'n goruchwyllo ac yn gyfrifol am weithgareddau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Yn ei farn ef, mae'r amrywiaeth o weithgareddau sydd i'w trafod yn cynnwys:

- archwilio ac adrodd rheolaidd
- archwilio ac adrodd o bwys (sy'n cyfateb i'r adroddiad archwilio 10 mlynedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Glo)
- riportio digwyddiad peryglus
- dadansoddiad o archwiliad a sefydlogrwydd
- dylunio gwaith cynnal a chadw
- dylunio cynllun adfer (gan gynnwys gwaith cloddio a draenio)
- goruchwyllo gwaith adeiladu/cynnal a chadw.

10.21 Yr oedd Keith Bush CF yn gwrthwynebu'r syniad o banel yn llwyr. Yn ei farn ef, yr awdurdod goruchwyllo ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gofyn am beirianwyr cymwysedig. Roedd yn gwahaniaethu rhwng y drefn cronfeydd dŵr, gan fod peirianwyr cronfeydd dŵr yn cael eu penodi gan berchnogion ac mae angen sicrhau bod perchennog wedi cyflogi peiriannydd cymwys.

10.22 Roedd barn yr Athro Bob Lee, a atebodd "arall", yn debyg. Er ei fod yn cydnabod yr angen i gadw arbenigedd yn y maes, ni welai fod angen darparu ar gyfer panel o fewn fframwaith statudol:

Gellid mynd ar drywydd yr amcanion hyn gyda chymorth cyrff proffesiynol (megis y ICE) a thrwy awdurdodau goruchwyllo yn defnyddio pobl sydd â chymwysterau priodol ar sail ymgynghoriaeth yn ôl yr angen.

---

<sup>293</sup> Lanswyd cynllun Cofrestr Arbenigwr mewn Cyflwr Tir (SiLC) gan y Tasglu Trefol yn 1999 i gydnabod sgiliau'r rhai sy'n gweithio yn y sector cyflwr tir ehangach. Gweinyddir y cynllun gan CL:AIRE (Contaminated Land: Applications in Real Environments), sefydliad di-elw sy'n ceisio ysgogi adfywiad tir halogedig yn y DU drwy ddefnyddio technolegau adfer cynaliadwy. Ceir mynediad i SiLC drwy arholiadau, sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Gweler <https://www.silc.org.uk/>.

<sup>294</sup> Mae Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 2 yn diffinio "cymwys" mewn perthynas â pherson fel "person sydd â digon o hyfforddiant a phrofiad, neu wybodaeth a rhinweddau eraill, i alluogi'r person hwnnw i ymgymryd yn briodol â'r dyletswyddau a roddir i'r person hwnnw". Mae Rheoliad 62 yn diffinio "arbenigwr geodechnegol" fel person sydd â'r cymwysterau priodol ac sy'n gymwys i gynnal dadansoddiad geodechnegol i bennu'r perygl a'r risg sy'n deillio o domen. Mae'r gofynion yn cael eu hystyried yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 4.67 a 4.68.

## Hyfforddi a datblygu

- 10.23 Nododd Jacobs y broblem o golli arbenigedd yn y maes, a chan fod llawer o arolygwyr profiadol wedi ymddeol neu'n dynesu at ymddeol erbyn hyn, roedd y prinder o weithwyr proffesiynol profiadol yn debygol o waethgu. Roeddent yn pwysleisio'r angen i gasglu gwybodaeth a phrofiad yr arolygwyr hyn ac am raglen i fentora arolygwyr newydd.
- 10.24 Dywedodd Chris Seddon y byddai angen i'r panel ddarparu ar gyfer cynllunio olyniaeth, gyda llefydd ar gael ar y panel ar gyfer peirianwyr dan hyfforddiant a pheirianwyr iau dan oruchwyliaeth. Awgrymodd y dylid cael gofyniad hefyd i archwilio datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r holl beirianwyr ar y panel.
- 10.25 Awgrymodd Dr John Perry y gellid annog prifysgolion, yn enwedig y rhai yn Ne Cymru, i ddarparu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig priodol i ddarparu'r cymwysterau sydd eu hangen i ymuno â'r panel. Credai y dylai'r astudiaethau hyn gael eu dilyn gan gyfnod o "gyfeillio" gydag aelod o'r panel cyn cofrestru.
- 10.26 Nododd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno) y byddai angen cyllid i ddatblygu a hyfforddi aelodau'r panel. Roedden nhw'n awgrymu y gallai rhaglen hyfforddiant â chymhorthdal gael ei datblygu, gyda chyllid o Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth

- 10.27 Roedd cefnogaeth gref gan fwyafri i banel arbenigol, gyda rhesymau cryf wedi'u rhoi, gan gynnwys y cyfleoedd datblygu proffesiynol y byddai panel yn eu cynnig. Rydym yn derbyn bod ein cyfeiriad at "banel o beirianwyr" yn y papur ymgynghori yn rhy gul, ac y dylem, yn hytrach, fod wedi cynnwys cyfeiriad at yr holl arbenigwyr perthnasol, nid dim ond peirianwyr.
- 10.28 O ran y sgôp ar gyfer rhagnodi arbenigedd o dan y drefn reoleiddio newydd, rydym yn cytuno y gallai cytundebau a gorchmynion tomennydd bennu defnyddio arbenigwyr sydd â chymwysterau priodol lle mae angen lefel benodol o sgiliau ar gyfer gwaith. Os yw tomen yn addas ar gyfer cytundeb cynnal a chadw, gallai canllawiau nodi lefel y cymhwysedd sydd ei angen ar gyfer tasgau penodol, gan fod angen amrywiaeth o sgiliau ar gyfer gwaith diogelwch tomennydd. Os nad yw tomen yn addas ar gyfer cytundeb cynnal a chadw tomen, a bod cytundeb neu orchymyn tomen yn darparu ar gyfer gwaith sydd i'w wneud gan barti i'r cytundeb neu'r gorchymyn ar wahân i'r awdurdod goruchwyllo, gallai ei delerau sicrhau bod y lefel gywir o gymhwyster arbenigol yn cael ei bennu. Credwn hefyd y gallai fod rôl i arbenigwyr wrth ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â gwaith diogelwch tomennydd.
- 10.29 Mae'r ymatebion i'n cwestiwn ymgynghoriad yn ein harwain i gwestiynu ai panel ffurfiol yw'r ffordd orau o sicrhau'r lefel briodol o arbenigedd ar gyfer tasgau diogelwch tomennydd glo. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng y drefn cronfeydd dŵr, sy'n gweithredu ar y sail bod ymgymerwr y gronfa ddŵr yn ymgysylltu â'r arbenigwr yn uniongyrchol. Mae cronfeydd dŵr yn dal i gael eu defnyddio ar y cyfan, ac mae perchnogion, ar y cyfan, yn cael budd economaidd ohonynt. Mae tomennydd glo bron yn gwbl segur, ac nid ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchu incwm.

Yn gyffredinol, nid oes gan berchnogion tomennydd glo anweithredol unrhyw wybodaeth am waith diogelwch tomennydd sy'n deillio o reolaeth weithredol.<sup>295</sup>

- 10.30 Yn y drefn reoleiddio newydd, rydym yn argymhell cytundebau cynnal a chadw rhagnodol iawn ar gyfer tomennydd risg is. Bydd y tasgau sy'n ofynnol yn cynnwys gwaith cynnal a chadw sylfaenol y gellir ei wneud heb gymwysterau penodol. Ar gyfer tasgau mwy cymhleth, gan gynnwys gwaith adfer, gellid nodi'r angen am gymwysterau arbenigol yn y cytundeb oni bai fod y gwaith i'w wneud gan yr awdurdod goruchwylio ei hun. Gallai'r awdurdod goruchwylio sicrhau bod y lefel gywir o gymhwyster arbenigol yn cael ei phennu mewn cytundebau ar gyfer gweithrediadau o'r fath.
- 10.31 Awgryma hyn y gallai system lai ffurfiol na system banel fod yn briodol. Mae'r ymatebion yn nodi y gallai cofrestr weithio'n fwy effeithiol a hyblyg. Fel yn achos y gofrestr SiLC, gallai cofrestr arbenigwyr diogelwch tomennydd glo asesu'r ystod o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol dasgau diogelwch tomennydd glo, a darparu gwahanol raddau o gofrestru yn dibynnu ar gymwysterau proffesiynol. Gallai hefyd dyfeisio cod ymarfer i ddiffinio cymwyseddau o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad a sefydlu fforwm cefnogol. Byddai angen y wybodaeth arbenigol digonol ar y corff sy'n gweinyddu'r gofrestr i asesu cymhwysedd. Gellid ei rymuso i roi cydnabyddiaeth i lefelau cymhwysedd at ddibenion y gyfundrefn reoleiddio.<sup>296</sup>
- 10.32 Credwn y byddai'r dull hwn yn well na gofyniad i sicrhau person cymwys yn unig, fel yn y drefn sy'n rheoleiddio'r tomennydd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol. Bydd gweithredwyr mwyngloddiau'n gyfarwydd â'r diwydiant, ac nid yw hynny'n wir am berchnogion tomennydd anweithredol.
- 10.33 Gellid datblygu cofrestr gan gyrff proffesiynol ar y cyd â'r awdurdod goruchwylio heb fod angen sail statudol. Gallai gael ei weinyddu gan gorff addas fel yr ICE. Hyd nes y bydd yn cael ei ddatblygu, byddai angen i gytundebau a gorchmynion cynnal tomennydd gyfeirio at y lefel benodol o gymhwyster sydd eu hangen – er enghraifft, drwy gyfeirio at gofrestriadau proffesiynol presennol fel peirianwyr sifil siartredig neu ddaeargwyr siartredig – a nodi lefel y profiad sydd eu hangen.<sup>297</sup>
- 10.34 Mae'n bwysig bod gan gofrestr rôl mewn hyfforddi a datblygu. Mae'r ymatebion wedi tynnu sylw at brinder sgiliau sy'n bodoli eisoes, a disgrifiwyd y rhain hefyd yn ein papur ymgynghori. Mae gwersi i'w dysgu o'r adolygiad annibynnol o ddiogelwch cronfeydd dŵr a ddilynodd ddigwyddiad Toddbrook. Roedd hyn yn archwilio diffygion

---

<sup>295</sup> Trafodir y gwahaniaethau hyn yn llawnach yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 9.29 i 9.31. Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, adran 1(4) yn diffinio ymgymwrwr. Gweler hefyd baragraff 9.9 y papur ymgynghori.

<sup>296</sup> Mae'r Gofrestr Arbenigol mewn Cyflwr Tir (SiLC) wedi'i henwebu fel y corff dyfarnu ar gyfer y Cynllun Nod Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Halogyddion Tir. Mae'r cynllun yn rhoi cydnabyddiaeth i arbenigwr cyflwr tir fel Person â Chymwysterau Priodol a Phrofiadol sy'n gallu darparu gwybodaeth am ymchwiliadau safle, gan gynnwys risgiau sy'n deillio o beryglon naturiol neu weithgareddau blaenorol fel mwyngloddio, fel sail ar gyfer asesu a yw'r tir yn addas ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig. Mae angen yr asesiad hwn ar gyfer yr holl bolisiau a phenderfyniadau cynllunio perthnasol (Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, cymal 183): gweler <https://www.clare.co.uk/projects-and-initiatives/nqms>.

<sup>297</sup> Maes o law, gallai'r gofrestr ddefnyddio Technoleg Sarnau Gwasgaredig, fel y crybwyllir ym mharagraff 3.20 uchod.

yn y system panel o beirianwyr a sefydlwyd gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.<sup>298</sup> Roedd nifer o resymau pam nad oedd y panel yn gweithio'n dda. Un ffactor sy'n cyd-fynd â phrinder sgiliau yn y sector diogelwch tomennydd yw dirywiad yn y cyflenwad o beirianwyr i'r panel, a gostyngiad pellach a ragwelir yn y dyfodol agos wrth i nifer sylweddol o aelodau'r panel gyrraedd oed ymdeol. Nodwyd problemau hefyd gyda recriwtio i'r panel a datblygu gyrfa.<sup>299</sup>

10.35 Rydym yn cymeradwyo'r awgrymiadau a wnaed ar gyfer darparu hyfforddiant a datblygiad i fod yn rhan o gynllun achredu proffesiynol. Bydd cyrsiau newydd i ddarparu'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer gwaith diogelwch tomennydd, prentisiaethau a hwyluso dilyniant gyrfa i hyfforddeion a gweithwyr proffesiynol iau yn arbennig o bwysig.

10.36 Am y rhesymau hyn, nid ydym yn argymhell sefydlu panel ffurfiol. Rydym yn argymhell yn lle bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â sefydliadau academiaidd a chyrff proffesiynol a chyrff yn y diwydiant ym maes gwaith diogelwch tomennydd gyda golwg ar sicrhau bod cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch yn cael ei llunio. Hyd nes y datblygir y gofrestr, bydd angen i'r awdurdod ddefnyddio'i ddisgresiwn o ran yr arbenigedd sydd i'w bennu mewn cytundebau a gorchmynion tomennydd.

#### **Argymhelliad 34.**

10.37 Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â sefydliadau academiaidd a chyrff proffesiynol a chyrff yn y diwydiant ym maes gwaith diogelwch tomennydd gyda golwg ar sicrhau bod cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch yn cael ei llunio.

---

<sup>298</sup> Gweler D Balmforth, Adroddiad Adolygu Diogelwch Cronfeydd Dŵr Annibynnol (2021) <https://www.gov.uk/government/publications/rservoir-review-part-b-2020>.

<sup>299</sup> Roedd yr adroddiad yn cofnodi bod 143 o beirianwyr goruchwylio a 30 o beirianwyr arolygu ar y pedwar panel o beirianwyr ar hyn o bryd. Mae'r peirianwyr hyn yn gyfrifol am 2892 o gronfeydd dŵr: uchod, t25.

## Pennod 11: Diogelwch tomennydd a deddfwriaeth amgylcheddol

- 11.1 Fe wnaethom egluro yn ein papur ymgynghori bod awdurdodau lleol wedi dod ar draws gwrthdaro rhwng eu cyfrifoldebau o ran diogelwch tomennydd a'u rhwymedigaethau o dan deddfwriaeth amgylcheddol. Nid yw Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 wedi'i dylunio i ryngweithio â diogelu'r amgylchedd yn yr oes fodern. Mae'n blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd, tra bod deddfwriaeth amgylcheddol yn gosod gofynion sy'n gallu rhwystro gwaith adfer a glanhau.
- 11.2 Mae'r broblem yn codi pan fydd y deunydd ar domen yn symud. Ar ôl ei wahanu oddi wrth y domen, mae'r deunydd yn debygol o ddod o dan y diffiniad o wastraff at ddibenion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.<sup>300</sup> Mae hyn yn golygu y bydd angen trwydded i wneud unrhyw beth gydag ef. Gall y broses o gael trwydded fod yn hir, a gall olygu bod angen cynnal asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd a dylunio gwaith mewn ffordd sy'n gwarchod ecoleg safle. Mae hefyd yn gwneud y gwaith yn ddrutach. Cyfyd problem debyg hefyd pan fydd deunydd tomen yn mynd i mewn i ddŵr.<sup>301</sup>
- 11.3 Un broblem yw'r ddarpariaeth gyfyngedig ar gyfer "argyfwng" o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae Rheoliad 40 yn darparu amddiffyniad i rhywun wedi'i cyhuddo o'r drosedd o weithredu heb drwydded lle'r oedd y gweithredoedd o dan sylw wedi'u cyflawni mewn argyfwng i osgoi perygl i iechyd dynol, bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau llygredd, a rhoddwyd gwybod i'r rheoleiddiwr yn brydlon.<sup>302</sup> Mae hyn wedi'i gyfyngu i gamau brys sy'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd pobl.
- 11.4 Y realiti ar gyfer y rhan fwyaf o achosion o symudiad tomen yw y bydd gwaith glanhau'n cymryd amser hir, ac y bydd yn symud ymlaen drwy gamau adfer ac adsefydlu. Bydd fframwaith rheoleiddio mwy effeithlon yn helpu i sicrhau na fydd argyfyngau'n digwydd, ond mae'n dal yn bwysig na ddylai'r gyfraith weithredu fel rhwystr i ddatrysiaid os bydd digwyddiad o'r fath yn digwydd. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod atebion cyfreithiol ar gael ar gyfer gwaredu deunyddiau tomennydd os yw'n bygwth llithro, yn llithro neu'n cael ei ddisodli fel arall. Ceir achosion nad ydynt yn rhai brys hefyd pan fydd deddfwriaeth amgylcheddol yn gwrthdaro â chynnal a chadw tomennydd.<sup>303</sup>
- 11.5 Edrychasom ar nifer o ffyrdd o ddatrys y problemau hyn a gofyn am farn. Mae'r bennod hon yn ystyried dulliau gweithredu posibl.

---

<sup>300</sup> SI 2016 Rhif 1154.

<sup>301</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 5.18 a 7.27.

<sup>302</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.20.

<sup>303</sup> Paragraff 10.121 uchod. Gweler paragraffau 7.32 i 7.34 o'r papur ymgynghori am enghreifftiau o waith nad yw'n waith brys sy'n cyd-daro â deddfwriaeth amgylcheddol.

## PŴER CYFARWYDDO

- 11.6 Y posibilrwydd cyntaf a ystyriwyd gennym oedd darparu pŵer, yn unol â phwerau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'w gwneud yn ofynnol i ymatebydd Categori 1 gyflawni swyddogaeth i reoli, lliniaru neu ymateb i argyfwng tomen lo neu fygythiad o argyfwng.<sup>304</sup>
- 11.7 Fe wnaethom egluro yn ein papur ymgynghori bod Deddf 2004 yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i baratoi ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt. Mae Rhan 1 wedi'i chynllunio i ddelio â pharatoadau gan ymatebwyr lleol ar gyfer argyfyngau lleol. Diffinnir argyfwng i gynnwys digwyddiadau neu sefyllfaoedd sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl neu i'r amgylchedd mewn lleoliad yn y DU. Ymatebwyr categori 1 yw'r rhai sydd wrth wraidd yr ymateb brys. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ymatebwyr yn ffurfio partneriaethau amlasiantaeth a elwir yn Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i gyflawni dyletswyddau cynllunio a pharatoi.<sup>305</sup>
- 11.8 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i ymatebydd Categori 1 gyflawni swyddogaeth ar gyfer atal, rheoli, lliniaru neu ymateb i argyfwng. Lle bo'r sefyllfa'n argyfyngus a lle nad oes digon o amser i roi gorchymyn neu reoliad, caiff y Gweinidog weithredu drwy gyfarwyddyd. Gall y bygythiad i les pobl ac i'r amgylchedd o domen lo ansefydlog ddod o fewn y diffiniad o argyfwng Rhan 1.<sup>306</sup> Ond efallai y bydd angen pŵer penodol i ganiatáu gweithredu mewn ystod ehangach o amgylchiadau, y tu hwnt i'r rheini sy'n dod o dan y diffiniad o argyfwng yn Neddf 2004. Efallai y bydd angen gweithredu ar frys, er enghraifft, i sefydlogi'r domen cyn iddi ddod yn fygythiad sydd ar fin digwydd.
- 11.9 Fe wnaethom awgrymu, petai pŵer cyfarwyddo yn cael ei roi i Weinidogion Cymru yn y modd yma, y byddai angen ymestyn y diffiniad o ymatebydd Categori 1 i gynnwys yr awdurdod goruchwylio newydd.<sup>307</sup> Gallai'r pŵer alluogi gweithredu i osgoi perygl i iechyd a diogelwch pobl tra'n galw hefyd i ystyried yr angen i leihau niwed i'r amgylchedd. Gallai cyfarwyddiadau ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod goruchwylio roi ymrwymiad i geisio'r trwyddedau a chaniatâd cynllunio angenrheidiol pan fydd hyn yn

---

<sup>304</sup> Paragraff 10.123 uchod. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, adran 1 yn diffinio argyfwng.

<sup>305</sup> Uchod, paragraffau 5.41 i 5.44; Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, adrannau 1, 2 ac atodlen 1. Mae Rhan 2A yn rhestru ymatebwyr Categori 1 yng Nghymru.

<sup>306</sup> Uchod, paragraffau 5.44 a 5.45; Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, adrannau 5(1) a 2(A), 7 a 8A. Adolygir Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 bob pum mlynedd. Disgwylir yr adroddiad nesaf yn 2022. Roedd ymgynghoriad gan Swyddfa'r Cabinet a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021 yn galw am gyflwyniadau ar nifer o agweddau ar y Ddeddf, gan gynnwys ynghylch a oedd y diffiniad o argyfwng a ddarparwyd gan adran 1 yn adlewyrchu dealltwriaeth rhanddeiliaid o argyfwng, ac, os nad oedd, sut roedd angen ehangu'r diffiniad: Gweler National Resilience Strategy: a Call for Evidence, Annex A, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1001404/Resilience\\_Strategy\\_-\\_Call\\_for\\_Evidence.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1001404/Resilience_Strategy_-_Call_for_Evidence.pdf).

<sup>307</sup> Mae'r crynodeb o'r ymatebion i Gais am Dystiolaeth y Strategaeth Cydnerthedd Cenedlaethol yn dangos ei bod yn debygol y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r sefydliadau sydd â statws Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Roedd mwyafrif cryf o'r ymatebwyr yn argymhell y dylid rhoi statws Categori 1 neu 2 i sefydliadau ychwanegoler mwyn cryfhau eu cyfranogiad mewn parodrwydd am argyfwng, gyda 68.9% o'r ymatebwyr yn cytuno bod bylchau hollbwysig yn y gynrychiolaeth o sefydliadau sy'n ymateb yn y Ddeddf: <https://www.gov.uk/government/consultations/national-resilience-strategy-call-for-evidence/outcome/public-response-to-resilience-strategy-call-for-evidence>,

ymarferol. Roeddem yn credu y gallai hyn roi digon o hyblygrwydd i sicrhau bod y camau a gymerwyd adeg yr argyfwng yn gyfreithlon.<sup>308</sup>

### **Cwestiwn Ymgynghori 31: A ydych yn credu y dylai Gweinidogion Cymru allu rhoi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo a phartïon perthnasol eraill ynghylch y camau sydd i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng cysylltiedig â thomennydd glo?**

11.10 Atebodd pedwar deg un o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd tri deg dau (78%) yn cytuno. Pump (12%) oedd yn anghytuno, a phedwar a ddewisodd ateb "arall".

#### **Rhesymau dros gytuno**

11.11 Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent yn cytuno â phŵer cyfarwyddo yn unol â phwerau'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Yn eu barn nhw, byddai hyn "yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i sicrhau bod y camau a gymerir ar adeg argyfwng yn gyfreithlon". Teimlent ei bod yn hanfodol bod swyddogion awdurdodau lleol yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu herlyn wrth gymryd camau brys i osgoi argyfwng. Credai Howard Siddle y byddai'r mesur yn "ateb pragmatig".

11.12 Roedd Huw Williams yn disgrifio'r mesur arfaethedig fel "pŵer sydd wedi'i freinio gan y Gweinidogion i ddatgan argyfwng tomen i ddarparu sicrwydd cyfreithlon am beidio â chydymffurfio â threfniadau rheoleiddio eraill, yn amodol ar ymgynghoriadau neu amodau i geisio cydsyniadau gofynnol cyn gynted ag y bydd amgylchiadau'n caniatáu". Credai y byddai darpariaeth o'r fath yn helpu i sicrhau na fyddai camau gweithredu "yn cael eu gohirio oherwydd petruster ynghylch cyfreithlondeb cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu bywyd neu eiddo".

11.13 Gwelodd Jane Iwanicki y cynnig fel ffordd o sicrhau mai iechyd a diogelwch a rheoli peryglon oedd "y brif ystyriaeth mewn sefyllfa oedd risg uchel".

11.14 Credai Syr Wyn Williams ei bod yn iawn y dylid cael "cadwyn gorchymyn" clir mewn argyfwng, ac y dylai'r llywodraeth reoli'r gadwyn honno.

#### **Amheuon**

11.15 Cymhwysodd ICE Cymru ei gytundeb drwy ychwanegu y dylid rhoi unrhyw gyfarwyddyd ar gyngor gweithiwr proffesiynol cymwys. Os oedd arbenigeddau'n cael eu graddio yn ôl lefelau cymhwysedd o dan y system newydd (fel y trafodir ym mhennod 10), dylai'r cyngor yn eu barn hwy ddod gan weithiwr proffesiynol a benodir i'r lefel uchaf. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru, Dr John Perry a Thrafnidiaeth Cymru hefyd yn credu ei bod yn bwysig bod y Gweinidogion yn gweithredu ar gyngor arbenigol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylai hyn gynnwys cyngor nid yn unig gan yr awdurdod goruchwyllo ac arbenigwyr panel ond hefyd cynghorwyr amgylcheddol fel ei hun.

11.16 Gwelodd Graham Hathaway yr angen am bŵer o'r fath, ond pwysleisiodd mai gweithio ar y cyd ddylai fod y norm.

---

<sup>308</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.123.



## Cymhwyso i ddeddfwriaeth gynllunio

11.17 Awgrymodd Huw Williams y gallai pŵer cyfarwyddo fod yn ddefnyddiol mewn perthynas â gwrthdaro rhwng y drefn diogelwch tomennydd a deddfwriaeth gynllunio. Gallai “hawl datblygu a ganiateir” newydd roi caniatâd ar gyfer gweithredu brys a bennir mewn cyfarwyddyd diogelwch mewn argyfwng gan Weinidogion. Gellid gwneud y datblygiad a ganiateir yn amodol ar amodau ynghylch ceisiadau dilynol. Byddai hyn yn ymdrin â'r sefyllfa a ddisgrifir yn ein papur ymgynghori pan fyddai'n rhaid i awdurdod lleol wneud gwaith brys heb ganiatâd cynllunio, a gwneud cais ôl-weithredol am y caniatâd angenrheidiol.<sup>309</sup>

## Rhesymau dros anghytuno

11.18 Roedd Keith Bush CF yn anghytuno â phŵer cyfarwyddo. Credai y byddai hyn yn amharu ar rôl yr awdurdod goruchwyllo. Roedd yn well ganddo eithrio'r gwaith brys o ddeddfwriaeth cynllunio neu amgylcheddol:

Os taw'r bwriad yw delio gyda sefyllfaeodd lle bydd yr angen i gymryd camau brys yn golygu peidio a chydymffurfio a gofynion deddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol, yr ateb yw eithrio gwaith brys mewn ymateb i risg sylweddol i bob neu eiddo o'r gofynion hynny, ond ... dylai'r eithriad fod yn un dros dro. Unwaith mae'r argyfwng wedi'i ateb, dylid gwneud cais am drwydded ac os nad yw'r gwaith argyfwng yn dderbyniol yn yr hir-dymor dylid ddod o hyd i ateb parhaol sy'n gydnaws a'r rheoliadau.<sup>310</sup>

11.19 Roedd eraill a oedd yn anghytuno â phŵer cyfarwyddo neu a atebodd “arall” wedi gwneud hynny am ei bod yn well ganddynt i'r cyngor brys gael ei roi gan arbenigwyr diogelwch tomennydd ac i osgoi i'r ymateb ddod yn fater gwleidyddol. Credai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y byddai'n briodol i Weinidogion gael mewnbwn i strategaeth ehangach gyffredinol, ond y byddai angen i benderfyniadau manwl gael eu dylanwadu gan fewnbwn technegol ac ymgynghori â pherchnogion tomennydd. Credai Rhondda Cynon Taf a Wrecsam ei bod yn bwysig bod gan yr awdurdod goruchwyllo ddigon o arbenigedd i weithredu ar frys, ac y dylai fod ganddo y pwerau angenrheidiol i wneud hynny.

## Trafodaeth

11.20 Roedd cefnogaeth gref gan fwyafrif dros bŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau mewn argyfwng tomen. Rydym yn cytuno ei bod yn ddymunol, pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, i'r pŵer cyfarwyddo gael ei ddefnyddio ar ôl ymgynghori â'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau perthnasol eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y camau gweithredu sy'n angenrheidiol. Rydym hefyd yn cytuno y gallai'r cyfarwyddyd fod yn amodol ar ofyniad i geisio caniatâd gofynnol pan fydd amgylchiadau'n caniatáu hynny. Mae'r fformiwleiddio a gynigir gan Huw Williams yn ymdrin â hyn yn dda.

11.21 Gellid creu'r pŵer cyfarwyddo drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru sy'n gwneud yr awdurdod goruchwyllo yn ymatebydd Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl

---

<sup>309</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Comisiwn y Gyfraith Papur Ymgynghori Rhif 255, paragraff 7.30.

<sup>310</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

2004.<sup>311</sup> Ond nid oes darpariaeth ddatganedig yn Neddf 2004 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiystyru gofynion cyfreithiol sy'n gymwys i swyddogaethau ymatebwyr Categori 1 wrth arfer eu pŵer cyfarwyddo. Er enghraifft, efallai na fydd cyfarwyddyd yn ei gwneud yn gyfreithlon i'r ymatebydd Categori 1 gyflawni swyddogaeth heb drwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio. Yn ogystal, mae'r rhestr o gamau a ganiateir gan orchymyn neu gyfarwyddyd yn gyfyngedig ac efallai na fyddant yn ymdrin â'r holl sefyllfaoedd sy'n codi mewn argyfwng tomennydd glo.

- 11.22 Un ffordd o ddatrys y risg y gallai cyfarwyddyd olygu torri rheoliadau cynllunio ac amgylcheddol fyddai cyflwyno "hawl datblygu a ganiateir" mewn deddfwriaeth gynllunio a darpariaeth gyfatebol mewn deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd hyn yn gymwys i gamau a gymerir yn unol â chyfarwyddyd Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a roddir i'r awdurdod goruchwyllo a weithredu fel mecanwaith i sicrhau bod camau brys a bennir mewn cyfarwyddyd brys gan Weinidogion Cymru yn gyfreithlon. Y byddai mewn gwirionedd yn rhoi'r caniatâd sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth cynllunio ac amgylcheddol ar gyfer y weithred a nodir. Byddai hyn yn dileu'r angen i wneud cais am ganiatâd ôl-weithredol, ond gellid ei wneud yn amodol ar amodau ynghylch ceisiadau dilynol.
- 11.23 Mae'r dull "datblygu a ganiateir" yn cael ei fabwysiadu wrth gynnal gwaith gwella draeniau tir a chysiau dŵr penodol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 yn darparu bod datblygiad o'r fath yn ddatblygiad a ganiateir ac nad oes angen cais cynllunio.<sup>312</sup> Fodd bynnag, mae'r gwaith yn ddarostyngedig i Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999, sy'n nodi rhai cyfyngiadau, gan gynnwys, lle mae'r gwaith yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gofyniad i baratoi datganiad amgylcheddol.<sup>313</sup>
- 11.24 Dull arall fyddai ymgorffori pŵer cyfarwyddo yn y ddeddfwriaeth sy'n creu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer diogelwch tomennydd. Gallai hyn nodi rhestr bwrsapol o gamau gweithredu y gallai Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo mewn argyfwng tomen lo. Gallai hefyd ddarparu y byddai'r cyfarwyddyd yn drech na gofynion caniatáu neu gynllunio amgylcheddol penodol.
- 11.25 Rydym yn ffafrio pŵer cyfarwyddo fel y prif ffordd o ddatrys y broblem o wrthdaro rhwng cyfrifoldebau diogelwch tomen a gofynion rheoleiddio eraill mewn argyfwng. Credwn y gallai hyn gynnig fframwaith ar gyfer cynllunio wrth gefn yn ogystal â gweithredu, a "chadwyn gorchymyn" a chydlyniant rhwng asiantaethau mewn argyfwng na fyddai eithriad o ddeddfwriaeth amgylcheddol yn ei ddarparu. Rydym yn gadael i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n well ganddi ychwanegu'r awdurdod

---

<sup>311</sup> Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, adran 13(2A) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i ychwanegu awdurdod datganoledig Cymreig at ran 2A o atodlen 1. Diffinnir awdurdod datganoledig Cymreig gan adran 157A Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Rhestrir yr awdurdodau datganoledig presennol yn atodlen 9A.

<sup>312</sup> Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) SI 1995 Rhif 418, atodlen 2, t 14 a 15.

<sup>313</sup> Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) SI 1999 Rhif 1783 a Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygiad) SI 2017 Rhif 585. Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer eithrio gwaith gwella o'r gofynion hyn mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys, yn rheoliad 3A, lle mae'r gwaith wedi "ymateb i argyfwng sifil fel eu hunig ddiben".

goruchwylio at Ddeddf 2004, gyda'r cyfyngiadau rydym wedi'u nodi, neu greu pŵer cyfarwyddo sy'n benodol i argyfyngau tomennydd glo o fewn y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r drefn reoleiddio newydd.

11.26 Nid yw pŵer cyfarwyddo yn golygu na ddylid mabwysiadu dulliau eraill hefyd, yn enwedig ar ôl i gamau cynnar argyfwng fynd heibio, neu pan fydd gwrthdaro nad yw'n codi yng nghyd-destun argyfwng. Rydyn ni'n trafod y posibilrwydd o gael esemptiad wedi'i deilwra i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer symudiadau deunyddiau tomennydd anweithredol. Rydym yn trafod cysyniadau ehangach i helpu i ddatrys tensiynau rhwng gweithrediadau diogelwch tomennydd a threfniadau rheoleiddio eraill yn yr adran sy'n dilyn.

### **Argymhelliad 35.**

11.27 Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwylio ynghylch y camau sydd i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng cysylltiedig â thomennydd glo.

11.28 Rydym yn argymhell bod y pŵer yn ddarostyngedig i ofyniad, pan fo'n bosibl, i ymgynghori â'r awdurdod goruchwylio ac awdurdodau perthnasol eraill ynghylch telerau cyfarwyddiadau o'r fath.

11.29 Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw darparu, yn y ddeddfwriaeth sy'n creu'r pŵer neu mewn deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio, eithriad rhag unrhyw ofyniad i geisio caniatâd ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol. Dylai unrhyw eithriad o'r fath fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i geisio caniatâd gofynnol yn ôl-weithredol.

## **PŴER ARGYFWNG EHangach o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol**

11.30 Yr ail ddull a ystyriwyd gennym i ddatrys y broblem o wrthdaro rhwng gwaith diogelwch tomennydd a deddfwriaeth amgylcheddol oedd ymestyn yr amddiffynfeydd a oedd ar gael i'r rheini a oedd yn gwneud gwaith diogelwch brys ar domennydd. Roeddem wedi awgrymu diwygiad i'r amddiffyniad presennol i gyflawni trosedd a ddarperir gan reoliad 40 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae rheoliad 38 yn ei gwneud yn drosedd i weithredu "cyfleuster a reoleiddir" heb drwydded amgylcheddol. Mae "gwaith gwastraff mwyngloddio" yn un categori o gyfleuster sy'n cael ei reoleiddio. Categorï arall o gyfleuster sy'n cael ei reoleiddio yw "gwaith gwastraff". Bydd angen trwydded amgylcheddol ar gyfer adfer neu waredu gwastraff o gyfleuster o'r fath.<sup>314</sup> Fel y soniwyd uchod, mae'r amddiffyniad yn berthnasol i weithredoedd a wneir mewn argyfwng er mwyn osgoi perygl i iechyd pobl. Gofynnwyd am farn.

<sup>314</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 5.18 a 5.20.

## **Cwestiwn Ymgynghori 32: Ydych chi'n meddwl y dylid ehangu pŵer yr awdurdod goruchwyllo i gymryd camau mewn argyfwng yn unol â rheoliad 40 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016? Os ydych, ym mha ffordd?**

11.31 O'r 32 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 23 (74%) yn cytuno y dylid ehangu'r pŵer i gymryd camau. Roedd wyth (25%) yn anghytuno, ac un a ddewisodd ateb "arall".

### **Rhesymau dros gytuno**

11.32 Roedd llawer o'r rhai a oedd yn cytuno, gan gynnwys Bob Leeming, Howard Siddle a Dr John Perry, wedi ymateb yn gyffredinol ei bod yn briodol sicrhau y gellid gwneud gwaith tymor hwy i sicrhau diogelwch tomen yn brydlon heb rwystr. Credai Rhondda Cynon Taf y byddai'r gofyniad i gymryd camau rhesymol i leihau llygredd a rhoi manylion i'r rheoleiddiwr cyn gynted ag y bo modd yn rhoi digon o warchodaeth i'r amgylchedd hyd yn oed pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei hehangu.

11.33 Nododd Caerffili yr angen am ddarpariaeth estynedig i ganiatáu gweithredu i atal argyfwng, a'r anawsterau a achosir gan yr angen i ystyried yr amserlenni a osodir gan ofynion i gael trwyddedau a llunio asesiadau effaith. Soniodd Wrecsam hefyd am yr angen i ddarparu ar gyfer gwaith ataliol mewn argyfwng, a rhoddodd enghraifft o'r angen i symud rhan o domen lo i osgoi cwmp i gwrs dŵr sydd ar fin digwydd. Nodwyd y gallai cwmp o'r fath achosi niwed sylweddol i iechyd y cyhoedd neu lygredd.

11.34 Pwysleisiodd Keith Bush CF fod angen gwneud unrhyw eithriad yn un dros dro. Fel y trafodwyd mewn perthynas â phŵer cyfarwyddo, dylai gofyniad i gael caniatâd i wneud y gwaith fod yn berthnasol unwaith y bydd yr argyfwng wedi'i ddatrys.<sup>315</sup> Yn ei farn ef, dylid dod o hyd i ateb parhaol sy'n gydnaws â'r rheoliadau.

11.35 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y gellid ehangu'r amddiffyniad i gynnwys cyfeiriad at "niwed amgylcheddol trychinebus" yn ogystal ag iechyd pobl. Ond fe wnaethant rybuddio y byddai angen diffinio hyn yn ofalus ac y gallai fod yn agored i gael ei gam-drin.

### **Diffiniad o argyfwng**

11.36 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhondda Cynon Taf yn annog bod angen diffinio "argyfwng" a "gwaith brys" yn well. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru efallai na fyddai'r amserlenni ar gyfer gwaith diogelwch tomennydd yn cyd-fynd â sut mae argyfwng wedi cael ei ddiffinio mewn sefyllfaoedd neu adrannau eraill. Roeddent yn cwstyfnu a ddylai'r "senario cyfan" y tu hwnt i'r digwyddiad neu ddigwyddiad heb ei gynllunio gael ei gynnwys fel "rheoli mewn argyfwng" yn y tymor hir:

Dylai camau brys barhau i fod y gweithgareddau hynny sydd eu hangen i ddod â digwyddiadau dan reolaeth ac i wneud pethau'n ddiogel. Os yw'r argyfwng yn parhau i fod yn risg sylweddol, mae rhywfaint o ryddid tymor byr/canolig yn rhesymol. Dylid ystyried efallai gael cymal ar wahân i roi cyfrif am y gweithrediadau "clirio" tymor hwy.

---

<sup>315</sup> Gweler paragraffau 11.18 a 11.22 uchod.

Yn eu barn nhw, roedd adroddiadau diogelwch COMAH yn enghraifft dda o agwedd gytbwys tuag at iechyd pobl a'r amgylchedd a chynllunio argyfwng ehangach.<sup>316</sup>

11.37 I'r gwrthwyneb, roedd Rhondda Cynon Taf yn ystyried bod "gwaith brys" yn cynnwys "y camau i atal argyfwng rhag datblygu – efallai nad yw gwaith brys o reidrwydd yn para am gyfnod byr ac y gallai fod yn rhagweithiol ond na fyddai'n dod o fewn yr amserlenni presennol ar gyfer trwyddedau". Roeddent yn awgrymu opsiwn "llwybr carlam" ar gyfer gwaith "brys" sydd ag amser arwain o wythnosau neu fisoedd, ond llai o amser na sydd ar gael i gaffael trwyddedau ar gyfer gweithgareddau. Ond byddai dal angen gwaith "brys" lle mae'n rhaid i'r gwaith ddechrau o fewn oriau, diwrnodau neu wythnosau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, clirio ffosydd draenio neu greu manau gollwng i dynnu dŵr o domennydd. Roeddent hefyd yn awgrymu darpariaeth ar gyfer caniatâd ôl-weithredol lle nad oes digon o amser i gael trwydded. Cafodd "llwybr carlam" yn ogystal ag opsiwn "brys", a darpariaeth ar gyfer caniatâd ôl-weithredol, eu cymeradwyo hefyd gan Vikki Howells AS.

### Rhesymau dros anghytuno

11.38 Wrth gefnogi'r angen am fesurau i ddatrys y gwrthdaro rhwng gwaith diogelwch ar domennydd a deddfwriaeth amgylcheddol, rhoddodd rhai ymatebwyr resymau cryf pam nad oedd diwygio rheoliad 40 yn ateb priodol. Dywedodd yr Athro Bob Lee nad oedd "angen i'r awdurdod goruchwyllo alw am amddiffyniad er mwyn gweithredu ar frys". Yn ei farn ef, byddai'n bwysig cael rhyw fath o oruchwyliaeth annibynnol ar weithgarwch brys, yn enwedig pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â rôl yr awdurdod gorfodi fel yr awgrymodd.<sup>317</sup> Credai fod cyfarwyddyd Gweinidogol yn ateb gwell i'r broblem. Gallai cyfarwyddyd bennu dyddiad ar gyfer cael trwyddedau.

11.39 Roedd Cymdeithas y Gyfraith hefyd yn gweld y cynnig yn un problemus. Gan fod rheoliad 40 yn amddiffyniad statudol i droseddau rheoliad 38 o weithredu heb drwydded, torri amod trwydded amgylcheddol neu fethu â chydymffurfio â hysbysiad, roedd yn anghywir ystyried bod rheoliad 40 yn "caniatáu" camau brys. Ystyriwyd yn briodol bod y ddarpariaeth yn darparu amddiffyniad ar gyfer gweithredu brys a fyddai fel arall yn drosedd. Os mai'r amcan yw caniatáu i'r awdurdod gymryd camau penodol mewn argyfwng, byddai, yn eu barn hwy, yn well gwneud hynny drwy eithriad penodol.

11.40 Gwnaeth Cymdeithas y Gyfraith hefyd adnabod problemau eraill wrth ddibynnu ar amddiffyniad i ganiatáu'r gweithredu. Byddai'n "ffordd gwbl annibynadwy o sicrhau'r canlyniad hwnnw gan mai cyfrifoldeb yr awdurdod goruchwyllo fyddai ei brofi". Byddai hefyd yn creu amrywiaeth o faterion ehangach o gydlynid ar draws y Rheoliadau. Roeddent hefyd o'r farn nad oedd angen diwygio'r rheoliad i greu darpariaeth i amddiffyn awdurdod yn dilyn argyfwng hyd nes y gallent wneud cais am drwyddedau i ddarparu ar gyfer yr ateb tymor hwy. Roeddent o'r farn y byddai'r ddarpariaeth fel y mae wedi'i geirio ar hyn o bryd yn cynnwys hyn, ac y byddai mewn unrhyw achos yn

---

<sup>316</sup> Mae Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr SI 2015 Rhif 483 yn sicrhau bod busnesau'n cymryd y camau angenrheidiol i atal damweiniau mawr sy'n gysylltiedig â sylweddau peryglus a chyfyngu ar y canlyniadau i bobl ac i'r amgylchedd o ganlyniad i unrhyw ddamweiniau mawr sy'n digwydd: <https://www.hse.gov.uk/comah/>. Mae'r Awdurdod Cymwys a sefydlwyd gan y rheoliad yn rheoli risg iechyd a diogelwch a risg amgylcheddol.

<sup>317</sup> Gweler paragraffau 2.34 a 2.35 uchod.

“risg mawr i unrhyw awdurdod erlyn erlyn am fethu â gwneud cais am drwydded ar ôl cymryd camau brys, oni bai fod y gweithredoedd yn ddi-hid neu’n fwriadol”.

11.41 Cytunodd Huw Williams nad oedd yn briodol darparu pŵer brys ar ffurf amddiffyniad i weithred sy’n arwain at gosbau troseddol. Yn ei farn ef, dull gwell fyddai “ystyried rhanddirymiaidau deddfwriaethol penodol lle mae diogelwch tomennydd yn bwysig a lle mae’r awdurdod goruchwylio’n gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill”. Dywedodd fod y math o waith peiranyddol a allai fod yn angenrheidiol mewn achosion o’r fath, fel tynnu neu daenu deunydd i sychu neu ddiffodd hylosgiad, yn cael eu deall yn dda ar y cyfan. Gellid teilwra rhanddirymiaidau penodol ar gyfer yr anghenion peirianeg hyn.

## Trafodaeth

11.42 Cafwyd cefnogaeth y mwyafrif i’n cynnig i ehangu’r amddiffyniad sydd ar gael o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Roedd y rhesymau dros gefnogi yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau y gellid gwneud gwaith tymor hwy yn gyfreithlon a heb oedi gormodol. Roedd gwerthfawrogiad o’r angen i sicrhau y gellid gwneud gwaith yn gyflym i atal argyfwng yn ogystal ag i glirio ar ôl llithriad tomen.

11.43 Rydym yn credu y bydd ein hargymhelliad a nodir uchod ar gyfer pŵer cyfarwyddo yn ateb i’r rhan fwyaf o sefyllfaoedd o argyfwng lle gallai torri rheoliadau amgylcheddol ddigwydd fel arall. Rydym hefyd yn cytuno â’r sylwadau a wnaed bod ehangu’r amddiffyniad rhag troseddau o dan y Rheoliadau yw’r ffordd orau o ddatrys y tensiwn rhwng gofynion diogelwch tomennydd a diogelu’r amgylchedd. Ond gall yr amddiffyniad fod yn berthnasol o hyd yn y sefyllfaoedd hynny lle mae angen gweithredu ar frys mawr neu lle nad yw’r sefyllfa’n ddigon difrifol i gyfiawnhau ymyrraeth gan weinidogion. Mae’n bwysig, am y rheswm hwn, sicrhau bod yr amddiffyniad yn gweithredu’n effeithiol.

11.44 Er mwyn sicrhau amddiffyniad effeithiol, credwn y gellid diffinio’r hyn sy’n gyfystyr â gweithredu mewn argyfwng glo yn fwy cyffredinol yn y Rheoliadau. Gallai, er enghraifft, gyfeirio at weithredu rhagataliol i osgoi argyfwng o’r fath a’r gwaith sy’n ofynnol ar ôl llithriad tomen. Byddai hyn, i bob pwrpas, yn ehangu’r amddiffyniad drwy sicrhau ei fod yn cynnwys ystod ehangach o ddigwyddiadau’n benodol. Gallai gynnwys camau a gymerir ar gyfer ystod ehangach o ddibenion na dim ond diogelu iechyd pobl. Rydym yn cytuno nad yw amserlenni ar gyfer gwaith diogelwch tomennydd efallai yn cyd-fynd yn dda â’r diffiniad o argyfwng a ddefnyddir mewn cyd-destunau eraill. Er enghraifft, mae’r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn rhoi diffiniad penodol o argyfwng mewn perthynas â llifogydd.<sup>318</sup> Fel yr awgrymir yn yr ymatebion, gallai trefn “llwybr carlam” ar gyfer trwyddedau hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith sy’n ofynnol ar amserlen gyflym na ellid ystyried ei fod yn cael ei gyflawni “mewn” argyfwng.

11.45 Hyd yn oed gyda diffiniad estynedig o argyfwng tomennydd glo, nid ydym yn credu y byddai bodolaeth yr amddiffyniad yn rhoi digon o ddatrysiaid i’r tensiynau rhwng dyletswyddau diogelwch tomennydd a deddfwriaeth amgylcheddol. Yr erlynydd a’r llysyddai’n penderfynu a oedd yr amddiffyniad wedi’i brofi mewn achos penodol. Mae

---

<sup>318</sup> Mae Atodlen 25, paragraff 2 yn diffinio “argyfwng” mewn perthynas â rheoli gweithgarwch risg llifogydd fel “digwyddiad sy’n peri risg o (a) llifogydd difrifol; (b) effaith niweidiol ddifrifol ar ddraeniau; (c) niwed difrifol i’r amgylchedd.

cyfundrefnau eraill yn rhoi cryn ryddid i awdurdodau cyhoeddus wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau defnyddio pwerau brys. Mae Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, yn ei adael i'r corff gorfodi benderfynu a yw gorchymyn rheoli rhywogaethau "yn angenrheidiol ar frys".<sup>319</sup> Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn rhoi pwerau brys i'r awdurdod gorfodi "gymryd y mesurau hynny sy'n briodol yn eu barn hwy" os yw o'r farn bod cronfa ddŵr yn anniogel a bod angen gweithredu ar unwaith.<sup>320</sup> Mae Deddf Tai 2004 yn caniatáu i awdurdod tai gymryd camau adfer brys os yw'n fodlon bod perygl diffiniedig yn bodoli a'i fod yn cynnwys risg o niwed difrifol sydd ar fin digwydd. Diffinnir camau adfer brys fel y camau y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol ar unwaith i ddileu'r risg sydd ar fin digwydd.<sup>321</sup>

### Argymhelliad 36.

11.46 Rydym yn argymhell diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2016 i ddiffinio argyfwng yng nghyd-destun deunyddiau tomennydd.

## DULLIAU ERAILL

11.47 Mae'n amlwg o brofiad llithriad Tylorstown, hyd yn oed ar ôl cymryd camau yn dilyn digwyddiad, mae'n debygol y bydd angen gwneud rhagor o waith gan ddilyn amserlen gyflymach, er enghraifft i glirio llawer iawn o ddeunydd tomen. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn mynnu bod y deunydd yn cael ei gludo dros bellteroedd mawr.<sup>322</sup> Gallai'r camau pellach hyn gael eu cwmpasu gan gyfarwyddyd gweinidogol, fel yr argymhellwyd yn gynharach yn y bennod hon.<sup>323</sup> Fel y trafodwyd yn gynharach hefyd, gallai deddfwriaeth cynllunio ac amgylcheddol ddarparu bod camau a gymerir dan gyfarwyddyd gweinidogol yn cael eu caniatáu heb fod angen caniatâd cynllunio neu drwydded amgylcheddol. Ond credwn fod angen ystyried ymhellach sut i reoli tensiynau rhwng diogelwch tomennydd a deddfwriaeth amgylcheddol yng nghamau dilynol, llai brys, y gwaith clirio. Mae'r adran hon yn ystyried dulliau gweithredu posibl.

11.48 Roedd ein papur ymgynghori yn edrych ar strategaethau ehangach i wella ymatebion i roi gwybod am argyfyngau yn ogystal ag atebion tymor hwy ar gyfer deunyddiau tomennydd sy'n cael eu dadleoli gan waith adfer. Roeddem wedi ystyried y potensial a fyddai'n cael ei gynnig gan ddull gweithredu mwy cydweithredol rhwng partion a oedd yn ymateb i argyfwng tomennydd glo. Mae gwell cydweithio yn helpu i sicrhau bod yr awdurdodau sy'n rhan o argyfwng tomennydd glo yn gallu cydlynu eu hymateb, cytuno ar y dull gorau yn yr amgylchiadau a chadw trywydd archwilio o'u

<sup>319</sup> Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, paragraff 10(2)(c).

<sup>320</sup> Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 16.

<sup>321</sup> Deddf Tai 2004, a 40.

<sup>322</sup> Mae anawsterau o ran dod o hyd i'r atebion tymor hwy lleiaf niweidiol i'r amgylchedd wrth ddelio â deunyddiau tomennydd wedi'u dadleoli yn cael eu trafod yng nghyd-destun y llithriad yn Tylorstown yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, para 7.28.

<sup>323</sup> Gweler paragraff 11.27 uchod.

gweithredoedd. Roeddem yn rhagweld y byddai dilyn y canllawiau y cytunwyd arnynt yn helpu i sicrhau bod pob parti yn ystyried y posibiladau, ac yn pwysu a mesur niwed amgylcheddol a diogelwch y cyhoedd ym mhob achos. Byddai gweithredu yn unol â chanllawiau perthnasol yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried a oedd y camau a gymerwyd gan awdurdod i osgoi niwed amgylcheddol yn rhesymol.<sup>324</sup>

11.49 Roeddem hefyd wedi edrych ar awgrymiadau y gallai cynllunio wrth gefn gynnwys darpariaeth ar gyfer seilwaith wrth gefn er mwyn gallu storio deunyddiau tomennydd pe bai llithriad yn digwydd. Gellid darparu hyn mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o domennydd. Yn ymarferol, gall swmp y deunydd fod yn enfawr, ac roeddem yn meddwl ei bod yn annhebygol mai dyma'r ateb ym mhob achos, ond gallai gyfrannu at ateb mewn rhai achosion.<sup>325</sup>

11.50 Yn olaf, fe wnaethom edrych ar y potensial ar gyfer atebion storio pwrpasol ar gyfer deunyddiau tomennydd. Roeddem yn awgrymu y gellid gwneud hyn drwy ddiwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol er mwyn diffinio deunyddiau tomennydd fel deunydd peirianeg yn hytrach na gwastraff, heb fod angen proses sy'n gyfystyr â thriniaeth sy'n golygu bod angen trwydded. Yr oeddem yn credu y gallai fod yn bosibl gwneud hyn ar lefel canllawiau.<sup>326</sup>

11.51 Daethom i'r casgliad ei bod y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad i ystyried y ffurf y gallai'r newidiadau hyn ei chymryd, ond gofynnwyd cwestiwn cyffredinol i geisio safbwyntiau ar ddulliau posibl y tu hwnt i'r cynigion penodol a ystyriwyd yn y ddwy adran flaenorol.

**Cwestiwn Ymgynghori 33: Ydych chi'n awgrymu unrhyw ddulliau eraill o ddelio â gwrthdaro rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a diogelwch tomennydd? Os ydych, nodwch nhw os gwelwch yn dda.**

### **Pennu blaenoriaethau – diogelwch yn gyntaf**

11.52 Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys ICE Cymru, Bob Leeming, CLA Cymru, Paul Connolly a Dr Peter Brabham, o'r farn y dylai unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol newydd ei gwneud yn glir, lle'r oedd potensial i golli bywyd, bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i waith diogelwch tomennydd ar draul deddfwriaeth amgylcheddol. Roedd Steve Jones o'r Adran Cynllunio Argyfwng yng Nghyngor Sir Penfro yn dweud bod angen "hierarchaeth o flaenoriaethau": Achub bywydau oedd yn dod gyntaf, wedi'i ddilyn gan atal niwed i bobl, fel dadleoli o'u cartrefi, ac yna atal niwed i'r amgylchedd. I'r gwrthwyneb, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn na ddylid rhagdybio bod un math o ddeddfwriaeth yn mynd yn groes i unrhyw un arall.

### **Esemptiad gwastraff**

11.53 Nid oedd yr Athro Bob Lee yn cytuno â'n hawgrym y gellid diwygio diffiniadau o wastraff fel nad oedd deunydd tomen bellach yn cael ei ystyried yn wastraff yr oedd angen trwydded ar ei gyfer. Credai y byddai'n well creu eithriad penodol o'r

---

<sup>324</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.127.

<sup>325</sup> Paragraff 10.128 uchod.

<sup>326</sup> Paragraff 10.130 uchod.



Rheoliadau i ganiatáu storio gwastraff glo heb drwydded yn ystod gwaith ail-beiriannu neu yn y cyfnod sy'n arwain at waith arfaethedig. Gellid gosod cyfyngiadau ar amser a swmp.

- 11.54 Rhoddodd Caerffili enghraifft o gynlluniau mawr (sy'n cynnwys strwythurau cynnal) lle mae rwbwl pyllau glo wedi cael ei ddefnyddio fel llenwad peirianyddol.<sup>327</sup> Roedden nhw'n meddwl ei bod hi'n bosibl ail-ddosbarthu deunyddiau fel nad yw'n cael ei ystyried yn ddeunydd gwastraff mwyach. Ond nodwyd ganddynt fod llawer o ofynion eraill a allai ohirio gwaith ar wahân i ganiatâd i ddefnyddio'r deunydd gwastraff. Mae gofynion hefyd, er enghraifft, sy'n diogelu cynefinoedd, ecoleg a hawliau cominwyr, a deddfwriaeth asesu effaith amgylcheddol. Teimlent fod angen mwy o drafodaeth yn y maes hwn.
- 11.55 Mewn digwyddiadau ymgynghori, awgrymodd swyddogion Rhondda Cynon Taf hefyd y gellid llunio canllawiau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ddweud nad oedd gwastraff a grëwyd yn ystod gwaith adfer tomennydd yn wastraff o fewn ystyr y Rheoliadau. Roeddent hefyd yn awgrymu y gallai darpariaethau yn y cynlluniau rheoli tomennydd weithredu i esemptio deunydd o'r Rheoliadau. Cyfeiriasant at y darpariaethau yn y Ddeddf Draenio Tir sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol ymgymryd â "datblygiad a ganiateir" heb fod angen caniatâd cynllunio, a bod y Rheoliadau Draenio Tir (AEA) yn caniatáu'r gwaith cyhyd ag y ceir sgrinio amgylcheddol.<sup>328</sup> Awgrymwyd y gellid cael "Rheoliadau Adfer Tomennydd (EIA)" cyfatebol er mwyn gallu gwneud y gwaith adfer tomennydd gofynnol gyda darpariaeth ar gyfer faint o sgrinio amgylcheddol sydd ei angen.

### Dulliau caniatáu diwygiedig

- 11.56 Awgrymodd Rhondda Cynon Taf gydsyniad "siop un stop", a ddisgrifiwyd ganddynt fel un tebyg i ganiatâd datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd.<sup>329</sup> Eglurodd y gallai'r caniatâd awdurdodi a rheoleiddio'r holl weithgareddau mewn perthynas â gwaith tomennydd, er enghraifft rheoli gwastraff, trwyddedau amgylcheddol, gwaith cynllunio a draenio tir.
- 11.57 Edrychodd yr Athro Bob Lee ar fath o gydsyniad tybiedig lle tybir bod gan domennydd glo ar y gofrestr y statws cynllunio a chaniatáu angenrheidiol i storio gwastraff glo. Gellid ymgorffori hyn yn y cytundebau cynnal a chadw tomennydd. Gellid trin gwaith adfer fel amrywiad i'r gymeradwyaeth bresennol.

---

<sup>327</sup> Roeddent yn ei ddisgrifio fel deunydd tebyg i ddeunydd 6l, sy'n ddeunydd gronnynog wedi'i raddio'n dda a ddefnyddir i lenwi strwythurau pridd wedi'u hatgyfnerthu a strwythurau pridd wedi'u hangori: gweler Cyfres 600, Gwaith Daear, Safonau Priffyrdd, <https://www.standardsforhighways.co.uk/ha/standards//mchw/vol1/index.htm>

<sup>328</sup> Gweler paragraff 11.23 uchod.

<sup>329</sup> O dan Ddeddf Cynllunio 2008, gall prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd gael "caniatâd datblygu", sy'n fath o ganiatâd statudol sy'n awdurdodi'r prosiect arfaethedig yn ei gyfanrwydd. Mae cydsyniad datblygu yn drech na'r angen am unrhyw gydsyniad neu ganiatâd arall a fyddai'n ofynnol fel arall: Deddf Cynllunio 2008, a 33. Gweler Deddf Cynllunio yng Nghymru (2017) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 233, paragraff 9.12.

## Cydweithredu ac arferion gorau

- 11.58 Pwysleisiwyd yr angen am gydweithredu rhwng gwahanol awdurdodau mewn nifer o ymatebion. Roedd Trafnidiaeth Cymru o'r farn y byddai hyn yn caniatáu pwysu a mesur manteision gwaith adfer yn erbyn costau amgylcheddol gwaith adfer. Mewn argyfwng, roedd CLA Cymru yn cydnabod bod angen rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch tomennydd glo, ond roeddent yn galw am "drafodaeth briodol" rhwng yr awdurdodau perthnasol er mwyn diogelu a lliniaru unrhyw weithgareddau niweidiol sy'n debygol o effeithio ar yr amgylchedd.
- 11.59 Roedd ICE Cymru yn credu y dylai Fforymau Lleol Cymru Gydnerth (LRF) gymryd camau brys yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gyda'r awdurdod goruchwylio yn cael ei ddynodi'n ymatebydd Categori 1 mewn perthynas ag argyfyngau sy'n gysylltiedig â thomennydd glo.<sup>330</sup> Mae'r Gronfa Adfywio Lleol eisoes yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru fel y rheoleiddiwr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Byddai cyfraniad LRF yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwybod pa gamau oedd yn cael eu cymryd mewn unrhyw ymateb brys ac yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau cysylltiedig.
- 11.60 Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru enghraifft o gydreoli risgiau iechyd a diogelwch a'r amgylchedd o dan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) fel model o gydweithio sydd wedi hen ennill ei blwyf.<sup>331</sup> Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r asiantaeth amgylcheddol briodol yn gweithio mewn partneriaeth fel yr Awdurdod Cymwys i orfodi'r rheoliadau.
- 11.61 Awgrymodd Stephen Smith y gellid datblygu cod ymarfer yn benodol ar gyfer tomennydd glo er mwyn sicrhau nad oedd deddfwriaeth amgylcheddol yn rhwystro gwaith adfer effeithiol neu adfer tomen lle roedd angen gwaith am resymau diogelwch. Fel enghraifft, cyfeiriodd at y cod ymarfer a ddatblygwyd gan CL:AIRE i ymdrin â'r diffiniad o wastraff ar gyfer deunyddiau sy'n deillio o waith adfywio neu beirianeg:
- Er bod amcanion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn gadarn, teimlaf na ddylai hyn fod yn rhwystr i adfer/adennill tomen y bernir bod angen gwaith adfer arni am resymau diogelwch. Mae hyn yn berthnasol i reoli tomen yn ogystal ag adfer mewn sefyllfa o argyfwng. Efallai fod angen Cod Ymarfer yn benodol ar gyfer tomennydd gwastraff glo, yn yr un modd ag y mae CL:AIRE wedi datblygu Diffiniad generig o Wastraff CoP ar gyfer deunyddiau sy'n deillio o waith adfywio neu beirianeg.
- 11.62 Roedd Rhondda Cynon Taf a Vikki Howells AS hefyd yn annog cynhyrchu "arferion gorau hygyrch a dealladwy" mewn perthynas â chynnal a chadw a rheoli tomennydd. Awgrymodd Rhondda Cynon Taf y gallai hyn gynnwys siartiau llif trefniadol, gan gynnwys materion fel proses ddeddfwriaethol, gofynion trwyddedu ac amserlenni, yn ogystal ag enghreifftiau cynrychioliadol.

---

<sup>330</sup> Gweler ein hargymhelliad ym mharagraff 11.27 uchod.

<sup>331</sup> Gweler paragraff 11.36 uchod.

## Amrywio'r gofynion gweithdrefnol yn ôl maint y dasg

11.63 Awgrymodd Rhondda Cynon Taf y dylai'r dull a ddefnyddir amrywio yn ôl p'un a oedd y gwaith yn brosiectau cynnal a chadw ac adfer mawr neu'n fân dasgau cynnal a chadw. Yn eu barn nhw, rhaid i waith mawr ar safleoedd tomennydd ystyried deddfwriaeth amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, ond ni ddylai mân waith cynnal a chadw fod mor fiwrocraidd fel nad yw'r gwaith yn cael ei wneud, yn enwedig ar domennydd preifat. Roedd y gwaith hwn yn arbennig o bwysig i atal rhagor o waith mawr rhag dod yn angenrheidiol. Rhoddasant enghraifft o'u dull gweithredu arfaethedig:

- (1) Gwaith ar raddfa fach – (a nodir naill ai yn ôl cost neu gwmpas) – dim gofynion/mân ofynion
- (2) Mân waith cynnal a chadw – (a nodir naill ai yn ôl cost neu gwmpas) – dim gofynion / mân ofynion neu friff gwylio ecolegol
- (3) Gwaith cynnal a chadw mawr – (a nodir yn ôl cost neu gwmpas) – briff gwylio ecolegol neu ganiatáu.
- (4) Gwaith cynnal a chadw mawr / Adennill – (a nodir naill ai yn ôl cost neu gwmpas) – yr holl ganiatadau angenrheidiol

## Cynlluniau wrth gefn

11.64 Roedd Lee Jones o'r farn bod archwiliad tomen yn gyfle i gynllunio wrth gefn. Awgrymodd y dylai'r asesiad risg gynnwys cynllunio ar gyfer argyfyngau fel llithriadau tomennydd. Byddai'r asesiad hwn wedyn yn rhan o gynllun ymateb brys a byddai'n cynnwys derbynfeydd dynodedig ar gyfer gwastraff.

11.65 Credai hefyd fod archwilio tomennydd yn gyfle i ddadansoddi cyfansoddiad y gwastraff. Mewn rhai achosion, gallai'r gwastraff gael ei ystyried yn gemegol anadweithiol, a byddai hyn yn ei dro yn pennu pa mor addas yw'r gwastraff ar gyfer safle dal dros dro. Yn ei farn ef, gallai safleoedd dal mewn argyfwng fod yn safleoedd tir llwyd o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol neu safleoedd gwastraff presennol fel safleoedd tirlenwi a allai fod â'r caniatâd angenrheidiol yn barod neu nad oes angen ond mân newidiadau arnynt.

## Trafodaeth

11.66 Rydym yn croesawu'r cynigion buddiol yma i wella ymatebion i argyfyngau tomennydd yn ogystal ag atebion tymor hwy ar gyfer deunyddiau tomennydd sy'n cael eu dadleoli gan waith adfer. Mae'n amlwg bod angen mwy o waith yn y maes hwn. Mae y tu hwnt i gwmpas y prosiect i wneud argymhellion ehangach mewn perthynas, er enghraifft, ag atebion storio ac ailddiffinio deunyddiau tomennydd fel deunydd peiranyddol.<sup>332</sup> Ond rydyn ni'n credu y byddai'n fuddiol defnyddio themâu defnyddiol o'r ymatebion uchod.

---

<sup>332</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.130.

- 11.67 Ar gyfer camau llai brys y gwaith glanhau, rydyn ni'n credu mai eithriad wedi'i deilwra i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer deunyddiau tomennydd fyddai'r ateb. Ar hyn o bryd, bydd unrhyw adfer neu waredu gwastraff sy'n dod o dan y Rheoliadau, sy'n cynnwys deunyddiau tomennydd, yn waith gwastraff sy'n gofyn am drwydded amgylcheddol. Ond mae'r Rheoliadau wedi'u targedu at bobl sy'n creu gwastraff, yn unol â'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu". Mae'n ymddangos i ni nad ydynt yn gweddu'n dda i reoli gweithgareddau'r rheini sy'n stiwardiaid gwastraff a grëwyd gan genedlaethau'r gorffennol i bob pwrpas. Credwn fod hyn yn cyfiawnhau eithrio dros dro o weithgareddau sy'n ceisio delio â'r gwastraff hwn, pan fydd yn symud, am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod. Nid ydym yn rhagweld y byddai hyn yn gweithredu fel eithriad cyffredinol. Efallai mai'r ffordd orau o'i fynegi yw drwy ddarparu lefelau amrywiol o eithrio, yn dibynnu ar faint y gwaith sydd ei angen.
- 11.68 Efallai y bydd yn bosibl dyfeisio eithriad penodol ar gyfer storio gwastraff tomennydd glo yn ystod gwaith adfer, neu aiddosbarthu deunydd tomennydd, ar lefel canllawiau o bosibl, fel ei fod y tu allan i'r diffiniad o wastraff.<sup>333</sup> Ond rydym yn pryderu, oni bai fod hyn yn cael ei gyfyngu'n ofalus gan amser, ac o bosibl gan faint y gwaith, y gellid colli gwarchodaeth amgylcheddol pwysig yn ddiangen pe bai'r dulliau hyn yn cael eu llunio'n rhy eang. Byddai dal angen gwerthuso safleoedd storio parhaol o safbwynt amgylcheddol a chynllunio er mwyn sicrhau bod yr holl ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried.
- 11.69 Yn yr un modd, rydym wedi ystyried y syniad o "hawl datblygu a ganiateir" mewn perthynas ag argyfyngau yn gynharach yn y bennod hon.<sup>334</sup> Efallai y bydd cyfle i ymestyn hyn i ystod ehangach o weithgareddau sy'n cynnwys deunydd tomennydd er mwyn caniatáu i'r awdurdod gyflawni "datblygiad a ganiateir" heb yr angen am ganiatâd cynllunio, ond gyda sgrinio amgylcheddol. Roedd ein papur ymgynghori yn rhoi enghraifft o glirio gwaddodion cronedig o bwll dal dŵr ffo i ddangos yr anawsterau a all godi gyda mân symudiadau mewn deunyddiau tomennydd mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai brys.<sup>335</sup> Rydym yn credu y gallai'r cynnig i greu rheoliadau gyfer adfer tomennydd sy'n diffinio gweithgareddau penodol fel "datblygiad a ganiateir", yn debyg i'r rheoliadau draenio tir presennol, weithio'n dda.<sup>336</sup>
- 11.70 Gallai'r awgrym y gallai'r dull a ddefnyddir amrywio yn ôl p'un a oedd y gwaith yn waith cynnal a chadw mawr a phrosiectau adfer, neu'n fân dasgau cynnal a chadw, helpu i ddatrys y broblem o rwystrau sy'n cymryd amser, yn fiwrocraidd ac weithiau yn rhwystrau afresymegol i fân faterion cynnal a chadw. Fel yr eglurodd Rhondda Cynon Taf, mae'n bwysig dilyn deddfwriaeth amgylcheddol ar gyfer gwaith mawr, ond efallai na fydd angen cymhwyso gofynion trwyddedu ar gyfer mân dasgau cynnal a chadw. Y gwaith hwn sydd yn arbennig o bwysig i atal rhagor o waith mawr rhag dod yn angenrheidiol.

---

<sup>333</sup> Rhoddir enghraifft o ddull o'r fath yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.130, fn 660.

<sup>334</sup> Gweler paragraff 11.22 uchod.

<sup>335</sup> Gweler Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 7.32.

<sup>336</sup> Fel y trafodwyd uchod ym mharagraff 11.23 a 11.55.

- 11.71 Rydym hefyd wedi cael ein denu at yr awgrym o gael caniatâd “siop un stop” fel ffordd o symleiddio a chysoni'r caniatâd sydd ei angen ar gyfer gwaith adfer. Gallai hyn weithredu, fel yr awgrymwyd, mewn ffordd debyg i ganiatâd datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd.
- 11.72 Byddai cydweithio rhwng gwahanol awdurdodau a datblygu canllawiau i ganiatáu cynllunio ymlaen llaw gyda gwybodaeth am domen benodol a'i lleoliad yn werthfawr iawn. Mae'r enghraifft a roddir o'r model COMAH yn ddefnyddiol, gan ei fod yn dangos y potensial ar gyfer cydweithredu rhwng y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch tomennydd a'r rhai sy'n gweithio i atal difrod amgylcheddol. Gallai cynllunio wrth gefn hefyd wella cyflymder ac effeithiolrwydd ymateb i argyfwng tomen drwy baratoi gwybodaeth ymlaen llaw ar y tomennydd risg uwch hynny gyda nodweddion sy'n debygol o sbarduno deddfwriaeth amgylcheddol os oes angen gwaith ar y domen. Byddai priodoleddau o'r fath yn cynnwys afonydd, Safleoedd Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, safleoedd treftadaeth, neu warchodfeydd natur lleol neu genedlaethol.
- 11.73 Nid ydym yn gwneud argymhellion ynghylch y strategaethau ehangach hyn. Rydym yn cyfleu'r awgrymiadau a wnaed i Lywodraeth Cymru gyda'n sylwadau yn y gobaith y byddant yn helpu i ddatblygu polisïau.

## Pennod 12: Prosiectau adfer a thomennydd nad ydynt yn rhai glo

### PROSIECTAU ADFER

- 12.1 Roedd ein papur ymgynghori yn egluro bod y glaw cynyddol a achoswyd gan newid yn yr hinsawdd yn creu mwy o risg o ddiffyg draenio mewn rhai tomennydd, gan gyflymu diwedd eu hoes dylunio i bob pwrpas. Roedd rhanddeiliaid wedi awgrymu i ni bod angen rownd newydd o waith adfer tomennydd yn yr amgylchiadau hyn. Mae adfer yn wahanol i waith cyweirio gan mai amcan ychwanegol y gwaith yw dod â'r domen yn ôl i ddefnydd buddiol penodol.<sup>337</sup>
- 12.2 Fe wnaethom awgrymu y gallai fod yn bosibl cyfuno ein trefn arfaethedig ar gyfer tomen ddynodedig â dull datblygu strategol tymor hwy i ganfod awgrymiadau ar gyfer prosiectau adfer mwy. Gallai'r broses ddynodi gynnwys ystyried addasrwydd y domen ar gyfer prosiect o'r math hwn. Gallai hyn fod yn rhan o strategaeth adsefydlu ranbarthol ehangach, sy'n cael ei rhedeg, er enghraifft, gan gyd-bwyllgor corfforaethol. Gallai egwyddorion datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 arwain at ddewisiadau polisi. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys ystyried lles y cyhoedd. Maent hefyd yn caniatáu ystyried cysyniadau ehangach o werth economaidd sy'n ymgorffori potensial tomennydd glo i ddarparu manteision fel gwarchod bioamrywiaeth a dal carbon.<sup>338</sup>
- 12.3 Nodwyd gennym fod prosiectau adfer yn draddodiadol wedi dibynnu ar brynu safleoedd yn orfodol, a chyfeiriwyd at bwerau prynu gorfodol o dan Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 ar gyfer rheoli gollwng dŵr o gloddfeydd. Dull arall fyddai dull trwyddedu, a fyddai'n caniatáu trwyddedu tir i'r awdurdod goruchwyllo ar gyfer y cyfnod y mae'r gwaith yn cael ei wneud, tra bo perchnogaeth yn cael ei chadw gan y tîrfeddiannwr. Roeddem hefyd wedi nodi'r defnydd o gytundebau gwirfoddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn prosiect adfer mwynglawdd metel mawr a oedd yn golygu rhoi trwydded i'r awdurdod gyflawni'r gwaith yn ystod cyfnod penodol, ynghyd â Gweithred Grant a chyfnod Mynediad Cynnal a Chadw diweddarach. Roedd y cytundeb yn cynnwys hawliau a chyfamodau i atal difrod i'r nodweddion adeiledig am byth. Mae pwerau o dan adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn caniatáu gwneud cytundebau rheoli tir statudol.<sup>339</sup>
- 12.4 Aeth y drafodaeth hon y tu hwnt i'n cylch gorchwyl, ond roeddem yn teimlo ei bod yn briodol cynnig cyfle yn ein hymgynghoriad i glywed barn rhanddeiliaid am y ddarpariaeth ar gyfer adfer tomennydd yn y drefn reoleiddio newydd ar gyfer diogelwch tomennydd. Roeddem yn ymwybodol o ddiddordeb rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru yn y mater, ac roeddem yn credu y byddai ystyried amcanion

---

<sup>337</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.132 a 10.133.

<sup>338</sup> Uchod, paragraffau 10.134 i 10.136.

<sup>339</sup> Uchod, paragraffau 10.137 a 10.138.

adfer ehangach yn helpu i ddiogelu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y dyfodol ac y byddai'n cyd-fynd â'r normau ehangach sy'n llywodraethu penderfyniadau amgylcheddol yng Nghymru.<sup>340</sup> Yn unol â hynny, roeddem wedi gofyn cwestiwn wedi'i eirio'n fras yn gofyn am farn ar gyfuno deddfwriaeth diogelwch tomennydd gan ystyried adfer tomennydd.

- 12.5 Mae'r adran gyntaf hon o'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r ail adran yn edrych ar safbwyntiau ynghylch pa mor ymarferol a dymunol fyddai ymestyn y drefn reoleiddio newydd ar gyfer tomennydd glo anweithredol i domennydd nad ydynt yn rhai glo.

**Cwestiwn Ymgynghori 34: Ydych chi'n meddwl y dylid cyfuno deddfwriaeth newydd ar ddiogelwch tomennydd gyda darpariaeth ar gyfer ystyried adfer tomennydd? Os ydych, ydych chi'n ffafrio unrhyw fodel penodol?**

- 12.6 O'r 43 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 30 (70%) yn cytuno y dylid cyfuno'r drefn newydd ag ystyriaeth i adfer tomennydd. Pedwar (9%) oedd yn anghytuno, a naw a ddewisodd ateb "arall".

### Rhesymau dros gytuno

- 12.7 Rhoddodd ymatebwyr amrywiaeth o resymau dros gefnogi ystyriaeth i adfer tomennydd. Roedd yr Athro Bob Lee yn cefnogi "atebion dychmygus" mewn cytgord â deddfwriaeth Cymru ar gynaliadwyedd yn hytrach na derbyn bod tomennydd glo yn berygl i'w reoli. Yn y pen draw, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn diffinio'r nod o ail-bwrpasu'r tir fel y gellid ei ddefnyddio er budd pobl Cymru. Yn eu barn nhw, dylid cael "rhagdybiaeth y dylid rheoli tomen anweithredol er mwyn lleihau'r risg y mae'n ei hachosi'n barhaus ac, yn y pen draw, i adennill y tir at ddiben cynaliadwy". Roedd CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn cytuno), Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot wedi cymeradwyo camau radical y tu hwnt i adfer er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

### Darpariaeth ddeddfwriaethol

- 12.8 Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cyfuno adfer tomennydd gyda gwaith diogelwch tomennydd ond yn dadlau a oedd angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd i wneud hynny. Credai Huw Williams fod y pwerau a ddarparwyd yn Rhan VI Deddf Cynllunio 1990 yn ddigonol. Cyfeiriodd Keith Bush CF at bwerau helaeth presennol gan awdurdodau lleol a gweinidogion i ariannu prosiectau ar gyfer adfer tomennydd. Credai ei bod yn bwysig i bwerau'r awdurdod goruchwyllo fod yn ddigon eang i'w alluogi i argymhell adfer yn hytrach na pharhau i gynnal tomen benodol, ond credai nad oedd angen deddfwriaeth newydd:

Does dim rheswm amlwg dros greu swyddogaethau cyfreithiol newydd er mwyn cario allan gwaith felly. Mater o flaenoriaethu adnoddau ariannol, gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am reoli'r adnoddau hynny, yn hytrach nag un cyfreithiol yw sefydlu a gweithredu prosiectau adfer.<sup>341</sup>

---

<sup>340</sup> Paragraff 10.139 uchod.

<sup>341</sup> Tystiolaeth Gymraeg a gyflwynwyd.

## Modelau adfer

12.9 Roedd ymatebwyr eraill yn canolbwyntio mwy ar fodelau adfer priodol, ni waeth a gyflwynwyd y rhain gan ddeddfwriaeth newydd. Eglurodd Stephen Smith fod y Rhaglen Adfer Tir wedi bod yn rhan annatod o welliannau mewn diogelwch tomennydd dros adeg o hanner can mlynedd.<sup>342</sup> Roedd y rhaglen yn cynnwys sefydlogrwydd a diogelwch y cyhoedd fel amcanion allweddol, a dyrannwyd cyllid i fynd i'r afael â nifer o faterion diogelwch, naill ai'n uniongyrchol neu fel sgil-gynnyrch o ganlyniad i sicrhau defnydd newydd buddiol. Roedd "rhaglen dreigl" o waith, gyda phum mlynedd o waith a nodwyd, yn caniatáu i brosiectau gael eu blaenoriaethu a'u gohirio pe bai problemau cyflawni, fel problemau gyda pherchnogaeth tir neu gaffael, yn codi. Roedd y gwaith o reoli'r rhaglen gan Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnig model ar gyfer adfer, boed y pwerau presennol yn cael eu defnyddio neu o dan ddeddfwriaeth newydd:

Roedd Awdurdod Datblygu Cymru wastad wedi rheoli'r rhaglen gyda nifer o staff technegol yn darparu cyngor i awdurdodau lleol ac yn cynnal adolygiadau manwl o'r gwaith arfaethedig. Yn fy marn i, mae model o'r fath yn dal yn hanfodol ar gyfer unrhyw fecanwaith yn y dyfodol ar gyfer diogelwch tomennydd naill ai drwy gorff goruchwylio gyda deddfwriaeth well neu drwy fabwysiadu dull adfer.

Yn ei farn ef, dylid ystyried yr opsiynau hyn cyn rhoi unrhyw ymrwymiad i ddeddfwriaeth newydd. Credai y gallai'r model weithio ochr yn ochr â chanllawiau gwell a phwerau cryfach o bosibl o dan Ddeddf 1969.

12.10 Awgrymodd ICE Cymru y byddai asesiadau risg sy'n cael eu cynnal o dan y ddeddfwriaeth diogelwch tomennydd newydd, gan roi sylw i faterion fel risgiau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol, yn cyfrannu at yr angen am gynllun adfer.<sup>343</sup> Gellid ystyried y ffactorau hyn ochr yn ochr â deddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a thargedu canlyniadau cymdeithasol er budd pobl Cymru. Roedd Jacobs UK Ltd (Halcrow gynt) o'r farn mai dim ond pan fydd angen am waith peirianyddol a nodir yn y broses asesu seiliedig ar risg y dylid gwneud gwaith adfer.

12.11 Tynnodd Caerffili sylw at bwysigrwydd hyblygrwydd, gan fod pob safle adfer posibl yn amrywio. Roeddent yn nodi mai'r ffactorau pwysig mewn unrhyw asesiad yw lleoliad, ecoleg, ymgynghori i fesur barn y cyhoedd, effaith amgylcheddol a chyllid. Yn eu barn nhw, roedd gwella technegau adfer dros y blynyddoedd diwethaf yn rhoi opsiynau gwell ar gyfer ôl-ddefnyddio nag yn y gorffennol. Tynnodd Rhondda Cynon Taf sylw at y problemau a allai gael eu creu drwy amharu ar wyneb y domen, gan gynnwys cynhyrchu silt a'r angen i reoli llygredd, a materion y tu hwnt i'r domen ei hun megis adnabod safleoedd i adleoli gwastraff. Cytunodd Graham Hathaway nad oedd yna fodel adfer "addas i bawb".

12.12 Credai Rhondda Cynon Taf fod y rhestr o ffactorau i'w hystyried wrth asesu'r opsiynau adfer gorau mor hir a chymhleth fel y byddai angen proses gytunedig ar gyfer unrhyw

---

<sup>342</sup> Trafodir y Rhaglen Adfer Tir yn Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraffau 3.25 i 3.28 yng nghyd-destun ei rôl o ran trosglwyddo nifer o domennydd i berchnogaeth awdurdodau lleol.

<sup>343</sup> Ystyrir asesiadau risg uchod ym mhennod 4.



ddeddfwriaeth neu ganllawiau ar adfer. Roedden nhw'n meddwl mai dyma fyddai'r peth gorau gyda chorff goruchwyllo a phanel o arbenigwyr.

- 12.13 Gwelodd Cyfoeth Naturiol Cymru rôl i'r awdurdod goruchwyllo o ran ymchwil, datblygu ac arloesi yn y tymor hwy ochr yn ochr â chyflawni. Byddai hyn yn caniatáu symud ymlaen o fusnes tymor byr i rôl o ran datblygu defnyddiau cynaliadwy ar gyfer tomennydd er budd cymunedau neu fel cynefinoedd.
- 12.14 Ategodd Cymdeithas y Gyfraith ein hawgrym y byddai cydbwyllgor corfforaethol yn fodel priodol.

#### Gwerth treftadaeth y safleoedd

- 12.15 Rhoddodd Cadw ac ALGAO nodyn i atgoffa bod gan rai tomennydd werth treftadaeth ac y byddai angen i waith adfer ystyried hyn. Mae'r tomennydd glo yn Thirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, er enghraifft, wedi cael eu dynodi gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO fel Safle Treftadaeth y Byd.<sup>344</sup> Mae nifer o domennydd glo hanesyddol yn cael eu cofnodi fel nodweddion amgylchedd hanesyddol ar y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a gynhelir gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, lle mae eu presenoldeb yn cael ei drin fel ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. Yng ngeiriau ALGAO:

Mae hanes diwydiannol Cymru yn enwog yn rhyngwladol ac yn hollbwysig yn natblygiad y wlad. Dylanwadodd y diwydiant glo trawsnewidiol o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif ar amgylchedd a diwylliant de Cymru, ei strwythurau, ei aneddiadau, ei seilwaith a'i dirweddau, sy'n brawf parhaol o ecsbloetio dynol ar adnoddau naturiol a'r Chwyldro Diwydiannol. Mae'r tomennydd trawiadol yn rhan annatod bron o'r dreftadaeth hon, gan gadw presenoldeb sy'n diffinio, er gwaethaf plannu coedwigoedd yn hanesyddol ac yn diweddar. Hefyd, mae'r diwydiant wedi gadael etifeddiaeth anniriaethol o gymunedau byw, cof cymunedol ac mae bellach yn cael ei werthfawrogi fel adnodd twristiaeth ...

Er nad oes unrhyw domennydd glo yn cael gwarchodaeth statudol unigol ar hyn o bryd, maent yn rhan o safleoedd sydd wedi'u dynodi'n statudol ... Cofnodir cannoedd o domennydd ar Gofnod Rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol a Henebion Cenedlaethol Cymru, yn unigol ac fel rhan o gymhlygion mwyngloddiau, ac fe'u gwarchodir yn bennaf drwy'r broses gynllunio.

- 12.16 Eglurodd Cadw fod adeiladau arwyneb pyllau glo wedi diflannu mewn sawl achos, a'r tomennydd yn aml yw'r unig beth sy'n weddill o'r gorffennol mwyngloddio hwn. Roedden nhw'n credu ei bod hi'n bwysig cadw'r etifeddiaeth a'r hanes yma, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd gwaith adfer yn newid ymddangosiad a chymeriad ffisegol y domen lo, a byddai'n effeithio ar ei gwerth treftadaeth. Yn eu barn nhw, dylai'r broses asesu gynnwys ystyriaeth o'r gwerth treftadaeth hwn. Gofynasant am i Cadw gael ei wneud yn ymgynghorai statudol yn y

---

<sup>344</sup> Mae safleoedd treftadaeth y byd yn cael eu henwebu gan lywodraeth y wlad lle maent wedi'u lleoli. Rhaid iddynt fodloni un neu fwy o'r deg maen prawf a bennwyd gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO. Defnyddir y meini prawf i asesu Gwerth Cyffredinol Eithriadol safle a nodi a ellid ystyried ei fod wedi gwneud cyfraniad unigryw at dreftadaeth fyd-eang a rennir. Gweler <https://www.peoplescollection.wales/content/world-heritage-sites-wales> and <https://whc.unesco.org/en/list/984/>.

broses asesu, ac y dylid ymgynghori ag Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru hefyd ar gynigion ynghylch tomennydd unigol, er mwyn iddynt gael cyfle i gynig cyngor ar reoli'r amgylchedd hanesyddol, yn enwedig o ran ymyriadau peirianeg sifil ffisegol a chynigion datblygu cynefinoedd.

- 12.17 Ychwanegodd Torfaen fod y tomennydd glo ar safle Blaenafon yn cyfrannu at ei “werth cyffredinol eithriadol”, ac roeddent o’r farn y dylid ystyried cadw tomennydd mewn amgylchiadau o’r fath wrth lunio unrhyw reoliadau newydd.

### Gwarchod bioamrywiaeth tomennydd

- 12.18 Yn yr un modd, pwysleisiodd Buglife yr angen i ystyried gwarchod bioamrywiaeth bresennol y domen wrth ystyried cynlluniau adfer ar gyfer unrhyw domen unigol.<sup>345</sup> Eglurodd fod o leiaf 1,000 o rywogaethau di-asgwrn-cefn wedi’u canfod ar domennydd glo anweithredol yn Ne Cymru, gan gynnwys rhai o’r creaduriaid di-asgwrn-cefn mwyaf prin a dan fygythiad yn y DU. Mae ugain y cant o’r rhywogaethau a ganfuwyd yn rhai o “bwysigrwydd cadwraeth”. Daethpwyd o hyd i ddwy rywogaeth ar domennydd nad ydynt yn hysbys yn unman arall yn y byd.<sup>346</sup> Mae cynefinoedd y domen hefyd yn cynnal amffibiaid, ymlusgiaid, adar, ac amrywiaeth o flodau. Yn eu barn nhw, dylai gwaith adfer, os oes angen hynny o gwbl, fabwysiadu technegau sy’n gwarchod bioamrywiaeth ar y domen:

Argymhellir y dylid osgoi adfer hen domennydd glo lle bynnag y bo modd oherwydd yr effeithiau negyddol y bydd hyn yn eu cael ar gynefinoedd a rhywogaethau sy’n cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer cadwraeth yng Nghymru o dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylid ystyried adfer fel ‘dewis olaf’ ac os tybir bod adfer yn hanfodol, dylid ystyried anghenion ecolegol y rhywogaethau sy’n bresennol ar y safle ar hyn o bryd er mwyn cynyddu allbwn bioamrywiaeth yr adferiad hwn. Mae’n bwysig bod cynlluniau adfer ac adennill yn osgoi defnyddio uwchbridd ffrwythlon (gan nad yw hyn yn addas ar gyfer adferiad bioamrywiaeth llwyddiannus), yn hyrwyddo olyniaeth naturiol cymaint ag y bo modd, ac yn ceisio atgynhyrchu cymhlethdod amrywiol yr hen domennydd glo sy’n gyfrifol am eu gwerth bioamrywiaeth uchel.

### Golchi glo a gwaredu tomennydd glo

- 12.19 Nododd nifer o’r ymatebwyr na ddylai’r broses o olchi glo (echdynnu glo y gellir ei werthu o ddeunydd tomennydd) fod ar gael fel ffordd o ariannu gwaith adfer. Nododd CLA Cymru fod golchi glo wedi cael ei ddefnyddio mewn cynlluniau adfer yn y gorffennol:

Fodd bynnag ... yn fwy diweddar mae glo’n cael ei ystyried yn danwydd carbon uchel budr sy’n niweidiol i’r agenda bresennol ar newid yn yr hinsawdd, ac mae’n

---

<sup>345</sup> I weld trafodaeth ar yr angen i ymgorffori bioamrywiaeth y domen, a bioamrywiaeth unrhyw ardaloedd y gallai llithriad tomen effeithio arnynt, yn cynlluniau rheoli tomen, gweler paragraffau 4.46, 4.47 a 4.59 uchod.

<sup>346</sup> I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar yr ymateb llawn i’r ymgynghoriad gan Buglife, sydd ar gael ar dudalen prosiect Comisiwn y Gyfraith: <https://www.lawcom.gov.uk/project/regulating-coal-tip-safety-in-wales/>, and L Olds, *Invertebrate conservation value of colliery spoil habitats in South Wales*, April 2019, [https://8372dda3-3bb8-46f5-bf93-fc46ad68ff06.filesusr.com/ugd/dccabd\\_bb278c9d887f433fb0af9e6dd285df8e.pdf](https://8372dda3-3bb8-46f5-bf93-fc46ad68ff06.filesusr.com/ugd/dccabd_bb278c9d887f433fb0af9e6dd285df8e.pdf)

amheus iawn a fyddai ystyried defnyddio'r glo yn cael ei ystyried yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Holasant hefyd a fyddai marchnad bellach i'r glo, fyddai'n golygu y byddai ei echdynnu'n hyfyw yn economaidd.

- 12.20 Dywedodd Trafnidiaeth Cymru fod angen i waith adfer fod yn "fuddiol ac nid er budd echdynnu er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol".
- 12.21 Roedd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys Bob Leeming, o'r farn mai tynnu'r domen ddylai fod yr amcan yn y pen draw o ran adennill. Roedd Sue Jordan eisiau "adferiad llwyr" ac i dir gael ei ddychwelyd i "dir cyffredin ac yn agored i gyfleusterau hamdden".
- 12.22 Yn groes i hynny, cytunodd Cadw â barn yr Awdurdod Glo nad yw cael gwared ar domen yn opsiwn yn y rhan fwyaf o achosion.<sup>347</sup> Roeddent yn tynnu sylw at effaith niweidiol bosibl ymyriadau mwy fyth fel cynlluniau peirianeg sifil mawr a bach ar werth treftadaeth tomennydd glo hanesyddol. Roedden nhw hefyd yn gofyn i Cadw gael chwarae rhan yn y broses asesu ac i ymgynghori â nhw ar gynigion ar gyfer tomennydd glo arbennig o arwyddocaol neu sydd wedi'u cadw'n dda.
- 12.23 Rhybuddiodd Rhondda Cynon Taf hefyd yn erbyn gwaith symud neu adfer oni bai ei fod yn cael ei yrru gan risg i bobl, eiddo neu'r amgylchedd, a phwysleisiodd y gydnabyddiaeth gynyddol bod rhai tomennydd yn gynefinoedd ecolegol unigryw a phwysig ynddynt eu hunain.
- 12.24 Roedd Jacobs hefyd yn poeni y dylai ystyriaethau amgylcheddol a threftadaeth ddiwydiannol fod yn rhan o'r broses o ddod o hyd i safleoedd addas i'w hadfer.

### **Caffael safleoedd yn orfodol a dulliau digolledu**

- 12.25 Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod cynllun adfer yn effeithio ar sefyllfa'r tîrfeddianwyr. Nododd Huw Williams fod angen pŵer penodol i gaffael tomen drwy orfodaeth ac unrhyw hawliau cysylltiedig, er enghraifft ar gyfer taenu a storio deunydd, os oedd hynny'n angenrheidiol i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cael ei reoli. Awgrymodd hefyd dull o brisio:

Er ei bod yn annhebygol y bydd gan domen beryglus werth cadarnhaol o ystyried diflaniad y farchnad ar gyfer glo wedi'i adennill, yn ddelfrydol dylid ystyried gweithdrefn sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth dim gwerth mewn deddfwriaeth adeiladau rhestredig os yw esgeulustod tîrfeddiannwr wedi arwain at sefyllfa anniogel. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod iawndal tir yn fater a gedwir ar hyn o bryd.

- 12.26 Edrychodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater o safbwynt iawndal i dirfeddianwyr. Roeddent yn awgrymu y gellid defnyddio pwerau o dan adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i lunio cytundebau tir i gefnogi perchnogion o ran ail-bwrpasu safleoedd er mwyn creu manteision amgylcheddol.
- 12.27 Yn absenoldeb trefn iawndal, credai Jane Iwanicki y byddai'n rhaid i'r tîrfeddiannwr sy'n cymryd rhan mewn gwaith adfer tir wneud hynny ar sail wirfoddol neu wedi'i yrru

---

<sup>347</sup> Gweler paragraff 2.24 uchod a Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 8.25.

gan y rheoleiddiwr neu Lywodraeth Cymru gyda chymorth ariannol. Nododd, yn dibynnu ar y cynllun adfer, y gallai perchnogion a chymunedau gael eu gadael gyda rhwymedigaethau rheoli tir tymor hir neu gyfyngiadau ar ddefnydd tir.

- 12.28 Edrychodd Lee Jones ar fater rheoli tomennydd yn dilyn gwaith adfer. Awgrymodd y gallai mentrau rheoli ar y cyd rhwng y rheoleiddiwr a grwpiau cymunedol fod yn llwybr cynaliadwy i'w ddefnyddio yn y dyfodol er budd yr amgylchedd a'r gymuned leol.

### Rhesymau dros anghytuno

- 12.29 Ym marn Wrecsam, dylai'r ddeddfwriaeth reoleiddio ganolbwyntio ar "ddiogelu yn gyntaf ac yn bennaf" a hefyd lliniaru risgiau llygredd, llifogydd a llosgi. Roedd Huw Williams a Keith Bush CF yn anghytuno â'n hawgrym y dylid cyfuno deddfwriaeth diogelwch tomennydd gyda darpariaeth ar gyfer adfer, ond, fel y disgrifir uchod (ym mharagraff 12.8), credai fod pwerau amgen ar gael i alluogi prosiectau adfer.

### Syniadau ar gyfer defnyddio tomennydd

- 12.30 Roedd gan rai ymatebwyr a oedd yn gwneud sylwadau ar y posibilrwydd o gyfuno gwaith diogelwch ar domennydd gydag adfer syniadau hefyd am ddefnyddiau buddiol ar gyfer tomennydd. Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru yr angen i ddefnyddio tir wedi'i adennill mewn ffordd gynaliadwy ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd:

Ar hyn o bryd rydym yn delio ag argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth a dylem fod yn edrych ar ffyrdd y gallwn ddefnyddio ein tir i fynd i'r afael â'r rhain. Gallai plannu coetir neu ddefnyddio'r tir ar gyfer ynni adnewyddadwy fod yn nod yn y pen draw. Nid yw hyn yn ymwneud yn unig â sut i wneud tomen wastraff yn ddiogel; dylem fod yn ymdrechu i aildefnyddio'r tir er budd pobl Cymru.

- 12.31 Gwelodd Lee Jones hefyd bwysigrwydd manteision amgylcheddol wrth asesu budd:

Dylai modelau adfer yn y dyfodol gynnwys hyfywedd economaidd yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar ddal carbon ac nid yn unig ar ddiogelu bioamrywiaeth ond ei hyrwyddo. Dylid rhoi mwy o bwyslais hefyd ar ynni adnewyddadwy fel rhan o waith adfer yn y dyfodol.

- 12.32 Gwelodd Jane Iwanicki botensial i ystyried enillion bioamrywiaeth net neu wrthbwysu carbon fel ffordd o helpu i ariannu prosiectau adfer.

- 12.33 Meddyliodd yr Athro Bob Lee tybed a allai nweiddio gwastraff glo gyda dal carbon fod yn sail ar gyfer cynhyrchu hydrogen glas.<sup>348</sup> Nid oedd yn gallu darparu

---


<sup>348</sup> Mae hydrogen "gwyrd" yn cael ei gynhyrchu gan electrolysis dŵr (drwy ddadelfennu moleciwlau dŵr i elfennau unigol hydrogen ac ocsigen). Mae'r broses hon yn ddi-garbon. Mae hydrogen brown neu llwyd yn cael ei gynhyrchu pan fydd glo ("brown") neu nwy naturiol ("llwyd") yn adweithio gyda stêm o dan bwysau a, gyda chymorth catalydd, yn cynhyrchu hydrogen. Mae'r broses hon yn rhyddhau carbon deuocsid i'r atmosffer. Mae hydrogen glas yn cael ei gynhyrchu drwy ddal a storio'r carbon sy'n cael ei ryddhau yn y broses gynhyrchu ar gyfer hydrogen llwyd. Mae hefyd yn bosibl y gellid defnyddio nweiddio gwastraff glo gyda dal carbon yn uniongyrchol ar gyfer cynhyrchu ynni. Yn ddiweddar, mae BEIS wedi lansio cynllun Bioenergy with Carbon Capture (BECCS) yn seiliedig ar adroddiad gan Ricardo Energy and Environment, *Analysing the potential of bioenergy with carbon capture in the UK to 2050, 2020*: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/911268/potential-of-bioenergy-with-carbon-capture.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/911268/potential-of-bioenergy-with-carbon-capture.pdf)

gwybodaeth ynghylch a fyddai gwastraff glo yn dechnegol yn borthiant addas, ond nododd yr awgrym fel ffordd bosibl “i droi atebolrwydd yn ased”.

12.34 Mae Richards, Moorehead a Laing Ltd, cwmni sy'n ymwneud â chydlynu a goruchwyllo agweddau amgylcheddol ystod eang o brosiectau adeiladu, gan gynnwys, yn y gorffennol, adfer gwastraff mwynau, wedi arbenigo mewn defnyddio llystyfiant mewn gwaith adfer tir:<sup>349</sup>

Llystyfiant yw'r elfen allweddol o ran gwella bioamrywiaeth yn dilyn gwaith adeiladu. Mae mynediad cyhoeddus yn bwysig hefyd er mwyn i gymunedau allu manteisio ar yr amrywiaeth hwn a manau gwyrdd newydd yn gyffredinol... Mae rheoli llystyfiant a mynediad y cyhoedd yn agweddau pwysig ar unrhyw gynlluniau tymor hir. Mae cynllunio a gweithredu ar sail tymor hir yn hanfodol os yw bwriad ac amcanion dylunio i gael eu cyflawni.

Mae eu dull gweithredu, sy'n dangos y berthynas rhwng bioamrywiaeth a chostau rheoli tir, yn cael ei ddangos yn y diagram canlynol:



Principles of Landscape Management

## Trafodaeth

12.35 Nid ydym yn credu ei bod yn briodol gwneud unrhyw argymhellion ynghylch a ddylid cyfuno deddfwriaeth newydd ar ddiogelwch tomennydd gyda darpariaeth ar gyfer

<sup>349</sup> Mynegwyd y syniadau hyn mewn adroddiad gan Awdurdod Datblygu Cymru, *Working with Nature – a low-cost approach to land procurement*, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1982 ar ffurf gwaith a gomisiynwyd gan Robinson, Jones Partnership Ltd ac a ddiwygiwyd ac a ddiweddarwyd yn 1993 gan Richards, Moorehead a Laing Ltd.

adfer tomennydd gan fod hyn y tu allan i'n cylch gorchwyl. Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i ystyried y safbwyntiau a nodir uchod ynghylch a oes angen unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol i gefnogi rhaglen adfer tomennydd. Rydym hefyd yn tynnu eu sylw at safbwyntiau ar y modelau adfer mwyaf priodol, gwerth tomennydd o ran treftadaeth a bioamrywiaeth, a syniadau ar gyfer defnydd buddiol o domennydd wedi'u hadfer.

12.36 Un ffactor y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddylunio strategaeth adfer tomennydd yw'r posibilrwydd y gallai prosiect adfer ddod â thomen o fewn y diffiniad o chwarel weithredol at ddibenion Rheoliadau Chwareli 1999. O dan reoliad 3(1)(b), mae'r diffiniad o chwarel yn cynnwys "unrhyw safle adfer (ac at y diben hwn ystyr "safle adfer" yw safle lle mae echdynnu mwynau yn rhan o'r broses lle mae'r safle hwnnw'n cael ei adfer at ddefnydd amaethyddol, diwydiannol neu ddomestig) y mae mwynau'n cael eu hechdynnu ohono i'w gwerthu neu eu defnyddio ymhellach". Pe bai safle adfer tomen yn dod o fewn y diffiniad hwn, byddai cymhwyso Rheoliadau 1999 yn newid deiliad y ddyletswydd a'r awdurdod gorfodi. Fel yr eglurwyd yn ein papur ymgynghori, dan Reoliadau 1999, mae'r ddyletswydd i sicrhau diogelwch yn cael ei ysgwyddo gan weithredwr y chwarel, a'r awdurdod gorfodi yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## CYNIGION AR GYFER TOMENNYDD NAD YDYNT YN RHAI GLO

12.37 Roedd ein papur ymgynghori yn edrych yn fyr ar y cwestiwn a ddylid ehangu'r fframwaith rheoleiddio sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer tomennydd glo anweithredol i gynnwys gwastraff o fathau eraill o weithfeydd mwyngloddio yng Nghymru. Er bod ein cylch gorchwyl wedi'i gyfyngu i ganfod fframwaith cyfreithiol a oedd yn mynd i'r afael â materion diogelwch mewn tomennydd glo yn unig, roeddem yn ymwybodol y gellid ymestyn ein hargymhellion i fathau eraill o wastraff mwyngloddio. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym y byddai'n croesawu barn ar ba mor ymarferol a dymunol y gallai hyn fod.<sup>350</sup>

## Cefnogaeth i gynnwys tomennydd nad ydynt yn rhai glo

12.38 Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi derbyn y gwahoddiad i gynnig barn. Roedd yr holl ymatebwyr hynny a wnaeth sylwadau ar y mater o blaid ymestyn y fframwaith i gynnwys tomennydd nad ydynt yn rhai glo. Dywedodd Huw Williams yn syml "y dylai'r ddeddfwriaeth gael ei dylunio i gael ei hystemyn i bob achos o dipio deunydd wedi'i gloddio a'i chwarela uwchlaw y ddaear ac nid dim ond glo". Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn credu y dylai'r ddeddfwriaeth newydd gynnwys "yr holl domennydd gwastraff o byllau glo, chwareli a/neu weithgareddau eraill". Credai Jacobs y dylid diffinio "tomen" er mwyn cynnwys gwastraff o bob math o fwyngloddio, nid dim ond cloddio am lo. Galwodd Steve Harford am i'r corff annibynnol newydd ymdrin â'r holl domennydd, oherwydd gall "tomen, ni waeth sut neu pryd y mae wedi ei ffurfio, fod yn beryglus o hyd". Roedd yr Athro Thomas Watkin yn credu y dylid annog Llywodraeth Cymru "i ystyried yr angen am ddull mwy cyfannol o liniaru risgiau o beryglon sefydlogrwydd tir". Dywedodd Cadw:

---

<sup>350</sup> Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (2021) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 255, paragraff 10.2.

Rydym yn ymwybodol bod mathau eraill o gloddio metel hanesyddol a chwarela mwynau wedi cynhyrchu olion sylweddol, gan gynnwys tomennydd gwastraff a allai bellach gael eu hystyried yn beryglus gan gymunedau lleol. Rydym o blaid ymestyn eich dull arfaethedig i fod yn berthnasol i'r mathau eraill hyn o wastraff o fathau eraill o fwyngloddiau hanesyddol.

- 12.39 Edrychodd Keith Bush CF yn fwy manwl ar oblygiadau diwygio Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 mewn perthynas â hen domennydd glo yn unig, a rhagwelodd broblemau o ran egwyddor ac ymarferoldeb pe bai dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer hen domennydd yn cael eu gweithredu:

Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth berthnasol - Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 yn gymwys nid yn unig i domennydd glo a grewyd wrth weithio pyllau dwfn sydd bellach yn segur ond i'r holl domennydd a grewyd wrth weithio unrhyw fwynglawdd neu chwarel. Mae maes llafur y prosiect presennol yn gyfyngedig i domennydd glo. Nid yw'n cyffwrdd, felly, a thomennydd a grewyd gan fwyngloddiau eraill, gan gynnwys y rhai plwm a chopor sy'n eithaf cyffredin yng Nghymru, na'r tomennydd lluosog a grewyd gan chwareli llechi a charreg. Mae'n bosibl nad yw'r tomennydd hyn yn gyfrifol am yr un peryglon a rhai glo. Ond ni ddylid cymryd hynny'n ganiataol. Dim ond trwy eu cynnwys yn rhychwant y ddeddfwriaeth newydd y gallai'r cyhoedd fod yn hyderus bod eu diogelwch wedi'i warchod.

... Fe fyddai diwygio Deddf 1969 mewn ffordd oedd yn gwneud darpariaeth ar wahan ar gyfer tomennydd glo yn golygu y byddai Deddf 1969 yn parhau yn gymwys ond yn unig mewn perthynas a thomennydd heblaw rhai glo ac a thomennydd chwarel. Byddai creu dwy drefn ar wahan ar sail natur y mwyn a weithiwyd yn wreiddiol yn groes i egwyddor, yn afresymegol ac yn debyg o amddifadu cynghorau lleol o'r ychydig arbenigedd ynglyn a thomennydd sydd ar ol ganddynt, gan wneud y dasg o gymhwyso Deddf 1969 i'r tomennydd a eithriwyd o'r Ddeddf newydd yn llawer iawn mwy anodd. Dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd, felly, cynnwys darpariaeth sy'n gymwys i'r un ystod o domennydd a'r ddeddfwriaeth bresennol.<sup>351</sup>

- 12.40 Roedd cefnogaeth hefyd i gylch gwaith ehangach ar gyfer y ddeddfwriaeth o safbwynt rhanbarthol. Credai Steve Jones o Adran Cynllunio Argyfwng Cyngor Sir Penfro fod y ffocws ar domennydd glo gan eithrio mathau eraill o domennydd wedi arwain at orbwysleisio anghenion cymoedd glo De Cymru:

Ni all rwbwl ansefydlog o unrhyw fath o chwarela neu gloddio, gan gynnwys cloddfeydd metel, fod yn llai peryglus. Er bod mwyngloddiau metel yn y canolbarth wedi bod yn destun triniaeth helaeth dros y blynyddoedd diwethaf, dylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig fod yn gyson ... . Ceir hefyd rai tomennydd gwastraff serth anferth o amgylch rhai o'r hen chwareli llechi yng nghanolbarth a gogledd Cymru, rhai o'r ardaloedd uchod ble mae pobl yn byw ynddynt.

Byddai gweinidog yn y Llywodraeth yn cael ei feirniadu'n hallt pe bai digwyddiad yn digwydd y tu allan i'r maes glo, ac y dywedwyd wrth yr ymchwiliad dilynol mai dim ond ar lo y byddai'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio.

---

<sup>351</sup> Roedd ymateb Keith Bush CF yn wreiddiol yn Gymraeg.

12.41 Soniodd CLILC a Chastell-nedd Port Talbot yn benodol am yr angen i gynnwys chwareli a mwyngloddiau llechi. Eglurodd CLILC fod y mater hwn wedi'i godi gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Credai Dr John Perry fod achos dros gynnwys chwareli yn y drefn newydd fel "ail gam" ar yr amod nad oedd yn peri oedi o ran deddfwriaeth tomennydd glo. Nododd:

er bod tomennydd glo yn ganran fechan, yn ôl nifer, o'r holl domennydd yng Nghymru, dyma'r rhai sydd agosaf at gymunedau. Mae tomennydd chwareli (y rhan fwyaf o domennydd) yn tueddu i fod i ffwrdd o ardaloedd poblog ond nid ym mhob achos. Felly tomennydd glo yw'r rhai mwyaf critigol ar hyn o bryd.

12.42 Defnyddiodd rhai ymatebwyr y ddadl ynghylch y diffiniad o domen a nodir ym mhennod 7 uchod i gynnwys dadl y dylid diffinio tomennydd glo yn ehangach i gynnwys mwynau cysylltiedig fel haearn a chraigbridd.<sup>352</sup>

### Ystyriaethau ychwanegol

12.43 Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai perchnogaeth ar unrhyw asedau mwynau yn y domen fod yn fwy o broblem ar gyfer tomennydd nad ydynt yn rhai glo Efallai nad perchennog yr hawliau mwynau yn y domen yw perchennog y tir y cafodd y domen ei lleoli arno.<sup>353</sup> Un o oblygiadau hyn oedd y gallai fod yn annheg rhoi'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch tomennydd ar ysgwyddau'r tiffeddiannwr. Un arall oedd y posibilrwydd o werth economaidd uwch yn y domen, yn enwedig os oedd y rwbel yn cynnwys "metel ar ffurf gronynnau nano" neu rai elfennau pridd prin.<sup>354</sup>

12.44 Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y gallai ymestyn y fframwaith i fathau eraill o domennydd olygu bod angen cydbwysu dyletswyddau newydd â dyletswyddau sy'n codi o dan gyfundrefnau rheoleiddio eraill fel y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a deddfwriaeth tir halogedig. Mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer ardaloedd trefol datblygedig, gallai'r materion hyn fod yn fwy addas i gael eu hasesu dan y Rheoliadau Tir Halogedig. Byddai angen gofal wrth ddatblygu diffiniad, ond byddent yn croesawu'r hyblygrwydd mwy a gynigir gan ddiffiniad estynedig o "domen" o dan y fframwaith newydd arfaethedig.

12.45 Roedd ystyried ymestyn y drefn i domennydd nad ydynt yn rhai glo hefyd yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud sylwadau ar y bylchau maen nhw'n dod ar eu traws yn y ddeddfwriaeth bresennol. Rhoesant yr enghreifftiau canlynol:

---

<sup>352</sup> Gweler paragraffau 7.14, 7.15 a 7.33 uchod.

<sup>353</sup> Mae hawliau mwynau ym Mhrydain Fawr yn eiddo i dirfeddianwyr, ac eithrio hawliau olew, nwy, glo, aur ac arian. Mae olew, nwy, aur ac arian yn eiddo i'r Goron. Yr Awdurdod Glo sy'n berchen ar gronfeydd glo. Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/extractive-industries-transparency-initiative-payments-report-2018/mining-and-quarrying-in-the-uk#fn:7> and <https://www2.bgs.ac.uk/mineralsuk/planning/legislation/mineralOwnership.html>

<sup>354</sup> Mae elfennau pridd prin yn grŵp o 17 o elfennau metelaidd cemegol tebyg, gan gynnwys y 15 lanthanid, scandiwm ac ytriwm. Maen nhw'n cael eu defnyddio yn yr ystod ehangaf o gynnyrch defnyddwyr o unrhyw grŵp o elfennau, ac maen nhw'n amhrisiadwy o ran defnydd electronig, optegol, magnetig a chatalytig. Mae ganddynt rôl hollbwysig o ran diogelu'r amgylchedd, gwella effeithlonrwydd ynni, ac mewn llawer o dechnolegau lleihau carbon: <https://www2.bgs.ac.uk/mineralsuk/download/mineralProfiles/rareearth.elements.profile.pdf>.



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi dod ar draws digwyddiadau o berygl ac wedi derbyn sylwadau gan randdeiliaid/ymgyngorwyr ar chwarel gwenithfaen Penmaenmawr, mwynglawdd llechi Cambrian, mwyngloddiau plwm Parc/Crafnant a chwarel lechi Moelwyn. Nid oes gennym unrhyw gyfrifoldeb na hawliau cyfreithiol i gael mynediad at dir nad yw'n gloddfa fetel, oni bai fod y gwasanaethau brys yn cyfarwyddo i wneud hynny. Gallai hyblygrwydd helpu gyda'r safleoedd hyn nad ydynt yn safleoedd glo.

## Syniadau ar gyfer gwaith adfer tomennydd nad ydynt yn rhai glo

12.46 Soniodd Richards, Moorehead a Laing Ltd, a gefnogodd ymestyn y fframwaith i domennydd nad ydynt yn rhai glo, am resymau diogelwch, hefyd am y potensial ar gyfer prosiectau adfer ar gloddfeydd metel:

Yr oedd ein prosiectau adfer diweddaraf, a gwblhawyd tua 20 mlynedd yn ôl, yn cynnwys mwyngloddiau plwm segur lle'r oedd y dyddodion gwastraff ar yr wyneb yn ffynonellau difrifol o lygredd metel trwm. Roedd llystyfiant yn chwarae rhan allweddol yn y prosiectau hyn drwy sefydlogi arwynebau'n llwyddiannus yn erbyn glawiad. Ym mwynglawdd plwm Minera ger Wrecsam, defnyddiwyd gwastraff pyllau glo gennym fel deunydd capio dros y gwastraff plwm cyn hau hadau glaswellt ar yr arwyneb a baratowyd.

## Trafodaeth

12.47 Unwaith eto, nid yw hwn yn faes lle gallwn wneud argymhellion, gan fod y drafodaeth y tu allan i'n cylch gorchwyl. Ond yn ein barn ni, mae dadleuon da wedi cael eu rhoi o blaid ymestyn trefn reoleiddio newydd i fathau eraill o domennydd. Cytunwn hefyd y bydd disodli Deddf 1969 mewn perthynas â thomennydd glo yn unig yn creu gwahaniaethau lletchwith. Gellid ehangu'r drefn reoleiddio dros nifer o flynyddoedd fel na fydd oedi gyda diwygiadau diogelwch tomennydd glo.

12.48 Mae'n amlwg bod angen ymchwil ychwanegol cyn penderfynu a yw ehangu'n ymarferol. Byddai angen i hyn ystyried yr amrywiaeth gwahanol o beryglon sy'n cael eu hachosi gan domennydd nad ydynt yn rhai glo a gwahaniaethau posibl o ran perchnogaeth tomennydd mwyngloddiau metel.<sup>355</sup> Byddai angen mapio lleoliad y tomennydd nad ydynt yn rhai glo. Mae gan Gymdeithas Daearegol Prydain gronfa ddata o'r enw "Britpits" sy'n cynnwys gwybodaeth am weithfeydd mwynau brig ac o dan y ddaear, gan gynnwys digwyddiadau mwynau, mwyngloddiau a chwareli gweithredol ac anweithredol, gwastraff llechi a mwynau metel (yng Nghymru yn unig).<sup>356</sup> Fodd bynnag, nid oes set ddata benodol ar gyfer tomennydd gwastraff, heblaw am wastraff llechi.

12.49 Bydd angen rhagor o ymchwil hefyd i benderfynu sut y byddai angen addasu'r fframwaith rheoleiddio pe bai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob tomen anweithredol. Gallai fod yn ddianghenraid defnyddio'n trefn arfaethedig yn ei cyfanrwydd. Bydd angen gwneud gwaith i sefydlu, er enghraifft, a fyddai'n briodol mynnu bod pob tomen o'r fath yn cael ei harchwilio. Efallai mai dim ond rhai elfennau o'r drefn newydd,

---

<sup>355</sup> Gweler paragraffau 4.78 i 4.98 uchod am drafodaeth ar risgiau megis llygredd a fyddai'n fwy perthnasol i domennydd nad ydynt yn rhai glo.

<sup>356</sup> Britpits, set ddata BGS, <https://www.bgs.ac.uk/datasets/britpits/>.

megis y darpariaethau ar gyfer gorchmynion a chytundebau tomennydd, fyddai eu hangen. Bydd angen gwneud rhagor o waith hefyd i benderfynu sut y gellid cyflwyno trefn estynedig yn raddol, gan ei bod yn debygol y bydd hyn yn effeithio ar nifer fawr o domennydd.

## **Pennod 13: Argymhellion**

### **Argymhelliad 1.**

13.1 Rydym yn argymell na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.

**Paragraff 1.69**

### **Argymhelliad 2.**

13.2 Rydym yn argymell na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn gymwys i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddynt.

**Paragraff 1.70**

### **Argymhelliad 3.**

13.3 Rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.

**Paragraff 2.26**

### **Argymhelliad 4.**

13.4 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff newydd.

**Paragraff 2.65**

### **Argymhelliad 5.**

13.5 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff cyhoeddus canolog.

**Paragraff 2.74**

#### **Argymhelliad 6.**

13.6 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo, heb gyfyngu ar risgiau penodol.

**Paragraff 2.98**

#### **Argymhelliad 7.**

13.7 Rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo lunio a chynnal cofrestr tomennydd canolog.

**Paragraff 3.23**

#### **Argymhelliad 8.**

13.8 Rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

**Paragraff 3.41**

#### **Argymhelliad 9.**

13.9 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni.

**Paragraff 3.49**

#### **Argymhelliad 10.**

13.10 Rydym yn argymell y dylai perchennog neu feddiannydd y cyfan neu ran o dir a nodir mewn cofnod ar y gofrestr tomennydd gael hawl i apelio ar y sail nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir.

13.11 Rydym yn argymell na ddylid caniatáu i arfer yr hawl i apelio er mwyn gohirio gwaith brys.

**Paragraff 3.65**

### **Argymhelliad 11.**

13.11 Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy, i fethu â hysbysu'r awdurdod goruchwylio, o fewn terfyn amser penodedig, o fodolaeth tomen lo nad yw'r manylion wedi'u cynnwys ar y gofrestr tomennydd.

13.12 Rydym yn argymell y dylai'r drosedd allu cael ei chyflawni gan

- (1) berchennog rhydd-ddaliadol ar dir sy'n cynnwys y cyfan neu ran o domen lo o'r fath; a
- (2) pherchennog buddiant lesddaliad mewn tir o'r fath a roddwyd yn wreiddiol am gyfnod o fwy na saith mlynedd.

sydd â sail resymol dros gredu bod y tir yn cynnwys y cyfan neu ran o domen lo.

**Paragraff 3.101**

### **Argymhelliad 12.**

13.13 Rydym yn argymell y dylai cynnwys rhagnodedig y gofrestr tomennydd gael ei reoli gan p'un a yw er budd y cyhoedd i wybodaeth benodol ynghylch tomennydd glo fod ar gael i'r cyhoedd.

**Paragraff 3.136**

### **Argymhelliad 13.**

13.14 Rydym yn argymell y dylid cael mynediad cyhoeddus i'r gofrestr tomennydd, gan ddarparu crynodeb hygyrch o wybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch tomennydd.

**Paragraff 3.137**

### **Argymhelliad 14.**

13.15 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Chymdeithas y Gyfraith, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r bwriad o sefydlu chwiliad o'r gofrestr tomennydd fel rhan o chwiliad trawsgludo safonol mewn perthynas ag eiddo yng Nghymru.

**Paragraff 3.138**

### **Argymhelliad 15.**

13.16 Rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.

**Paragraff 4.32**

### **Argymhelliad 16.**

13.17 Rydym yn argymhell, adeg yr arolygiad, y dylai fod dyletswydd ar berchnogion a meddianwyr tomennydd i ddarparu i'r awdurdod goruchwyllo ddogfennau yn eu meddiant sy'n berthnasol i'r domen neu'r tir y mae wedi'i leoli arno.

**Paragraff 4.33**

### **Argymhelliad 17.**

13.18 Rydym yn argymhell

- (1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr;
- (2) dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gymeradwyo'r cynllun rheoli tomennydd; a
- (3) dylai'r awdurdod goruchwyllo ddyrannu dosbarthiad risg i bob tomen ar sail yr adroddiad arolygu a'r asesiad risg.

**Paragraff 4.63**

### **Argymhelliad 18.**

13.19 Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol.

**Paragraff 4.64**

### **Argymhelliad 19.**

13.20 Rydym yn argymell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau methiant o ran sefydlogrwydd.

**Paragraff 4.77**

### **Argymhelliad 20.**

13.21 Rydym yn argymell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlosgiad a llifogydd.

**Paragraff 4.98**

### **Argymhelliad 21.**

13.22 Rydym yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth newydd ddarparu ar gyfer llunio cytundebau rhwng awdurdodau a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud.

**Paragraff 5.40**

### **Argymhelliad 22.**

13.23 Rydym yn argymell y dylai awdurdod fod yn gyfrifol am ddyletswydd i drefnu archwiliad er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chytundeb cynnal a chadw, gyda'r pŵer i ddirprwyo archwiliadau i drydydd partion sydd â chymwysterau addas.

**Paragraff 5.50**

### **Argymhelliad 23.**

13.24 Rydym yn argymell y dylai awdurdod allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r

- (1) perchennog neu'r deiliad tir wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb tomen a'u bod wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;
- (2) cynigwyd cytundeb i'r perchennog neu'r deiliad ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod;
- (3) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu
- (4) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.

13.25 Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.

13.26 Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r deiliad gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i awdurdod wneud hynny.

13.27 Dylai fod gan y perchennog neu'r deiliad hawl i apelio yn erbyn rhoi gorchymyn, ond ni ddylai arfer yr hawl i apelio atal gwaith sy'n angenrheidiol ar frys.

13.28 Ac eithrio yn achos gorchymyn a roddir pan fo angen gwaith brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.

**Paragraff 5.87**

### **Argymhelliad 24.**

13.29 Rydym yn argymell mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod yn gyfrifol am y pŵer i wneud cytundebau tomennydd a rhoi gorchymynion tomennydd ar gyfer tomennydd risg is, a dylai'r ddyletswydd i oruchwylio'r cytundebau a'r gorchymynion, gan gynnwys cynnal archwiliadau, fod yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol.

**Paragraff 5.123**



### **Argymhelliad 25.**

13.30 Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomennydd sydd yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol gan yr awdurdod goruchwyllo.

**Paragraff 6.70**

### **Argymhelliad 26.**

13.31 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r meini prawf ar gyfer dynodi drwy ymgynghori ag arbenigwyr.

**Paragraff 6.71**

### **Argymhelliad 27.**

13.32 Rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen.

13.33 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer i contractio'r gwaith hwn allan neu ddarparu mewn cytundeb tomen i berchennog neu feddiannydd y domen wneud y gwaith pan fo'n briodol gwneud hynny.

**Paragraff 6.117**

### **Argymhelliad 28.**

13.34 Rydym yn argymell y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gwaith ar domennydd dynodedig, p'un ai gan yr awdurdod goruchwyllo neu berchennog neu feddiannydd y domen, drwy gytundeb neu orchymyn tomennydd.

**Paragraff 6.119**

### Argymhelliad 29.

13.35 Rydym yn argymell, i'r graddau y mae atebolrwydd o dan ein cynllun a argymhellir i'w ysgwyddo gan berchennog, mewn termau economaidd, tir sy'n cynnwys tomen, y dylai'r perchennog hwnnw gael ei ystyried fel perchennog yr ystâd rydd-ddaliadol neu perchennog ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor, ac eithrio lle mae'r ystâd rydd-ddaliad neu lesddaliad ar ddychweliad ar ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor.

**Paragraff 7.70**

### Argymhelliad 30.

13.36 Rydym yn argymell y dylai personau a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â phŵer mynediad ar dir at ddibenion

- (1) archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo hysbys neu a amheuir;
- (2) cyflawni, goruchwyllo neu arolygu gwaith cynnal a chadw neu waith adfer neu osod a monitro offer ar domen lo; a
- (3) chael mynediad at domen lo at y dibenion uchod.

13.37 Rydym yn argymell y dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar ôl 48 awr o roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog, os yw'n hysbys, ac i unrhyw berson arall y gwyddys ei fod yn meddiannu'r tir, neu heb rybudd mewn argyfwng;

13.38 Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant sy'n awdurdodi mynediad drwy rym pan fo person wedi atal neu'n debygol o atal y pŵer mynediad rhag cael ei arfer, a'i bod yn rhesymol defnyddio grym wrth arfer y pŵer hwnnw; gall y warant ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cael mynediad yn unol â hynny gael eu hebrwng gan gwnstabl.

13.39 Rydym yn argymell y dylai personau sydd wedi'u hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn fod â'r pŵer i fynd â'r offer angenrheidiol gyda nhw, ar yr amod bod yr hysbysiad yn cynnwys disgrifiad o unrhyw beiriannau trwm sydd i'w cludo ar y tir.

13.40 Roeddem yn argymell y dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.

**Paragraff 8.31**

### **Argymhelliad 31.**

13.41 Rydym yn argymell y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchymyn tomen fod yn drosedd diannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na'r gosb uchaf am drosedd diannod yn unig, neu ddirwy neu'r ddau.

13.42 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio sancsiynau sifil mewn perthynas â thorri gorchymyn cynnal a chadw tomen.

**Paragraff 8.49**

### **Argymhelliad 32.**

13.43 Rydym yn argymell y dylai'r ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn neu gytundeb tomen gynnwys darpariaeth

- (1) ar gyfer gwneud taliadau gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;
- (2) ar gyfer gwneud taliadau i'r person a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;
- (3) ar gyfer gwerthu unrhyw ddeunyddiau a adferwyd o domen lo;
- (4) ar gyfer talu'r enillion o werthu deunyddiau o'r fath i berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn; ac

13.44 ar gyfer talu iawndal gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn i berson arall a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn.

**Paragraff 9.82**

### **Argymhelliad 33.**

13.45 Rydym yn argymell y dylai egwyddorion sy'n rheoli dyrannu cyfrifoldeb ariannol dros waith diogelwch tomennydd rhwng personau neu endidau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

**Paragraff 9.83**

#### **Argymhelliad 34.**

13.46 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â sefydliadau academaidd a chyrff proffesiynol a chyrff yn y diwydiant ym maes gwaith diogelwch tomennydd gyda golwg ar sicrhau bod cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch yn cael ei llunio.

**Paragraff 10.37**

#### **Argymhelliad 35.**

13.47 Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo ynghylch y camau sydd i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng cysylltiedig â thomennydd glo.

13.48 Rydym yn argymell bod y pŵer yn ddarostyngedig i ofyniad, pan fo'n bosibl, i ymgynghori â'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau perthnasol eraill ynghylch telerau cyfarwyddiadau o'r fath.

13.49 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw darparu, yn y ddeddfwriaeth sy'n creu'r pŵer neu mewn deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio, eithriad rhag unrhyw ofyniad i geisio caniatâd ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol. Dylai unrhyw eithriad o'r fath fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i geisio caniatâd gofynnol yn ôl-weithredol.

**Paragraff 11.27**

#### **Argymhelliad 36.**

13.50 Rydym yn argymell diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ddiffinio argyfwng yng nghyd-destun deunyddiau tomennydd.

**Paragraff 11.46**

## Atodiad 1: Rhestr o ddiwyddiadau ymgynghori

1. Digwyddiad Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) ar 21 Mehefin 2021.
2. Cyflwyniad i Grŵp Technegol Llywodraeth Cymru ar 23 Mehefin 2021.
3. Pwyllgor Cabinet Rhondda Cynon Taf Cyngor Bwrdeisdref Sirol 5 Gorffennaf 2021.
4. Gweithdy Grŵp Technegol 1, 7 Gorffennaf 2021.
5. Cyfarfod gyda Neal Rushton a Natalie Sheldon, Network Rail ar 11 Gorffennaf 2021.
6. Cyflwyniad i Bwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith ar 12 Gorffennaf 2021.
7. Digwyddiad Cyhoeddus ar 20 Gorffennaf 2021.
8. Gweithdy Grŵp Technegol 2, 21 Gorffennaf 2021.
9. Digwyddiad Cymdeithas Cyfreithwyr Amglycheddol y DU (UKELA) Cymru ar 26 Gorffennaf 2021.
10. Digwyddiad Legal Wales ar 28 Gorffennaf 2021.
11. Cyfarfod â Liam Olds a Clare Dinham, 2 Awst 2021.
12. Cyfarfod (galwad) â Richard Arnold, Ymgynghorydd – Pennaeth Gweithrediadau, Gorllewin Rhyd-y-car, (datblygiad chwaraeon a hamdden arfaethedig), 2 Awst 2021.
13. Gweithdy Grŵp Technegol 3, 4 Awst 2021.
14. Cyfarfod gyda Chymdeithas y Gyfraith Amaethyddol ar 5 Awst 2021.
15. Cyfarfod â Roger Waters ac Andrew Stone, CBS Rhondda Cynon Taf, 6 Awst 2021.

## Atodiad 2: Rhestr o'r Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

| ENW                                         | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | SECTOR                             |
|---------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| ALGAO:Cymru                                 | Corff Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol (ALGAO) ar gyfer Cymru. Mae aelodau ALGAO:Cymru yn cynnwys archaeolegwyr sy'n gweithio mewn swyddogaeth curadurol o fewn y pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru yn ogystal ag archaeolegwyr sy'n gweithio i awdurdodau lleol a thri pharc cenedlaethol Cymru. | Treftadaeth/hanes                  |
| Arnold, Richard                             | Pennaeth Gweithrediadau Ymgynghorol, Gorllewin Rhyd-y-car, Marvel (Guernsey) Ltd.                                                                                                                                                                                                                                                | Buddiant tirfeddiannwr             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Llywodraeth Leol                   |
| Brabham, Dr Peter                           | Uwch Ddarlithydd mewn Daeareg Gymhwysol a Geoffiseg, Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd, Prifysgol Caerdydd.                                                                                                                                                                                                                | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Llywodraeth Leol                   |

| ENW                                | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                                  | SECTOR                             |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| Arolwg Daearegol Prydain           | Arolwg daearegol a sefydliad geowyddoniaeth byd-eang, sy'n canolbwyntio ar wyddoniaeth er lles y cyhoedd i'r llywodraeth ac ymchwil er mwyn deall prosesau amgylcheddol a'r ddaear.                                         | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Buglife                            | Elusen sy'n ymroddedig i warchod yr holl greaduriaid di-asgwrn-cefn.                                                                                                                                                        | Yr Amgylchedd                      |
| Bush CF, Keith                     | Cymrawd Cyfraith Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. Cyfarwyddwr Cynhadledd flynyddol Cymru'r Gyfraith. Prif Gyngorydd Cyfreithiol y Senedd rhwng 2007 a 2012. Cyn Lywydd Tribiwnlys y Gymraeg. | Cyfreithiol                        |
| Cadw                               | Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.                                                                                                                                                                         | Treftadaeth/hanes                  |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |                                                                                                                                                                                                                             | Llywodraeth Leol                   |
| Carhart, Neal                      |                                                                                                                                                                                                                             | Unigolyn preifat                   |

| ENW                                              | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                                                                                                 | SECTOR                             |
|--------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| CLA Cymru – Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad | Sefydliad aelodaeth ar gyfer perchnogion tir, eiddo a busnesau. Mae CLA Cymru yn darparu cyngor a chynrychiolaeth wledig yn ogystal ag amrywiaeth o fanteision cymdeithasol a phroffesiynol i aelodau yng Nghymru a hefyd aelodau y tu allan i Gymru sydd â buddiannau busnes yng Nghymru. | Buddiant tirfeddiannwr             |
| Rhwydwaith Gweithredu Glo                        | Corff anllywodraethol sy'n gweithio i roi terfyn ar ddefnyddio glo ym maes cynhyrchu pŵer a chynhyrchu dur, echdynnu glo a mewnfurion glo yn y DU, ac er mwyn cyfiawnder i gymunedau sy'n cael eu heffeithio gan ddefnyddio a chloddio glo heddiw ac yn hanesyddol yn y DU.                | Yr Amgylchedd                      |
| Menter Bioamrywiaeth Gwastraff Glofeydd          | Prosiect sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth bwysig safleoedd gwastraff glofeydd.                                                                                                                                                                                           | Yr Amgylchedd                      |
| Connolly, Paul                                   | Prif Ddaeargwyr Peirianeg Mott MacDonald.                                                                                                                                                                                                                                                  | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Curtis, Dr Ben                                   | Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus mewn Hanes Cymdeithasol a Llafur ym Mhrifysgol Wolverhampton.                                                                                                                                                                                                  | Treftadaeth/hanes                  |



| ENW                                       | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                    | SECTOR                             |
|-------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| David AS, Hefin                           | Aelod Llafur Cymru o'r Senedd dros Gaerffili.                                                                                                                                                 | Cynrychiolydd etholedig            |
| Dinham, Clare                             |                                                                                                                                                                                               | Unigolyn preifat                   |
| Dŵr Cymru Welsh Water                     | Cwmni dŵr a charthffosiaeth di-elw sy'n cael ei reoleiddio.                                                                                                                                   | Seilwaith                          |
| Edwards, Y Cyng. Julie                    | Cynghorydd Llafur Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.                                                                                                                                 | Cynrychiolydd etholedig            |
| Elmore AS, Chris a Irranca-Davies AS, Huw | AS ac AS Llafur Cymru dros Ogwr.                                                                                                                                                              | Cynrychiolydd etholedig            |
| Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol  | Pwyllgor a sefydlwyd gan adran 81 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ei bwrpas yw cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.       | Yr Amgylchedd                      |
| Funck, Paul                               | Cefndir mewn mwyngloddio a rheoli tomennydd. Ugain mlynedd o brofiad o reoli tomennydd, gan gynnwys yn y diwydiant pypiau, a dylunio, adeiladu a chomisiynu gweithfeydd prosesau mwyngloddio. | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Fychan AS, Heledd                         | Aelod Plaid Cymru o'r Senedd dros Ganol De Cymru.                                                                                                                                             | Cynrychiolydd etholedig            |
| Hathaway, Graham                          |                                                                                                                                                                                               | Unigolyn preifat                   |
| Harford, Steve                            |                                                                                                                                                                                               | Unigolyn preifat                   |

| ENW                                        | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | SECTOR                             |
|--------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Ffederasiwn Adeiladwyr Tai                 | Corff cynrychioliadol o'r diwydiant adeiladu cartrefi yng Nghymru a Lloegr.                                                                                                                                                                                                                                                                                | Buddiant tirlfeddiannwr            |
| Howells AS, Vikki                          | Aelod Llafur Cymru o'r Senedd dros Gwm Cynon.                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Cynrychiolydd etholedig            |
| Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru (ICE)     | Corff proffesiynol sy'n cefnogi ac yn cynrychioli dros 3,500 o beirianwyr sifil sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru. Ei nod yw dylanwadu ar bolisi seilwaith cyhoeddus, hyrwyddo'r proffesiwn peirianeg sifil a darparu cefnogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd rhwydweithio i aelodau ICE. Yn rhan o sefydliad byd-eang sy'n cynnwys dros 95,000 o aelodau. | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Iwanicki, Jane                             | Arolygydd Mwynau Siartredig a Chyfarwyddwr Wardell Armstrong LLP, Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Chymrawd y Sefydliad Chwarella.                                                                                                                                                                                                      | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Jacobs UK Ltd (Halcrow Group Ltd gynt)     | Cwmni sy'n darparu gwasanaethau technegol, proffesiynol ac adeiladu, gyda 55 mlynedd o brofiad helaeth o asesu a rheoli tomennydd gwastraff pyllau glo yn Ne Cymru ynghyd â'u gwaith ymchwilio ac adfer/adennill.                                                                                                                                          | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |

| ENW                                     | DISGRIFIAD                                                                                                                                                             | SECTOR                             |
|-----------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| James AS, Joel                          | Aelod y Blaid Geidwadol o'r Senedd dros Ganol De Cymru.                                                                                                                | Cynrychiolydd etholedig            |
| Jones, Steve                            | Uned Cynllunio Argyfwng, Cyngor Sir Penfro.                                                                                                                            | Llywodraeth Leol                   |
| Jones, Lee                              |                                                                                                                                                                        | Unigolyn preifat                   |
| Jordan, Owen                            |                                                                                                                                                                        | Unigolyn preifat                   |
| Jordan, Sue                             |                                                                                                                                                                        | Unigolyn preifat                   |
| Lee, Yr Athro Robert                    | Athro'r Gyfraith, Prifysgol Birmingham.                                                                                                                                | Cyfreithiol                        |
| Leeming, Bob                            | Prif Arolygydd Mwyngloddiau EM, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.                                                                                               | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |                                                                                                                                                                        | Llywodraeth Leol                   |
| Cymdeithas Cynnyrch Mwynau Cymru        | Rhan o'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau, y gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiannau agregau, asffalt, sment, concrit, cerrig dimensiwn, calch, morter a thywod silica. | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Cyngor Sir Fynwy                        |                                                                                                                                                                        | Llywodraeth Leol                   |


| ENW                                               | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                                    | SECTOR                             |
|---------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| Moreton, Kim                                      | Tirfesurydd siartredig mewn tir ac adnoddau a Chadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Cymdeithas Ysgol y Mwyngloddiau Camborne. Mae Ysgol y Mwyngloddiau Camborne yn Prifysgol Caerwysg yn adran geowyddoniaeth a mwyngloddio ar y cyd. | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)                      | Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru Eu pwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.                                                                                 | Yr Amgylchedd                      |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |                                                                                                                                                                                                                               | Llywodraeth Leol                   |
| Network Rail                                      | Yn berchen ar rwydwaith rheilffyrdd Prydain Fawr ac yn ei weithredu. Mae ganddo rwymedigaeth statudol i ddiogelu'r seilwaith rheilffyrdd ac i sicrhau bod llwybrau trên diogel ar gael.                                       | Seilwaith                          |
| Ove Arup and Partners Ltd                         | Cwmni gwasanaethau proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau dylunio, peirianeg, pensaernïaeth, cynllunio a chynghori.                                                                                                           | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |

| ENW                                        | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                | SECTOR                             |
|--------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| Petley, Yr Athro David                     | Athro Daearyddiaeth ac Is-lywydd Arloesedd ym Mhrifysgol Sheffield. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar dirlithriadau. Aelod o Fwrdd Adolygu Technegol Diogelwch Llethrau Llywodraeth Hong Kong.            | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Perry, Dr John                             | Peiriannydd tir a daearegwr annibynnol, Peiriannydd Siartredig, cymrawd o'r ICE, Daearegydd Siartredig, cymrawd o Gymdeithas Ddaearegol Llundain, cymrawd o'r Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio. | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Grŵp Plaid Cymru, Castell-nedd Port Talbot | Grŵp o Gynghorwyr Plaid Cymru yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.                                                                                                                    | Cynrychiolydd etholedig            |
| Grŵp Plaid Cymru, Rhondda Cynon Taf        | Grŵp o Gynghorwyr Plaid Cymru yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.                                                                                                                           | Cynrychiolydd etholedig            |
| Swyddfa Ystâd Parc Pont-y-pŵl              | Ystâd yn ardal Pont-y-pŵl sy'n berchen ar neu sydd wedi bod yn berchen ar sawl tomen lo o amgylch Pont-y-pŵl, Abertyleri a Bargoed.                                                                       | Buddiant tirlfeddiannwr            |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |                                                                                                                                                                                                           | Llywodraeth Leol                   |

| ENW                                      | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                      | SECTOR                             |
|------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
| Richards, Moorehead a Laing Ltd          | Ymgynghorwyr amgylcheddol, tirwedd a chynllunio.                                                                                                                                                                | Yr Amgylchedd                      |
| Seddon, Chris                            | Uwch beiriannydd geodechnegol yn Amey Consulting. Aelod o'r ICE, Peiriannydd Siartredig, Gweithiwr Proffesiynol Cofrestredig yn y DU ym maes Peirianeg Tir, Is-gadeirydd Pwyllgor Grŵp Peirianeg Tir ICE Cymru. | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Siddle, Howard                           | Daearegwr peirianeg siartredig wedi ymddeol, gynt o CH2M HILL a Halcrow Group.                                                                                                                                  | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Smith, Stephen                           | Peiriannydd Siartredig ac aelod o'r ICE. Cyn Bennaeth Adfer Tir yn Awdurdod Datblygu Cymru ac yn Llywodraeth Cymru.                                                                                             | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| St John, Dr Tom                          | Uwch beiriannydd geodechnegol gyda Mott MacDonald. Peiriannydd Siartredig ac aelod o'r ICE.                                                                                                                     | Peirianeg/gwyddoniaeth/mwyngloddio |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymru a Lloegr | Corff proffesiynol annibynnol ar gyfer cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.                                                                                                                                        | Cyfreithiol                        |
| Hunt, Y Cynghorydd Nigel Thomas          | Cynghorydd Plaid Cymru dros Aberafan a Rhosydd Baglan.                                                                                                                                                          | Cynrychiolydd etholedig            |

| ENW                                       | DISGRIFIAD                                                                                                                                                                                                                                   | SECTOR                  |
|-------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|
| Thomas, Philip                            |                                                                                                                                                                                                                                              | Unigolyn preifat        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen          |                                                                                                                                                                                                                                              | Llywodraeth Leol        |
| Trafnidiaeth Cymru                        | Sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 i oruchwylio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.                                                                                                                                                      | Seilwaith               |
| Watkin QC, Yr Athro Thomas                | Cyn Athro Cyfraith, Prifysgol Caerdydd (2001-2004) a Prifysgol Bangor (2004-2007). Chwnsler Deddfwriaethol Cyntaf Cymru (2007-2010).                                                                                                         | Cyfreithiol             |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | Cynrychioli buddiannau llywodraeth leol yng Nghymru.                                                                                                                                                                                         | Llywodraeth Leol        |
| Williams, Huw                             | Prif Gyngorydd Cyfreithiol y Senedd. Arferai fod yn gyfreithiwr gweinyddol a chyhoeddus mewn practis preifat a llywodraeth leol, gan arbenigo mewn cynllunio, yr amgylchedd, prynu gorfodol, datganoli, llywodraeth leol a Chymorth Gwladol. | Cyfreithiol             |
| Williams AS, Sioned                       | Aelod Plaid Cymru o'r Senedd dros Orllewin De Cymru.                                                                                                                                                                                         | Cynrychiolydd etholedig |
| Williams, Syr Wyn                         | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru                                                                                                                                                                                                                 | Cyfreithiol             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam          |                                                                                                                                                                                                                                              | Llywodraeth Leol        |

## SECTORAU





# Atodiad 3: Siart Ilif

